



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DYDDIAD CYHOEDDI:
20/02/2019

Ymestyn yr Etholfraint: Pleidleisiau i Garcharorion

Ymestyn yr Etholfraint:
Pleidleisiau i Garcharorion

Ciara Merrick

University of Bristol, ar leoliad gwaith gyda Llywodraeth Cymru a noddir gan
ESRC

Safbwyntiau'r awdur ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad	4
2. Dull	9
3. Ein Sefyllfa Bresennol	17
4. Dysgu gan Wledydd Eraill	43
5. Y System Gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr.....	71
6. Adran Pedwar: Treiddio Ymhellach i'r Heriau.....	116
7. Casgliadau	143
Atodiad Un	152
Adran cyfeirnod.....	158

Rhestr o dablau

Tabl 1: Hawliau Pleidleisio Carcharorion yng Ngwledydd Cyngor Ewrop.	46
Tabl 2: Hyd y ddedfryd sy'n gwahardd carcharorion	60
rhag pleidleisio fesul awdurdodaeth yn Awstralia.....	60
Tabl 3: Ystadegau cofrestru ar gyfer carcharorion yn Victoria ar 3 Mehefin 2010.	70
Tabl 4: Sefydliadau troseddwyd ifanc sy'n cadw bechgyn ifanc yng Nghymru a Lloegr.	111
Tabl 5: Sefydliadau troseddwyd ifanc sy'n cadw merched ifanc yn Lloegr.	112

Geirfa

Acronym	Diffiniad
AEC	Comisiwn Etholiadol Awstralia
“y Confensiwn”	Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
CEM	Carchar Ei Mawrhydi
BILI	Bwrdd Iechyd Lleol
VEC	Comisiwn Etholiadol Victoria
DRhAw	Dyddiad rhyddhau awtomatig
DTC	Dyddiad terfyn carchariad
DRhAm	Dyddiad rhyddhau amodol
DTT	Dyddiad terfyn trwydded
DNYB	Dyddiad nad yw’n barôl
DCP	Dyddiad cymhwyso ar gyfer parôl
DTDd	Dyddiad terfyn y ddedfryd
DATPA	Dedfryd arbennig o garchar ar gyfer troseddwyd sy’n peri pryder arbennig
DTGA	Dyddiad terfyn goruchwyliaeth atodol

1. Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1 Yn dilyn refferendwm ym 1997, cafodd Cymru Gynulliad cynrychiadol a gweithrediaeth (“Llywodraeth Cymru”), y ddau â chyfrifoldeb datganoledig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Ers 1998, mae Llywodraeth Cymru wedi caffael mwy o bwerau yn raddol, ac estynnwyd swyddogaethau datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn sylweddol gan Ddeddf Cymru 2017. Cyflwynodd Deddf Cymru 2017 gyfres newydd o bwerau i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y grym i wneud darpariaethau ynghylch etholiadau. Felly, am y tro cyntaf Cymru yn hytrach na San Steffan sy'n gyfrifol am etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau lleol. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys gweinyddu etholiadau i'r Cynulliad a llywodraeth leol, yn ogystal â chymhwysedd deddfwriaethol am gofrestru etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio a'r etholfraint sy'n berthnasol i'r etholiadau hyn. Mae Llywodraeth y DU yn dal i feddu ar gyfrifoldebau am etholiadau i Senedd San Steffan.
- 1.2 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n drafftio Bil Llywodraeth Leol i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod hydref 2018. Yn bennaf, mae'r Bil hwn yn cyflwyno amrywiaeth o gynigion sydd â'r nod o wella gweithrediad llywodraeth leol yng Nghymru, trwy ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gydweithredol a thrwy welliannau i lywodraethu ac atebolrwydd cyhoeddus. Yn ogystal â newidiadau i lywodraeth leol, disgwylir i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diwygio etholiadol gael ei chynnwys yn y bil hwn hefyd.
- 1.3 Ceir amrywiaeth o gynigion etholiadol a gyflwynwyd i gael eu cynnwys o bosibl yn y Bil Llywodraeth Leol. Yn bennaf, mae'r cynnig diwygio etholiadol yn rhoi sylw i'r ffordd y daw pobl yn gymwys i bleidleisio a sut y mae etholwyr yn bwrw eu pleidlais, yn ogystal ag adolygu sut y cynhelir etholiadau a gweithrediad cyffredinol democratiaeth yng Nghymru. Agwedd allweddol ar y cynnig yw datblygu'r etholfraint llywodraeth leol, lle bydd hawliau pleidleisio yn cael eu hymestyn i bobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed, i'r holl wladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru ac i garcharorion sy'n bodloni'r telerau cymhwysedd a bennwyd – etholfreinio'r categori olaf o unigolion y mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio arno.

Y Cynnig

- 1.4 Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur ymgynghori ar Ddiwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru, gan holi am wahanol

elfennau'r cynnig diwygio etholiadol sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd. Rhoddwyd sylw i'r cynnig i etholfreinio carcharorion Cymru yn y papur hwn. Fodd bynnag, roedd y papur ymgynghori yn cydnabod cymhlethdod cynhenid etholfreinio carcharorion ac yn nodi felly nad oedd unrhyw gynigion cadarn yn cael eu datblygu, er bod ystyriaeth gyfreithiol yn parhau i gael ei harchwilio. Yna, ym mis Mawrth 2018, yn rhan o'r Bil Diwygio'r Cynulliad, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies, ei fwriad pendant i etholfreinio carcharorion Cymru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac, yn ogystal â hynny, rhoddodd fanylion bras telerau ei gynnig. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig galluogi carcharorion o Gymru i bleidleisio cyn belled ag y bo eu dyddiad rhyddhau disgwylidig yn ystod tymor swydd y cyngor sy'n cael ei ethol. Ni fydd carcharorion sy'n cyflawni dedfryd benagored, nad oes dyddiad rhyddhau pendant yn gysylltiedig â hi, yn gymwys i bleidleisio, hyd yn oed os bydd eu cyfnod toll yn ystod tymhorau swydd y cyngor sy'n cael ei ethol. Mae'r cynnig yn cyflwyno darpariaethau lle byddai carcharorion sy'n bodloni'r meini prawf a gynigir yn gymwys i gofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad cysylltiedig, sef cyfeiriad cartref y carcharor, ei gyfeiriad hysbys diwethaf neu gyfeiriad arall yng Nghymru y mae ganddo gysylltiad ag ef, fel rheol. Mae'n hanfodol y gall carcharorion cymwys gofrestru ar sail cyfeiriad cysylltiedig i sicrhau bod dull ar waith lle gall carcharorion o Gymru, sydd wedi eu carcharu y tu allan i Gymru, gadw eu hawliau pleidleisio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio nad oes gan unrhyw garchardai yng Nghymru le ar gyfer carcharorion sy'n fenywod ac, felly, os yw carcharorion sy'n fenywod o Gymru am arfer eu hawl i bleidleisio bydd angen iddynt fod yn gymwys i gofrestru mewn cyfeiriad cysylltiedig. Fodd bynnag, nid cyfeiriad y carchar fyddai'r cyfeiriad cysylltiedig ac, felly, ni fydd carcharorion yng Nghymru yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn yr awdurdod lleol y mae'r carcharor wedi ei garcharu ynddo. Mae'r cynnig yn cyflwyno gweledigaeth lle bydd carcharorion cymwys, sydd wedi cofrestru'n llwyddiannus, yn pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy penodedig, gan nad oes unrhyw ddarpariaethau ar waith i garcharorion bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, trwy ryddhad dros dro at yr unig ddiben o bleidleisio neu drwy orsaf bleidleisio symudol yn y carchar.

Briff y Prosiect

- 1.5 Wedi ei gyfarwyddo gan y cynnig, nod yr adroddiad hwn yw cynnig gwell dealltwriaeth o sut y gellid galluogi carcharorion o Gymru i bleidleisio yn ymarferol, er mwyn datblygu polisi o amgylch y cynnig. Bydd hyn yn gofyn am archwiliad eang

o hanes pleidleisiau i garcharorion a pholisi ac arfer dedfrydu ar gyfer troseddwyd sy'n oedolion a throseddwyd ifanc. Hefyd, bydd angen edrych ar wledydd eraill sydd wedi etholfreinio carcharorion ac archwilio'r darpariaethau ymarferol y maent wedi eu rhoi ar waith. Gyda hyn mewn golwg, prif amcanion yr adroddiad hwn yw

- Mapio'r dadleuon o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion, gan ddefnyddio dadleuon rhyngwladol a phenderfyniadau llys.
- Archwilio i ba raddau y mae pleidleisio gan garcharorion yn digwydd yn rhyngwladol, yr anawsterau a wynebier yn ei gyflwyno ac i ba raddau y manteisir ar yr hawl.
- Cynnig darlleniad trylwyr o bolisi ac arfer dedfrydu i garchar yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer troseddwyd sy'n oedolion a throseddwyd ifanc.
- Ystyried prif rwystrau technegol cyflwyno pleidleisiau i garcharorion, sy'n cynnwys yn bennaf: rhoi sylw i'r cwestiwn o sut y penderfynir ar ddyddiad rhyddhau disgwylidig carcharor; pa un a ellir cymhwyso gyda chyfiawnhad yr un egwyddorion ynghylch etholfreinio pleidleisiau i garcharorion i droseddwyd ifanc; a'r cwestiwn a godir gan garcharorion fel "preswylwyr fel arfer" o ran darparu gwasanaeth.

- 1.6 Nid yw bodloni brieff y prosiect yn gofyn am wneud unrhyw waith ymchwil gwreiddiol, nod yr adroddiad yn hytrach yw darparu'r wybodaeth a'r manylion cefndir angenrheidiol sy'n ofynnol i ddatblygu polisi. Gan fod etholiadau yn faes polisi newydd i Lywodraeth Cymru, mae angen i'r manylion a ddarperir fod yn eang ac yn drylwyr. Mae hyn yr un fath neu efallai hyd yn oed yn fwy felly o ran y wybodaeth am y system gyfiawnder, y mae San Steffan yn meddu ar y pwerau ar ei chyfer o hyd. Felly mae'r adroddiad yn llawer mwy archwiliadol a chynhwysfawr ei natur na systematig, ac mae'r testun yn ddisgrifiadol ac yn addysgiadol i raddau helaeth. Gan fod y cynnig yn dal i fod ar y cam ymchwilio, nid yw'r adroddiad yn ceisio nac yn dymuno gwneud argymhellion neu gynigion polisi. Fodd bynnag, bydd yr adroddiad yn llunio cyfres o gasgliadau i'w hystyried wrth ddatblygu'r polisi cysylltiedig.

Mapio'r Adroddiad

- 1.7 Mae'r adroddiad hwn yn llywio llond llaw o'r gwahanol elfennau y bydd angen eu hystyried, o safbwynt gwleidyddol ac ymarferol, wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn sicrhau hawliau pleidleisio i garcharorion. Yn gyntaf, darperir dull cryno yn

dangos sut y cafwyd gafael ar y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad hwn, ac o ble. Rhennir yr adroddiad yn bedair adran wedyn. Mae'r adran gyntaf yn trafod "ein sefyllfa heddiw" ac yn ceisio, gan fanteisio ar y cefndir deddfwriaethol, dangos hanes modern a natur ddadleuol pleidleisiau i garcharorion yn y DU a Chymru a sut y mae'r llond llaw o garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd yn arfer yr hawl hwnnw. Mae ail ran yr adran hon yn cymryd cam yn ôl ac yn mapio'r dadleuon o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion. Er ei bod yn ymddangos bod y dadleuon o blaid pleidleisiau i garcharorion yn ymddangos yn fwy datblygedig - yn bennaf gan mai dadetholfreinio fu'r safbwynt diodyn ac, felly, ni fu'n rhaid ei gyfiawnhau yn y ffordd nerthol y bu'n rhaid gwneud hynny ar gyfer etholfreinio carcharorion - mae'r safbwyntiau o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion yn tueddu i fod wedi eu seilio yn eu hanfod ar yr hyn y mae rhywun yn ei gredu yw carchar: sefydliad ar gyfer cosbi troseddwr nad ydynt yn ddinasyddion llawn mwyach neu, fel arall, man adsefydlu lle dylid hybu ac annog cynhwysiant, cyfrifoldeb a chyfranogiad.

- 1.8 Mae'r ail adran yn ystyried pleidleisiau i garcharorion yn rhyngwladol. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n eglur ei hymrwymiad i etholfreinio carcharorion, mae'r adran hon yn canolbwyntio llai ar i ba raddau y mae gan garcharorion hawliau pleidleisio yn rhyngwladol ac yn fwy ar ba garcharorion sydd wedi eu hetholfreinio yn ymarferol. Mae hyn yn gofyn am archwiliad o ddeddfwriaeth a'r prosesau ymarferol a roddwyd ar waith i ddarparu dulliau i garcharorion gofrestru ac arfer eu hawliau pleidleisio. Cyn archwilio dau achos yn fanwl, archwilir y dull seiliedig ar drosedd o ymdrin â phleidleisiau i garcharorion. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig etholfreinio carcharorion yn seiliedig ar hyd dedfryd, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r dull amgen - ei fanteision a'i ddiffygion. Yna, mae'r adran yn archwilio, yn ei drefn, yr achos o bleidleisiau i garcharorion yng Ngweriniaeth Iwerddon ac Awstralia, gan ganolbwyntio'n benodol ar dalaith Victoria. Dewiswyd Iwerddon fel astudiaeth achos oherwydd iddi etholfreinio pob carcharor yn ôl yn 2006 ac felly gellir disgwyl heddiw, mwy na degawd yn ddiweddarach, bod ganddi system gymharol gadarn ar waith. Dewiswyd Awstralia fel yr ail astudiaeth achos oherwydd, mewn cyferbyniad ag Iwerddon, mae carcharorion yn Awstralia wedi eu hetholfreinio ar sail hyd dedfryd ac felly mae'n debyg i gynnig Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae statws pleidleisiau i garcharorion yn amrywio o dalaith i dalaith yn Awstralia, gyda'r canlyniad efallai nad oes gan garcharor ganiatâd i bleidleisio mewn etholiad talaith neu leol er ei fod yn gymwys i bleidleisio mewn etholiad

ffederal, a'r gwrthwyneb. Os caiff carcharorion eu hetholfreinio yng Nghymru, bydd sefyllfa yn cael ei chreu lle bydd carcharorion yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ond nid yn etholiad cyffredinol y DU.

- 1.9 Mae'r adran nesaf yn mapio'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Fel y nodwyd eisoes, ni roddwyd pwerau datganoledig dros drosedd a chyfiawnder i'r Cynulliad Cenedlaethol hyd yma. Felly mae hwn yn faes datblygu polisi newydd na ymgysylltir ag ef ar wahân i San Steffan fel rheol. Fodd bynnag, mae'r cynnig i etholfreinio carcharorion yn ei gwneud yn angenrheidiol i fod â dealltwriaeth o'r maes hwn a bydd angen cydweithrediad, o leiaf, ar draws system gyfiawnder Cymru a Lloegr i sicrhau'n ymarferol dulliau a phrosesau y gall carcharorion o Gymru yng Nghymru a Lloegr eu defnyddio i bleidleisio. Yn gyntaf, mae'r adran yn ystyried dedfrydau o garchar yng Nghymru a Lloegr, gan nodi'r gwahanol fathau o ddedfrydau o garchar, y broses o draddodi dedfryd yn y llys a'r drefn ar gyfer rhyddhau carcharorion. Bydd y wybodaeth gefndirol hon yn hanfodol i ddatblygu polisi sy'n caniatáu i'r unigolion angenrheidiol benderfynu a yw dyddiad rhyddhau carcharor yn ystod y tymor swydd sy'n cael ei ethol. Gan mai tybiaeth gychwynnol Llywodraeth Cymru yw peidio ag etholfreinio carcharorion sy'n cyflawni dedfryd benagored oherwydd y problemau tybiedig o nodi dyddiad diwedd dedfryd eglur, mae angen dealltwriaeth o ddedfrydau o garchar - y gwahaniaeth rhwng dedfryd benagored a dedfryd ddiffiniedig a swyddogaeth y Bwrdd Parôl - i archwilio yn gyntaf amgylchiadau dedfrydu penagored, ac yn benodol pan fydd y cyfnod tariff gofynnol a nodwyd yn ystod y tymor swydd sy'n cael ei ethol ac, yn ail, os nad yw carcharorion sy'n cyflawni dedfrydau penagored yn cael eu hetholfreinio, i sicrhau nad yw'r polisi terfynol yn etholfreinio carcharorion o'r fath yn ddamweiniol. Mae ail ran yr adran hon yn archwilio'r system cyfiawnder ieuencid. Yn rhan o'i hymrwymiad i ymestyn yr etholfraint, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnig etholfreinio pobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed ac, felly, mae'n angenrheidiol archwilio'r rhyngweithio rhwng etholfreinio carcharorion a gostwng yr oedran pleidleisio gofynnol i un ar bymtheg. I raddau helaeth, ceir cwestiwn gwleidyddol pa un a ddylid cymhwyso'r un egwyddorion o ran pleidleisiau i oedolion - yn bennaf y telerau cymhwysedd a'r opsiynau cyfeiriad sydd ar gael neu gofrestru i bleidleisio - i droseddwy'r ifanc. Bydd angen dealltwriaeth o egwyddorion a gweithrediad y system cyfiawnder ieuencid i ddechrau ateb y cwestiwn hwn.
- 1.10 Nod adran olaf yr adroddiad yw treiddio'n ddyfnach i'r heriau gwleidyddol ac ymarferol a fydd yn cael eu hwynebu wrth ddatblygu polisi sy'n etholfreinio

carcharorion Cymru y mae eu dyddiad rhyddhau disgwyliedig yn ystod tymor swydd y cyngor sy'n cael ei ethol. Mae'r her gyntaf, y cyfeiriwyd ati'n fras yn yr adran flaenorol, yn ymwneud â phenderfynu ar y dyddiad rhyddhau disgwyliedig a datblygu proses ohebiaeth sy'n sicrhau bod yr unigolion perthnasol yn meddu ar y wybodaeth hon a'i bod yn cael ei chadw'n gyfredol. Yr ail her i'w hystyried, eto y cyfeiriwyd ati'n fras yn yr adran flaenorol, yw goblygiadau'r gwahanol egwyddorion sy'n llywio'r system cyfiawnder ieuenctid ac, yn benodol, yr egwyddor "plant yn gyntaf, troseddwr yn ail". Mae'r drydedd her yn ymwneud a sut y mae carcharorion, o dan rai amgylchiadau, yn cael eu hystyried yn "breswylwyr fel arfer" at ddiben darparu gwasanaeth. Os ystyrir bod carcharor yn breswilydd fel arfer, yna mae'n bosibl dadlau achos y dylid etholfreinio'r holl garcharorion yng ngharchardai Cymru oherwydd yr ystyrir bod y carcharorion hyn yn breswylwyr yng Nghymru. Mae'r bennod hon yn ceisio cynnig archwiliad rhagarweiniol o gryfderau achos o'r fath. Yn olaf, bydd yr adroddiad yn cynnig cyfres o gasgliadau y daethpwyd iddynt o'r manylion a gyflwynir. Dylai'r casgliadau hyn hysbysu a chynorthwyo'r polisi a fydd yn rhoi hawliau pleidleisio i garcharorion Cymru pan fyddant yn gymwys.

2. Dull

2.1 Mae briff y prosiect yn dibynnu'n bennaf ar waith ymchwil pen desg trylwyr. Yn gyntaf, roedd yn angenrheidiol cynnal ymarfer cwrpasu eang. Trwy ddarllen o gwmpas pwnc pleidleisiau i garcharorion yn gyffredinol, datblygwyd dealltwriaeth sylfaenol cyn gwneud gwaith ymchwil mwy penodol. Roedd yr adroddiadau a'r ymgynghoriadau yr ymgysylltwyd â nhw i ddatblygu'r ddealltwriaeth gychwynnol hon yn cynnwys

- Dogfen Ymgynghori Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru 2017 Llywodraeth Cymru.
- Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft Senedd y DU.
- Ymateb Llywodraeth y DU i'r Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft.
- Y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft – Tystiolaeth.
- Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar hawliau pleidleisio carcharorion (2005 i fis Mai 2015).

- Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin ar Hawliau Pleidleisio Carcharorion: Datblygiadau ers mis Mai 2015.
- Dyfarniad Achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig 2005.

2.2 Yn dilyn yr ymarfer cwrmpasu gwreiddiol, gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil pen desg gan ddefnyddio amrywiaeth o beiriannau chwilio - gan gynnwys Google, Google Scholar, Web of Science a SpringerLink - a gwefannau perthnasol, a gwefannau partïon â buddiant a gwahanol wefannau llywodraeth yn benodol. Defnyddiodd y strategaeth chwilio ar-lein dermau perthnasol i elfen neu bwnc penodol briff y prosiect a oedd yn cael ei ymchwilio ar y pryd. Er enghraifft, wrth archwilio'r dadleuon o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion, roedd y termau chwilio yn cynnwys: 'dadleuon o blaid pleidleisiau i garcharorion', 'dadleuon yn erbyn pleidleisiau i garcharorion', 'a ddylai carcharorion gael yr hawl i bleidleisio?', 'hawliau dynol a phleidleisiau i garcharorion', 'dyfarniadau llys a phleidleisiau i garcharorion', 'hawliau carcharorion' a 'safbwyntiau ar bleidleisiau i garcharorion'. Manteisiodd y gwaith ymchwil pen desg ar erthyglau papurau newydd ag enw da, dogfennau ymgynghori a'r ymatebion/tystiolaeth gysylltiedig, papurau briffio, cyfnodolion a llyfrau academiaidd, deddfwriaeth, dogfennau ac adroddiadau llywodraeth a Chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai a Gorchmynion y Gwasanaeth Carchardai.

2.3 Roedd y prif wefannau a ddefnyddiwyd yn cynnwys

- Liberty – sefydliad aelodaeth trawsbleidiol, di-blaid sy'n ymgychu dros hawliau a rhyddid sylfaenol yn y DU.
- Justice - sefydliad diwygio'r gyfraith a hawliau dynol sy'n gweithio i gryfhau'r system gyfiawnder - gweinyddol, sifil a throseddol - yn y Deyrnas Unedig.
- Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai – elusen yn y DU sy'n gweithio i greu system gosbi gyfiawn, drugarog ac effeithiol.
- Nacro – elusen cyfiawnder cymdeithasol.
- Criminal Justice Alliance – sefydliad aelodaeth sy'n gweithio i wella'r system cyfiawnder troseddol.
- Y Comisiwn Etholiadol – y comisiwn annibynnol sy'n gyfrifol am bob etholiad yn y Deyrnas Unedig.

- Comisiwn Etholiadol Cymru – y comisiwn annibynnol sy'n gyfrifol am bob etholiad yng Nghymru.
- Comisiwn Etholiadol Awstralia – y comisiwn sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau ffederal a refferenda yn Awstralia a chynnal cofrestr etholiadol y Gymanwlad.
- Comisiwn Etholiadol Victoria – yr asiantaeth llywodraethol sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau talaith a threfol a gwahanol etholiadau anlywodraethol yn Victoria.
- Y Cyngor Dedfrydu – sy'n gweithio i hybu mwy o dryloywder a chysondeb o ran dedfrydu ar draws Cymru a Lloegr.
- Gwasanaeth Erlyn y Goron – y brif asiantaeth erlyn cyhoeddus ar gyfer cynnal erlyniadau troseddol yng Nghymru a Lloegr.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – adran fawr llywodraeth y DU sydd wrth wraidd system gyfiawnder Cymru a Lloegr.
- Gov.uk – gwefan sy'n cynnig gwybodaeth llywodraethol ac yn nodi gwasanaethau llywodraeth.
- Unlock – elusen genedlaethol sy'n cynorthwyo pobl ag euogfarnau.
- nidirect – gwefan llywodraeth sy'n cynnig gwybodaeth am atal troseddu, y system gyfiawnder, yr hyn i'w wneud os ydych yn dioddef trosedd neu'n dyst i un, a'r hyn i'w ddisgwyl os ydych yn mynd i'r llys
- Cynghair Howard – elusen genedlaethol sy'n gweithio dros lai o droseddu, cymunedau mwy diogel a llai o bobl yn y carchar.
- Cartrefi Diogel i Blant – gwefan a ddarperir gan y Secure Accommodation Network i gynorthwyo a darparu gwybodaeth am gartrefi diogel i blant i weithwyr cymdeithasol, awdurdodau lleol, comisiynwyr, sefydliadau partner a phobl ifanc a'u teuluoedd a'u gwarcheidwaid.
- Cartref Diogel i Blant Hillside – y wefan ar gyfer Cartref Diogel i Blant Hillside yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Y Swyddfa Safonau mewn Addysg (OFSTED) – swyddfa llywodraeth sy'n gyfrifol am arolygu a rheoleiddio gwasanaethau sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, a gwasanaethau sy'n darparu addysg a sgiliau i ddysgwyr o bob oed.

- CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc – y wefan ar gyfer CEM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

2.4 Roedd adroddiadau llywodraeth yr ymgysylltwyd â nhw yn cynnwys

- Y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft. *Llywodraeth y DU*.
- Y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft – Tystiolaeth. *Llywodraeth y DU*.
- *Voting by Convicted Prisoners: Summary of Evidence*. Pumed Adroddiad Sesiwn 2010-11. Tŷ'r Cyffredin: Y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. *Llywodraeth y DU*.
- Prisoner's Voting Rights (2005 to May 2015). Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin. *Llywodraeth y DU*.
- Adolygiad o'r System Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru a Lloegr. *Llywodraeth y DU*.
- Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid 2016/17 Cymru a Lloegr: Bwletin Ystadegau. *Llywodraeth y DU*.
- Data Ieuencid yn y Ddalfa: Rhagfyr 2017. *Llywodraeth y DU*.
- Nodyn: Addysg i Bobl Ifanc yn y Ddalfa. *Llywodraeth y DU*.
- Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru. Cyfarwyddyd a Chanllawiau. *Llywodraeth Cymru*.
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Crynodeb o Ymatebion. Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru. *Llywodraeth Cymru*.
- Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i wella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuencid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni. *Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid*.
- Dadl Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. 2 Tachwedd, 2006. *Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon*.

2.5 Roedd deddfwriaeth a adolygwyd yn cynnwys

- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. *Deddfwriaeth y DU*.
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. *Deddfwriaeth y DU*.

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. *Deddfwriaeth y DU*.
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. *Deddfwriaeth y DU*.
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008. Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 y *Deyrnas Unedig*.
- Deddf Safonau Gofal 2000. *Deddfwriaeth y DU*.
- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991. *Deddfwriaeth y DU*.
- Canolfannau Hyfforddi Diogel, Cymru a Lloegr: Rheolau Hyfforddi Diogel 1998. *Deddfwriaeth y DU*.
- Deddf Cymru 2017. *Deddfwriaeth y DU*
- Deddf Gofal 2014. *Deddfwriaeth y DU*.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. *Deddfwriaeth Cymru*.
- Deddf Etholiadol (Diwygio) 2006. *Deddfwriaeth Iwerddon*.
- Deddf Etholiadol y Gymanwlad 1917. *Deddfwriaeth Awstralia*.
- Deddf Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Cofrestru a Phleidleisio Carcharorion) 2011. *Deddfwriaeth Awstralia*.
- Deddf Cywiriadau 1986. Deddfwriaeth talaith Victoria.
- Deddf Etholiadol 2002. Deddfwriaeth talaith Victoria.

2.6 Dyfarniadau llys

- Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig 2005. *Llys Hawliau Dynol Ewrop*.
- August ac un arall yn erbyn y Comisiwn Etholiadol ac Eraill 1999. *Llys Cyfansoddiadol De Affrica*.
- Richard Sauvé yn erbyn Twrnai Cyffredinol Canada ac Eraill 2002. *Goruchaf Lys Canada*.
- Greens ac MT yn erbyn y Deyrnas Unedig 2010. *Llys Hawliau Dynol Ewrop*.
- Roach yn erbyn y Comisiwn Etholiadol 2007. *Uchel Lys Awstralia*.

2.7 Adroddiadau academiaidd, erthyglau a llyfrau

- Behan, C. (2015). *Punishment, Prisoners and the Franchise*. Papurau Gwaith What is Justice? Cynghair Howard 20/2015.

- Ramsay, P. (2013). *Faking Democracy with Prisoners' Voting Rights*. Ysgol Economeg Llundain Papur Gwaith Cyfreithiol 7/2013.
- Behan, C. (2014). *Citizen convicts: Prisoners, politics and the vote*. Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion.
- Behan, C. ac O'Donnell. (2008). Prisoners, Politics and the Polls: Enfranchisement and the Burden of Responsibility. *British Journal of Criminology*. 48, 319-336.

2.8 Adnoddau eraill

- Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Rheolau Gofynnol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion (Rheolau Nelson Mandela).
- Llawlyfr Carchardai 2003/4.
- Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai: Hawl Carcharorion i Bleidleisio.
- Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai: Rhyddhau ar Barôl a Galw'n ôl.
- Y Comisiwn Etholiadol: Canllawiau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol.
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- David Lidington AS, Dedfrydu, Datganiad i Dŷ'r Cyffredin, Tachwedd 2017.
- Dadl y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol – Gweriniaeth Iwerddon.
- Halsbury's Laws of England: Sentencing.
- Y Rheolau Trefniadaeth Droseddol: Y Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol.
- Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfrydau Diffiniedig.
- 50 Mlynedd 1967-2017 – Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr: Adroddiad a Chyfrifon Blyneddol 2016/17.
- Rheolau'r Bwrdd Parôl – Deddfwriaeth Statudol: Carchardai, Cymru a Lloegr.
- Adroddiad a Chyfrifon Blyneddol 2016/17 Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr.
- Cynghrair Howard – Youth Justice in Wales: Thinking Beyond the Prison Bars.

- Y Cyngor Dedfrydu – Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines.
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- 2.9 Cafwyd gwybodaeth o ffynonellau uchel eu parch yn unig er mwyn sicrhau bod y manylion a gasglwyd yn ddibynadwy a chredadwy. Felly, roedd y gwefannau a ddefnyddiwyd naill ai'n wefannau llywodraethol neu'n wefannau elusennau cofrestredig a sefydliadau swyddogol. Lluniwyd yr holl adroddiadau y cyfeirir atynt gan lywodraethau, elusennau, gwahanol gomisiynau etholiadol a chan sefydliadau sy'n rhan o'r sector trosedd a chyfiawnder. Wrth gyfeirio at ddeddfwriaeth, Gorchmynion Carchar a Chyfarwyddiadau Carchar, roedd yn hollbwysig sicrhau y cyfeiriwyd at y fersiwn ddiweddaraf a bod unrhyw ddiwygiadau perthnasol wedi'u hystyried.
- 2.10 Yn ogystal â dibynnu ar waith ymchwil pen desg, mae'r adroddiad hefyd yn manteisio ar amrywiaeth o ohebiaeth â phartïon â buddiant ac yn cymryd cyfarwyddyd o'r rhain:
- Comisiwn Etholiadol Awstralia (AEC)
 - Comisiwn Etholiadol Victoria (VEC)
 - Adran Tai, Cynllunio a Llywodraeth Leol Gweriniaeth Iwerddon
 - Tîm Trosedd a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru.
- 2.11 Ymgwymerwyd â gohebiaeth â phartïon a sefydliadau â buddiant i egluro manylion, i gael gwybodaeth fwy manwl ac i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth o farnau, pryderon a safbwyntiau.
- 2.12 Rwyf hefyd wedi mynychu sawl cyfarfod gan drafod a rhannu gwybodaeth am etholiadau a diwygio etholiadol, gan gynnwys cyfarfodydd gyda:
- Chomisiwn Etholiadol Cymru
 - Tîm Etholiadau Llywodraeth yr Alban,
 - gweithgor y Rhaglen Diwygio Etholiadol
 - arbenigwyr etholiadol.
- 2.13 Cynigiodd y cyfarfodydd hyn safbwyntiau gwerthfawr ar y system etholiadol yn eang ac, yn fwy penodol, y problemau a'r heriau a wynebwyd i fodloni'r cynnig i

etholfreinio carcharorion. Maent wedi cynnig lle yr wyf i wedi gallu ei ddefnyddio i ddarlunio'r term arfaethedig o etholfreinio carcharorion ac, yn sgil hynny, derbyn adborth ynghylch yr heriau a'r camau gweithredu posibl y gwnaed gwaith dilynol arnynt yn y gwaith ymchwil a wnaed.

3. Ein Sefyllfa Bresennol

- 3.1 Mae angen bod yn ymwybodol o sefyllfa bresennol Cymru o ran hawliau pleidleisio carcharorion er mwyn ystyried sut i ddatblygu polisi gweithio ynghylch y cynigion. Mae'r bennod hon yn mapio hanes pleidleisio gan garcharorion yn y DU felly, gan gyflwyno'r cefndir deddfwriaethol, y broses a ddilynir gan garcharorion sy'n gymwys i arfer eu hawliau pleidleisio ar hyn o bryd a'r ddadl ynghylch achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig pan ddyfarnwyd gan Lys Hawliau Dynol Ewrop nad oedd deddfwriaeth y DU ar hawliau carcharorion ar y pryd yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn"). Gan y bydd bodloni'r cynnig i etholfreinio carcharorion ar gyfer unrhyw etholiadau yn gofyn am newidiadau deddfwriaethol, mae angen cael dealltwriaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth bresennol sydd ar waith. Gan mai ar 1 Ebrill 2018 yn unig y gwnaeth Llywodraeth Cymru gaffael pwerau etholiadol, mae hwn yn bwnc polisi newydd a manwl i Lywodraeth y Cynulliad ac felly'n un y mae'n anghyfarwydd ag ef. Hefyd, mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o ba categorïau o garcharorion sydd wedi eu hetholfreinio ar hyn o bryd a sut y mae'r niferoedd bach o garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd yn arfer yr hawl hwnnw. Nid yn unig y gallai'r dulliau sydd ar waith ar hyn o bryd o bosibl gynnig model y gellir datblygu polisi Cymru ohono, ond yn bwysicach bydd y wybodaeth hon yn amlygu unrhyw anghysondeb rhwng y broses sydd ar waith ar hyn o bryd a pholisi rhagarweiniol Cymru sy'n cael ei ddatblygu. Bydd angen rhoi sylw i unrhyw ymwahaniad rhwng prosesau wedyn a gweithio drwy'r heriau cysylltiedig.
- 3.2 Gan gymryd cam yn ôl, mae'r adran hon yn ystyried wedyn y ddadl o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion. Mae pleidleisiau i garcharorion wedi bod yn bwnc dadleuol ers nifer o ddegawdau, ond cafodd ei drafod yn eang ac yn frwd yn dilyn dyfarniad Hirst ac yn rhan o'r adroddiadau a'r papurau llywodraethol a gyhoeddwyd wedi hynny. Ffurfiolwyd y ddadl yn fwyaf amlwg yn yr adroddiad a luniwyd, a'r dystiolaeth gysylltiedig a gasglwyd, gan y Cyd-bwyllgor Dethol ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft yn 2013. Mae pleidleisiau i garcharorion yn dal i fod yn bwnc dadleuol yn 2018 ac mae'r dadleuon sydd wedi datblygu o gwmpas ac yn dilyn dyfarniad Hirst yn parhau i fodoli heddiw. Er bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i etholfreinio rhai carcharorion, mae dal i fod yn angenrheidiol bod yn ymwybodol o'r dadleuon yn erbyn oherwydd y sensitifrwydd cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phleidleisiau i garcharorion a'r ddadl wleidyddol.

Hawliau Pleidleisio Presennol Carcharorion yng Nghymru a Lloegr

Cefndir Deddfwriaethol

3.3 Mae pleidleisiau i garcharorion yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn bwnc hynod ddadleuol dros y degawd neu ddau ddiwethaf. Yn gysylltiedig â'r syniad o "farwolaeth ddinesig", mae dadetholfreinio carcharorion ym Mhrydain Fawr yn dyddio yn ôl i Ddeddf Fforffediad 1870 a oedd yn atal hawliau dinasyddiaeth troseddwyd yng Nghymru, Lloegr ac Iwerddon. Er gwaethaf tystiolaeth o etholfreinio rhannol rhwng 1948 a 1969, cyflwynodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1969 ddarpariaeth benodol yn cadarnhau anallu cyfreithiol unigolion sydd wedi derbyn euogfarn i bleidleisio tra eu bod wedi eu carcharu, a gafodd ei ymgorffori'n ddiweddarach o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.¹ Er y disgrifir y sefyllfa bresennol o ran hawliau pleidleisio carcharorion yng Nghymru a Lloegr yn gyffredin fel "gwaharddiad llwyr", mae'r gwaharddiad llwyr yn cyfeirio at garcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ac wedi eu carcharu a cheir nifer gyfyngedig o amgylchiadau lle mae carcharorion yn gymwys i bleidleisio. Dyma'r carcharorion sy'n gymwys i arfer hawliau pleidleisio o dan y gyfraith ar hyn o bryd:

- carcharorion nad ydynt wedi derbyn euogfarn (h.y. y rhai ar remánd)
- carcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ond nad ydynt wedi cael eu dedfrydu
- unigolion sydd wedi eu carcharu am ddirmyg llys neu o dan Reol Carchardai 7(3)²
- y rhai sy'n treulio cyfnod yn y carchar oherwydd iddynt beidio â thalu swm o arian y dyfarnwyd y dylai gael ei dalu yn dilyn yr euogfarn.

3.4 Gall carcharor o wlad arall sydd wedi ei garcharu ond yn gymwys i bleidleisio o dan y meini prawf uchod bleidleisio pe bai'n gymwys i bleidleisio pe na bai wedi ei garcharu h.y. caiff carcharorion o wledydd Undeb Ewropeaidd bleidleisio ym mhob etholiad ac eithrio etholiad senedd y DU, caiff gwladolion Gweriniaeth Iwerddon

¹ Horne, A. a White, I. (2015). *Prisoner's Voting Rights (2005 to May 2015)*. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin SN01764. Ar gael yn: <http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN01764>

² Mae Rheol Carchardai 7(3) yn pennu y bydd carcharorion sy'n cael eu traddodi neu eu galw'n ôl am ddirmyg llys neu am fethu â gwneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y'i gadawyd heb ei wneud: (a) yn cael ei drin fel gwahanol ddosbarth at ddibenion y rheol hon; (b) er gwaethaf unrhyw beth yn y rheol hon, yn cael eu caniatáu i ymgysylltu ag unrhyw ddosbarth arall o garcharorion os ydynt yn fodlon gwneud hynny; a (c) yn cael yr un breintiau â charcharor nad yw wedi derbyn euogfarn o dan reolau 20(5), 23(1) a 35(1). Gweler: *The Prison Rules 1999*. Rhan Dau, Adran 7(3): Dosbarthu Carcharorion. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukSI/1999/728/contents/made>

bleidleisio ym mhob etholiad a chaiff gwladolion gwledydd y Gymanwlad bleidleisio ym mhob etholiad.

- 3.5 Pennwyd gan Adran 3 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985, nad oes gan unrhyw unigolyn sydd, ar ddyddiad y bleidlais, yn destun unrhyw anallu cyfreithiol i bleidleisio (ac eithrio oedran) hawl i bleidleisio mewn etholiadau seneddol neu etholiadau llywodraeth leol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys carcharorion sydd, trwy rinwedd eu carchariad, yn awtomatig a heb amheuaeth yn destun anallu cyfreithiol i bleidleisio ni waeth beth fo hyd neu ddifrifoldeb y drosedd. O dan y Ddeddf, diffinnir carcharor sydd wedi derbyn euogfarn fel unigolyn y'i canfuwyd yn euog o drosedd (boed o dan gyfraith y Deyrnas Unedig ai peidio), ond nid yw'n cynnwys unigolyn yr ymdrinnir ag ef trwy draddodeb neu broses ddiannod arall am ddirmyg llys.³ Mae'r datgymhwysiad sy'n cael ei greu a'i gynnal o dan y Deddfau hyn yn ymestyn o ddadetholfreinio carcharorion sydd wedi eu rhyddhau ar sail trwydded dros dro a'r rhai yr ystyriwyd eu bod yn rhydd yn anghyfreithlon.⁴
- 3.6 Ym 1999, nododd Gweithgor y Swyddfa Gartref ar Weithdrefnau Etholiadol bod y meini prawf preswyllo ar gyfer cofrestru fel etholwr yn arwain at ddadetholfreinio damweiniol carcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ond nad ydynt wedi cael eu dedfrydu a charcharorion sy'n cael eu cadw ar remánd. Pennwyd gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 na ellir trin unigolyn sy'n cael ei gadw mewn unrhyw fan yn y ddalfa yn gyfreithiol, at ddibenion etholiadol, fel preswyllydd y sefydliad cosbi y mae wedi ei garcharu ynddo.⁵ Felly, gan nad oedd unrhyw ddarpariaeth wedi ei sefydlu ar gyfer defnyddio cyfeiriad arall i gofrestru, roedd carcharorion nad ydynt wedi eu dedfrydu a charcharorion sy'n cael eu cadw ar remánd yn cael eu dadetholfreinio yn awtomatig. Yn dilyn ystyriaeth, dywedodd y Gweithgor nad oes unrhyw ddadl mewn egwyddor a oedd yn cyfiawnhau dadetholfreinio carcharorion nad ydynt wedi derbyn euogfarn a daethant i'r casgliad, felly, y dylid caniatáu i garcharorion remánd nad ydynt wedi derbyn euogfarn barhau i gael eu cofrestru ar y gofrestr wreiddiol tan yr adeg y byddant yn cael eu rhyddhau o remánd, neu'n cael

³ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Pennod Dau: Rhan Un: *Parliamentary and Local Government Franchise and its Exercise*. Adran tri. Ar gael ar-lein:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/2/pdfs/ukpga_19830002_en.pdf

⁴ Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi. (2001). Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai: *Prisoners' Voting Right*. Rhif Gorchymyn: 4650. Ar gael yn:

https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=http%3Aper%2Fper%2Fwww.justice.gov.uk%2Fdownloads%2Foffenders%2Fpsipsoper%2Fpsoper%2FPSO_4650_prisoners_voting_rights.doc

⁵ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Pennod Dau: Rhan Un: *Parliamentary and Local Government Franchise and its Exercise*. Adran pump. Ar gael ar-lein:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/2/pdfs/ukpga_19830002_en.pdf

eu dedfrydu i ddedfryd yn y ddalfa.⁶ Gan gydnabod y potensial i amgylchiadau cartref carcharor remánd newid yn ystod cyfnod yn y ddalfa, argymhellodd y Gweithgor y dylai carcharorion ar remánd fod yn gymwys i ymuno â'r gofrestr etholiadol fel "etholwyr eraill" yn hytrach nag yn erbyn cyfeiriad sefydlog. Ni wnaeth y Gweithgor unrhyw argymhellion ynghylch carcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ond nad ydynt wedi cael eu dedfrydu, oherwydd yr amwysedd presennol o ran a oedd y drosedd y cafwyd y carcharor yn euog ohoni yn ddigon difrifol i gyfiawnhau dedfryd o garchar. Rhoddwyd yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Gweithgor ar waith o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Cyflwynodd adran 5 y Ddeddf ddarpariaeth preswylad at ddibenion cofrestru etholiadol ar gyfer unigolion sydd yn y ddalfa. Mae'n cyfeirio at unigolyn sy'n cael ei gadw mewn unrhyw fan yn unol â gorchymyn neu gyfarwyddyd perthnasol ac yn cael ei gadw felly fel arall ar ôl derbyn euogfarn am unrhyw drosedd arall neu ganfyddiad mewn achos cyfreithiol ei fod wedi cyflawni'r weithred neu'r anweithred y'i cyhuddwyd ohoni. At ddibenion gwneud cais i'r gofrestr etholiadol, dylid ystyried bod unigolion y mae adran pump yn berthnasol iddynt yn preswyllo yn y man lle maent wedi eu carcharu.⁷ Fodd bynnag, mae'r Ddeddf hefyd yn datgan na fydd cofrestru yn y man lle maent wedi eu carcharu yn atal preswylad mewn cyfeiriad arall ac eithrio'r man lle maent wedi eu carcharu neu yn unol â chysylltiad lleol. Felly, o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, mae gan garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio hawl i wneud cais i gofrestru mewn tri gwahanol gyfeiriad: eu cyfeiriad cartref lle byddent yn byw fel arall pe na baent yn y carchar; yn unol â datganiad o gysylltiad lleol; a chyfeiriad y sefydliad y maent wedi eu carcharu ynddo.

Cofrestru Carcharorion Cymwys i Bleidleisio yng Nghymru a Lloegr

- 3.7 Yn bennaf, bydd carcharor sy'n gymwys i bleidleisio yn cofrestru yn ei gyfeiriad cartref, lle byddai'n byw fel rheol, pe na bai wedi ei gadw yn y ddalfa. Dyma'r cyfeiriad y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn anfon y ffurflen gofrestru ymholiad aelwyd iddo yn ystod yr arolwg pleidleisio blynyddol ac a fyddai fel rheol yn cynnwys enw'r carcharor dan sylw os oedd wedi ei gofrestru eisoes. Pan fo carcharor cymwys eisoes wedi ei gofrestru i bleidleisio, nid yw'n ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau pellach yn gyffredinol tan fo etholiad yn cael ei gyhoeddi, pan fo'n ofynnol iddo gwblhau cais am bleidlais absennol. Fodd bynnag, pan fydd

⁶ Horne, A. a White, I. (2015). *Prisoner's Voting Rights (2005 to May 2015)*. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin SN01764. Ar gael yn: <http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN01764>

⁷ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Pennod Dau: Rhan Un: *Electoral Registration and Franchise*. Adran pedwar: *Residence: Persons remanded in custody etc.* Ar gael ar-lein: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/2/pdfs/ukpga_20000002_en.pdf

carcharor cymwys eisoes wedi ei gofrestru ond yn disgwyl treulio chwe mis neu fwy yn y carchar, fe'i cynghorir i gysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol a fydd â'r ddyletswydd o wirio a yw'r cofrestriad dan sylw yn dal i fod yn ddilys ai peidio.

- 3.8 Mae gan garcharorion cymwys na allant gyflwyno cyfeiriad cartref priodol ddau opsiwn arall, a chyflwynwyd y ddau o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Yn dilyn argymhellion Gweithgor y Swyddfa Gartref ar Weithdrefnau Etholiadol, creodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 ddwy ffordd newydd i garcharorion cymwys gofrestru i bleidleisio os nad ydynt yn gallu cofrestru mewn cyfeiriad cartref priodol: datganiad o gysylltiad lleol neu ddefnyddio cyfeiriad y carchar y maent wedi eu carcharu ynddo. Mae datganiad o gysylltiad lleol yn caniatáu i garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio gofrestru mewn cyfeiriad lle mae wedi byw yn y gorffennol. Felly, mae'n cydnabod yr anawsterau posibl a allai godi o ran cynnal cyfeiriad cartref tra yn y carchar, trwy ymestyn datganiad o gysylltiad lleol y tu hwnt i'r cyfeiriad cartref lle byddai carcharor yn preswyl fel rheol i gwmpasu hefyd datganiad ar sail cysylltiad arwyddocaol i ardal benodol. Gellir dangos y cysylltiad arwyddocaol sy'n ofynnol mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys: cyfeiriad perthynas neu ffrind lle mae'r carcharor wedi aros; defnydd rheolaidd o dŷ llety, sefydliad gwely a brecwast neu westy gan garcharor; neu fanylion cyswllt asiantaeth sy'n gweithio gyda phobl ddigartref sy'n ymwybodol o'r carcharor dan sylw ac wedi ei gynorthwyo.⁸ Fel arall, mae gan garcharor yr opsiwn o gofrestru i bleidleisio gan ddefnyddio cyfeiriad sefydliad y mae wedi ei garcharu ynddo, cyn belled ag y bo cyfnod y carchariad yn y cyfeiriad hwnnw yn ddigonol i alluogi'r carcharor i gael ei ystyried fel preswilydd yno at ddiben cofrestru etholiadol.⁹ Mae defnyddio cyfeiriad y carchar yn caniatáu i garcharor cymwys bleidleisio yn yr etholaeth lle mae'r carchar wedi ei leoli. Yr opsiwn hwn sy'n cael ei ddefnyddio'n fwyaf cyffredin gan garcharorion cymwys sy'n disgwyl treulio chwe mis neu fwy yn y ddalfa, a chan y carcharorion hynny nad ydynt yn gallu cyflwyno datganiad o gysylltiad lleol.
- 3.9 Wrth wneud cais gan ddefnyddio cyfeiriad cysylltiad lleol, dylid cyflwyno'r cais ynghyd â'r datganiad sy'n nodi'n eglur:

⁸ Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi. (2001). Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai: *Prisoners' Voting Right*. Rhif Gorchymyn: 4650. Ar gael yn: https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=http%3Aper%2Fper%2Fwww.justice.gov.uk%2Fdownloads%2Foffenders%2Fpsipsoper%2Fpsoper%2FPSO_4650_prisoners_voting_rights.doc

⁹ Y Comisiwn Etholiadol. (2009). Rhan F – *Special Category of Electors*. Ar gael yn:

http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/electoral_commission_pdf_file/0011/43958/Part-F-Special-category-electors-March-2010.pdf

- enw'r datganydd a'i gyfeiriad gohebu
- dyddiad y datganiad
- pam mae'n gymwys ar gyfer datganiad o gysylltiad lleol
- y cyfeiriad cysylltiedig lleol
- datganiad sy'n nodi ei fod yn ddinesydd y Gymanwlad, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd perthnasol yr Undeb
- datganiad yn mynegi bod y datganydd ar ddyddiad y datganiad wedi cyrraedd 18 mlwydd oed ac, os nad yw, ei ddyddiad geni.¹⁰

- 3.10 Wrth wneud cais gan ddefnyddio cyfeiriad y carchar, mae hefyd yn ofynnol i'r carcharor gyflwyno datganiad cryno yn rhoi rheswm pam mae'r man lle mae wedi ei garcharu, yn hytrach na chyfeiriad cysylltiad lleol, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cofrestru.
- 3.11 Cyflwynodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 system o gofrestriad parhaus, gyda'r effaith y gall unrhyw garcharor cymwys wneud cais i gofrestru i bleidleisio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn (gyda'r dyddiad cau ar gyfer cais cofrestru i gael ei dderbyn gan Swyddog Cofrestru Etholiadol yn parhau i fod ar waith). Pan nad oes unrhyw reswm i ofyn am dystiolaeth o oedran neu genedligrwydd neu am ragor o wybodaeth i gefnogi'r cais, dylid prosesu'r cais cyn y dyddiad terfyn nesaf ar gyfer penderfynu. Os nad yw'r cyfeiriad cymwys yn yr ardal y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol y'i hanfonwyd ato yn gyfrifol amdano, dylid anfon y cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol ar unwaith. Ym mhob achos, dylid hysbysu ymgeisydd am dderbyniad neu wrthodiad ei gais a phan fu gwrthodiad, dylid darparu esboniad yn nodi'r rhesymau am y gwrthodiad hwnnw. Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael eu hychwanegu at y gofrestr ar sail yr amserlen ar gyfer cofrestru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi copi o'r gofrestr wedi ei ddiweddarau, gan gynnwys pob addasiad, yn fisol.¹¹
- 3.12 Bydd cofrestriad carcharor cymwys sy'n cofrestru'n llwyddiannus i bleidleisio ar sail datganiad o gysylltiad lleol neu'n defnyddio cyfeiriad y carchar ar waith am uchafswm o ddeuddeng mis yn dilyn y dyddiad cofrestru neu tan i gofnod arall gael

¹⁰ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Pennod Dau: Rhan Un: *Electoral Registration and Franchise*. Adran 6(3): *New system of registration*. Ar gael ar-lein:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/2/pdfs/ukpga_20000002_en.pdf

¹¹ Y Comisiwn Etholiadol. (2009). Rhan F – *Special Category of Electors*. Ar gael yn:

http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/electoral_commission_pdf_file/0011/43958/Part-F-Special-category-electors-March-2010.pdf

ei roi ar waith yng nghyswllt yr unigolyn dan sylw. Dyletswydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw cyflwyno nodyn atgoffa i bobl unigolyn a gofrestrir yn unol â datganiad o gysylltiad lleol y bydd ei gofrestriad yn dod i ben yn fuan; ac os bydd yn dymuno parhau i fod yn gofrestredig ac nad yw ei amgylchiadau wedi newid bod yn rhaid iddo wneud datganiad o'r newydd.¹² Yn dilyn diwygiad yn deillio o Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006, crëwyd darpariaeth lle na fyddai cofrestriad ar waith mwyach pan fydd y swyddog cofrestru yn penderfynu, yn unol â'r rheoliadau perthnasol, nad oedd gan yr unigolyn hawl i gael ei gofrestru. Pan na fydd cofrestriad etholiadol yn weithredol mwyach, mae'n ofynnol i'r unigolyn wneud cais arall i gofrestru. Pan fydd methiant i wneud y cais arall hwn, bydd enw'r carcharor yn cael ei ddileu o'r gofrestr ac felly ni fydd yn gallu pleidleisio.¹³

- 3.13 Er i'r Gweithgor nodi bod carcharorion remánd a charcharorion sydd wedi derbyn euogfarn nad ydynt wedi eu dedfrydu wedi eu gwahardd yn anfwriadol rhag pleidleisio, ni chyflwynwyd unrhyw ddarpariaethau yn cynorthwyo carcharorion sydd wedi derbyn euogfarn nad ydynt wedi eu dedfrydu gyda dull ar gyfer arfer eu hawl i bleidleisio. Yn dilyn penderfyniad y Gweithgor i beidio â gwneud unrhyw argymhellion yn ymwneud â charcharorion sydd wedi derbyn euogfarn nad ydynt wedi eu dedfrydu oherwydd yr amwysedd presennol ynghylch eu dedfryd, mae'r dosbarth hwn o garcharorion wedi cael eu gwahardd rhag cofrestru i bleidleisio trwy ddatganiad o gysylltiad lleol neu gyfeiriad y man lle maent wedi eu carcharu. Gan fod y dosbarth hwn o garcharorion ar fin cael eu dedfrydu ac, felly, y byddant naill ai'n colli eu cymhwysedd i bleidleisio pan orfodir dedfryd o garchar, neu, yn dilyn dedfryd nad yw'n arwain at garchar, yn cael eu rhyddhau ac felly'n gallu cofrestru yn eu cyfeiriad cartref, daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen gwneud y darpariaethau newydd.
- 3.14 Yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, daeth yn ddyletswydd ar Lywodraethwyr carchardai i sicrhau bod carcharorion cymwys yn cael eu hysbysu am eu hawl i bleidleisio. Mae'n ofynnol i Lywodraethwyr carchardai gael gafael ar arwyddion arddangos gan Garchar Ei Mawrhydi Coldingley, sy'n hysbysu carcharorion cymwys am eu hawliau pleidleisio. Pan fydd carcharor yn

¹² *ibid.*

¹³ Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi. (2001). Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai: *Prisoners' Voting Right*. Gorchymyn Rhif: 4650. Ar gael yn:

https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=http%3Aper cent2Fper cent2Fwww.justice.gov.ukper cent2Fdownloadsper cent2Foffendersper cent2Fsipsoper cent2Fpsoper cent2FPSO_4650_prisoners_voting_rights.doc

mynegi diddordeb mewn pleidleisio, mae'n rhaid i Lywodraethwr y carchar roi'r wybodaeth berthnasol i'r carcharor yn esbonio'r weithdrefn gofrestru.¹⁴

Etholwyr Categori Arbennig

3.15 Yn bennaf, etholwyr categori arbennig yw'r rhai nad ydynt yn gallu bodloni'r cymhwyster preswyllo arferol ond sy'n dal i fod yn gymwys i gofrestru oherwydd y ddarpariaeth sydd ar waith yn darparu ar gyfer eu hamgylchiadau penodol. Hefyd, mae etholwyr categori arbennig yn cynnwys unigolion y byddai eu diogelwch mewn perygl pe baent yn cael eu cofrestru fel etholwyr cyffredin.¹⁵ Dyma'r unigolion a gofrestrir fel etholwyr categori arbennig:

- etholwyr tramor sy'n cyfeirio at ddinasyddion Prydain sy'n byw y tu allan i'r DU
- pleidleiswyr gwasanaethau Lluoedd Ei Mawrhydi a'u priod neu bartneriaid sifil
- gweision y Goron a chyflogeion y British Council a'u priod neu bartneriaid sifil
- etholwyr sydd â datganiad o gysylltiad lleol, sy'n cynnwys pobl sy'n byw yn y DU nad oes ganddynt gyfeiriad parhaol neu gyfeiriad sefydlog
- etholwyr sydd wedi eu cofrestru yn ddiennw, sy'n cyfeirio at y rhai sy'n gymwys i gofrestru'n ddiennw gan y byddai eu diogelwch mewn perygl pe baent yn ymddangos ar y gofrestr gan ddefnyddio eu henw
- cleifion mewn ysbytai iechyd meddwl y mae eu harhosiad yn yr ysbyty yn ddigon iddynt gael eu hystyried fel preswylwyr yno
- carcharorion remánd y mae eu harhosiad mewn sefydliad cosbi yn ddigon iddynt gael eu hystyried fel preswylwyr yno.¹⁶

3.16 Mae'r holl unigolion a gofrestrir yn unol â datganiad o gysylltiad lleol, o dan gyfeiriad lle maent wedi preswyllo neu y byddent yn preswyllo oni bai am eu hamgylchiadau, wedi eu cynnwys ar ddiwedd pob rhan berthnasol o'r gofrestr o dan y pennawd

¹⁴ Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi. (2001). Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai: *Prisoners' Voting Right*. Gorchymyn Rhif: 4650. Ar gael yn:

https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=http%3Aper cent2Fper cent2Fwww.justice.gov.ukper cent2Fdownloadspersper cent2Foffendersper cent2Fpsipsoper cent2Fpsoper cent2FFPSO_4650_prisoners_voting_rights.doc

¹⁵ Y Comisiwn Etholiadol. (2009). Rhan F – *Special Category of Electors*. Ar gael yn:

http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/electoral_commission_pdf_file/0011/43958/Part-F-Special-category-electors-March-2010.pdf

¹⁶ Y Comisiwn Etholiadol. (2018). *Guidance for Electoral Registration Officers: Rhan Pedwar – Maintaining the register throughout the year*. Ar gael yn:

http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0011/162578/Part-4-Maintaining-the-register-throughout-the-year.pdf

“etholwyr eraill” lle maent yn ymddangos heb gyfeiriad. Mae’r enwau yn ymddangos yn nhrefn yr wyddor ac wedi eu grwpio gyda’i gilydd gydag unrhyw etholwyr tramor a phleidleiswyr yn y lluoedd, ond cyn unrhyw etholwyr sydd wedi eu cofrestru’n ddienw.¹⁷ Mae carcharorion a gofrestrir yn unol â’r cyfeiriad lle maent wedi eu carcharu hefyd yn ymddangos ar y gofrestr yn rhan o’r categori arbennig o etholwyr. Unwaith eto, ni ddatgelir cyfeiriad y sefydliad sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion cofrestru ar y gofrestr.

Arfer yr Hawl i Bleidleisio

- 3.17 Ar ôl i garcharor cymwys gofrestru i bleidleisio, mae’n ofynnol iddo wneud cais fel pleidleisiwr absennol, sy’n caniatáu iddo bleidleisio drwy’r post neu drwy ddirprwy. Mae Llywodraethwyr carchardai yn meddu ar wybodaeth yn nodi’r broses pleidleisio absennol a dylai hon fod ar gael yn barod i garcharorion cymwys sydd wedi mynegi diddordeb mewn arfer eu hawliau pleidleisio. Ar ôl derbyn cais am bleidlais drwy ddirprwy, caiff cerdyn pleidleisio pleidleisiwr dirprwy ei anfon at y dirprwy penodedig cyn diwrnod y bleidlais. Yn dilyn cais llwyddiannus am bleidlais drwy’r post, bydd papur pleidleisio drwy’r post yn cael ei anfon yn awtomatig i’r cyfeiriad post a nodir yn y cofrestrriad. O ran pob etholiad, mae’n rhaid gwneud cais am bleidlais absennol cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi etholiad i roi amser i’r papur pleidleisio drwy’r post neu gerdyn pleidleisio’r pleidleisiwr dirprwy gael eu hanfon i’r cyfeiriad penodedig. Ar gyfer etholiad seneddol neu lywodraeth leol, mae’n rhaid i geisiadau pleidleiswyr absennol gael eu derbyn gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol erbyn 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y disgwylir i’r etholiad gael ei gynnal. Pan fydd carcharor eisoes wedi ei gofrestru i bleidleisio drwy’r post cyn iddo gael ei garcharu, gall newid y cyfeiriad lle mae’n dymuno i’r papur pleidleisio drwy’r post gael ei anfon naill ai drwy gwblhau’r ffurflen berthnasol a’i hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol neu drwy ysgrifennu datganiad ysgrifenedig cryno at y Swyddog Cofrestru Etholiadol y mae’n rhaid iddynt gael eu derbyn, yn y ddau achos, ar yr 11^{eg} diwrnod gwaith cyn dyddiad etholiad.¹⁸
- 3.18 Pan fydd carcharor cymwys wedi gwneud cais sy’n ymddangos yn ddilys am bleidlais drwy’r post neu drwy ddirprwy, mae ganddo hawl i gael mynediad at unrhyw lenyddiaeth etholiad perthnasol. Hefyd, ar gais i’w llywodraethwr, caniateir i

¹⁷ *ibid.*

¹⁸ Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi. (2001). Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai: *Prisoners’ Voting Right*. Gorchymyn Rhif: 4650. Ar gael yn:

https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=http%3Aper%2Fper%2Fwww.justice.gov.uk%2Fdownload%2Fdownload%2Foffenders%2Fpsipsoper%2Fpsoper%2FPSO_4650_prisoners_voting_rights.doc

garchar cymwys ysgrifennu at ymgeiswyr yn yr etholaeth berthnasol i wneud cais am lenyddiaeth etholiad neu ragor o fanylion.¹⁹ Bydd carcharorion sydd wedi gwneud cais llwyddiannus am bleidlais absennol drwy'r post yn derbyn amlen gan y Swyddog Canlyniadau perthnasol ychydig ddiwrnodau cyn yr etholiad. Mae'r amlen yn cynnwys:

- Y papur pleidleisio
- Amlen y papur pleidleisio sy'n dangos y llythyren "A"
- Datganiad ynghylch pwy ydych
- Amlen sy'n dangos y llythyren "B" ar gyfer dychwelyd y papur pleidleisio wedi ei gwblhau wedi ei selio yn amlen "A" a'r datganiad ynghylch pwy ydych at y Swyddog Canlyniadau perthnasol.

3.19 Bydd yr amlen sy'n cynnwys y dogfennau hyn yn cael ei marcio yn y fath ffordd fel y gellir ei hadnabod yn eglur fel pleidlais drwy'r post, gan sicrhau bod yr amlen yn cael ei derbyn heb gael ei hagor gan y carcharor y mae wedi ei chyfeirio ato. Am resymau diogelwch, mae gan garchardai y disgresiwn i agor ac archwilio post carcharor. Nid yw'r egwyddor o gyfrinachedd yn cael ei pheryglu pan fydd y disgresiwn hwn yn cael ei arfer, gan nad yw'r papur pleidleisio wedi cael ei gwblhau eto. Os bydd carcharor wedi gwneud cais llwyddiannus am bleidlais drwy'r post ond wedi cael ei ryddhau cyn iddi gael ei derbyn, mae'n rhaid anfon yr amlen heb ei hagor ymlaen i'r cyfeiriad a nodir ar y ffurflen ryddhau.

3.20 Ar ôl derbyn ei bleidlais drwy'r post, dylai carcharor gwblhau'r papur pleidleisio a'i seilio yn yr amlen sy'n dangos y llythyren "A". Ynghyd â'r datganiad ynghylch pwy ydych, dylai'r amlen "A" wedi'i selio gael eu selio gan y carcharor wedyn yn yr amlen sy'n dangos y llythyren "B". Mae'n rhaid postio amlen "B" yn brydlon wedyn i sicrhau ei bod yn cyrraedd y Swyddog Canlyniadau ar neu cyn y dyddiad y disgwylir i'r etholiad gael ei gynnal. Os na fydd y bleidlais drwy'r post yn cael ei derbyn ar neu cyn i'r bleidlais gau, ni fydd y papur pleidleisio yn cael ei gyfrif. Gan fod yr amlen "B" i'w hanfon allan eisoes wedi ei chyfeirio at y Swyddog Canlyniadau, mae'n annhebyg o gynnwys unrhyw beth ac eithrio amlen "A" y mae'r papur pleidleisio a'r datganiad ynghylch pwy ydych ynddi.²⁰ Ni ddisgwylir felly y bydd angen archwilio'r amlen i'w hanfon allan cyn ei phostio.

¹⁹ ibid.

²⁰ ibid.

- 3.21 Yn achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig yn 2005, dyfarnwyd gan Lys Hawliau Dynol Ewrop bod gwaharddiad llwyr presennol y Deyrnas Unedig ar bleidleisiau i garcharorion yn anghyfreithlon. Daethpwyd â'r achos i Lys Hawliau Dynol Ewrop yn 2005 gan John Hirst, y'i cafwyd yn euog o ddynladdiad ym 1980 a'i ddeddfrydu i bymtheg mlynedd o garchar. Daeth Hirst â'i achos i Strasbwrg o ran Erthygl 3 Protocol 1 y Confensiwn. Mae Erthygl 3 Protocol 1 yn darparu ar gyfer yr hawl i etholiadau rhydd, mae'n nodi bod y Partion Contractio Uchel yn ymgymryd i gynnal etholiadau rhydd yn dilyn cyfnodau rhesymol trwy bleidlais gyfrinachol, o dan amodau a fydd yn sicrhau mynegiad rhydd barn y bobl o ran dewis y ddeddfwrfa.²¹ O dan yr Erthygl hon, hawliodd Hirst bod Llywodraeth y DU yn mynd yn groes i hawliau sylfaenol trwy wrthod yr hawl i garcharorion bleidleisio.
- 3.22 Ym mis Hydref 2005, pleidleisiodd mwyafrif Uchel Siambr Llys Hawliau Dynol Ewrop, o 12 i 5, bod cyfraith y DU yn mynd yn groes i Erthygl 3. Gwnaeth dyfarniad Strasbwrg dair dadl egwyddor i gefnogi eu casgliad. Yn gyntaf, dywedodd y mwyafrif nad yw'r llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr yn gwneud unrhyw gyfeiriad at ddadetholfreinio wrth ddeddfrydu ac nid yw'n amlwg, y tu hwnt i'r ffaith fod llys wedi ei hystyried yn briodol i orfodi dedfryd o garchar, bod unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng ffeithiau unrhyw achos unigol a chymryd yr hawl i bleidleisio.²² Roedd yr ail ddadl yn canolbwyntio ar gymesuredd, gyda'r mwyafrif yn dod i'r casgliad bod dadetholfreinio eang a chyffredinol carcharorion yn anghymesur ag unrhyw nod cyfiawnder troseddol dilys. Dywedodd y dyfarniad nad oes unrhyw dystiolaeth bod y Senedd erioed wedi ceisio pwyso a mesur y buddiannau cystadleuol nac asesu cymesuredd gwaharddiad llwyr ar hawl carcharor sydd wedi derbyn euogfarn i bleidleisio. Ni ellir dweud bod unrhyw ddadl o sylwedd gan aelodau'r ddeddfwrfa ar gyfiawnhad parhaus yng ngoleuni polisi cosbi yr oes fodern a safonau hawliau dynol presennol dros gynnal cyfyngiad cyffredinol o'r fath ar hawl carcharorion i bleidleisio.²³ Yn drydydd, roedd y llys yn dadlau bod y gwaharddiad yn annetholus gan ei fod yn gymwys yn awtomatig i garcharorion o'r fath, ni waeth beth fo hyd eu dedfryd a ni waeth natur neu ddifrifoldeb eu trosedd a'u hamgylchiadau unigol.²⁴ Felly, daeth y mwyafrif i'r casgliad bod y gwaharddiad, fel

²¹ Cyngor Ewrop a Llys Hawliau Dynol Ewrop. (1950). Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Erthygl 3 Protocol 1. Ar gael yn: https://www.echr.coe.int/Documents/Convention_ENG.pdf

²² Achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig (Rhif 2). (2005). Dyfarniad. Asesiad y Llys, paragraff 77. Ar gael yn: <http://www.bailii.org/eu/cases/ECHR/2005/681.html>

²³ *ibid*, paragraff 79.

²⁴ *ibid*, paragraff 82

y'i gweithredir ar hyn o bryd, yn erfyn di-awch sy'n atal yr hawl dynol i fynegiant rhydd.

- 3.23 Er gwaethaf casgliad dyfarniad Hirst a nifer o ddyfarniadau perthnasol eraill, gwnaeth Llywodraethau olynol y DU oedi a gwrthod gweithredu dyfarniad Strasbwrg neu ddeddfu newidiadau i gyfraith genedlaethol i sicrhau cydymffurfriad. Sbardunodd dyfarniad Hirst ddadl chwyrn dros: swyddogaeth ac ymreolaeth Llys Strasbwrg, gallu'r llys i ddylanwadu ar ddeddfau cenedlaethol a'u pennu, swyddogaeth y Confensiwn, gallu'r DU i anwybyddu dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop heb danseilio rheolaeth y gyfraith, cyfreithlondeb democrataidd yn gyffredinol, perthynas y DU gyda Llys Hawliau Dynol Ewrop yn y dyfodol a statws etholiadau rhydd fel hawl dynol sylfaenol a chyffredinol.²⁵ Mewn achos dilynol, Greens ac MT yn erbyn y DU yr aethpwyd ag ef i Strasbwrg yn 2010, cadarnhawyd dyfarniad Hirst yn unfrydol gan Lys Hawliau Dynol Ewrop, gan nodi bod y diffyg cydymffurfriad parhaus ag Erthygl 3 yn deillio o fethiant gwladwriaeth y DU i weithredu dyfarniad Hirst. Daeth Llys Hawliau Dynol Ewrop i'r casgliad bod yn rhaid i Lywodraeth y DU gyflwyno, o fewn chwe mis i'r dyddiad y daeth y dyfarniad presennol yn derfynol, cynigion deddfwriaethol sydd â'r bwriad o ddiwygio Deddf 1983 ac, os yw'n briodol, Deddf 2002 mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Confensiwn.²⁶ Er gwaethaf pleidlais arall yn Nhŷ'r Cyffredin yn erbyn newid y gyfraith, arweiniodd y gorchymyn hwn at Fil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft a gyhoeddwyd yn 2012.
- 3.24 Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd, Chris Grayling, y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft a chyhoeddodd sefydliad Cyd-bwyllgor rhwng dau Dŷ'r Senedd ym mis Mai 2013 a fyddai'n gyfrifol am graffu cyn y broses ddeddfu. Cyflwynwyd y Bil drafft gan y Llywodraeth mewn ymateb i ddyfarniad Hirst. Roedd yr adroddiad gan y Cyd-bwyllgor yn cynnwys sylwadau ar y niwed a achoswyd gan wrthodiad Llywodraethau olynol y DU i weithredu dyfarniad Strasbwrg, gan nodi ei fod yn niweidio statws y DU ac yn cynorthwyo'r gwladwriaethau hynny yng Nghyngor Ewrop sydd â hanes gwael o amddiffyn hawliau dynol. Nododd yr adroddiad hefyd yr amhosibilrwydd o gysoni egwyddor rheolaeth y gyfraith gydag aros yn y Confensiynau, tra bod y DU yn gwrthod yn barhaus i weithredu dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop. Argymhellodd yr adroddiad felly y dylai'r Llywodraeth gyflwyno Bil ar ddechrau sesiwn 2014-2015,

²⁵ Raab, D. (2011). *Strasbourg in the Docks: Prisoner Voting, Human Rights and the Case for Democracy*. Civitas: Llundain. Ar gael yn:

<http://civitas.org.uk/pdf/StrasbourgInTheDock.pdf>

²⁶ Achos Greens ac MT yn erbyn y Deyrnas Unedig. (2010). Dyfarniad. Ar gael yn:

<http://www.bailii.org/eu/cases/ECHR/2010/1826.html>

yn nodi'r ddarpariaeth i'r holl garcharorion sy'n cyflawni dedfrydau o 12 mis neu lai gael eu hetholfreinio yn holl etholiadau seneddol, lleol ac Ewropeaidd y DU ac, yn ogystal, y dylai carcharorion gael yr hawl i wneud cais, hyd at chwe mis cyn eu dyddiad rhyddhau disgwyledig, i gael eu cofrestru i bleidleisio yn yr etholaeth y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau iddi.²⁷ Fodd bynnag, er gwaethaf adroddiad y Cyd-bwyllgor, roedd diffyg gweithredu ac oedi yn parhau i fod yn nodweddiadol o ymateb y Llywodraeth i ddyfarniad Strasbwrg.

- 3.25 Ar ôl deuddeng mlynedd o anghytundeb llwyr rhwng Strasbwrg a Llundain, ym mis Tachwedd 2017 gwnaeth David Lidington, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar y pryd, ddatganiad i Dŷ'r Cyffredin ynghylch dedfrydu ac ymateb y Llywodraeth i ddyfarniad Hirst.²⁸ Nododd Lidington bod goblygiadau dyfarniad Hirst o 2005 wedi cael eu hystyried gan lywodraethau olynol, gyda'r Llywodraethau Llafur, clymblaid a Cheidwadol oll o'r farn bod deddfau cenedlaethol yn fater i ddeddfwyr etholedig yn y Deyrnas Unedig ac, felly, ni ddeddfwyd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth. Mynegodd Lidington yn eglur safbwynt y Llywodraeth Geidwadol bresennol na ddylid rhoi'r hawl i garcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ac wedi eu carcharu ar hyn o bryd bleidleisio, gan gydnabod ar yr un pryd yr angen i'r Llywodraeth ymateb i ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop. Cyhoeddodd y datganiad y newidiadau gweinyddol a gynigir gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â dyfarniad 2005, gan gynnal y gwaharddiad ar bleidleisiau i garcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ac wedi eu carcharu. Nododd y Llywodraeth ei hymrwymiad i weithio gyda'r farnwriaeth i sicrhau eglurder yn y broses dedfrydu, gan ei gwneud yn eglur i droseddwyr sydd wedi derbyn euogfarn bod eu cyfnodau yn y carchar yn cynnwys yn awtomatig colli'r hawl i bleidleisio tra byddant wedi eu carcharu. Yn ail, cyfathrebodd Lidington ymrwymiad y Llywodraeth i ddiwygio anomaledd yn y system bresennol, lle mae unigolyn sy'n cael ei ryddhau yn ôl i'r gymuned o dan gynllun cyrffw cyfyngu i'r cartref yn gymwys i bleidleisio er na all y rhai sy'n weithredol yn y gymuned o dan drwydded dros dro bleidleisio. Dull a ddefnyddir i alluogi troseddwyr i baratoi ar gyfer eu dychweliad i gymdeithas yw rhyddhad ar sail trwydded dros dro yn bennaf. Felly, mae ail-gyflwyno'r hawl dinesig i bleidleisio i'r carcharorion hyn yn cyd-fynd â'r dull ailsefydlu hwn. Nododd Lidington yn eglur na fyddai'r newid hwn yn cael unrhyw effaith ar y meini prawf ar gyfer rhyddhad dros

²⁷ Cyd-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft. (2013) Adroddiad. Ar gael yn:

<https://publications.parliament.uk/pa/jt201314/jtselect/jtdraftvoting/103/103.pdf>

²⁸ Lidington. D. (2017). Dedfrydu. Datganiad i Dŷ'r Cyffredin, Tachwedd 2017, cyfrol 630. Ar gael yn:

<https://hansard.parliament.uk/commons/2017-11-02/debates/9E75E904-9B25-475F-87C4-DD8F3C4836C4/Sentencing>

dro ac na fyddai unrhyw droseddwr yn cael eu rhyddhau dros dro er mwyn pleidleisio.

- 3.26 Yn dilyn ystyriaeth, rhoddodd Cyngor Ewrop hysbysiad ar 7 Rhagfyr 2017 ei fod yn derbyn y cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU. Gan fod y newidiadau a gynigiwyd yn gwbl weinyddol, nid ydynt yn gofyn am unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol. Yn hytrach, mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu cyflwyno canllawiau newydd i Lywodraethwyr carchardai yng Nghymru a Lloegr, a fydd yn hysbysu ac yn cyfarwyddo ar y categorïau o garcharorion sydd â'r hawl i bleidleisio ac o dan ba amgylchiadau. Disgwylir i'r canllawiau hyn fod ar waith ar gyfer rownd etholiadau 2019. Credwyd yn wreiddiol y byddai cynnig gweinyddu'r Llywodraeth Geidwadol yn etholfreinio cant o garcharorion ychwanegol ar unrhyw un adeg.²⁹ Ac eto, ni fydd carcharorion sy'n cael eu hetholfreinio o dan y newidiadau hyn yn gallu pleidleisio o'r carchar na chofrestru gan ddefnyddio cyfeiriad y man lle maent wedi eu carcharu. Yng ngoleuni'r cafeatai hyn, bydd y carcharorion ychwanegol a fydd yn cael eu hetholfreinio pan ddaw'r cynigion i rym ddim ond yn gallu pleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio, ac felly mae'r cynnig yn debygol o etholfreinio llond llaw o garcharorion yn unig ar unrhyw un adeg.³⁰

Dadleuon o Blaid ac yn Erbyn Pleidleisiau i Garcharorion

- 3.27 Mae'r pwnc pleidleisiau i garcharorion wedi arwain at ddadl frwd, eang ac emosiynol. O ran achos Hirst a'r dyfarniad dilynol gan Lys Hawliau Dynol Ewrop, daeth pleidleisiau i garcharorion yn bwnc trafod gwleidyddol a moesol allweddol ar draws y DU. Gan gymryd cam yn ôl o'n sefyllfa heddiw ac o gynigion Llywodraeth y DU i wneud newidiadau gweinyddol i fynd i'r afael â'r "gwaharddiad llwyr" ar bleidleisiau i garcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ac wedi eu carcharu, mae angen ystyried y dadleuon a wnaed o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion. Er i'r ddadl gael ei chanolbwyntio ar ddyfarniad Hirst, y mae Llywodraeth y DU, gellid dadlau, wedi rhoi sylw iddo erbyn hyn, gyda'r ddealltwriaeth mai prin iawn fydd y gwahaniaeth ymarferol y bydd newidiadau gweinyddol Llywodraeth y DU yn ei gwneud pan fyddant yn dod i rym a chynnig Llywodraeth Cymru sy'n ceisio ymestyn hawliau pleidleisio i garcharorion ymhell y tu hwnt i'r telerau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, mae angen cael dealltwriaeth gadarn o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn etholfreinio carcharorion.

²⁹ Lidington, D. (2017). Dedfrydu. Datganiad i Dŷ'r Cyffredin, Tachwedd 2017, cyfrol 630. Ar gael yn: <https://hansard.parliament.uk/commons/2017-11-02/debates/9E75E904-9B25-475F-87C4-DD8F3C4836C4/Sentencing>

³⁰ Foster, A. (2017). *Prisoner Voting: The Right to Vote: But is it Enough?* Criminal Law and Justice Weekly. Ar gael yn: <https://www.criminallawandjustice.co.uk/features/Prisoner-Voting-Right-Vote-it-Enough>

3.28 Mae'r ddadl yn seiliedig i raddau helaeth iawn ar ddau safbwynt gwahanol iawn i'w gilydd: mae'r cyntaf yn mabwysiadu'r safbwynt bod yn rhaid i garcharorion, ar ôl tynnu eu hunain o gymdeithas o ganlyniad i'w gweithgarwch troseddol eu hunain, ildio eu hawliau pleidleisio; ac, ar ben arall y sbectrwm, y mae'r rhai sy'n dadlau bod carcharorion yn cadw hawliau sylfaenol er eu carchariad, a bod yn rhaid i'r hawliau hyn gynnwys o reidrwydd yr hawl i bleidleisio, a chan fod gan bleidleisio y potensial i gyfrannu'n gadarnhaol at adsefydliad carcharor y dylid ei hyrwyddo'n weithredol. Cyrhaeddodd y ddadl ei hanterth yn 2013 wrth i Lywodraeth y DU sefydlu Cyd-bwyllgor Dethol i graffu ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft a gyflwynwyd yn 2012. Rhoddodd sawl AS dystiolaeth lafar i'r Cyd-bwyllgor dethol, yn ogystal â llawer o sefydliadau ac elusennau a byddant yn ffurfioli eu safbwyntiau mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Lluniodd sawl elusen adroddiadau a phapurau annibynnol yn rhoi sylw i etholfreinio carcharorion hefyd, ac yn fwyaf nodedig, Papur Gwaith *What is Justice?* Cyngrhair Howard: *Punishment, Prisoners and the Franchise* a ysgrifennwyd gan ysgolor y gyfraith Dr Behan, a oedd yn crynhoi'n drylwyr y prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion. Gan fanteisio ar amrywiaeth o wahanol ffynonellau - gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i adroddiad a thystiolaeth Cyd-bwyllgor Dethol y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft - rwy'n mapio, yn eu trefn, y dadleuon egwyddor o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion a wnaed yn y dadleuon cysylltiedig.

Dadleuon yn erbyn etholfreinio carcharorion sydd yn y ddalfa

3.29 Dadl 1. Nid yw pleidleisio yn hawl cyffredinol absoliwt
Er y gellid ystyried pleidleisio yn hawl, nid yw'n hawl absoliwt a roddir i'r holl boblogaeth yn ddiamod. Nid yw Erthygl tri Protocol un y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi ei geirio o ran hawl unigol ac nid yw chwaith yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at etholfraint gyffredinol: Mae'r Partion Contractio Uchel yn ymgymryd i gynnal etholiadau rhydd yn dilyn cyfnodau rhesymol trwy bleidlais gyfrinachol, o dan amodau a fydd yn sicrhau mynegiad rhydd barn y bobl o ran dewis y ddeddfwrfa. Felly, derbynnir yn gyffredinol, a derbyniwyd erioed, y gellir atal categorïau penodol o bobl rhag pleidleisio gyda chyfiawnhad.³¹ Mae pleidleisio yn hawl amodol a barn Llywodraethau olynol y DU yw bod y rhai sydd wedi cyflawni troseddau sy'n ddigon difrifol i haeddu carchariad wedi colli'r awdurdod moesol i

³¹ Policy Exchange. (2017). *Human Rights and Political Wrongs: A new approach to human rights law*. Llundain: Policy Exchange.

bleidleisio.³² Hefyd, ceir llawer o ddemocratiaethau rhyddfrydol parchus a chyfrifol nad ydynt yn caniatáu i **bob** carcharor bleidleisio.

- 3.30 Dadl 2. Mae dadetholfreinio yn cryfhau'r contract cymdeithasol
Dylai carcharorion golli eu hawliau dinasyddiaeth, gan gynnwys yr hawl i bleidleisio. Mae'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau sy'n haeddu carchariad wedi torri'r contract cymdeithasol. Trwy rinwedd eu gweithredoedd eu hunain, maent wedi rhoi eu hunain y tu allan i'r gyfraith ac felly wedi torri'r contract y sicrheir diogelwch eu hawliau drwyddo. Mae carcharorion wedi colli eu dinasyddiaeth trwy eu hymddygiad eu hunain. Mae Peter Ramsay, damcaniaethwr modern, wedi dweud bod carcharorion wedi ildio eu hawliau dinasyddiaeth democrataidd trwy'r ymwrthodiad ensyniedig o ddinasyddiaeth sydd ynghlwm i'w trosedd.³³ Hefyd, mae'n rhaid i gosb ddilyn os yw'r contract cymdeithasol wedi cael ei dorri. Mae dadetholfreinio yn ddull pwysig ar gyfer atgoffa'r carcharor, a chymdeithas ehangach, bod dinasyddiaeth yn ffrainc a ganiateir gyda rhinwedd dinesig. Mae cymryd galluedd pleidleisio oddi wrth garcharorion yn cynnal ac yn cryfhau'r contract cymdeithasol felly. Mae'r Athro Christopher Manfredi, sy'n arbenigo mewn gwleidyddiaeth farnwrol, wedi dadlau y caiff y cysylltiad rhwng dadetholfreinio carcharorion a chynnal a hybu gwerthoedd democrataidd rhyddfrydol eu canfod felly yn y cam o wahardd o gyfranogiad gwleidyddol unigolion a ddangosodd yn eglur bod eu cymeriad yn hunan-ystyriol, yn canolbwyntio ar y presennol, ac yn fympwyol.³⁴
- 3.31 Dadl 3. Mae pleidleisiau i garcharorion yn llygru'r broses ddemocrataidd
Ceir perygl o ganiatáu i garcharorion bleidleisio y bydd y broses ddemocrataidd gyfan yn cael ei llygru. Mae'r hawl i bleidleisio yn amodol ar ymrwymiad o barch i ewylllys y bobl a'r gyfraith. Mae'r rhai y'u cafwyd yn euog o drosedd sy'n haeddu carchariad wedi gwahanu eu hunain mor bell o werthoedd gymdeithas ddinesig y byddai caniatáu iddynt gymryd rhan yn ei llywodraethiad yn ystumio cyfiawnder.³⁵
- 3.32 Dadl 4. Cosb gymesur
Mae cymryd hawliau pleidleisio carcharorion oddi wrthynt yn rhan annatod o gosbi troseddwyr. Mae Llywodraeth olynol y DU wedi cyfiawnhau dadetholfreinio ar y sail ei fod yn atal trosedd ac yn cosbi troseddwyr, gan gynyddu cyfrifoldeb dinesig a

³² Liberty. (2016). *Liberty's Briefing on Prisoners' Voting Rights*. Llundain: Liberty.

³³ Ramsay, P. (2013). *Faking Democracy with Prisoners' Voting Rights*. Papur Gwaith Cyfreithiol Ysgol Economeg Llundain 7/2013.

³⁴ Manfredi, C. (2009). *In Defence of Prisoner Enfranchisement*. Yn: A, Ewald a B, Rottinghaus, golygyddion, *Criminal Disenfranchisement in an International Perspective*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

³⁵ *ibid*.

pharch at reolaeth y gyfraith.³⁶ Yn ogystal â hynny, ceir rhwymedigaeth ar y llywodraeth gan y rhai sy'n cydymffurfio â'r gyfraith i gosbi'r rhai sy'n torri'r gyfraith. O gofio bod y trothwy carcharu yn y DU o'r fath y rhoddir dedfryd o garchar am y troseddau mwyaf difrifol yn unig a phan fo'n briodol a chymesur gwneud hynny, dylai carcharorion sy'n cyrraedd y trothwy carcharu hwnnw golli eu gallu i bleidleisio - mae dadetholfreinio yn gosb uniongyrchol a chyfiawn. Mae gwrthod y bleidlais i garcharorion yn gyfle i hyrwyddo parch at y gyfraith ac, o bosibl, atal gweithgarwch troseddol hyd yn oed. Mae'n anfon neges wirioneddol a symbolaidd i ddinasyddion sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac i ddinasyddion nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith am y pwysigrwydd a neilltuir gan gymdeithas i gyd-fynd â'r rheolau sy'n cael eu creu gan gynrychiolwyr y bobl.³⁷ Oherwydd mae'r rhai sydd wedi dangos yn eglur nad ydynt yn barod i dderbyn canlyniad y broses ddemocrataidd – pasio deddfau gan gynrychiolwyr etholedig – yn eithrio eu hunain o'r hawl i gymryd rhan ynddi. Fel y mae David Davis AS (Haltemprice a Howden) wedi dadlau, ni allwch greu'r gyfraith os ydych yn torri'r gyfraith.³⁸

3.33 Dadl 5. Mae sicrwydd o niferoedd cyfranogiad isel yn golygu bod unrhyw effaith gadarnhaol bosibl yn fach

Gan mai prin fydd y nifer sy'n manteisio ar bleidleisiau i garcharorion, mae etholfreinio carcharorion yn annhebygol o gael unrhyw effaith gadarnhaol. Mae Eoin McLennan Murray, cyn Lywydd y Gymdeithas Llywodraethwyr Carchardai a chadeirydd presennol Cynghrair Howard, wedi nodi y byddai nifer y carcharorion sy'n debygol o bleidleisio yn isel iawn.³⁹ Ailbwysleiswyd y safbwynt hwn gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, sydd wedi dweud mai anaml y mae carcharorion yn ymholi am eu hawliau pleidleisio.⁴⁰ O edrych ar y gwladwriaethau lle mae carcharorion wedi cael eu hetholfreinio, ceir tystiolaeth gref i awgrymu mai prin yw'r carcharorion a fyddai'n arfer hawliau pleidleisio. Cafodd carcharorion eu hetholfreinio yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 2006, ond er bod carcharorion yn cydnabod pa mor rhwydd oedd pleidleisio o'r carchar, dim ond 6.2 y cant wnaeth arfer eu hawliau pleidleisio yn etholiad Dáil Éireann 2016 (yr etholiad cyffredinol), tra bod nifer y pleidleiswyr yn genedlaethol yn 65.2 y cant. Oherwydd y

³⁶ Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig (RHIF 2): Dyfarniad. (2005). Paragraff 50.

³⁷ Behan, C. (2015). *Punishment, Prisoners and the Franchise*. Papurau Gwaith What is Justice? Cynghrair Howard 20/2015.

³⁸ Hansard, Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 10 Chwefror 2011, cyfrol 523, colofn 494. (2011)

³⁹ Nacro, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r Gymdeithas Llywodraethwyr Carchardai – Tystiolaeth Lafar (QC 126-136). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013)

⁴⁰ Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0017). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

tebygolrwydd cryf y byddai nifer isel yn cymryd rhan, mae'n annhebygol y byddai etholfreinio yn gyfraniad cadarnhaol at adsefydliad carcharor, a dywedodd Digby Griffith o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr er y gellir gwneud cysylltiad cadarnhaol rhwng pleidleisio ac adsefydliad yn dechnegol, mae'r realiti yn hynod annhebygol.⁴¹ Mae David Strang, Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban, hefyd wedi dadlau nad yw rhoi X mewn blwch yn ffordd effeithiol i rywun godi mater penodol a bod llawer o lwybrau, a llwybrau mwy priodol, ar gael i garcharorion ar gyfer codi materion pwysig.⁴²

- 3.34 Dadl 6. Nid yw barn y cyhoedd yn ffafrio pleidleisiau i garcharorion I raddau helaeth iawn, nid yw'r cyhoedd yn cefnogi etholfreinio carcharorion. Yn y Cyd-bwyllgor Dethol ar Ddrafftio Cymhwysedd Pleidleisio, dywedodd yr AS Ceidwadol Nick Gibb bod holl brif bleidiau'r DU a mwyafrif llethol yr Aelodau Seneddol a'r cyhoedd yn gwrthwynebu caniatáu i garcharorion bleidleisio.⁴³ Mae gwaith ymchwil a wnaed gan YouGov yn 2015 yn dangos nad yw 69 y cant o'r cyhoedd yn cefnogi newid i'r gyfraith i ganiatáu carcharorion i bleidleisio. Hefyd, nid yw 68 y cant o'r cyhoedd yn cyd-fynd â'r ddadl y bydd pleidleisiau i garcharorion yn helpu adsefydliad, gyda 71 y cant yn cytuno nad yw troseddwyr yn haeddu llais mewn etholiadau tra bod 50 y cant o'r cyhoedd yn cefnogi dadetholfreinio fel cosb effeithiol.⁴⁴ Dadleuodd David Lidington, yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ei ddatganiad llafar ar ddedfrydu yn 2017 bod gan y DU draddodiad cyfansoddiadol balch ac mae'n amlwg yn iawn y dylem gyflawni ein rhwymedigaethau, ond mae cyhoedd Prydain yn disgwyl i ni gyflawni ein rhwymedigaethau, yn gyson â'r gwerthoedd Prydeinig o hawliau a chyfrifoldebau.⁴⁵ Felly, mae'r rhai sydd o'r farn hon yn dadlau mai mewn gwladwriaeth ddemocrataidd ddilys dinasyddion y gymdeithas honno sydd â'r hawl cyfunol eang i drefnu materion fel y maent yn dewis.

Dadleuon o blaid etholfreinio carcharorion sydd yn y ddalfa

- 3.35 Dadl 1. Mae pleidleisio yn hawl y mae'n rhaid i'r wladwriaeth ei amddiffyn Nid braint yw pleidleisio, ond hawl. Gan gytuno â'r datganiad hwn, mae'r sefydliad diwygio'r gyfraith a hawliau dynol JUSTICE wedi dadlau fel hawl y dylai'r dybiaeth

⁴¹ Nacro, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r Gymdeithas Llywodraethwyr Carchardai – Tystiolaeth Lafar (QC 126-136). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

⁴² Pwyllgor Cydraddoldebau a Hawliau Dynol yr Alban. Adroddiad Swydddogol: Sesiwn 5. (2017).

⁴³ Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

⁴⁴ Faulkner Rogers, J. a Warr, W. (2015). *Prisoner Voting: Via the 'civic death' penalty?* Llundain: YouGov UK.

⁴⁵ Y Gwir Anrhydeddus David Lidington AS, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Datganiad llafar i'r Senedd: *Secretary of State's oral statement on sentencing*. (2017).

fod o blaid etholfraint a chynhwysiant cyffredinol.⁴⁶ Gyda'r un farn hon, mae'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai wedi dweud na ellir gwobrwyo'r hawl i bleidleisio yn ddetholus i'r rhai y dyfarnwyd eu bod yn foesol weddus gan llywodraeth.⁴⁷ Felly, mae'n bosibl y gallai gwrthod y bleidlais i garcharorion heb reswm da danseilio cyfreithlondeb democrataidd. Os mai'r amcan gwleidyddol yw ehangu'r etholfraint i gynnwys cymaint o ddinasyddion â phosibl yn y broses wleidyddol - fel y nodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet Alun Davies yn ei ddatganiad sesiwn lawn diweddar ac a ddangosir yn y cynnig i ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed ac i wladolion tramor - yna mae gwrthod y bleidlais i unrhyw ran o'r boblogaeth, sy'n cynnwys carcharorion, yn mynd yn groes i'r dyhead hwn.

- 3.36 Er y gallai pleidleisiau i garcharorion fod yn amhoblogaidd gyda'r cyhoedd, mae Canolfan AIRE – elusen sy'n hybu ymwybyddiaeth o hawliau cyfraith Ewropeaidd ac yn cynorthwyo unigolion sydd wedi eu gwrthio i'r cyrion a'r rhai sydd mewn amgylchiadau agored i niwed arfer yr hawliau hynny – yn dadlau na all ymyrraeth mor ddifrifol â hawliau democrataidd gael ei chyfarwyddo gan fypwyon barn y cyhoedd, ond y dylai yn hytrach fod yn destun ystyriaeth ofalus gan gynrychiolwyr etholedig y bobl.⁴⁸ Dywedodd yr Uchel Lys yn Nairobi na all Comisiwn Etholiadol a Ffiniau Kenya fod yn weithredwr goddefol, ond mae'n rhaid iddo gymryd safbwynt gweithredol i sicrhau bod hawliau sylfaenol yn cael eu hybu a'u sicrhau.⁴⁹ Wrth drafod statws hawliau pleidleisio carcharorion, dywedodd Llys Cyfansoddiadol De Affrica nad yw pryder y gallai'r cyhoedd gamddeall gwir agwedd y llywodraeth at droseddu a throddwyr yn cynnig unrhyw sail ar gyfer eu hamddifadu o hawliau sylfaenol y maent yn eu cadw er gwaethaf eu carchariad.⁵⁰

3.37 Dadl 2. Mae safbwyntiau yn newid

Er bod y Blaid Geidwadol a Plaid Cymru yn cefnogi dadetholfreinio parhaus carcharorion, ceir arwyddion - yn wleidyddol ac ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol - bod y safbwyntiau traddodiadol ar bleidleisiau i garcharorion yn newid. Mae llywodraethau olynol - y llywodraeth Lafur, y llywodraeth glymblaid a'r llywodraeth Geidwadol - wedi methu â gwneud newidiadau cyfreithiol i fodloni dyfarniad Hirst

⁴⁶ JUSTICE – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0027). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

⁴⁷ Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. (2010). *Barred from Voting: The right to vote for sentenced prisoners*. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

⁴⁸ Canolfan Aire – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0042). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013)

⁴⁹ Kituo Cha Sheria yn erbyn y Comisiwn Etholiadol a Ffiniau Annibynnol, Deiseb Gyfansoddiadol 574 o 2012. (2013).

⁵⁰ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Atal Troseddu ac Ail-integreiddio Troseddwyr (NICRO), Erasmus a Schwagerl yn erbyn y Gweinidog dros Faterion Cartref (CCT 03/04 2004).

ac, felly, maent wedi cynnal dadetholfreinio awtomatig yr holl droseddwyd sydd wedi eu carcharu ac wedi derbyn euogfarn. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r gefnogaeth i etholfreinio gan Llafur Cymru, mae Ysgrifennydd Cartref yr Wrthblaid, Dianne Abbott, wedi dweud bod llys hawliau dynol Ewrop wedi bod yn dweud ers rhai blynyddoedd na allwn atal pob carcharor rhag cael y bleidlais a bod y Blaid Lafur yn credu yn y pen draw bod yn rhaid iddi gefnogi safbwynt llys hawliau dynol Ewrop.⁵¹ Yn yr un modd, er mai'r mantra traddodiadol yw bod y cyhoedd yn gwrthwynebu'n gryf ac i raddau helaeth iawn hawliau pleidleisio i garcharorion, mae'r adroddiad ymgynghori diweddar gan Lywodraeth Cymru, Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru, yn awgrymu y gallai hyn fod yn newid. Canfu'r adroddiad ymgynghori bod 50 y cant o ymatebwyr o blaid caniatáu i garcharorion bleidleisio mewn etholiadau lleol, gyda 47 y cant yn anghytuno â'r datganiad hwn a 3 y cant ddim yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall.⁵² Ar sail y canfyddiadau hyn, caiff y casgliad bod y cyhoedd, yng Nghymru o leiaf, yn gwrthwynebu'n gryf ac i raddau helaeth iawn pleidleisiau i garcharorion ei wanhau yn sylweddol.

3.38 Dadl 3. Mae pleidleisiau i garcharorion yn llwyddiannus mewn llawer o wladwriaethau ar draws y byd

Mae carcharorion wedi cael eu hetholfreinio yn llwyddiannus ar draws y byd, ac mae bron i bob un o'n cymdogion Ewropeaidd yn sicrhau pleidleisiau rhannol neu anghyfyngedig i garcharorion. O brofiad y gwladwriaethau hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth bod cynnwys carcharorion yn yr etholfraint yn tanseilio'r broses ddemocrataidd neu'n llygru etholiadau. Nid oes unrhyw dystiolaeth o flociau pleidleisio ymhlith carcharorion a daw'r unig arolwg cenedlaethol o ddewisiadau pleidleisio carcharorion – a gynhaliwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon – i'r casgliad mai'r blaid a ffafriwyd fwyaf ymhlith carcharorion oedd y blaid fwyaf poblogaidd ymhlith yr holl boblogaeth bleidleisio hefyd.⁵³

3.39 Mae'r Gymdeithas Llywodraethwyr Carchardai a'r Gynghrair Cyfiawnder Troseddol wedi nodi na fydd unrhyw broblemau ymarferol sylweddol yn deillio o ymestyn hawliau pleidleisio i garcharorion. Ail-bwysleisiwyd y safbwynt hwn gan yr adroddiad a luniwyd a'r dystiolaeth a gasglwyd gan Gyd-bwyllgor Dethol y DU ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft. Dywedodd Dr Eric Metcalfe,

⁵¹ Siddique, H. (2017). *Government reportedly planning to allow some UK prisoners to vote*. The Guardian. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/society/2017/oct/29/government-planning-to-allow-some-prisoners-to-vote-european-court-human-rights>

⁵² Llywodraeth Cymru. (2018). *Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Crynodeb o Ymatebion*. Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru.

⁵³ Behan, C. (2014). *Citizen convicts: Prisoners, politics and the vote*. Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion.

Cyfarwyddwr Polisi Hawliau Dynol Justice rhwng 2003 a 2011 nad oedd yn dychmygu ei bod yn anodd iawn o safbwynt gweinyddol ymestyn y system weinyddu sy'n bodoli eisoes o ran carcharorion remánd a thynnu carcharorion i mewn yn gyffredinol. Dywedodd ei bod yn debygol y byddai'r pentyrrau papur yn cynyddu, ond na allai ragweld y byddai'r costau gweinyddol yn cynyddu'n ddramatig.⁵⁴

3.40 Dadl 4. Marwolaeth ddinesig: Gosod carcharorion ar wahân

Mae gwrthod eu hawl i bleidleisio i garcharorion yn broses weithredol o wahanu, sy'n effeithio ar y dybiaeth o garcharorion pan fyddant wedi eu carcharu yn ogystal ag amharu ar eu hadsefydliad. Mae Rhwydwaith Gweithredu Cymdeithasol Caritas wedi dadlau bod dadetholfreinio yn ehangu'r bwlch rhwng carcharorion a gweddill cymdeithas ymhellach. Mae'n nodi dechrau is-ddosbarth gwleidyddol ac yn atgyfnerthu'r dybiaeth negyddol ymhlith y cyhoedd fel pobl ar wahân anhaeddiannol y dylid eu gosod y tu allan i'r broses etholiadol.⁵⁵ Mae Dr Peter Selby, cyn Esgob i Garchardai Ei Mawrhydi ac yna Llywydd Cyngor Cenedlaethol y Byrddau Monitro Annibynnol rhwng 2008 a 2013 wedi nodi mai dadetholfreinio carcharorion, yn y termau mwyaf eglur, yw cred cymdeithas nad ydych yn berson ar ôl derbyn euogfarn, eich bod yn rhywun na ddylai gael unrhyw lais o ran sut y bydd ein cymdeithas yn datblygu, na ddylai eich barn gyfrif dim. Dywed ei fod yn gyfystyr â rhoi rhywun y tu allan i'r gyfraith, ac felly sicrhau nad oes lle iddo o ran mynegi agwedd waraidd at y rhai sydd yn y carchar.⁵⁶ Fel y mae'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai wedi ei ddadlau, mae carcharorion, o gymryd eu hawl i bleidleisio, yn ystod cyfnod eu dedfryd o leiaf, yn feirwon o safbwynt cymdeithas.⁵⁷

3.41 Dadl 5. Dinasyddion â hawliau o hyd, os na rhyddid

Ystyrir yn eang bod y syniad o farwolaeth ddinesig yn gysyniad hynafiaethol a hen ffasiwn, sy'n cyferbynnu'n llwyr â'r egwyddorion modern o lywodraeth gynrychiadol gyffredinol.⁵⁸ Er bod carcharorion yn colli eu hawl i ryddid pan fyddant yn cael eu carcharu, maent yn dal i fod yn ddinasyddion ac, fel pawb arall, mae carcharorion

⁵⁴ Pleidleisio gan Garcharorion sydd wedi Derbyn Euogfarn: Crynodeb o Dystiolaeth. Pumed Adroddiad Sesiwn 2010-11. Tŷ'r Cyffredin: Y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. (2011).

⁵⁵ Rhwydwaith Gweithredu Cymdeithasol Caritas (CSAN), asiantaeth gweithredu cartref Adran Cyfrifoldeb a Dinasyddiaeth Gristnogol Cynhadledd Esgobion a Chynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0003). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

⁵⁶ Datganiad i'r wasg yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai ac Unlock. (2004). *Barred From Voting: Coalition calls for prisoners to be given the vote*.

⁵⁷ Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. (2010). *Barred from Voting: The right to vote for sentenced prisoners*. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

⁵⁸ Behan, C. (2015). *Punishment, Prisoners and the Franchise*. Papurau Gwaith What is Justice? Cynghrair Howard 20/2015.

yn parhau i feddu ar urddas dynol. Er bod pobl yn gallu ac yn ymddwyn mewn ffordd anurddasol, mae Rhwydwaith Gweithredu Cymdeithasol Caritas wedi penderfynu bod urddas dynol yn anwahanadwy ac yn anostyngadwy o bersonau dynol. Mae'n rhaid parchu urddas dynol; nid y wladwriaeth sy'n gyfrifol amdano.⁵⁹ Gan wneud dyfarniad pwysig ar hawliau pleidleisio i garcharorion ym 1999, dywedodd Llys Cyfansoddiadol De Affrica bod pleidlais pob un dinesydd yn arwydd o urddas a hunaniaeth. Mae'n dweud yn gwbl lythrennol bod pawb yn cyfrif.⁶⁰

3.42 Mae etholfreinio carcharor yn golygu adfer cyffredinolrwydd a chydymddibyniaeth dinasyddiaeth ac urddas dynol. Mewn urddas cyffredinol y mae hawliau a rhwymedigaethau, gan gynnwys yr hawl i bleidleisio, wedi eu seilio yn y pen draw. Mae carcharorion yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r amddiffyniad a gynigir gan ddeddfau'r wlad ac yn dal wedi eu rhwymo gan rwymedigaethau a orfodir gan y gyfraith, gan gynnwys atebolrwydd parhaus o ran trethi ar enillion a chynilion. Mae'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai wedi dadlau os yw carcharorion yn fwy o safbwynt dinesig pan ddaw i gyfraniadau ariannol, yna dylid eu trin yn yr un ffordd pan ddaw i hawliau dynol sylfaenol.⁶¹

3.43 Dadl 6. Tanseilio'r contract cymdeithasol
Fel dinasyddion ag urddas dynol, mae carcharorion yn dal i fod yn rhan o ddemocratiaeth. Dywedodd Goruchaf Lys Canada yn achos *Sauvé* yn erbyn Canada 2002 bod gwrthod yr hawl i garcharorion mewn penydfeydd bleidleisio yn fwy tebygol o anfon negeseuon sy'n tanseilio parch at y gyfraith a democratiaeth na negeseuon sy'n cynyddu'r gwerthoedd hynny. Mae dilysrwydd y gyfraith a'r rhwymedigaeth i ufuddhau i'r gyfraith yn llifo'n uniongyrchol o hawl pob dinesydd i bleidleisio.⁶² Mae dadetholfreinio carcharorion yn tanseilio'r contract cymdeithasol, sy'n contract a gytunir ar y cyd ac yn gyffredinol ac yn ganolog i ddemocratiaeth fodern. Pan fydd y contract cymdeithasol yn cael ei ddirywio, ceir cwestiwn ynghylch a ddylai unigolion fod wedi eu rhwymo i ufuddhau i gyfreithiau a grëwyd gan lywodraethau na roddwyd yr awdurdod iddynt lywodraethu drostynt.⁶³ Mae gwrthod yr hawl i bleidleisio a chryfhau'r contract cymdeithasol yn tanseilio

⁵⁹ Rhwydwaith Gweithredu Cymdeithasol Caritas (CSAN), asiantaeth gweithredu cartref Adran Cyfrifoldeb a Dinasyddiaeth Gristnogol Cynhadledd Esgobion a Chynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0003). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

⁶⁰ Llys Cyfansoddiadol De Affrica (1 Ebrill 1999). August ac un arall yn erbyn y Comisiwn Etholiadol ac Eraill CCT8/99.

⁶¹ Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. (2010). *Barred from Voting: The right to vote for sentenced prisoners*. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

⁶² Goruchaf Lys Canada. (31 Hyd 2002). Richard *Sauvé* yn erbyn Twrnai Cyffredinol Canada ac Eraill 2002 SCC 68.

⁶³ Behan, C. (2015). *Punishment, Prisoners and the Franchise*. Papurau Gwaith What is Justice? Cynghair Howard 20/2015.

cyfreithlondeb ac effeithiolrwydd democrataidd y llywodraeth ac yn dileu rheolaeth y gyfraith.

3.44 Dadl 7. Adsefydlu, cyfrifoldeb a chynhwysiant

Nid yn unig y mae rhoi hawliau pleidleisio i garcharorion yn adfer y contract cymdeithasol, ond mae hefyd o bosibl yn elwa adsefydliad. Nid bod yn wan tuag at droseddu na'r troseddwr yw amcan etholfreinio. Yn hytrach, gall rhoi'r hawl i garcharorion bleidleisio gyfrannu at eu llwybr gwella trwy ddangos iddynt bod ganddynt gyfran barhaus mewn cymdeithas fel – yng ngeiriau'r cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder Michael Gove – dinasyddion sy'n gallu cyfrannu.⁶⁴ O safbwynt ymarferol a symbolaidd, mae pleidleisio yn cynyddu cyfrifoldeb dinesig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i garcharorion wynebu eu swyddogaeth eu hunain mewn cymdeithas ac i wneud cyfraniad gweithredol trwy gyflawni dyletswydd ddinesig. Mae gwrthod eu hawl pleidleisio i garcharorion yn blaen-gau ffordd bwysig o addysgu gwerthoedd democrataidd a chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae Rheolau Nelson Mandela y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion yn datgan y dylai cyfundrefn carchar geisio sicrhau bod unrhyw wahaniaeth rhwng bywyd yn y carchar a bywyd rhydd cyn lleied â phosibl sy'n tueddu i leihau cyfrifoldeb y carcharorion; a dylai'r driniaeth o garcharorion bwysleisio eu rhan barhaus yn y gymuned yn hytrach na'u gwaharddiad ohono.⁶⁵

3.45 Un ffactor pwysig i leihau aildroseddu yw cynnal cysylltiad â theulu ac â chymuned. Gall pleidleisio helpu i hwyluso perthynas gyda'r gymuned leol y bydd carcharor yn dychwelyd iddi yn y pen draw. Mae Paul McDowell, cyn Brif Arolygydd yr elusen cyfiawnder cymdeithasol Nacro a'r cyn Brif Arolygydd Carchardai, wedi dadlau y gall rhoi'r bleidlais i garcharorion eu tynnu yn ôl i gymdeithas, rhoi cyfran iddynt yn y gymdeithas honno, a lleihau teimladau o fod wedi eu hallgau yn y pen draw.⁶⁶ Gall dadetholfreinio fod yn wrthgynhyrchol i ail-integreiddio, felly. Mae Rheolau Gofynnol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion - a gydnabyddir yn eang fel y glasbrint ar gyfer rheoli carchardai - yn datgan y gellid cyflawni diben carcharu dim ond os caiff ei ddefnyddio i gefnogi, cyn belled â phosibl, ailintegreiddiad

⁶⁴ Gove, M. (2015). *The Treasure in the Heart of Man - Making prisons work*. Araith a wnaed yn y Gynghrair Dysgu Carcharorion, 17 Gorffennaf.

⁶⁵ Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Rheolau Gofynnol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion (Rheolau Nelson Mandela): penderfyniad / mabwysiadwyd gan y Cynulliad Cyffredinol, 8 Ionawr 2016, A/RES/70/175.

⁶⁶ Nacro, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd a'r Gymdeithas Llywodraethwyr Carchardai – Tystiolaeth Lafar (QC 126-136). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

unigolion o'r fath i gymdeithas pan fyddant yn cael eu rhyddhau fel y gallant fyw bywyd hunangynhaliol lle maent yn cydymffurfio â'r gyfraith.⁶⁷

3.46 Dadl 8. Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Heb yr hawl i bleidleisio, nid oes gan garcharorion lais ffurfiol, trefnus a gwarchodedig. Mae sefyllfa a chyflwr carchardai, yn enwedig y cyfraddau uchel o hunan-niweidio a hunanladdiad yn fater gwleidyddol a chymdeithasol allweddol mewn cymdeithas heddiw. Ar ôl tynnu hawliau pleidleisio yn ôl, mae'r carcharorion yn colli ffordd hanfodol o gofrestru sylwadau a phroblemau gyda'r llywodraeth, gyda'r canlyniad bod carcharorion yn cael eu gadael heb lawer o allu, os o gwbl, i herio eu sefyllfa sy'n gwaethygu. Mae etholfreinio o leiaf rhai carcharorion yn cynnig llwybr pwysig ar gyfer sicrhau bod materion cymdeithasol a gwleidyddol pwysig yn y carchardai presennol yn derbyn y sylw sydd eu hangen arnynt ar frys. Mae'r cyn Ysgrifennydd Cartref Ceidwadol, yr Arglwydd Hurd, wedi dadlau pe bai gan garcharorion y bleidlais yna byddai ASau yn cymryd llawer iawn mwy o ddiddordeb yn yr amodau mewn carchardai.⁶⁸ Hefyd, mae cynnwys y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol yn y broses ddemocrataidd yn cynnig llwybr newydd ar gyfer hysbysu'r cyhoedd a chyfoethogi dadleuon polisi ynghylch y system gosbi. Bydd etholfreinio yn ysgogi dadl gyhoeddus gytbwys am ddiwygio'r system gosbi ac yn arwain at amgylchedd mwy trugarog mewn carchardai.⁶⁹

3.47 Dadl 9. Mae dadetholfreinio yn methu â sicrhau'r amcan o gosbi

Polisi cosbi yw dadetholfreinio carcharorion yn bennaf, sydd â'r nod o fodloni galw'r cyhoedd am ddial. Mae'n methu â chyflawni amcanion y system droseddol sydd â'r nod o gynnal y drefn gyhoeddus a/neu gynyddu diogelwch y cyhoedd. Mae Nacro, yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai a'r Gynghrair Cyfiawnder Troseddol i gyd yn nodi nad yw dadetholfreinio yn gweithredu fel arf ataliol effeithiol ac nad yw'n cael ei ystyried fel cosb gan garcharorion. Mae'r Gynghrair Cyfiawnder Troseddol yn hyrwyddo'r ddadl hon ymhellach, gan nodi bod cymryd hawliau pleidleisio i ffwrdd yn cyflawni dim diben defnyddiol ac yn niweidio ymdrechion adsefydlu ac yn effeithio ar gyfraddau aildroseddu trwy stigmatiddio a dieithrio.⁷⁰ Nid yw atal yr hawl i bleidleisio yn agwedd hanfodol nac angenrheidiol ar gosb droseddol, ond, fel y dywed yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, mae'n gosb ychwanegol

⁶⁷ Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Rheolau Gofynnol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion (Rheolau Nelson Mandela): penderfyniad / mabwysiadwyd gan y Cynulliad Cyffredinol, 8 Ionawr 2016, A/RES/70/175.

⁶⁸ Leech, M a Shepherd, J, golygyddion (2003). *Prisons Handbook 2003/4*. Manceinion: Gwasg MLA.

⁶⁹ Behan, C. (2015). *Punishment, Prisoners and the Franchise*. Papurau Gwaith What is Justice? Cynghrair Howard 20/2015.

⁷⁰ Y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0002). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

anghyfiawn a orfodir ar yr adeg ddedfrydu nad oes ganddi unrhyw gysylltiad ag achosion troseddu.⁷¹

3.48 Dadl 10. Dosbarthiad anghyfartal o ddadetholfreinio fel cosb

Yn fwy na hynny, mae dadetholfreinio yn anghyson: nid y ddedfryd a gyflwynir sy'n penderfynu ar golli'r hawl i bleidleisio, ond amgylchiadau ac amseriadau'r carcharu.⁷² Gallai carcharor sy'n cyflawni dedfryd tymor byr golli ei bleidlais dim ond oherwydd bod ei ddedfryd yn cyd-daro â chyfnod etholiad, ac efallai y bydd carcharor arall â'r un ddedfryd yn gallu pleidleisio oherwydd i'w ddedfryd ddechrau ychydig fisoedd, wythnosau neu ddiwrnodau yn gynharach. Yn yr un modd, efallai y bydd carcharor sy'n cyflawni dedfryd hwy o dair blynedd yn gallu pleidleisio os bydd ei ddyddiad rhyddhau yn cyd-daro â chyfnod yr etholiad, tra gallai carcharor sy'n cyflawni dedfryd o saith diwrnod golli ei hawl os bydd yr wythnos honno'n cyd-daro â chyfnod yr etholiad. Nododd yr Adroddiad Pleidleisio gan Garcharorion sydd wedi Derbyn Euogfarn 2010-2011 broblem gyda'r natur awtomatig: mae carcharor yn colli'r hawl ar unwaith ar yr adeg ddedfrydu a bydd yn adennill yr hawl ar unwaith pan fydd yn gadael y carchar sail trwydded neu barôl. Dadleuodd Aidan O'Neil, Cwnsler y Frenhines ym marrau Lloegr a'r Alban, a roddodd dystiolaeth lafar i hysbysu'r adroddiad, bod y natur awtomatig hon yn awgrymu nad yw'r hawl i bleidleisio yn cael ei gymryd o ddifrif.⁷³

3.49 Dadl 11. Dehongliadau Cymdeithasol o Droseddoldeb

Mae'r mater o bleidleisiau i garcharorion yn ganolog i'r mater ynghylch y rhai y rhoddir grym iddynt gymryd rhan yn y broses wleidyddol a'r rhai sydd, yn fwriadol ac yn anfwriadol, wedi eu dadrymuso.⁷⁴ I raddau helaeth iawn, mae carcharorion yn dod o ardaloedd economaidd-gymdeithasol tlotach a grwpiau hiliol lleiafrifol, cymunedau sydd eisoes wedi eu tangynrychioli yn y maes gwleidyddol.⁷⁵ Nododd canfyddiadau gan Gymdeithas Hansard, yn eu hadroddiad *Audit of Political Engagement 14: The 2017 Report* blynyddol, bod gan ddosbarthiadau cymdeithasol llai cyfoethog, y rhai heb gymhwyster ffurfiol a'r rhai o grwpiau hiliol ac ethnig lleiafrifol, o'u cymharu â'r lefelau cyfartalog ar draws cymdeithas, ddiffyg

⁷¹ Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. (2010). *Barred from Voting: The right to vote for sentenced prisoners*. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

⁷² Rhwydwaith Gweithredu Cymdeithasol Caritas (CSAN), asiantaeth gweithredu cartref Adran Cyfrifoldeb a Dinasyddiaeth Gristnogol Cynhadledd Esgobion a Chynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0003). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

⁷³ Pleidleisio gan Garcharorion sydd wedi Derbyn Euogfarn: Crynodeb o Dystiolaeth. Pumed Adroddiad Sesiwn 2010-11. Tŷ'r Cyffredin: Y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. (2011).

⁷⁴ Cheney, D. (2008) 'Prisoners as Citizens in a Democracy', Howard Journal, 47, 2, tudalennau 134–45.

⁷⁵ Behan, C. (2015). *Punishment, Prisoners and the Franchise*. Papurau Gwaith What is Justice? Cynghrair Howard 20/2015.

gwybodaeth wleidyddol ac maent yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.⁷⁶ Felly, mae dadetholfreinio yn cyfrannu at ymylu cynyddol y grwpiau economaidd-gymdeithasol a'r cymunedau hyn. O safbwynt egalitariaidd, nid yn unig y mae etholfreinio carcharorion yn ffafriol ond mae hefyd yn angenrheidiol. Mae'r carchar o bosibl yn cynnig lle o hybu gwybodaeth a chyfranogiad gwleidyddol ymhlith grwpiau sydd â diffyg gwybodaeth a gweithgarwch yn y maes hwn yn draddodiadol ac, felly, rhoi llais iddynt yn y maes gwleidyddol.

Casgliad

- 3.50 Mae achos pleidleisiau i garcharorion yn amlwg yn fater hynod emosiynol a gwleidyddol, sy'n manteisio ar lawer o ddadleuon moesol a chymdeithasol. O ystyried mai'r ddiofyn yn y DU yn draddodiadol fu dadetholfreinio carcharorion sydd wedi derbyn euogfarn yn y ddalfa, mae'r dadleuon o blaid pleidleisiau i garcharorion yn tueddu i fod yn fwy datblygedig a blaengar. Bu'n rhaid i'r rhai sy'n cefnogi etholfreinio carcharorion gyfiawnhau eu safbwynt, gan fynegi'n eglur ac yn gryf pam mae angen newid i'r sefyllfa bresennol a bod cyfiawnhad moesol i hynny. Yn ei hanfod, byddwn yn dadlau bod y ddau safbwynt hollol wahanol ar bleidleisiau i garcharorion yn deillio o'r hyn y mae rhywun yn ei gredu yw sefydliad cosbi: lle i gosbi neu lle i adsefydlu. Os ystyrir mai lle i gosbi yw carchar yna, yna mae'r golled awtomatig ac angenrheidiol o hawliau pleidleisio o ganlyniad i weithgarwch trosedd eich hun yn atodol i'r gosb o garchariad. Ar y llaw arall, os ystyrir bod carchardai yn fannau ar gyfer adsefydlu, lle dylid rhoi'r modd i droseddwyd ddychwelyd i fywyd arferol, yna, trwy annog cyfrifoldeb a hybu cynhwysiant a chyfranogiad, gall pleidleisio fod yn rhan o raglen adsefydlu effeithiol ac, felly, dylai carcharorion gadw eu hawliau pleidleisio pan fyddant yn y ddalfa.
- 3.51 Mae'r cynnig gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu cytundeb eang â'r dadleuon o blaid pleidleisiau i garcharorion ac yn cydnabod yn eglur y problemau gyda gwahardd pleidleisiau i garcharorion yn awtomatig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r cynnig yn bwriadu etholfreinio pob carcharor heb roi unrhyw ystyriaeth i ddifrifoldeb y drosedd. Wrth fapio'r dadleuon o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion, mae'n eglur bod y cynnig a wnaed - trwy etholfreinio'r carcharorion hynny y mae eu dyddiad rhyddhau disgwylidig yn ystod y tymor swydd sy'n cael ei ethol - yn cydbwysu'r ddadl bod pleidleisio yn cyfrannu'n gadarnhaol at adsefydliad

⁷⁶ Cymdeithas Hansard. (2017). *Audit of Political Engagement 14: The 2017 Report*. Ar gael yn: https://assets.contentful.com/xkbace0jm9pp/1vNBTsOEiYciKEAqWAmEKi/c9cc36b98f60328c0327e313ab37ae0c/Audit_of_political_Engagement_14__2017_.pdf

carcharor gyda'r ddadl bod dadetholfreinio yn gosb effeithiol ac angenrheidiol am y troseddau mwyaf difrifol.

4. Dysgu gan Wledydd Eraill

- 4.1 Mae'r ddadl ynghylch pleidleisiau i garcharorion yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r DU. Mae llawer o wledydd, ledled Ewrop ac ymhellach i ffwrdd, wedi ystyried y mater o bleidleisiau i garcharorion yn y degawd neu ddau ddiwethaf. Hefyd, daethpwyd ag achosion o bob cwr o Ewrop i'r Llys Hawliau Dynol Ewrop i herio dadetholfreinio fel methiant i sicrhau hawliau dynol. Yn yr holl achosion hyn - Frodl yn erbyn Awstria yn 2010 a Scoppola yn erbyn yr Eidal yn 2012 yn fwyaf diweddar - mae'r Uchel Siambr wedi cadarnhau'r dyfarniad a wnaed ganddynt yn achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig yn 2005, gan nodi bod gwaharddiad llwyr yn gyfystyr â chyfyngiad awtomatig ac anwahaniaethol ar hawliau pleidleisio carcharorion sy'n mynd yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ledled Ewrop, felly, mae llawer o wledydd wedi rhoi sylw diweddar i'w deddfwriaeth yn ymwneud â phleidleisiau i garcharorion, gyda'r canlyniad bod mwyafrif gwledydd Ewrop heddiw yn caniatáu pleidleisiau i garcharorion ar ryw ffurf (gweler tabl 1).

Gwlad	Hawl Llawn neu Rannol	Gwaharddiad (cyfreithiol neu mewn ffaith)	Sylw
Albania	✓		
Andorra		✓	
Armenia		✓	
Awstria	✓		Ar ôl colli achos gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop yn 2010, pasiwyd deddfau gan Awstria i etholfreinio carcharorion.
Azerbaijan	✓		
Gwlad Belg	✓		Disgresiwn barnwrol i etholfreinio troseddwyr sydd wedi eu dedfrydu i garchar am oes neu sy'n cyflawni dedfryd o fwy na deng mlynedd, naill ai'n barhaol neu am gyfnod rhwng 20 neu 30 mlynedd. Disgresiwn barnwrol i etholfreinio'r rhai sydd wedi eu carcharu am rhwng pump a deng mlynedd neu droseddwyr sydd wedi camymddwyn naill ai'n barhaol neu rhwng 10 ac 20 mlynedd.
Bosnia- Herzegovina	✓		
Bwlgaria		✓	
Croatia	✓		
Cyprus	✓		Y safbwynt diodyn yw bod gan bob carcharor

Gwlad	Hawl Llawn neu Rannol	Gwaharddiad (cyfreithiol neu mewn ffaith)	Sylw
			hawliau pleidleisio, er y gellir tynnu'r rhain yn ôl yn rhan o'r ddedfryd.
Y Weriniaeth Tsiec	✓		
Denmarc	✓		
Estonia		✓	
Y Ffindir	✓		
Ffrainc	✓		Caiff dadetholfreinio ei gymhwyso fel cosb ychwanegol gan y llysoedd yn ôl disgresiwn y barnwr, hyd yn oed pan fo'n ganlyniad gorfodol trosedd benodedig.
Georgia		✓	
Yr Almaen	✓		Bydd hawliau pleidleisio yn cael eu colli pan fo trosedd yn targedu uniondeb y wladwriaeth neu'r drefn ddemocrataidd gyfansoddiadol.
Gwlad Groeg	✓		Mae categorïau penodol o garcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ac wedi eu dedfrydu yn colli eu hawl i bleidleisio yn rhan o'u fforffediad o "hawliau gwleidyddol" yn fwy cyffredinol. Mae'r rhai sy'n cael eu dedfrydu i garchar am oes yn colli eu hawl i bleidleisio yn barhaol.
Hwngari		✓	
Gwlad yr Iâ	✓		Colli hawliau pleidleisio os bydd wedi cyflawni trosedd (a ystyrir yn drosedd fwy difrifol na chamymddygiad) pan fo'r diffynnydd yn ddeunaw mlwydd oed ar yr adeg y cyflawnwyd y drosedd a phan fo'r ddedfryd o leiaf pedair blynedd o hyd.
Iwerddon	✓		Cyflwynwyd pleidleisiau i garcharorion yn 2006.
Yr Eidal	✓		Pan gaiff ei gymhwyso, mae dadetholfreinio, a all fod yn barhaol neu dros dro, yn digwydd yn unol â'r gyfraith yn hytrach na disgresiwn barnwrol. Mae dedfrydau oes a dedfrydau o garchar sy'n fwy na phum blynedd yn arwain at ddadetholfreinio parhaol, ac mae dedfryd o garchar rhwng tair blynedd a phum mlynedd yn arwain at ddadetholfreinio am bum mlynedd. Hefyd, gellir dadetholfreinio troseddau penodedig penodol neu droseddwyd mynych.
Latfia	✓		Cyflwynwyd pleidleisiau i garcharorion yn 2008 yn dilyn dyfarniad Hirst.
Liechtenstein	✓		Cyflwynwyd pleidleisiau i garcharorion yn rhannol yn dilyn dyfarniad Hirst.
Lithwania	✓		

Gwlad	Hawl Llawn neu Rannol	Gwaharddiad (cyfreithiol neu mewn ffaith)	Sylw
Lwcsembwrg	✓		Mae carcharorion yn cadw hawliau pleidleisio oni bai y penderfynir yn wahanol gan y llysoedd. Fodd bynnag, os bydd dedfryd o fwy na deng mlynedd caiff hawliau pleidleisio eu colli yn awtomatig ac os bydd dedfryd rhwng pump a deng mlynedd gall y barnwr wahardd carcharor rhag pleidleisio yn ystod cyfnod y ddedfryd, am 10-20 mlynedd neu am oes.
Macedonia	✓		
Malta	✓		Yn parhau i fod wedi eu hetholfreinio os ydynt yn cyflawni dedfryd o flwyddyn neu lai neu wedi eu carcharu oherwydd methiant i dalu dirwy.
Moldofa	✓		Mae carcharorion wedi meddu ar yr hawl i bleidleisio ers 2010, oni bai fod y llysoedd wedi penderfynu'n wahanol.
Monaco	✓		Gall pob carcharor bleidleisio mewn egwyddor, ond gellir diddymu'r hawl hwn mewn achosion unigol.
Montenegro	✓		
Yr Iseldiroedd	✓		Yn unol â disgresiwn barnwrol llawn, gellir diddymu hawliau pleidleisio os yw'r ddedfryd am flwyddyn neu fwy a phan fo'r drosedd wedi effeithio ar sylfeini'r wladwriaeth. Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw'r llysoedd wedi arfer yr hawl hwn ers cryn amser.
Norwy	✓		Mae gan bob carcharor hawliau pleidleisio, ond gellir diddymu'r hawl hwn mewn achosion o fradwriaeth, twyll etholiadol neu ddiogelwch gwladol. Ac eto prin y caiff ei arfer.
Gwlad Pŵyl	✓		Yn unol â disgresiwn y barnwr, gellir dadetholfreinio troseddwyd os cyflawnwyd y drosedd gyda bwriad a phan fydd wedi cael ei ddedfrydu am fwy na thair blynedd o garchar.
Portiwgal	✓		Mae gan garcharorion hawl i bleidleisio oni bai eu bod wedi cael eu hamddifadu o'u hawliau gwleidyddol yn rhan o'u dedfryd.
Rwmania	✓		Gellir etholfreinio carcharor sydd wedi ei ddedfrydu pan fynegir hynny'n eglur gan y llys neu'n cyflawni mwy na dwy flynedd o garchar.
Rwsia		✓	
San Marino		✓	
Serbia	✓		
Slofacia	✓		Mae dadetholfreinio yn seiliedig ar hyd dedfryd ac mae'n weithredol yn ystod yr holl ddedfryd ond nid yw'n parhau ar ôl rhyddhad.

Gwlad	Hawl Llawn neu Rannol	Gwaharddiad (cyfreithiol neu mewn ffaith)	Sylw
Slofenia	✓		
Sbaen	✓		
Sweden	✓		
Y Swistir	✓		
Twrci	✓		Caiff carcharorion bleidleisio os ydynt yn cyflawni dedfryd o lai na blwyddyn, os ydynt wedi eu carcharu cyn achos llys ac os ydynt wedi cyflawni mân droseddau.
Ukrain	✓		Caniatâd i bleidleisio mewn etholiadau arlywyddol a seneddol ond nid etholiadau lleol, gan nad ydynt yn cael eu hystyried yn aelodau o'r gymuned leol pan fyddant yn y carchar.

Tabl 1: Hawliau Pleidleisio Carcharorion yng Ngwledydd Cyngor Ewrop.⁷⁷

- 4.2 Er bod llond llaw o wladwriaethau sy'n caniatáu pleidleisiau i garcharorion ar sail gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o wledydd yn gosod cyfyngiadau ar yr hawl hwn ar y cyfan ac yn dadetholfreinio carcharorion o dan amgylchiadau penodol. Ceir dau ddull a ddefnyddir i arddel cyfyngiadau ar hawliau pleidleisio carcharorion: mae'r dull cyntaf yn dadetholfreinio carcharorion yn seiliedig ar hyd y ddedfryd ac mae'r ail ddull yn dadetholfreinio carcharorion yn seiliedig ar y math o drosedd a gyflawnwyd. Hefyd, er y darperir ar gyfer amgylchiadau dadetholfreinio yng nghyfraith rhai awdurdodaethau, ceir disgresiwn barnwrol llwyr mewn gwladwriaethau eraill o ran dadetholfreinio.
- 4.3 Mae adran hon yr adroddiad yn ystyried, yn gyntaf, y dull seiliedig ar drosedd o ddadetholfreinio, gan edrych yn benodol ar achos yr Almaen. Mae'r cynnig gan Lywodraeth Cymru, ar y llaw arall, wedi ei ysgogi gan y dull hyd dedfryd, ond mae angen ystyried yr opsiwn arall a mapio rhinweddau a manteision y dull hwn. Yna bydd y dull seiliedig ar drosedd (cyfyngedig) sy'n weithredol yn y DU yn cael ei drafod, lle mae dadetholfreinio awtomatig yn digwydd o dan ddeddfwriaeth oherwydd natur y drosedd a gyflawnwyd. Nid yw cynnig Cymru yn bwriadu diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol lle mae troseddau penodol, yn seiliedig ar gamymddygiad etholiadol, yn arwain at ddadetholfreinio awtomatig am bum mlynedd o ddyddiad yr euogfarn, ni waeth beth yw hyd y ddedfryd.

⁷⁷ Addaswyd o: Horne a White. (2015). *Prisoner's Voting Rights (2005 to May 2015)*. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin SN01764. Ar gael yn: <http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN01764>

- 4.4 Mae'r adroddiad yn symud ymlaen wedyn i ystyried dwy astudiaeth achos: y cyntaf o Weriniaeth Iwerddon a'r ail o Awstralia. Gall deall sut y mae gwladwriaethau eraill wedi etholfreinio carcharorion a'r dull ymarferol y maent wedi ei roi ar waith i sicrhau y gall carcharorion arfer hawliau pleidleisio gynnig modelau posibl i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth ddatblygu ei pholisi ei hun, yn ogystal â rhoi rhybudd ymlaen llaw am heriau posibl o ran sicrhau hawliau pleidleisio carcharorion yn ymarferol.

Dull Seiliedig ar Drosedd o Ymdrin â Phleidleisiau i Garcharorion

- 4.5 Gellir mabwysiadu dau ddull wrth gyfyngu ar hawl carcharor i bleidleisio. Yn gyntaf, gellir seilio cyfyngiadau ar hyd y ddedfryd ac, felly, difrifoldeb y drosedd, sef y dull a fabwysiadwyd yn Awstralia a'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig. Fel arall, gall cyfyngiadau fod o ganlyniad i'r fath o drosedd a gyflawnir, lle mae dadetholfreinio yn gosb sy'n deillio'n awtomatig o droseddau penodol fel y darperir ar ei gyfer yn y ddeddfwriaeth berthnasol neu sy'n codi yn sgil disgresiwn barnwrol yn dilyn dedfryd am drosedd benodedig. I raddau helaeth iawn, y tueddiad yw i'r troseddau sy'n arwain at golli hawliau pleidleisio fod y rhai lle mae'r wladwriaeth neu'r drefn ddemocrataidd wedi cael eu targedu neu eu niweidio. Pan fydd gwladwriaeth yn cyflwyno cyfyngiad ar hawl pleidleisio carcharor yn seiliedig ar y drosedd a gyflawnwyd, gall y ddeddfwriaeth gyfyngu ar y potensial ar gyfer dadetholfreinio yn seiliedig ar hyd y ddedfryd a roddwyd gan y llysoedd. Yn yr Iseldiroedd, efallai y bydd y llysoedd yn cymryd hawl i bleidleisio oddi wrth garcharor sydd wedi ei ddedfrydu i flwyddyn neu fwy o garchar pan fo'r drosedd wedi ei chyflawni yn erbyn y wladwriaeth ac, yn yr un modd, ceir deddfwriaeth yn Norwy sy'n caniatáu dadetholfreinio mewn achos o fradwriaeth, twyll etholiadol neu ddiogelwch gwladol.⁷⁸ Yn yr Almaen, lle mae pawb sydd wedi eu carcharu yn cadw eu hawliau pleidleisio, mae dyfarniadau dadetholfrenio wedi eu cadw mewn deddfwriaeth fel cosb atodol sy'n gymwys i gategorïau penodol o droseddau yn unig, fel gwrthryfel, bradwriaeth a thwyll etholiadol. Mae dadetholfreinio yn yr Almaen yn gymwys i ddedfrydau o fwy na blwyddyn o garchar yn unig, ac mae deddfwriaeth yn pennu y gall carcharor gael ei ddadetholfreinio am gyfnod o ddwy i

⁷⁸ Horne, A. a White, I. (2015). *Prisoner's Voting Rights (2005 to May 2015)*. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin SN01764. Ar gael yn: <http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN01764>

bum mlynedd yn unig ac mae'n rhaid i ddiddymu eu hawl pleidleisio fod yn ymateb i'r drosedd fel y gorchmynnwyd yn benodol gan y barnwr dedfrydu.⁷⁹

Ymateb Cyfiawn a Phriodol

- 4.6 Ystyrir bod dadetholfrenio fel ymateb i fath penodol o drosedd yn gyfiawn a phriodol yn gyffredinol. Hefyd, mae'n bosibl y gallai dadetholfrenio, fel cosb atodol, fod yn arf ataliol pan fo'n cyd-fynd â'r drosedd a gyflawnwyd. Felly, o dan amgylchiadau lle mae troseddwr wedi ymosod ar strwythur democrataidd y wladwriaeth byddai'n ymddangos yn gyfiawn wedyn ei fod yn cael ei gosbi trwy ei amddifadu o'i hawl i bleidleisio, sef yr arf democrataidd sydd uwchlaw popeth. Ni ddaethpwyd ag unrhyw achosion perthnasol i Lys Hawliau Dynol Ewrop yn erbyn gwladwriaeth yn cyfyngu ar etholfrenio o dan ddull seiliedig ar drosedd.⁸⁰ Gellir tybio'n rhesymol felly bod dull seiliedig ar drosedd yn cyd-fynd â safbwynt Llys Hawliau Dynol Ewrop fel y nodwyd yn nyfarniad Hirst oherwydd, yn gyntaf, nad yw'n waharddiad llwyr awtomatig ac, yn ail, ei fod yn cymryd yr egwyddor o gymesuredd i ystyriaeth trwy gyfateb dadetholfrenio i'r drosedd a gyflawnwyd.⁸¹ Hefyd, cymeradwywyd dull seiliedig ar drosedd yr Almaen o ymdrin â phleidleisiau i garcharorion gan Gyngor Ewrop fel dull sy'n deg ac yn gymesur.
- 4.7 Er y gallai dull seiliedig ar drosedd o ymdrin â phleidleisiau i garcharorion fod yn gyfiawn ac yn gyfreithlon, mae'n amheus pa un a yw wir yn gweithredu fel arf ataliol gan nad yw'n gyffredin. Gan fod dull seiliedig ar drosedd yn tueddu i orfodi dadetholfreiniad yn rhan o'r gosb am nifer benodol iawn o droseddau nad ydynt yn cael eu cyflawni yn aml, ceir tueddiad mewn awdurdodaethau sy'n cymhwyso dull cwbl seiliedig ar drosedd o gael nifer gyfyngedig o ddyfarniadau llys lle mae dadetholfrenio yn rhan o'r ddedfryd. Mae gan y llys ddisgresiwn barnwrol llawn yn yr Iseldiroedd a Norwy i gymhwyso deddfwriaeth yn ymwneud â dadetholfrenio carcharorion ac anaml, yn y naill wlad neu'r llall, y defnyddir deddfwriaeth sy'n caniatáu dadetholfrenio yn weithredol.⁸² A chyfartaledd o ddim ond 1.4 o ddedfrydau y flwyddyn yn yr Almaen sy'n cynnwys y diddymiad o'r hawl i bleidleisio. Er bod hyn yn codi cwestiynau ynghylch y dull seiliedig ar drosedd fel arf ataliol

⁷⁹ Demleitner, N. V. (2009). *U.S. Felon Disenfranchisement: Parting Ways with Western Europe*. Yn: A. C. Ewald a B. Rottinghaus, golygyddion. *Criminal Disenfranchisement in an International Perspective*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt. 79-108.

⁸⁰ Scordia, V. (2018). *Prisoner Voting Rights on a European Perspective: The cases of McHugh and Other v. The United Kingdom and the Thierry Delvinge v. Commune de Lesparre Médoc*. Yn: D. Archibugi ac A. E. Benli. *Claiming Citizenship Rights in Europe: Emerging Challenges and Political Agents*. Abingdon: Routledge.

⁸¹ Achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig (Rhif 2). (2005). Dyfarniad. Asesiad y Llys. Ar gael yn: <http://www.bailii.org/eu/cases/ECHR/2005/681.html>

⁸² Horne, A. a White, I. (2015). *Prisoner's Voting Rights (2005 to May 2015)*. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin SN01764. Ar gael yn: <http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN01764>

posibl, dadleuwyd ar y llaw arall bod y nifer gyfyngedig o achosion sy'n cynnig tystiolaeth o ddadetholfreinio yn awgrymu ei fod mewn gwirionedd yn ddull hynod effeithlon ar gyfer defnyddio dadetholfreinio fel cosb.⁸³

- 4.8 Gan fod dull seiliedig ar drosedd yn arwain at ychydig iawn o achosion o ddadetholfreinio carcharorion mewn gwirionedd, ceir cwestiwn ynghylch faint o groeso y byddai'n ei gael mewn awdurdodaeth sydd ag amheuan ynghylch pleidleisiau i garcharorion. Mae pleidleisiau i garcharorion wedi bod yn bwnc hynod ddadleuol ar draws y DU gyfan ac, er bod tystiolaeth y gallai safbwyntiau yng Nghymru fod yn newid, mae unrhyw waith ymchwil a wnaed yn tueddu i awgrymu bod y cyhoedd o blaid parhau i ddadetholfreinio carcharorion sydd wedi derbyn euogfarn ac yn y ddalfa i raddau helaeth iawn. Hefyd, nododd Adroddiad Ymgynghori diweddar Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio etholiadol mai prin iawn oedd yr ymatebion o blaid dadetholfreinio yn seiliedig ar natur neu ddifrifoldeb y drosedd a gyflawnwyd. Mewn cyferbyniad, roedd yr adroddiad yn dangos cefnogaeth gref i ddadetholfreinio yn seiliedig ar ddull hyd dedfryd.⁸⁴ Mae hyn yn awgrymu y gallai datblygu cynigion o dan ddull seiliedig ar drosedd o ymdrin â phleidleisiau i garcharorion, y gellir eu hystyried o brofiad mewn awdurdodaethau eraill yn fwy symbolaidd yn hytrach na chosb ymarferol a gwirioneddol, fod yn ddadleuol o safbwynt gwleidyddol a chymdeithasol.

Cymru a Lloegr a Dull Seiliedig ar Drosedd

- 4.9 Ceir cyfres o droseddau sy'n arwain at ddadetholfreinio awtomatig yng Nghymru a Lloegr hefyd. Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn pennu bod unigolyn a gafwyd yn euog o arfer llwgr o gam-bersonadu neu o arfer llwgr yn ymwneud â cheisiadau am bleidleisiau drwy'r post a thrwy ddirprwy yn colli ei hawl i bleidleisio yn awtomatig a bydd, felly, yn anghymwys i ymddangos ar y gofrestr etholiadol am bum mlynedd o ddyddiad yr euogfarn neu o'r dyddiad y cyhoeddwyd adroddiad lys yr etholiad.⁸⁵
- 4.10 Ceir diffyg ymchwil i gamymddygiad etholiadol ledled y DU, ac nid oes unrhyw gyrff canolog yn casglu a chrynhai gwybodaeth o'r fath. Er mwyn rhoi sylw i'r bwlch hwn, comisiynwyd adroddiad gan Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree, *Purity of*

⁸³ Scordia, V. (2018). *Prisoner Voting Rights on a European Perspective: The cases of McHugh and Other v. The United Kingdom and the Thierry Delvinge v. Commune de Lesparre Médoc*. Yn: D. Archibugi ac A. E. Benli. *Claiming Citizenship Rights in Europe: Emerging Challenges and Political Agents*. Abingdon: Routledge.

⁸⁴ Llywodraeth Cymru. (2018). Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Crynodeb o Ymatebion. Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru.

⁸⁵ Y Comisiwn Etholiadol. (2018). *Guidance for Electoral Registration Officers*. Rhan Dau – Y Fframwaith Cofrestru. Ar gael yn: http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0006/162573/Part-2-Registration-framework.pdf

Elections in the UK: Causes for Concern,⁸⁶ a gyhoeddwyd yn 2008 gyda'r nod o ddatgelu lefel a photensial camymddygiad etholiadol ledled y DU. Er bod y diffyg data yn atal dadansoddiad ystadegol, mae data a ddadansoddwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn nodi bod tua 23 y cant o'r 402 o honiadau o droseddau etholiadol a wnaed yn ystod y cyfnod 2000-2006 yn ymwneud â throseddau pleidleisio honedig (gan gynnwys cam-bersonadu, trin a dylanwad gormodol).⁸⁷ Fodd bynnag, yn dilyn dadansoddiad dilynol gan y Comisiwn Etholiadol, pan ostyngwyd nifer yr achosion o 402 o achosion i 383 o "gofnodion" yn ffeiliau Gwasanaeth Erlyn y Goron, dim ond 24 o'r cofnodion hyn arweiniodd at erlyniad o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.⁸⁸ Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod y gwaith dadansoddi cyfyngedig a wnaed yn cyfeirio at achosion a gafodd eu dwyn o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (1983) yn unig ac yn dangos y tueddiad cynyddol i euogfarnau am dwyll etholiadol gael eu cyflwyno o dan ddeddfwriaeth amgen.⁸⁹ Serch hynny, mae'n ymddangos bod profiad y DU yn adlewyrchu'r profiad ledled Ewrop, a byddai'n brin iawn yn ymarferol i unigolyn yng Nghymru neu Lloegr gael ei ddadetholfreinio ar sail trosedd benodol.

- 4.11 Mae'n bwysig nodi, mewn cyferbyniad â'r enghreifftiau o gyfandir Ewrop a drafodwyd eisoes, bod y DU yn gweithredu dull seiliedig ar drosedd mewn capasiti cyfyngedig ac mewn cyfuniad â gwaharddiad eang ar bleidleisio i bob carcharor sydd wedi derbyn euogfarn ac yn y ddalfa, gyda'r dull olaf yn destun dadlau ynghylch pleidleisiau i garcharorion yng Nghymru a Lloegr. Gan y tueddir i ystyried bod cyfyngiad yn seiliedig ar ddull sy'n seiliedig ar drosedd yn gyfreithlon a chyfiawn, nid yw'r cynigion etholiadol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ceisio gwneud unrhyw newidiadau o ran y troseddau etholiadol sy'n arwain at ddadetholfreinio awtomatig.

⁸⁶ Wilks-Heeg. (2008). *Purity of Elections in the UK: Causes for Concern*. Adroddiad a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree Cyf. Efrog: Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree Cyf. Ar gael yn: <http://www.jrrt.org.uk/sites/jrrt.org.uk/files/documents/Purityper cent20ofper cent20Electionsper cent20inper cent20theper cent20UK.pdf>

⁸⁷ Y Comisiwn Etholiadol. (2007). *Allegations of Electoral Malpractice in England and Wales, 2000-2006*. Llundain: Y Comisiwn Etholiadol. Ar gael yn: http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0009/60498/Allegations-of-electoral-malpractice-in-England-and-Wales-2000-06.pdf

⁸⁸ Y Comisiwn Etholiadol. (2007). *Further Analysis of CPS Files on Allegations of Electoral Malpractice in England and Wales, 2000-2006*. Llundain: Y Comisiwn Etholiadol.

⁸⁹ Wilks-Heeg. (2008). *Purity of Elections in the UK: Causes for Concern*. Adroddiad a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree Cyf. Efrog: Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree Cyf. Ar gael yn: <http://www.jrrt.org.uk/sites/jrrt.org.uk/files/documents/Purityper cent20ofper cent20Electionsper cent20inper cent20theper cent20UK.pdf>

Hawliau Pleidleisio Carcharorion yng Ngweriniaeth Iwerddon

- 4.12 Mae'r gyfraith etholiadol yng Ngweriniaeth Iwerddon yn rhoi hawliau pleidleisio i wahanol bobl yn dibynnu ar y math o etholiad:
- Caiff dinasyddion Iwerddon gan gynnwys carcharorion sy'n ddeunaw oed a hŷn bleidleisio ym mhob etholiad a refferendwm
 - Caiff dinasyddion Prydain bleidleisio mewn etholiadau Dáil, etholiadau Ewropeaidd ac etholiadau lleol
 - Caiff dinasyddion Undeb Ewropeaidd (UE) eraill bleidleisio mewn etholiadau Ewropeaidd a lleol
 - Caiff dinasyddion nad ydynt o'r UE bleidleisio mewn etholiadau lleol yn unig.
- 4.13 Caiff pob carcharor, os yw'n ddinasydd Iwerddon ac yn ddeunaw oed neu'n hŷn, bleidleisio mewn etholiadau a refferenda lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd ni waeth beth fo hyd y carchariad neu'r math o drosedd. Bu gan garcharorion yn Iwerddon yr hawl i bleidleisio erioed yn dechnegol, ond nid oedd unrhyw ddull ar waith yn hanesyddol y gallai carcharorion arfer yr hawl hwn drwyddo. Newidiwyd hyn gan Ddeddf Etholiadol (Diwygio) 2006 trwy gyflwyno gweithdrefnau yn galluogi carcharorion i bleidleisio drwy'r post.⁹⁰ Ar ôl pasio Deddf 2006, rhoddwyd yr hawl i garcharorion yn Iwerddon bleidleisio drwy'r post. Mae hyn yn dangos yn eglur os yw hawliau pleidleisio yn mynd i gael eu hymestyn i garcharorion bod angen i ddarpariaethau a systemau fod ar waith i sicrhau y gellir arfer yr hawl hwn.
- 4.14 Mae'n bwysig nodi na ellir cofnodi dinasyddion Iwerddon sy'n byw dramor ar y gofrestr etholwyr, ac felly nid oes ganddynt hawl i bleidleisio mewn unrhyw etholiad neu refferendwm. Mae'r unig eithriad yn ymwneud â swyddogion Iwerddon, a'u priod, sydd ar ddyletswydd dramor y mae ganddynt hawl i gofrestru ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post. O ran pleidleisiau i garcharorion, mae hyn yn golygu nad oes gan garcharorion o Iwerddon sydd wedi eu carcharu dramor, gan gynnwys yng Ngogledd Iwerddon, hawliau pleidleisio.

Pleidleisio drwy'r Post yn Iwerddon

- 4.15 Mae'n ofynnol i ddinasyddion Iwerddon bleidleisio yn bersonol mewn canolfannau pleidleisio swyddogol, ond pleidleisiodd tua 17,000 o bobl drwy'r post yn Etholiadau Seneddol Iwerddon yn 2017. Yn Iwerddon, rydych yn gymwys i bleidleisio drwy'r post os ydych yn:

⁹⁰ Deddf Etholiadol (Diwygio) 2006. (2006). Rhif 33.

- Ddiplomydd Iwerddon neu ei briod wedi ei leoli dramor
- Aelod o'r Garda Síochána
- Aelod amser cyflawn o'r Lluoedd Amddiffyn.

4.16 Ceir pobl sydd hefyd yn gymwys i bleidleisio drwy'r post os nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol oherwydd:

- Salwch neu anabledd corfforol
- Eich bod yn astudio'n llawn amser mewn sefydliad addysg yn Iwerddon, sydd i ffwrdd o'ch cyfeiriad cartref lle'r ydych wedi cofrestru
- Nad ydych yn gallu pleidleisio yn eich gorsaf bleidleisio oherwydd eich swydd
- Nad ydych yn gallu pleidleisio yn eich gorsaf bleidleisio gan eich bod yn y carchar o ganlyniad i orchymyn llys.

4.17 Rhoddodd Deddf Etholiadol (Diwygio) 2006 gymhwysedd i garcharorion i ymuno â'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post.⁹¹ Ar ôl i rywun gael ei gofrestru fel pleidleisiwr drwy'r post, ni all bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio mwyach ond mae'n rhaid iddo bleidleisio drwy'r post.

Bod yn Ymwybodol o'u Hawliau

4.18 Pan fyddant yn mynd i'r carchar, mae carcharorion yn derbyn gwybodaeth ar ffurf taflenni a phosteri yn esbonio eu hawl i bleidleisio a'r dulliau sydd ar waith sy'n eu caniatáu i arfer yr hawl hwnnw. Caiff ffurflenni cais i gofrestru fel pleidleisiwr drwy'r post eu gwneud ar gael ym mhob carchar gan yr awdurdod lleol ac mae'r ffurflenni hyn yn cynnwys y wybodaeth esboniadol berthnasol i gynorthwyo i'w cwblhau. Yn hytrach na bod y cyfrifoldeb yn cael ei neilltuo i'r carcharor unigol, cyfrifoldeb yr awdurdodau yw gwneud yn siŵr bod carcharorion yn ymwybodol o'u hawliau a bod y gallu ganddynt i arfer eu hawl pleidleisio yn unol â hynny. Datblygodd y Gwasanaeth Carchardai, mewn partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ar y pryd, bosteri a thaflenni yn hysbysu carcharorion am eu hawliau pleidleisio. Dywedodd y Pwyllgor Dethol a oedd yn archwilio Deddf Etholiadol (Diwygio) 2006 bod rhan hefyd i bleidiau cenedlaethol ei chwarae o ran annog carcharorion i ystyried pleidleisio yn rhan o'u dyletswydd fel dinasyddion.⁹²

Cofrestru i Bleidleisio

⁹¹ *ibid.*

⁹² Dadl y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. 2 Tachwedd, 2006. Ar gael yn: https://beta.oireachtas.ie/en/debates/debate/select_committee_on_environment_and_local_government/2006-11-02/

- 4.19 Yn ogystal â bod yn gyfrifol am hysbysu carcharorion am eu hawl i bleidleisio, mae Gwasanaeth Carchardai Iwerddon hefyd yn gyfrifol am esbonio i garcharorion sut y gallant gofrestru i bleidleisio. Mae ffurflenni cofrestru ar gael ym mhob carchar ac mae pob ffurflen yn cynnwys y wybodaeth esboniadol angenrheidiol i gynorthwyo i'w cwblhau. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar y Gwasanaeth Carchardai, pan fo'n ofynnol, i roi cymorth i garcharorion sy'n dymuno llenwi'r ffurflen/ni cais. Os na fydd ymgeisydd yn gallu ysgrifennu, gall unigolyn priodol yn y Gwasanaeth Carchardai lenwi'r ffurflen ar ran y carcharor, gyda'r ymgeisydd yn rhoi ei farc ar y ffurflen gais yn y man gofynnol.
- 4.20 Mae'n rhaid i garcharorion nad ydynt eisoes wedi eu cofrestru i bleidleisio, wneud cais i gael eu cynnwys yn yr atodiad i'r gofrestr etholwyr.⁹³ Mae gan garcharorion yr hawl i gael eu cofrestru yn yr etholaeth wleidyddol y byddent yn byw ynddi fel rheol pe na baent yn y carchar. Felly, er mwyn i garcharorion arfer eu hawl i bleidleisio, mae'n rhaid iddynt allu cofrestru gan ddefnyddio'r cyfeiriad lle'r oeddent wedi bod yn byw yn flaenorol; mae'r gofyniad hwn yn atal gallu pleidleisio carcharorion sy'n ddigartref, y rhai nad oedd ganddynt gyfeiriad sefydlog cyn eu carchariad a charcharorion y mae eu sefyllfa gartref yn newid pan fyddant yn y ddalfa. Mae angen ardystiad o fanylion adnabod yr ymgeisydd ar y ffurflen gan swyddog perthnasol y carchar y mae'r carcharor yn cael ei gadw ynddo. Y "swyddog perthnasol" yw'r Llywodraethwr neu unigolyn a benodir ganddo i gyflawni dyletswyddau cofrestru a chysylltiedig â phleidleisio. Os bydd y carcharor yn gwneud cais ar ôl i etholiad neu refferendwm gael ei galw, mae'n rhaid i'r cais gyrraedd y Cyngor Dinas, Sir neu Ddinas a Sir dan sylw cyn y pedwerydd diwrnod ar ddeg (gan eithrio pob dydd Sul, gwyliau cyhoeddus a Dydd Gwener y Groglith) cyn y diwrnod pleidleisio i gael ei ystyried i gymryd rhan yn yr etholiad neu refferendwm hwnnw sydd ar fin cael ei gynnal. Dyletswydd y Gwasanaeth Carchardai yw anfon y ffurflen gais wedi ei chwblhau i'r awdurdod lleol perthnasol. Os nad yw carcharor eisoes wedi ei gofrestru fel etholwr ni fydd yr awdurdod cofrestru mewn sefyllfa i ystyried y cais i gael ei gynnwys yn yr Atodiad i'r Rhestr Pleidleiswyr drwy'r Post.
- 4.21 Mae'n rhaid i bob carcharor, pa un a yw eisoes ar y gofrestr etholiadol neu'n gwneud cais i ymuno â'r gofrestr, wneud cais i gael ei gynnwys yn yr Atodiad i'r Rhestr Pleidleiswyr drwy'r Post. Ceir ffurflen gais benodol i garcharorion wneud cais

⁹³ Cais i gael eu cynnwys ar Atodiad 2015/2016 i'r Gofrestr Etholwyr gan etholwyr sydd wedi eu carcharu mewn carchar yn unol â gorchymyn llys. (RFA 4). Fersiwn Ffurflen: 18/08/2015. Ar gael yn: <https://www.limerick.ie/sites/default/files/media/documents/2017-05/RFAper cent204per cent20Application.pdf>

am bleidlais drwy'r post, sy'n ardystio bod yr ymgeisydd wedi ei gadw mewn carchar yn unol â gorchymyn llys ac nad yw'n gallu pleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad/refferendwm trwy rinwedd ei amgylchiadau.⁹⁴ Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar waith o ran pryd y gellir cwblhau'r ffurflen hon a'i hanfon i'r awdurdod cofrestru yn yr ardal lle mae'r ymgeisydd naill ai wedi ei gofrestru neu wedi gwneud cais i gael ei gofrestru. Fodd bynnag, dau ddiwrnod ar ôl dyddiad diddymu'r Dáil, yn achos etholiad cyffredinol, a dau ddiwrnod ar ôl i'r gorchymyn diwrnod pleidleisio gael ei wneud ar gyfer etholiadau eraill a refferenda yw'r dyddiad hwyraf i gais gael ei dderbyn gan awdurdod cofrestru ar gyfer cynnwys unigolyn yn yr atodiad i'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post. Ar ôl i'r ffurflen gais gael ei chwblhau a'i rhoi i'r swyddog carchar priodol, ei gyfrifoldeb ef yw ei hanfon i'r awdurdod cofrestru perthnasol. Bydd yr awdurdod perthnasol yn hysbysu carcharorion am lwyddiant eu cais ac, os caiff y cais ei wrthod, mae'n ofynnol i'r awdurdod cofrestru roi rheswm am y gwrthodiad. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd yr awdurdod cofrestru angen gwybodaeth neu ddogfennau ychwanegol i ddod i gasgliad ynghylch cymhwysedd rhywun i gael ei gynnwys. Bydd methiant i ddarparu'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt yn unol â'r amserlen a nodwyd yn arwain at dynnu'r cais yn ôl.

- 4.22 Gall y rhai y caniatawyd eu cais ac sy'n cael eu cynnwys ar yr Atodiad i'r Rhestr Pleidleiswyr drwy'r Post bleidleisio drwy'r post yn unig. Pan fydd yn gadael y carchar, cyfrifoldeb y carcharor yw hysbysu'r awdurdod cofrestru ei fod wedi cael ei ryddhau a gofyn i'w enw gael ei ddileu o'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post. Mae angen i etholwyr sydd wedi cael eu rhyddhau ysgrifennu at yr awdurdod cofrestru perthnasol o fewn pedwar diwrnod o ddiddymu'r Dáil ar gyfer etholiad cyffredinol neu o fewn dau ddiwrnod o wneud y gorchymyn yn penodi diwrnod pleidleisio mewn isetholiad Dáil neu etholiad Arlywyddol, Ewropeaidd neu leol neu refferendwm. Fodd bynnag, os bydd etholwr sydd wedi cael ei ryddhau o'r carchar yn dal i fod ar y rhestr pleidleiswyr drwy'r post ar ddiwrnod etholiad neu refferendwm, a phan fo amser i wneud hynny, gall y swyddog cofrestru ail-gyfeirio'r amlen sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, y papur pleidleisio i'r cyfeiriad cartref ar ôl derbyn yr amlen wedi ei dychwelyd gan awdurdodau'r carchar. Gall etholwr yn yr amgylchiadau hyn bleidleisio wedyn yn ei orsaf Garda leol fel y mae pleidleiswyr drwy'r post eraill yn ei wneud. Os bydd carcharor wedi cael ei drosglwyddo i garchar arall, mae

⁹⁴ Cais i gael eu cynnwys yn yr Atodiad i'r Rhestr Pleidleiswyr drwy'r Post gan etholwyr sydd wedi eu carcharu mewn carchar yn unol â gorchymyn llys. (RFG 1). Fersiwn Ffurflen: 19/08/2015. Ar gael yn: <http://www.sdcc.ie/sites/default/files/form//rfg1-postal-supplement-prisoners-english.pdf>

awdurdodau'r carchar yn ail-gyfeirio'r amlen i'r carchar newydd lle gellir bwrw'r bleidlais wedyn.

Pleidleiswyr Gwybodus

- 4.23 Mae Gwasanaeth Carchardai Iwerddon yn annog carcharorion yn weithredol i arfer eu hawliau pleidleisio fel dinasyddion gwybodus. Gan y gall carcharorion gael eu hynysu'n aml i'r materion perthnasol yn eu hetholaethau lleol a chymdeithas yn fwy eang, mae angen cael y darpariaethau angenrheidiol i sicrhau bod carcharorion yn cael eu hysbysu am yr hyn y mae pob ymgeisydd yn sefyll drosto mewn etholiad a phrif bynciau trafod refferendwm. Mae gan garcharorion yn Iwerddon fynediad at lenyddiaeth etholiad gyffredinol a bydd y Gwasanaeth Carchardai yn darparu cymorth i gael gafael ar ddeunydd gan ymgeiswyr penodol os oes angen. Mae gan garcharorion fynediad at deledu a radio, y gellir eu defnyddio i wrando ar drafodaethau etholiad a refferendwm ac i glywed y datblygiadau diweddaraf o'r etholiad ar y newyddion cenedlaethol. Hefyd, mae gan garcharorion fynediad at bapurau newydd ac mae hyn yn helpu i gynnal gwybodaeth am faterion mewn etholaethau lleol a ledled Iwerddon. Mae cyfleusterau addysgol mewn carchardai yn ffynhonnell hanfodol i garcharorion gadw'n gyfredol â'r datblygiadau diweddaraf ar adeg etholiad neu refferendwm. Nodwyd teuluoedd hefyd fel ffordd bwysig i garcharorion gadw'n gyfredol â thrafodaethau etholiad a refferendwm, ac anogir teuluoedd yn weithredol i drafod materion lleol a chenedlaethol gyda'u perthnasau sydd wedi eu carcharu. Er nad oes unrhyw garchar erioed wedi cael ei ganfasio gan ymgeisydd etholiadol yn ystod etholiad, mae'r Gwasanaeth Carchardai wedi dweud y byddai'n croesawu unrhyw ymgeiswyr a oedd yn dymuno canfasio yn unrhyw un o'i garchardai ac y byddai'n sicrhau y byddai'r trefniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i ganiatáu i hyn ddigwydd yn llwyddiannus.⁹⁵
- 4.24 Mae carcharorion yn gyffredinol yn tueddu i fod â lefelau llythrennedd is, ac nid yw tua 80 y cant o garcharorion Iwerddon yn gallu darllen.⁹⁶ Mae angen cymryd lefelau llythrennedd gwael i ystyriaeth pan fydd carcharorion yn chwilio am wybodaeth am etholiad neu refferendwm ac, felly, ni ddylai gwybodaeth a datblygiadau fod ar gael yn ysgrifenedig yn unig. Cynghorwyd y dylai adran addysgol y carchar gyflwyno

⁹⁵ Gallagher, C. (2016). *Prisoners Show Little Interest in Using the Vote*, The Irish Times.

⁹⁶ Dadl y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. 2 Tachwedd, 2006. Ar gael yn:

https://beta.oireachtas.ie/en/debates/debate/select_committee_on_environment_and_local_government/2006-11-02/

gwybodaeth ddefnyddiol wythnos neu ddwy cyn y bleidlais, gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol gyfryngau.⁹⁷

Sut mae Carcharorion yn Pleidleisio

- 4.25 Anfonir papur pleidleisio a datganiad hunaniaeth i etholwyr a gofnodir ar yr atodiad i'r rhestr pleidleisio drwy'r post cyn y diwrnod pleidleisio. Ym mhresenoldeb swyddog y carchar, mae'n rhaid i'r etholwr lofnodi neu wneud marc ar y datganiad hunaniaeth; mae swyddog y carchar, pan fydd yn fodlon â hunaniaeth yr etholwr, yn tystio'r datganiad ac yn rhoi stamp y carchar ar y ffurflen ddatgan fel sy'n ofynnol. I gynnal cyfrinachedd y bleidlais, gellir ei bwrw yng nghell y carcharor ar wahân i unrhyw garcharorion eraill. Gellir hefyd bwrw pleidlais yn yr ardal gymunedol, fel landin, llyfrgell neu fannau hamdden, y bydd angen eu clirio yn ystod pleidleisio. Gall y carcharor wneud marc ar y papur pleidleisio yn gyfrinachol wedyn a'i roi yn yr amlen papur pleidleisio. Mae'r carcharor yn rhoi'r amlen papur pleidleisio yn yr amlen orchuddio wedyn ynghyd â'r datganiad hunaniaeth, ac yn ei selio. Rhoddir yr amlen wedi ei selio yn ôl i swyddog perthnasol y carchar wedyn, sy'n gyfrifol am ei hanfon i'r Swyddog Cofrestru cyn gynted â phosibl. Mae'n bosibl hefyd i garcharorion bostio eu pleidleisiau mewn blychau pleidleisio, gan adlewyrchu'r broses etholiadol arferol.
- 4.26 Bydd y swyddog carchar sy'n goruchwyllo'r broses hon ar lefel uwch, fel llywodraethwr neu ddirprwy lywodraethwr. Gan fod llywodraethwyr a dirprwy lywodraethwyr yn gyfrifol am bob agwedd arall ar fywydau carcharorion, ystyriwyd mai nhw yw'r bobl fwyaf priodol i oruchwyllo'r broses bleidleisio. Roedd trafodaeth yn ystod Dadl y Pwyllgor Dethol a ddylai rhywun o'r tu allan i'r Gwasanaeth Carchardai sy'n gysylltiedig â'r broses etholiadol fod yn bresennol yn ystod y pleidleisio hefyd, er mwyn sicrhau tryloywder. Awgrymwyd y gellid cael unigolyn annibynnol y byddai'n ofynnol iddo fod mewn cysylltiad â phob un o'r pedwar carchar ar ddeg yn lwerddon i gadarnhau pleidleisiau. Fodd bynnag, gan mai prif swyddogaeth y swyddog sy'n goruchwyllo'r broses yw ardystio hunaniaeth yr etholwr, penderfynwyd mai rhywun o fewn y Gwasanaeth Carchardai fyddai'r unigolyn mwyaf priodol ar gyfer y swydd.⁹⁸

Cyfrinachedd

⁹⁷ *ibid.*

⁹⁸ *ibid.*

- 4.27 Yn yr un modd ag ar gyfer pob pleidleisiwr, mae gan garcharorion hawl i bleidlais gyfrinachol hefyd. Mae hawl carcharorion i fwrw eu pleidiais wedi ei ddiogelu a, chyn belled â phosibl, mae'r broses bleidleisio mewn carchardai yr un fath â'r sefyllfa mewn bythau pleidleisio arferol. Er na fyddai neb yn gwneud cais i systemau teledu cylch cyfyng gael eu diffodd ar adegau pleidleisio, nid yw teledu cylch cyfyng yn craffu ar y broses bleidleisio er mwyn sicrhau nad yw cyfrinachedd yn cael ei beryglu.⁹⁹ Hefyd, mae sensoriaid carchardai wedi eu gwahardd rhag archwilio amlenni sy'n cynnwys papurau pleidleisio.¹⁰⁰

Diogelu Data

- 4.28 Yn ogystal â chyfrinachedd, ceir mater o ddiogelu data sydd hefyd yn codi yng nghyswllt etholfreinio carcharorion. Nid yw'r gofrestr etholiadol yn lwerddon yn nodi carcharorion, dim ond nodi pa etholwyr sy'n pleidleisio drwy'r post. Nid cyfeiriad y carchar yw'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol, ond cyfeiriad cartref y carcharor, sy'n atal carcharorion rhag cael eu hadnabod yn ôl lleoliadau carchardai. Yr unig berson sydd â mynediad at gyfeiriad y carchar yw'r Swyddog Cofrestru, gan fod rhan o'i swydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo anfon papurau pleidleisio allan i bleidleiswyr drwy'r post. Ni all y wybodaeth hon fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth na chael ei gwneud ar gael i bleidiau gwleidyddol at y diben o ganfasio, gan y byddai hyn yn peryglu cyfrinachedd.¹⁰¹

Adrodd ar y Broses a'i Hadolygu

- 4.29 Yn lwerddon, mae'n ofynnol i arolygwyr carchardai adrodd yn dilyn cyfnodau rheolaidd ar lwyddiant y system a roddwyd ar waith ar gyfer pleidleisiau i garcharorion. Mae'n ofynnol i'r Adran Tai, Cynllunio a Llywodraeth Leol, sef Adran yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol gynt, gasglu data ar nifer y carcharorion sy'n manteisio ar gyfleusterau pleidleisio drwy'r post. Ystyriwyd bod data o'r fath yn hanfodol yn Nadl y Pwyllgor Dethol i ddarparu asesiad anuniongyrchol o'r ffordd y mae'r system yn gweithio.¹⁰²
- 4.30 Er gwaethaf ymdrechion Gwasanaeth Carchardai lwerddon ac er bod carcharorion yn dweud ei bod yn llawer haws iddynt bleidleisio yn y carchar,¹⁰³ mae nifer y

⁹⁹ Dadl y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. 2 Tachwedd, 2006. Ar gael yn:

https://beta.oireachtas.ie/en/debates/debate/select_committee_on_environment_and_local_government/2006-11-02/

¹⁰⁰ Brady, T. (2011). *Only 191 Prisoners Out of 4,500 Register to Vote in Jail*. The Irish Independent.

¹⁰¹ Dadl y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. 2 Tachwedd, 2006. Ar gael yn:

https://beta.oireachtas.ie/en/debates/debate/select_committee_on_environment_and_local_government/2006-11-02/

¹⁰² *ibid.*

¹⁰³ Hennessey, M. (2016). *Prisoners Can Vote – So Why Don't They?* thejournal.ie.

pleidleisiau gan garcharorion yn lwerddon wedi tueddu i fod yn isel iawn. Adroddodd yr Irish Times yn 2016 mai dim ond 6.2 y cant o garcharorion lwerddon wnaeth arfer yr hawl i bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol olaf (65.2 y cant oedd y ganran a bleidleisiodd yn genedlaethol). Mae'n ddiddorol nodi bod cyfraddau pleidleisio yn wahanol ar draws pedwar carchar ar ddeg lwerddon, gyda chanran y pleidleiswyr yng ngharchar Wheatfield yn 16.1 y cant a dim carcharorion yng ngharchar Cork nac yng ngharchar Castlerea yn pleidleisio.¹⁰⁴ Mae'r patrwm cyffredinol yn awgrymu lefelau cofrestru uwch mewn sefydliadau lle cedwir carcharorion hirdymor a mwy aeddfed. Cedwir troseddwy'r i cafwyd yn euog o droseddau mwy difrifol a gweddillion y mudiad gweriniaethol parafilwrol (sy'n debygol o fod yn fwy gweithredol yn wleidyddol) yng ngharchar Portlaoise, ac roedd 50 y cant o'i garcharorion wedi eu cofrestru i bleidleisio yn 2008. Mewn cymhariaeth, yn Shelton Abbey – carchar agored lle mae llawer o garcharorion yn gadael yn feunyddiol ar gyfer gwaith, addysg a hyfforddiant – dim ond 1 y cant o garcharorion oedd wedi eu cofrestru.¹⁰⁵ Fodd bynnag, gellir cwestiynu'r duedd hon gan fod y nifer fwyaf o bleidleiswyr yn Etholiad Cyffredinol 2016 yng Ngharchar Wheatfield (16.1 y cant) a Shelton Abbey (11.7 y cant), y cyntaf yn gyfleuster diogelwch canolig caeedig a'r olaf, fel y nodwyd eisoes, yn garchar agored, diogelwch isel. Mae cyfranogiad pleidleisio yn newid yn dibynnu ar ba un a yw'r bleidlais ar gyfer etholiad neu refferendwm ac ar y math o etholiad neu bwnc y refferendwm.¹⁰⁶ Dim ond un o bob pum carcharor sydd wedi eu cofrestru i bleidleisio wnaeth bleidleisio yn Refferendwm Hawliau Plant 2012 mewn gwirionedd, ond roedd canran y pleidleiswyr, 33.5 y cant, yn isel yn genedlaethol.¹⁰⁷ Mewn cyferbyniad, 71.4 y cant o garcharorion a oedd wedi eu cofrestru i bleidleisio wnaeth arfer yr hawl hwn yn Etholiad Cyffredinol 2007, a dim ond 67% o'r boblogaeth genedlaethol gofrestredig wnaeth bleidleisio.¹⁰⁸ Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai hwn oedd yr etholiad cyntaf yr oedd carcharorion wedi eu hetholfreinio ac, felly, gallai'r ffaith fod hawliau pleidleisio newydd gael eu hennill wedi arwain at ganran uchel y pleidleiswyr ymhlith carcharorion.

¹⁰⁴ Gallagher, C. (2016). *Prisoners Show Little Interest in Using the Vote*. The Irish Times. Ar gael yn: <https://www.thetimes.co.uk/article/prisoners-show-little-interest-in-using-votes-cqckl3djr>

¹⁰⁵ Behan, C. ac O'Donnell. (2008). *Prisoners, Politics and the Polls: Enfranchisement and the Burden of Responsibility*. British Journal of Criminology. 48, 319-336.

¹⁰⁶ Gallagher, C. (2016). *Prisoners Show Little Interest in Using the Vote*. The Irish Times. Ar gael yn: <https://www.thetimes.co.uk/article/prisoners-show-little-interest-in-using-votes-cqckl3djr>

¹⁰⁷ Hennessey, M. (2016). *Prisoners Can Vote – So Why Don't They?* thejournal.ie. Ar gael yn: <http://www.thejournal.ie/prisoners-voting-2622117-Feb2016/>

¹⁰⁸ Behan, C. ac O'Donnell. (2008). *Prisoners, Politics and the Polls: Enfranchisement and the Burden of Responsibility*. British Journal of Criminology. 48, 319-336.

4.31 Mae'r Gwasanaeth Carchardai wedi priodoli lefelau cyfranogiad isel i'r ffaith fod cofrestriad yn digwydd unwaith y flwyddyn yn unig, gyda'r canlyniad y gallai'r boblogaeth carchardai fod yn hollol wahanol ar adeg yr etholiad.¹⁰⁹ Gan fod dedfrydau yn lwerddon yn tueddu i fod yn isel, gyda'r mwyafrif yn llai na chwe mis, gallai'r rhai sydd efallai wedi cofrestru yn y carchar fod allan o'r carchar erbyn i'r etholiad gael ei gynnal.¹¹⁰ Hefyd, mae'r weithdrefn gofrestru ar gyfer y gofrestr atodol yn caniatáu ffenestr o ddeuddydd yn unig ar gyfer cofrestru ar ôl i etholiad gael ei alw. Gall amserlen mor dynn atal carcharorion rhag gwneud cais, neu efallai y bydd carcharorion yn canfod eu bod yn rhy hwyr erbyn yr adeg y byddant yn penderfynu cofrestru. Mae'n debygol felly bod cyfran uchel o geisiadau yn methu â bodloni'r terfyn amser.

Hawliau Pleidleisio Carcharorion yn Awstralia

4.32 Yn Awstralia, mae'n orfodol pleidleisio mewn etholiadau ffederal os ydych:

- Yn 18 oed neu'n hŷn
- Yn ddinesydd Awstralia (neu'n ddeiliad Prydeinig a oedd ar gofrestr etholiadol y Gymanwlad ar 25 Ionawr 1984).

4.33 Mae hyn yn cynnwys carcharorion sy'n cyflawni dedfryd o garchar sy'n llai na thair blynedd o hyd. Gall carcharorion sy'n cyflawni dedfrydau sy'n dair blynedd neu hwy aros ar y gofrestr etholiadol, ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio tan iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Felly, mae'r hawl i bleidleisio yn seiliedig ar y ddedfryd a basiwyd yn y llys, nid ar y cyfnod o garchar sy'n weddill i garcharor ei dreulio yn y carchar. Os bydd unigolyn wedi derbyn euogfarn o fradwriaeth neu frad ac nad yw wedi derbyn pardwn, nid oes ganddo hawl i'w enw gael ei roi neu ei gadw ar unrhyw gofrestr etholiadol mewn unrhyw etholiad Senedd neu Dŷ'r Cynrychiolwyr.

4.34 Ar gyfer etholiadau talaith a lleol, mae hawliau pleidleisio i garcharorion yn wahanol ym mhob talaith a thiriogaeth, ac mae dadetholfreinio carcharorion yn gysylltiedig â hyd eu dedfryd (gweler tabl 2). Hefyd, gall amrywio o dalaith i dalaith a yw carcharor yn gymwys i bleidleisio pan fydd ar barôl (sy'n cyfateb i drwydded yng Nghymru a Lloegr) mewn etholiadau talaith ac etholiadau ffederal. Er enghraifft, mae carcharor sydd ar barôl neu wedi ei gyfyngu i'r cartref yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau ffederal, tra bod parôl wedi ei gynnwys yn hyd y carchariad yn nhalaith

¹⁰⁹ Hennessey, M. (2016). *Prisoners Can Vote – So Why Don't They?* thejournal.ie. Ar gael yn: <http://www.thejournal.ie/prisoners-voting-2622117-Feb2016/>

¹¹⁰ Behan, C. ac O'Donnell. (2008). *Prisoners, Politics and the Polls: Enfranchisement and the Burden of Responsibility*. British Journal of Criminology. 48, 319-336.

Victoria, ac felly mae carcharor yn gymwys i bleidleisio dim ond os yw ei “ddedfryd uchaf” (gan gynnwys parôl) yn llai na phum mlynedd.¹¹¹ Mae’n bwysig nodi - yn enwedig o gofio y bydd cynigion Llywodraeth Cymru yn arwain at sefyllfa lle gall carcharorion bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ond nid mewn etholiadau cyffredinol neu etholiadau cynulliad (er bod yr olaf yn destun adolygiad hefyd) - bod y ffaith fod hawliau pleidleisio carcharorion yn Awstralia yn amrywio o dalaith i dalaith ac ar gyfer gwahanol etholiadau yn creu llawer iawn o ddryswch.¹¹²

Awdurdodaeth	Pwynt Gwahardd
Y Gymanwlad	3 blynedd neu fwy
De Cymru Newydd	1 flwyddyn neu fwy
Victoria	5 mlynedd neu fwy
Queensland	Unrhyw ddedfryd o garchar
Gorllewin Awstralia	1 flwyddyn neu fwy
De Awstralia	Dim cyfyngiad
Tasmania	3 blynedd neu fwy
Tiriogaeth Prifddinas Awstralia	Dim cyfyngiad
Tiriogaeth y Gogledd	3 blynedd neu fwy

Tabl 2: Hyd y ddedfryd sy’n gwahardd carcharorion rhag pleidleisio fesul awdurdodaeth yn Awstralia.¹¹³

Hanes Pleidleisiau i Garcharorion yn Awstralia

- 4.35 Roedd Deddf Etholfraint y Gymanwlad 1902 yn dadetholfreinio unigolion sydd wedi derbyn euogfarn ac yn cyflawni dedfryd neu’n disgwyl cael eu dedfrydu am unrhyw drosedd y dylid ei chosbi o dan gyfraith unrhyw ran o deyrnas y Brenin trwy garchariad am flwyddyn neu hwy.¹¹⁴ Arhosodd y ddarpariaeth hon yr un fath i raddau helaeth pan ddeddfwyd Deddf Etholiadol y Gymanwlad yn 1918 ac felly yr

¹¹¹ Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Victoria. 09/04/2018.

¹¹² *ibid.*

¹¹³ Hill, L. (2009). *Prisoner Voting Rights. Symposium: Protecting Human Rights in Australia: Challenges and Strategies.*

¹¹⁴ Deddf Etholfraint y Gymanwlad. Rhif 8 o 1902.

arhosodd am chwe degawd a hanner. Diwygiwyd y gwaharddiad ym 1983 ac roedd unrhyw un a oedd yn cael ei ddedfrydu am drosedd y dylid ei chosbi o dan gyfraith y gymanwlad neu dalaith neu diriogaeth trwy garchariad am bum mlynedd neu hwy yn cael ei ddadetholfreinio.¹¹⁵ Roedd y ddarpariaeth hon, a'i rhagflaenydd, yn gymwys i droseddau **y dylid eu cosbi** trwy gyfnod penodol, nad yw o reidrwydd, ac nad yw fel rheol mewn gwirionedd, yn gyfeiriad at y cyfnod gwirioneddol y mae'r carcharor yn ei dreulio yn y carchar. Newidiodd hyn ym 1995 pan addaswyd y ddarpariaeth i eithrio unigolion **sy'n cyflawni dedfryd** o bum mlynedd neu fwy gan leihau drwy hynny nifer y carcharorion a oedd wedi'u hetholfreinio.

- 4.36 Cyflwynodd y llywodraeth ddeddfwriaeth ym 1995 yn etholfreinio pob carcharor beth bynnag fod hyd ei ddedfryd. Fodd bynnag, diddymwyd y ddarpariaeth hon yn dilyn gwrthwynebiad sylweddol. Cafwyd newid etholiadol arall yn 2004 a wnaeth wrthdroi'r gwaharddiad llwyr ac etholfreinio carcharorion a oedd yn cyflawni dedfryd o lai na thair blynedd, ac nid oedd gan y rhai a oedd yn cyflawni dedfryd o dair blynedd neu fwy hawl i bleidleisio na chofrestru. Yna yn 2006 gwaharddwyd yr holl garcharorion sy'n cyflawni dedfryd lawn amser beth bynnag fo hyd y ddedfryd rhag pleidleisio mewn etholiadau ar gyfer Tŷ'r Cynrychiolwyr a'r Senedd gan Ddeddf Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Uniondeb Etholiadol a Mesurau Eraill). Er eu bod wedi eu gwahardd rhag pleidleisio, roedd gan yr holl garcharorion a oedd yn cyflawni dedfryd lawn amser, beth bynnag fo hyd y ddedfryd, hawl i aros ar y gofrestr etholiadol neu gael eu hychwanegu ati o dan y diwygiad hwn. O safbwynt ymarferol, roedd gwahardd carcharorion yn digwydd trwy sicrhau nad oedd carcharorion yn ymddangos ar y rhestrau ardystiedig o bleidleiswyr. Nodwyd carcharorion a oedd yn cyflawni dedfrydau o garchar yn y rhestrau misol o euogfarnau, a anfonwyd gan Reolwyr Cyffredinol Carchardai i bob talaith a thiriogaeth a oedd yn dileu'r enwau a roddwyd ar y rhestr euogfarnau o'r rhestr ardystiedig o bleidleiswyr wedyn. Roedd y Memorandwm Esboniadol i Ddeddf 2006 yn esbonio na fyddai carcharorion sy'n cyflawni dedfrydau amgen - fel carchariad cyfnodol neu gyfyngiad i'r cartref, dedfrydau nad ydynt yn cynnwys carchar a pharôl - yn cael eu gwahardd rhag pleidleisio.¹¹⁶

¹¹⁵ Davidson, J. (2004). *Prisoners and the Right to Vote in Australia*. Briff Cyhoeddi Cyfredol rhif 12 2003-04. Ar gael yn: https://www.apf.gov.au/About_Parliament/Parliamentary_Departments/Parliamentary_Library/Publications_Archive/CIB/cib0304/04cib12

¹¹⁶ Tŷ'r Cynrychiolwyr. (2006). Bil Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Uniondeb Etholiadol a Mesurau Eraill) 2006: Memorandwm Esboniadol.

- 4.37 Yn dilyn penderfyniad gan Uchel Lys Awstralia yn 2007, cyflwynodd y llywodraeth ddeddfwriaeth newydd yn 2011. Ailgyflwynodd Deddf Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Ymrestru a Phleidleisiau Carcharorion) 2011 yr hawl i bleidleisio i garcharorion sy'n cyflawni dedfryd o lai na thair blynedd, a orfodwyd yn gyfansoddiadol gan yr Uchel Lys yn 2007.¹¹⁷ Wrth ddiddymu hawliau gwleidyddol, mae'n hanfodol bwysig bod yr egwyddor o gymesuredd yn cymryd difrifoldeb y drosedd i ystyriaeth a daethpwyd i'r casgliad bod dedfrydau o dair blynedd neu hwy yn dangos difrifoldeb y drosedd.¹¹⁸ Fodd bynnag, roedd Deddf 2011 yn cadw'r dyfarniad blaenorol a oedd yn nodi er na fyddai carcharorion sy'n cyflawni dedfryd o garchar am dair blynedd neu hwy yn cael eu caniatáu i bleidleisio, y byddai'r ddeddfwriaeth yn darparu y caiff carcharorion gofrestru neu barhau i fod wedi eu cofrestru.¹¹⁹

Y Gofrestr Etholiadol a Charcharorion (Etholiadau Ffederal)

- 4.38 Mae gan bob carcharor hawl i barhau i fod wedi ei gofrestru neu i ymuno â'r gofrestr etholiadol pan fydd yn y carchar, pa un a yw'n gymwys i bleidleisio ai peidio. Mae carcharorion sydd wedi eu cofrestru eisoes yn aros ar y gofrestr etholiadol yn yr un cyfeiriad ag yr oeddent wedi eu cofrestru ynddo cynt. Fodd bynnag, fe'u cynghorir i ysgrifennu at Gomisiwn Etholiadol Awstralia i'w hysbysu eu bod yn absennol o'u cyfeiriad cofrestredig, i sicrhau nad ydynt yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr tra byddant wedi eu carcharu. Mae Adran 96A Deddf Etholiadol y Gymanwlad yn nodi:
- 4.39 An eligible person who is serving a sentence of imprisonment but who was not enrolled when he or she began serving the sentence is entitled to be enrolled for:
- a) the Subdivision for which the person was entitled to be enrolled at that time;
 - b) if the person was not so entitled, a Subdivision for which any of the person's next of kin is enrolled;
 - c) if neither of paragraphs (a) and (b) is applicable, the Subdivision in which the person was born; and

¹¹⁷ Roach yn erbyn y Comisiwn Etholiadol. (2007) HCA 43. Uchel Lys Awstralia. Ar gael yn:

<http://eresources.hcourt.gov.au/downloadPdf/2007/HCA/43>

¹¹⁸ Tŷ'r Cynrychiolwyr. (2010). Bil Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Cofrestru a Phleidleisiau i Garcharorion) 2010: Memorandwm Esboniadol.

¹¹⁹ Bil Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Cofrestru a Phleidleisiau i Garcharorion) 2010. Crynhoad Biliau rhif 71 2010–11. Ar gael yn: https://www.aph.gov.au/Parliamentary_Business/Bills_Legislation/bd/bd1011a/11bd071

d) if none of the preceding paragraphs is applicable, the Subdivision with which the person has the closest connection.¹²⁰

- 4.40 Dylid nodi o dan opsiwn (d) a darpariaeth yr Is-adran cysylltiad agosaf, bod carcharorion yn gymwys i gofrestru gan ddefnyddio cyfeiriad y carchar y maent wedi eu carcharu ynddo.¹²¹ Fodd bynnag, gan fod yr opsiynau cofrestru yn hierarchaidd ac, felly, y caniateir opsiwn (d) dim ond pan nad yw'r opsiynau blaenorol ar gael, prin yw'r carcharorion sy'n cofrestru gan ddefnyddio cyfeiriad y man lle maent wedi eu carcharu. Mae natur hierarchaidd cyfeiriadau cofrestru posibl yn atal carcharorion rhag cofrestru i raddau helaeth iawn yn y lle y maent wedi eu carcharu a, thrwy hynny, cael effaith ormodol ar yr etholiad yn yr ardal honno.¹²² Mae'r ffurflen gofrestru yn gwneud datganiad tyst wedi ei lofnodi gan rywun sydd ar y gofrestr etholiadol yn ofynnol, ac mae ymgeiswyr yn cofrestru gyda'u talaith ar gyfer etholiadau ffederal. Pan fydd carcharor yn cael ei ryddhau, mae'n rhaid iddo gwblhau ffurflen gofrestru newydd i hysbysu Comisiwn Etholiadol Awstraliad am ei gyfeiriad newydd, fel y gellir diweddu'r gofrestr etholiadol yn briodol.
- 4.41 Caiff rhestr o bleidleiswyr ardystiedig ei sefydlu trwy ohebiaeth a orfodir yn gyfreithiol rhwng Rheolwr Cyffredinol Carchardai talaith a'r Comisiynydd Etholiadol. Darperir ar gyfer dyletswydd y Rheolwr Cyffredinol i ohebu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Etholiadol yn y gyfraith o dan Adran 109 Deddf Etholiadol y Gymanwlad 1918, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Cofrestru a Pleidleisiau i Garcharorion) 2011, sy'n nodi:
- 4.42 Rhaid i Reolwr Cyffredinol Carchardai'r Dalaith, cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl dechrau pob mis, anfon at y Comisiynydd Etholiadol (neu at swyddog a enwebwyd gan y Swyddog Etholiadol) restr o:
- a) enwau, cyfeiriadau, swyddi a rhyw yr holl bobl a ddechreuodd ar ddeddfryd o garchar o dair blynedd neu hirach yn y dalaith; a
 - b) enwau, cyfeiriadau, swyddi a rhyw yr holl bobl a orffennodd ddeddfryd o garchar o dair blynedd neu hirach yn y dalaith yn ystod y mis blaenorol.¹²³
- 4.43 Mae hyn yn sicrhau bod y rhestr o bleidleiswyr ardystiedig yn cael ei chadw'n gyfredol. Os bydd etholiad yn cael ei alw, mae'n rhaid i Reolwr Cyffredinol

¹²⁰ Deddf Etholiadol y Gymanwlad 1918. Rhif 27, 1918. Dyddiad crynhoi: 14 Mawrth 2018. Adran 96A. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.au/Details/C2018C00062>

¹²¹ Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Awstralia. 13/04/2018.

¹²² *ibid.*

¹²³ Deddf Etholiadol y Gymanwlad 1918. Rhif 27, 1918. Dyddiad crynhoi: 14 Mawrth 2018. Adran 109. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.au/Details/C2018C00062>

Carchardai talaith, o fewn pedwar diwrnod o gau'r cofrestrau ar gyfer etholiad, anfon rhestr o unigolion at y Comisiynydd Etholiadol a wnaeth, rhwng y rhestr fisol olaf a anfonwyd a diwrnodau cau'r cofrestrau: (a) dechrau cyflawni dedfryd o garchar tair blynedd neu hwy yn y dalaith (neu'r diriogaeth); a (b) gorffen cyflawni dedfryd o garchar tair blynedd neu hwy yn y dalaith (neu'r diriogaeth).¹²⁴ Anfonir yr ohebiaeth hon gan y Rheolwr Cyffredinol at y Comisiynydd Etholiadol trwy gyfnewidiad data diogel.¹²⁵ O dan adran 90A Deddf Etholiadol y Gymanwlad, mae'n rhaid gwneud copi o'r gofrestr etholiadol ar gael i'r cyhoedd ei archwilio. Mae'r gofrestr etholiadol gyhoeddedig yn nodi enw a chyfeiriad unigolyn a, phan fo carcharor wedi cofrestru ar sail y man lle mae wedi ei garcharu, bydd ei enw yn ymddangos ar y gofrestr wrth ochr enw'r cyfeiriad.¹²⁶ Felly, nid oes unrhyw ddarpariaethau arbennig ar waith i atal carcharorion rhag cael eu hadnabod o gyfeiriad y carchar.

Sut y mae Carcharorion yn Pleidleisio

- 4.44 Gall carcharorion sydd wedi eu cofrestru bleidleisio mewn etholiad ffederal mewn dwy ffordd: trwy bleidlais drwy'r post neu drwy bleidleisio'n bersonol trwy dîm pleidleisio symudol carchar. Fodd bynnag, dim ond dwy awdurdodaeth sy'n cynnig pleidleisio symudol yn eu talaith/tiriogaeth ar hyn o bryd.¹²⁷ Er mwyn pleidleisio drwy'r post, mae'n rhaid i garcharorion wneud cais ar unrhyw adeg i fod yn Bleidleisiwr drwy'r Post Cyffredinol neu wneud cais am bleidlais drwy'r post ar gyfer pob etholiad. Pleidleiswyr nad ydynt yn gallu mynd i fwth pleidleisio fel mater o drefn yw Pleidleiswyr Cyffredinol drwy'r Post ac, ar ôl iddo gael ei gofrestru fel Pleidleisiwr drwy'r Post Cyffredinol, anfonir pleidlais drwy'r post yn awtomatig at yr etholwr ar gyfer pob etholiad y mae'n gymwys i bleidleisio ynddo. Fel arall, mae timau pleidleisio symudol yn ymweld â rhai carchardai yn ystod etholiad, lle mae staff y comisiwn etholiadol cenedlaethol yn sefydlu cyfleusterau pleidleisio i gasglu pleidleisiau yn uniongyrchol gan garcharorion. Mae'r bythau pleidleisio symudol hyn yn gweithredu yn yr un modd â mannau pleidleisio cyffredin, gyda sgriniau pleidleisio a bocsys pleidleisio.¹²⁸

¹²⁴ Deddf Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Cofrestru a Phleidleisiau i Garcharorion) 2011. Rhif. 29, 2011. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.au/Details/C2011A00029>

¹²⁵ Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Victoria. 09/04/2018.

¹²⁶ Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Awstralia. 13/04/2018.

¹²⁷ *ibid.*

¹²⁸ Comisiwn Etholiadol Awstralia. (2007). *Fact Sheet: Prisoner Voting.*

Pleidleisiau i Garcharorion yn Nhalaith Victoria

- 4.45 Ceir gwahanol statws yn Awstralia o ran pwy sy'n cael pleidleisio mewn etholiadau ffederal a phwy sy'n cael pleidleisio mewn etholiadau talaith, ac nid yw'r sefyllfa i garcharorion yn eithriad i hynny. Yn nhalaith Victoria, nid oes gan unigolyn sy'n cyflawni dedfryd o bum mlynedd o garchar neu fwy am drosedd sydd yn erbyn cyfraith Victoria, y gymanwlad neu dalaith neu diriogaeth arall yn y gymanwlad, hawl i bleidleisio **na** chael ei gofrestru ar gyfer yr etholiadau cyngor neu gynulliad.¹²⁹ Mae carcharorion sydd yng ngofal yr Ymddiriedolwr Cyhoeddus a charcharorion nad ydynt yn gallu deall natur ac arwyddocâd pleidleisio gan nad ydynt yn eu iawn bwyll wedi eu dadetholfreinio rhag pleidleisio hefyd.
- 4.46 Ar wahân i wahaniaeth o ran hyd dedfryd a gallu cyfyngedig cofrestru carcharorion yn Victoria, ceir gwahaniaeth pwysig arall rhwng cyfraith y gymanwlad a chyfraith y dalaith. Mae Deddf y Gymanwlad yn darparu yr ystyrir bod unigolyn yn cyflawni dedfryd o garchar dim ond os yw wedi ei garcharu yn llawn amser ond, o dan gyfraith y dalaith, ystyrir bod unigolyn yn dal i gyflawni dedfryd tan i'r cyfnod parôl ddod i ben neu tan i'r carcharor gael ei ryddhau o'r carchar mewn ffordd arall.¹³⁰ Felly, er y gall carcharor ar barôl bleidleisio mewn etholiad ffederal beth bynnag fo hyd y ddedfryd, ni fyddai carcharor sy'n cyflawni dedfryd parôl o bum mlynedd neu fwy yn gymwys i bleidleisio mewn etholiad cyngor neu gynulliad Victoria.
- 4.47 Mae cyfathrebiad â Chomisiwn Etholiadol Victoria wedi dangos y dryswch a all godi gan fod hawliau pleidleisio carcharorion yn amrywio o dalaith i dalaith ac o etholiadau lleol a thalaith i etholiadau ffederal. Er mwyn atal dryswch o'r fath, mae Comisiwn Etholiadol Victoria yn gweithio gyda Chomisiwn Etholiadol Awstralia a Corrections Victoria i lunio adnodd "Pleidleisio mewn Carchardai" ar gyfer Victoria. Bydd yr adnodd a gynhyrchir yn cael ei anfon i bob carchar yn Victoria ac yn cael ei ategu gan hyfforddiant i wrandawyr cymheiriaid sydd yn y carchar, a fydd yn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth i helpu cyd-garcharorion i ddilyn y weithdrefn gofrestru a phleidleisio.¹³¹ Mae hyn yn dangos y gall pleidleisiau i garcharorion fod yn fater cymhleth, yn enwedig pan nad yw eu hawliau pleidleisio yn unffurf yn ddaearyddol nac ar draws pob etholiad ac yn nodi'r angen am ganllawiau a

¹²⁹ Deddf Etholiadol 2002. Deddf Rhif 23/2002. Victoria. Ar gael yn:

[http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/\\$FILE/02-023a.pdf](http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/$FILE/02-023a.pdf)

¹³⁰ Deddf Cywiriadau 1986. Rhif 117 o 1986, fersiwn rhif 083. Victoria. Ar gael yn:

[http://www.legislation.vic.gov.au/domino/Web_Notes/LDMS/LTObject_Store/LTObjSt1.nsf/DDE300B846EED9C7CA257616000A3571/A9534E73927140B7CA257761001C7975/\\$FILE/86-117a083.pdf](http://www.legislation.vic.gov.au/domino/Web_Notes/LDMS/LTObject_Store/LTObjSt1.nsf/DDE300B846EED9C7CA257616000A3571/A9534E73927140B7CA257761001C7975/$FILE/86-117a083.pdf)

¹³¹ Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Victoria. 09/04/2018.

chyfarwyddiadau eglur, yn enwedig i garcharorion eu hunain ac i'r rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Carchardai.

Y Gofrestr Etholiadol a Charcharorion yn Victoria

- 4.48 Yn wahanol i etholiadau ffederal, mae gan garcharorion hawl i gofrestru ar gyfer etholiadau cynulliad a chyingor yn Victoria dim ond os ydynt yn cyflawni dedfryd o lai na phum mlynedd. Bydd carchardai yn Victoria yn darparu gwybodaeth i garcharorion am eu hawliau pleidleisio a sut i gofrestru ar y gofrestr etholiadol. Mae gan garchardai ffurflen Comisiwn Etholiadol Victoria hefyd y mae'n rhaid i garcharorion ei chwblhau i bleidleisio mewn etholiadau talaith a ffederal. Gall carcharorion sydd eisoes ar y gofrestr etholiadol hysbysu'r Comisiwn Etholiadol eu bod yn absennol o'u cyfeiriadau cofrestredig trwy gwblhau'r ffurflen hon, a fydd yn sicrhau nad ydynt yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr tra eu bod yn y carchar. Os bydd cyfeiriad cartref etholwr yn newid tra bydd yn y carchar neu ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar, dylid hysbysu Comisiwn Etholiadol Victoria. Bydd carcharorion sy'n cyflawni dedfryd o bum mlynedd neu fwy yn cael eu tynnu oddi ar gofrestr etholiadol y dalaith yn awtomatig, gan eu hatal rhag pleidleisio mewn etholiadau cynulliad neu gyngor ar gyfer Talaith Victoria. Mae Adran 26 Deddf Etholiadol 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd i'r Adran Gyfiawnder, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ar ôl dechrau pob mis, anfon rhestr i'r Comisiwn yn nodi enw, dyddiad geni, rhyw a man preswyl hysbys diwethaf pob unigolyn sydd wedi, yn ystod y mis blaenorol, derbyn euogfarn yn Victoria ac yn cyflawni dedfryd o bum mlynedd o garchar neu fwy am drosedd sydd yn erbyn cyfraith Victoria, y gymanwlad neu dalaith neu diriogaeth arall yn y gymanwlad.¹³² Bydd y carcharorion perthnasol yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr etholiadol ar sail y rhestr hon. Fodd bynnag, ychwanegir nodiant gweinyddol at y cofnod i nodi'r dyddiad y bydd y carcharor dan sylw yn gymwys i ailgofrestru, sef y dyddiad y disgwylir i'w ddedfryd ddod i ben.¹³³ Ar ôl i garcharorion sydd wedi cael eu dadetholfreinio gwblhau eu dedfryd, gan gynnwys parôl, dylent ailgofrestru i bleidleisio ar gyfer etholiadau cynulliad a chyingor y dalaith.
- 4.49 Os bydd carcharor eisoes wedi ei gofrestru, mae ei gyfeiriad cofrestru yn aros yr un fath. O ran etholiadau ffederal, bydd angen i garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ond nad ydynt ar y gofrestr etholiadol eisoes gofrestru yn y cyfeiriad lle:

¹³² Deddf Etholiadol 2002. Deddf Rhif 23/2002. Victoria. Ar gael yn:

[http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/\\$FILE/02-023a.pdf](http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/$FILE/02-023a.pdf)

¹³³ Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Victoria. 09/04/2018.

- a) roeddent yn gymwys i gael eu cofrestru ddiwethaf
- b) mae un o'u perthnasau agosaf wedi ei gofrestru ar hyn o bryd, gan nad ydynt wedi bod yn gymwys i gofrestru o'r blaen (mae'n rhaid darparu enw llawn y berthynas agosaf ar y cais cofrestru)
- c) cawsant eu geni gan nad yw a) neu b) yn berthnasol
- d) mae ganddynt y cysylltiad agosaf, gan nad yw'r un o'r datganiadau uchod yn berthnasol.¹³⁴

4.50 Yn ogystal â hyn, mae unigolyn sydd wedi ei garcharu yn Queensland, er enghraifft (lle nad oes gan unrhyw garcharorion yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau talaith neu leol o dan ddeddfwriaeth y dalaith), ond yr oedd ei gyfeiriad preswyl ar yr adeg y cyflawnwyd y drosedd yn Victoria, yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Talaith Victoria cyn belled ag y bo hyd ei ddedfryd yn llai na phum mlynedd.

4.51 Er bod yr opsiynau cyfeiriad ar gyfer etholiadau ffederal ac etholiadau cynulliad a chynghor yn Victoria yr un fath, nid yw hyn yn wir ar draws Awstralia. Yn nhalaith De Awstralia, caiff carcharorion bleidleisio beth bynnag fo hyd y ddedfryd a gallant gael eu cofrestru mewn un cyfeiriad ar gyfer etholiadau ffederal a gwahanol gyfeiriad ar gyfer etholiadau talaith. Mae'r opsiynau canlynol ar gael ar lefel talaith:

4.52 Rwy'n cyflawni dedfryd lawn amser o garchar ac rwy'n gwneud cais i gofrestru ar gyfer etholiadau Talaith De Awstraliad yng nghyfeiriad:
Dewiswch y datganiad CYNTAF oedd yn berthnasol i chi a dangoswch y cyfeiriad perthnasol isod

- e) fy mhrif fan preswyl yn uniongyrchol cyn i mi gael fy ngharcharu;
- f) man preswyl newydd a gafwyd yn ystod fy ngharchariad, gennyf i neu riant, priod, partner domestig neu blentyn yr oeddwn yn preswyl ag ef yn uniongyrchol cyn i mi gael fy ngharcharu, a lle rwy'n bwriadu preswyl ar ôl cael fy rhyddhau o'r carchar; NEU, os nad yw'r naill na'r llall o'r ddau opsiwn blaenorol yn berthnasol a'ch bod wedi bod yn y carchar ers dwy flynedd neu fwy
- g) lle rwyf i wedi fy ngharcharu.¹³⁵

¹³⁴ *Enrol to Vote of Update or Update your Details as a Prisoner in Victoria*. (2016). Comisiwn Etholiadol Victoria. Ar gael yn: http://www.aec.gov.au/Enrolling_to_vote/pdf/forms/prisoners/er016pw-vic-0416.pdf

¹³⁵ *Enrol to Vote of Update or Update your Details as a Prisoner in South Australia*. (2016). Comisiwn Etholiadol De Awstralia. Ar gael yn: http://www.aec.gov.au/Enrolling_to_vote/pdf/forms/prisoners/er016pw-sa-0416.pdf

Sut y mae Carcharorion yn Victoria yn Pleidleisio

- 4.53 Yn yr un modd ag etholiadau ffederal, gall carcharorion bleidleisio drwy'r post neu drwy orsafoedd pleidleisio symudol ar gyfer etholiadau cynlluniad a chynghor Victoria. O ran pleidleisio drwy'r post, mae carcharorion yn gymwys i wneud cais am bleidlais drwy'r post a chael anfon y papur pleidleisio i'w cyfeiriad post a nodwyd yn awtomatig. Caiff unrhyw bost ei ddosbarthu fel post wedi'i eithrio, gyda'r canlyniad na ddylid agor neu sensro post a anfonir at garcharor neu a dderbynnir gan garcharor gan Swyddfa'r Comisiwn Etholiadol neu Swyddfa Is-adrannol. Os byddant yn pleidleisio drwy'r post, mae'n ofynnol i reolwyr carchar cyffredinol ddarparu ystafell neu fan i garcharorion bleidleisio yn breifat tra o dan oruchwyliaeth angenrheidiol staff y carchar. Ar ôl i garcharorion fwrw eu pleidlais mewn preifatrwydd, na ddylai staff y carchar ddylanwadu arni o dan unrhyw amgylchiadau, mae'n ofynnol iddynt gwblhau'r manylion ar yr amlen a chael unigolyn arall, aelod o staff y carchar sy'n gymwys i bleidleisio yn ddelfrydol, i dystio hyn.¹³⁶
- 4.54 Mae carcharorion cymwys, yn union fel pob Awstraliad arall, wedi eu rhwymo i gofrestru i bleidleisio ac ar ôl iddynt gael eu cofrestru mae'n ofynnol iddynt bleidleisio mewn etholiadau talaith a ffederal. Mae methu â phleidleisio mewn etholiad ffederal heb reswm dilys a digonol yn drosedd o dan adran 245 Deddf Etholiadol y Gymanwlad a bydd yn arwain at ddirwy o \$20.00.¹³⁷ Yn nhalaith Victoria, bydd methiant i bleidleisio heb reswm dilys neu ddigonol yn arwain at ddirwy o \$79.00. Fodd bynnag, o ystyried amgylchiadau unigryw carcharorion, mae Comisiwn Etholiadol Victoria wedi dweud na fyddai'n gwneud synnwyr i ddirwyo carchardai am fethiant i bleidleisio. Nid yn unig y mae carcharorion yn dueddol o fod â mynediad cyfyngedig at arian i dalu dirwyon, mae dirwyo carcharorion hefyd yn debygol o fod yn wrthgynhyrchol o'r safbwynt y byddai'n cael ei ystyried yn gosb ychwanegol, a allai gadarnhau eu dieithriad o weddill cymdeithas ymhellach.¹³⁸ Yn hytrach na chosbi carcharorion am beidio â phleidleisio, dylid annog carcharorion i gofrestru a phleidleisio.

Ymgysylltu Carcharorion yn Victoria

¹³⁶ Yr Adran Cyfiawnder a Rheoleiddio – *Correction Victoria*. (2017). Gofynion y Comisiwnydd – Rhan 4 Gwasanaethau Carchar. Adran 4.3.2. Ar gael yn:

<http://www.corrections.vic.gov.au/utility/publications+manuals+and+statistics/commissioners+requirements+part+4>

¹³⁷ Deddf Etholiadol y Gymanwlad 1918. Dyddiad cwblhau: 14 Mawrth 2018. Adran 245. Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.au/Details/C2018C00062>

¹³⁸ Comisiwn Etholiadol Victoria. Carcharorion a Phleidleisio. Ar gael yn:

<https://www.vec.vic.gov.au/files/RP-PrisonersVoting.pdf>

- 4.55 Mae'n gyfrifoldeb ar y Gwasanaeth Carchardai i annog carcharorion i bleidleisio a'u cynorthwyo gyda'r broses gofrestru. Mae gwybodaeth am gofrestru a phleidleisio wedi ei chynnwys yn y pecyn cynefino a ddarperir gan weinyddiaeth y carchar i garcharorion newydd. Hefyd, mae sesiynau ymgyswrtu i garcharorion sydd newydd gyrraedd yn trafod y mater o hawliau pleidleisio.¹³⁹ Awgrymwyd hefyd y dylid hefyd cynnwys gwybodaeth am gofrestru a phleidleisio yn y pecyn y mae carcharorion yn ei dderbyn pan fyddant yn gadael y carchar. Yn ystod y cyfnod cyn rhyddhau ac am ryw flwyddyn ar ôl rhyddhau, mae sefydliadau gwasanaeth carchar mewn cysylltiad sylweddol â charcharorion, wrth iddynt gynorthwyo gyda'u hadsefydliad. Felly, mae Comisiwn Etholiadol Victoria wedi awgrymu cynnal sesiynau gwybodaeth o weithwyr achos, a darparu deunydd perthnasol iddynt, fel y gallant annog carcharorion i bleidleisio a'u cynorthwyo yn ôl y gofyn.¹⁴⁰ Mae'n bosibl y gallai hyn gael effaith gadarnhaol o ran cynrychiolaeth ymhlith pleidleiswyr Awstralia: mae cyfradd garcharu pobl Frodorol, y nodwyd bod ganddynt gyfraddau cyfranogiad isel yn y broses ddemocrataidd, un ar bymtheg gwaith yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.¹⁴¹
- 4.56 Mae'r ystadegau diweddaraf yn awgrymu bod cofrestriad carcharorion yn Victoria yn gymharol isel, gydag oddeutu ychydig dros un o bob pedwar carcharor sy'n gymwys i bleidleisio wedi cofrestru mewn gwirionedd (gweler tabl 3). Mae angen annog carcharorion i gofrestru ar y gofrestr etholiadol ac i bleidleisio. Ychydig cyn etholiad yw'r adeg resymegol i annog cofrestriad. O dan Ddeddf Etholiadol 2002 (Victoria), mae gan y comisiwn orchymyn deddfwriaeth i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion etholiadol sydd o fudd i'r cyhoedd trwy gynnal rhaglenni addysg a gwybodaeth.¹⁴² Er nad yw carcharorion yn cael eu crybwyll yn benodol, mae Comisiwn Etholiadol Victoria wedi nodi carcharorion fel grŵp targed ar gyfer eu strategaeth addysg a chynhwysiant.¹⁴³ Datblygwyd a gweithredwyd rhaglenni allgymorth, yn canolbwyntio ar gofrestru a phleidleisio, gan Gomisiwn Etholiadol Victoria ar gyfer grwpiau Brodorol, pobl ddigartref, cymunedau amrywiol o ran diwylliant ac iaith a grwpiau carcharorion. Nod y rhaglen allgymorth, a gynigir yn

¹³⁹ Yr Adran Gyfiawnder a Rheoleiddio – *Correction Victoria*. (2018). Mynd i'r Carchar: Cyrraedd. Ar gael yn: <http://www.corrections.vic.gov.au/home/prison/going+to+prison/arrival/>

¹⁴⁰ Comisiwn Etholiadol Victoria. Carcharorion a Phleidleisio. Ar gael yn: <https://www.vec.vic.gov.au/files/RP-PrisonersVoting.pdf>

¹⁴¹ Hill, L. (2009). *Prisoner Voting Rights. Symposium: Protecting Human Rights in Australia: Challenges and Strategies*.

¹⁴² Deddf Etholiadol 2002. Deddf Rhif 23/2002. Victoria. Ar gael yn:

[http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/\\$FILE/02-023a.pdf](http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/$FILE/02-023a.pdf)

¹⁴³ Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Victoria. 09/04/2018.

gyffredinol yn y cyfnod yn arwain at etholiad talaith, yw annog mwy o gyfranogiad mewn pleidleisio ymhlith y grwpiau targed, y nodwyd yn draddodiadol bod ganddynt gyfraddau cyfranogiad is yn gyffredinol.¹⁴⁴ Caiff y sesiynau hyn eu hysbysebu a'u hyrwyddo mewn carchardai a hysbysir carcharorion am y prawf adnabod sy'n ofynnol cyn sesiynau sydd ar fin cael eu cynnal; mae hyn yn rhoi amser i garcharorion sicrhau bod y dogfennau angenrheidiol ganddynt i allu llenwi'r ffurflen gofrestru yn y sesiwn. Fodd bynnag, mae cyflwyniad y rhaglenni hyn yn ddibynnol ar adnoddau a chydsyniad a chydweithrediad gweinyddiaethau carchar.

Cyfnod o Garchar	Cofrestrwyd	Cyfanswm	Canran a Gofrestrwyd
Llai na 3 blynedd	396	1,521	26 y cant
3 -5 mlynedd	186	683	27.2 y cant
Llai na 5 mlynedd	582	2,204	26.4 y cant
Mwy na 5 mlynedd	99	1,488	Heb ei ddatgelu
Cyfanswm	681	3,692	Heb ei ddatgelu

Tabl 3: Ystadegau cofrestru ar gyfer carcharorion yn Victoria ar 3 Mehefin 2010.¹⁴⁵

4.57 O ystyried y cyfraddau llythrennedd gwael ymhlith carcharorion, cydnabyddir yn eang mai dull wyneb yn wyneb yw'r mwyaf effeithiol ar gyfer cynnwys carcharorion yn y broses ddemocrataidd. Nid yn unig y mae hyn yn golygu y dylai timau Comisiwn Etholiadol Victoria, pan fo'n bosibl, ymweld â charchardai a chynorthwyo carcharorion i gwblhau ffurflenni cofrestru, ond hefyd yr angen i hyrwyddo a chynyddu pleidleisio symudol mewn carchardai. Gan fod problemau llythrennedd yn amharu ar allu carcharorion cymwys i bleidleisio drwy'r post, mae gwaith ymchwil a wnaed gan Gomisiwn Etholiadol Awstralia yn nodi bod pleidleisio symudol mewn carchardai yn cynnig y cyfle gorau o sicrhau bod carcharorion cofrestredig yn arfer eu hawliau pleidleisio.¹⁴⁶

¹⁴⁴ Comisiwn Etholiadol Victoria. Adroddiad Blynyddol 2009-10: *Every Vote Will Shape Victoria*. Ar gael yn: <https://www.vec.vic.gov.au/files/AR-2010-Full.pdf>

¹⁴⁵ *ibid.*

¹⁴⁶ Comisiwn Etholiadol Victoria. Carcharorion a Phleidleisio. Ar gael yn:

5. Y System Gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr

- 5.1 Er mwyn llunio polisi sy'n etholfreinio carcharorion Cymru, mae angen datblygu dealltwriaeth gadarn o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r drafodaeth yn yr adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ddedfrydau yn y ddalfa, gan mai dyma'r dedfrydau sy'n arwain at gyfnod o garchar. Mae'r angen i ddeall y ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn gweithio yn arbennig o bwysig o ystyried telerau'r cynnig - etholfreinio holl garcharorion Cymru y mae eu dyddiad rhyddhau disgwylidig yn ystod y tymor swydd sy'n cael ei ethol. Felly, mae'n angenrheidiol mapio sut y caiff dedfrydau troseddol eu traddodi a sut y mae telerau'r ddedfryd sy'n cael ei thraddodi yn cael eu cyfreithloni a'u cyfathrebu i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, yn ogystal â sut y cyfrifir dyddiad rhyddhau carcharorion a chan bwy.
- 5.2 Mae ail ran yr adran hon yn newid pwyslais o'r system cyfiawnder troseddol gyffredinol i archwilio'r ffordd y mae'r system cyfiawnder ieuencid yn gweithio. Mae'r system cyfiawnder ieuencid yn hanfodol wahanol i'r system cyfiawnder troseddol gyffredinol, o ran yr egwyddorion sy'n sail iddi a'r ffordd y mae'n gweithio yn ymarferol. Yn gyntaf, mae'r adran hon yn mapio'r egwyddorion a'r ffyrdd o weithio ymarferol hyn cyn cyflwyno, yn eu trefn, manylion y llys ieuencid, y mathau o ddedfrydau y gall troseddwy'r ifanc eu derbyn a'r mathau o sefydliadau lle cedwir troseddwy'r ifanc. Dylai manylion o'r fath helpu i greu dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng y system cyfiawnder ieuencid a'r system cyfiawnder oedolion. Oherwydd y cynnig cysylltiedig i etholfreinio pobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed, mae gwybodaeth am ffyrdd o weithio ac egwyddorion y system cyfiawnder ieuencid yn hanfodol i ddatblygu polisi yn ymwneud ag etholfreinio carcharorion. Mae gostwng yr oedran pleidleisio gofynnol i un ar bymtheg oed yng nghyd-destun etholfreinio carcharorion yn codi'r cwestiwn a ellir cymhwyso'r un egwyddorion yn ymwneud â phleidleisiau i garcharorion sy'n oedolion i droseddwy'r ifanc. Mae'n angenrheidiol felly datblygu dealltwriaeth dda o'r sefydliadau cosbi ar gyfer troseddwy'r ifanc. Hefyd, rhoddir manylion y llety yng Nghymru ar gyfer troseddwy'r ifanc – Cartref Diogel i Blant Hillside yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r Uned Pobl Ifanc yng Ngharchar Ei Mawrhydi Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gan y bydd datblygu rhaglenni addysg ac ymgysylltu gwleidyddol yn elfen bolisi hanfodol ar gyfer llwyddo i ostwng yr oedran pleidleisio i un ar bymtheg

oed yn gyffredinol, bydd yn hanfodol gwybod am y lefel a'r mathau o addysg a gynigir i droseddwr ifanc sydd wedi eu carcharu. Bwriad manylion a chefnidir yr adran hon yw darparu'r wybodaeth ofynnol sydd ei hangen ar gyfer datblygu polisi sy'n cyflwyno'r telerau pleidleisio ar gyfer troseddwr ifanc.

Y System Cyfiawnder Carcharu

5.3 Ceir llawer o fathau o ddedfrydau a orfodir gan y llysoedd, yn amrywio o ryddhad a dirwyon i ddedfrydau o garchar penagored ac oes gyfan. Yn gyffredinol, dyma ddibenion dedfrydu y mae'n ofynnol i'r llys eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud dyfarniad:

- cosbi troseddwr
- lleihau trosedd
- adfer ac adsefydlu troseddwr
- amddiffyn y cyhoedd
- troseddwr yn gwneud iawn i unigolion a/neu gymunedau yr effeithiwyd arnynt gan eu troseddau.¹⁴⁷

5.4 Rhoddir dedfrydau cymunedol i droseddwr y'u ceir yn euog o drosedd ond nad ydynt yn cael eu dedfrydu i garchar. Gall troseddau fel difrodi eiddo, twyll budd-daliadau neu ymosod dderbyn dedfryd gymunedol pan fo'r llys yn credu bod troseddwr yn fwy tebygol: ail-droseddu pe bai'n derbyn dedfryd o garchar, os mai dyma'r drosedd gyntaf a gyflawnwyd gan y troseddwr neu os oes gan y troseddwr gyflwr iechyd meddwl sy'n effeithio ar ei ymddygiad.¹⁴⁸ Dedfrydau o garchar, a gedwir ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol, yw'r math mwyaf eithafol o ddedfrydu sydd ar gael i'r llysoedd ac fe'u gorfodir pan na fyddai dirwy neu ddedfryd gymunedol yn ymateb cyfiawn i'r drosedd a gyflawnwyd.¹⁴⁹ Bydd unigolyn sy'n cael ei ddedfrydu i gyfnod o garchar mewn carchar cyhoeddus neu sefydliad troseddwr ifanc o dan oruchwyliaeth Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi, sy'n asiantaeth weithredol i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mewn egwyddor, yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r holl

¹⁴⁷ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁴⁸ gov.uk. Dedfrydau Cymunedol. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/community-sentences>

¹⁴⁹ Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Adran 152(2).

bwerau ac awdurdodaethau o ran carchardai a charcharorion, o dan adran 1 Deddf Carchardai 1952.¹⁵⁰

5.5 Ar 6 Ebrill 2018, 83,617 oedd cyfanswm poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr. Ceir chwech o garchardai sy'n weithredol ledled Cymru ar hyn o bryd

- CEM Brynbuga – carchar Categori C ar gyfer dynion agored i niwed yn Sir Fynwy.
- CEM Prescoed – is-safle i garchar Brynbuga sy'n sefydliad agored ailsefydlu Categori D ar gyfer troseddwyd sy'n ddynion mewn un ar ddeg o flociau llety modern a adeiladwyd yn benodol ar gyfer tua ugain o droseddwyd yr un.
- CEM Caerdydd – carchar Categori B/hyfforddi ar gyfer troseddwyd sy'n ddynion sy'n gwasanaethu ardal dalgylch y llysoedd de-ddwyrain Cymru yn bennaf.
- CEM a Sefydliad Troseddwyd Ifanc y Parc – carchar preifat Categori B ar gyfer dynion a Sefydliad Troseddwyd Ifanc, wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- CEM Abertawe – carchar Categori B ar gyfer troseddwyd sy'n ddynion.
- CEM Berwyn – carchar Categori C ar gyfer troseddwyd sy'n ddynion wedi'i leoli yn Wrecsam ac a agorwyd yn 2017.

5.6 Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw sefydliadau cosbi yng Nghymru sydd â lle ar gyfer troseddwyd sy'n fenywod na throseddwyd risg uchel ac, felly, mae'n rhaid i'r troseddwyd hyn fynd i garchardai yn Lloegr. Hefyd, o dan amgylchiadau penodol efallai na fydd carcharorion Cymru yn cael eu carcharu yng mewn carchardai yng Nghymru oherwydd polisi lleoli Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Ceir darpariaethau yn y polisi hwn lle mae carcharorion unigol o dde Lloegr sydd â chefnidir o fod mewn gang yn aml yn cael eu hanfon i CEM y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda'r bwriad eu bod yn cael eu symud o'u hardal gyfredol. Ar adegau, mae'r polisi hwn a'r darpariaethau cysylltiedig yn effeithio ar y gallu i ddarparu lleoedd i garcharorion o dde Cymru y bu'n rhaid, o'r herwydd, eu hanfon i garchar yn Lloegr. O fis Mawrth 2017, nodwyd bod 4,787 o garcharorion yn Gymry ar sail y ffaith fod eu cyfeiriad cartref yng Nghymru, a chofnodwyd bod 1,970 o'r

¹⁵⁰ Deddf Carchardai 1952. Adran Un. Ar gael yn:
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Geo6and1Eliz2/15-16/52/contents>

carcharorion hyn yn cyflawni eu dedfrydau mewn carchardai yn Lloegr.¹⁵¹ Er na chafodd y ffigurau hyn eu dadansoddi yn ôl rhywedd, roedd ffigurau a ddarparwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ym mis Medi 2016 yn dangos, ar yr adeg hon, bod 229 o garcharorion sy'n fenywod o Gymru a oedd i gyd wedi eu carcharu mewn carchardai yn Lloegr.

Y Llysoedd

- 5.7 Gall dedfrydu ddigwydd mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron. Adnabyddir achosion a all gael eu clywed yn y llys ynadon ac yn Llys y Goron fel troseddau “naill ffordd neu'r llall”. Mae gan lysoedd ynadon y grym i ddirwyo a charcharu troseddwr penodol. Fel rheol, mae llysoedd ynadon yn ymdrin ag achosion a adnabyddir fel troseddau diannod, sy'n cynnwys troseddau lle ceir mân ddifrod troseddol a throseddau meddw ac afreolus. Ni all llys ynadon garcharu neu gadw mewn sefydliad troseddwr ifanc am gyfnod o fwy na chwe mis yng nghyswllt unrhyw drosedd unigol. Fel arall, 12 mis yw'r uchafswm o garchar a orfodir mewn llys ynadon am droseddau naill ffordd neu'r llall, neu ddirwy nad yw'n fwy na'r swm a gollfarnwyd, neu'r ddau. Pum diwrnod yw'r cyfnod lleiaf o garchar y gall llys ynadon ei orfodi. Bydd troseddau mwy difrifol bob amser yn cael eu treialu a'u dedfrydu yn Llys y Goron, gyda llys ynadon yn meddu ar y gallu i anfon troseddwr i Lys y Goron i gael ei ddedfrydu pan fo'n ystyried bod ei bwerau dedfrydu ei hun yn annigonol.¹⁵² Hefyd, pan fydd llys ynadon yn dedfrydu troseddwr mewn achos naill ffordd neu'r llall, mae'n rhaid i Lys y Goron ymchwilio i amgylchiadau'r achos ac, pan fo'n angenrheidiol, ymdrin â'r drosedd fel pe bai'r troseddwr wedi ei gael yn euog o drosedd ar dditiad gerbron y llys uwch yn wreiddiol.
- 5.8 Caiff adroddiad cyn dedfrydu ei lunio cyn cyflwyno'r ddedfryd. Mae'r adroddiad cyn dedfrydu, sy'n cael ei baratoi gan y Gwasanaeth Prawf neu'r Tîm Troseddwr Ifanc, yn cynorthwyo'r llys yn ei ddyletswydd o benderfynu ar y dull mwyaf priodol o ymdrin â'r troseddwr. Dylai gynnwys asesiad o natur a difrifoldeb y drosedd, gan gymryd yr effaith ar y dioddefwr i ystyriaeth. Ar gyfer troseddwr peryglus, dylid ffeithiau euogfarnau perthnasol blaenorol a gwybodaeth yn disgrifio patrwm ymddygiad y troseddwr atodi'r adroddiad cyn dedfrydu.¹⁵³ Fodd bynnag, ni fydd unrhyw ddedfryd o garchar neu ddedfryd gymunedol yn cael ei hystyried yn annilys

¹⁵¹ Cyfathrebiad personol â Thîm Troseddu a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru, a oedd wedi derbyn y ffigurau gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

¹⁵² Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁵³ Gwasanaeth Erlyn y Goron. (2007). Adroddiadau Cyn-dedfrydu – Canllawiau Cyfreithiol. Ar gael yn: <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/pre-sentence-reports>

oherwydd methiant y llys i gael gafael ar yr adroddiad cyn dedfrydu a'i ystyried. Os na wnaeth llys gael gafael ar yr adroddiad cyn dedfrydu cyn traddodi dedfryd a bod y ddedfryd hon yn cael ei hapelio wedi hynny, mae'n rhaid i'r llys apêl gael gafael ar yr adroddiad cyn dedfrydu cyn cymryd unrhyw gamau eraill.¹⁵⁴

Dedfryd o Garchar

- 5.9 Ceir pum math cyffredin o ddedfrydau o garchar: dedfrydau gohiriedig, dedfrydau diffiniedig, dedfrydau penagored, dedfrydau estynedig a dedfrydau oes, a bydd pob un ohonynt yn cael ei drafod yn ei drefn. Ar gyfer llawer o droseddau, mae adeg cychwyn y ddedfryd wedi ei phennu mewn deddfwriaeth y bydd y barnwr, ar ôl cymryd yr holl ffactorau perthnasol i ystyriaeth, yn cyfrifo i fyny ac i lawr ohoni wedyn. Mae Canllawiau Dedfrydu, a gyhoeddir ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau gan Gyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr, yn rhoi canllawiau manwl i'r llysoedd ar sut i wneud cyfrifiadau o'r fath.¹⁵⁵ Mae hyd dedfryd o garchar yn dibynnu ar natur y drosedd a difrifoldeb y drosedd. Hefyd, gellir lleihau hyd y ddedfryd pan fo troseddwr yn pledio'n euog. Yn dilyn ple euog, dylid cymhwyso'r gostyngiad priodol i'r ddedfryd i elfen gosbedigol y gosb yn unig. Wrth benderfynu pa ddedfryd i'w thraddodi pan fydd troseddwr wedi pledio'n euog, mae'n rhaid i'r llys gymryd i ystyriaeth y cam yn yr achos pan wnaeth y troseddwr nodi ei fwriad i bledio'n euog a'r amgylchiadau y rhoddwyd y dynodiad hwn o danynt. Y gostyngiad mwyaf am ble euog, sy'n briodol pan y'i gwneir gan y troseddwr ar y cyfle rhesymol cyntaf, yw un rhan o dair a chaiff lefel y gostyngiad ei fesur ar raddfa newidiol, gan ostwng i argymhelliad o un chwarter os yw dyddiad y treial wedi ei bennu ac i ostyngiad a argymhellir o un rhan o ddeg ar gyfer ple a wneir wrth ddrws y llys neu ar ôl i'r treial ddechrau. Hefyd, os bydd y diffynnydd yn cyfaddef i droseddau eraill nad yw wedi cael ei gosbi amdanynt, gall y barnwr gymryd y troseddau ychwanegol hyn i ystyriaeth wrth draddodi'r ddedfryd, ac mae'n aml yn gwneud hynny, yn enwedig wrth graffu ar droseddoldeb cyffredinol troseddwr a'r drosedd/troseddau a gyflawnwyd. Er y gall ple euog leihau hyd dedfryd, gall ffactorau gwaethygedig gynyddu difrifoldeb y drosedd ac, felly, hyd y ddedfryd, trwy nodi lefel uwch na'r arfer o feusrwydd ar ran y troseddwr.¹⁵⁶
- 5.10 Er bod dedfrydu wedi ei sicrhau mewn deddfwriaeth, mae'n bwysig nodi bod Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 wedi cael ei diwygio ar sawl achlysur. Felly, er bod yr

¹⁵⁴ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁵⁵ Freer, E. (2017). *Custodial Sentences: Minimum term*.

¹⁵⁶ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

adroddiad hwn yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth fwyaf cyfredol, mae amgylchiadau yn parhau pan fo carcharorion presennol wedi cael eu dedfrydu o dan ddeddfwriaeth arall ac, felly, maent yn gymwys i gael eu rhyddhau ar wahanol adegau yn eu dedfryd i'r hyn a nodir yn y ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Er enghraifft, o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, bu tair gwahanol drefn dedfrydu yn ymwneud â darpariaethau peryglus ac, er bod cynlluniau un a dau wedi cael eu diddymu, ceir carcharorion yn y system sydd ar fin apelio neu wedi cael eu cynghori i apelio yn erbyn dedfrydau a orfodwyd o dan y cynlluniau hyn sy'n afraid erbyn hyn.¹⁵⁷ Oherwydd i droseddau gael eu dedfrydu o dan wahanol ddeddfwriaeth, mae'r broses o gyfrifo dyddiadau rhyddhau a thelerau trwydded yn ddibynnol ar bryd y cafodd trosedd ei chyflawni a/neu pryd y traddodwyd y dedfryd am drosedd. Hefyd, pan fydd troseddwr yn cael ei dedfrydu i wahanol dedfrydau neu i dedfrydau ychwanegol pan fydd yn destun rhyddhad neu oruchwyliaeth, mae sut y mae'r dedfrydau hyn yn rhyngweithio i effeithio ar ddyddiadau dedfrydu yn ddibynnol ar yr amgylchiadau troseddu. Yn ogystal â hyn, darperir ar gyfer unrhyw eithriadau mewn deddfwriaeth hefyd.

Dedfrydau gohiriedig

- 5.11 Wrth orfodi dedfryd o garchar rhwng 14 diwrnod a dwy flynedd (neu chwe mis yn y llys ynadon), gall y llys ddewis gohirio'r dedfryd am hyd at ddwy flynedd. Nid yw dedfryd ohiriedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r carcharor fynd i'r carchar ar unwaith, ond mae'n caniatáu i'r dedfryd gael ei chyflawni yn y gymuned. Yn ystod y cyfnod gohirio, mae'r troseddwr wedi ei rwymo i gydymffurfio â hyd at 12 o ofynion a bennir gan y llys, fel gwneud gwaith di-dâl, bod yn ddarostyngedig i gyrffiw ac ymgymryd â rhaglen driniaeth ar gyfer cyffuriau neu alcohol. Fodd bynnag, os nad yw'r troseddwr yn bodloni'r gofynion a orfodir neu y'i ceir yn euog o drosedd arall yn ystod y cyfnod gohirio, mae'n debygol y bydd yn rhaid iddo gyflawni'r cyfnod gwreiddiol o garchar yn llawn yn ogystal ag unrhyw dedfryd a draddodir am y drosedd newydd.

Dedfrydau diffiniedig a phenagored

- 5.12 Dedfrydau diffiniedig o garchar yw'r math mwyaf cyffredin o dedfryd o garchar. Wrth draddodi dedfryd ddiffiniedig, mae'r llys yn pennu cyfnod penodedig o garchar, sef y cyfnod hiraf y gallai carcharor ei dreulio wedi ei garcharu mewn sefydliad

¹⁵⁷ Thorne, K. ac Arshad, F. (2015). *Imprisonment for Public Protection*.

cosbi.¹⁵⁸ Mewn cyferbyniad, gall y llysoedd orfodi dedfryd benagored o garchar, nad oes cyfnod penodedig o garchar yn gysylltiedig â hi. Er nad oes gan ddedfrydau penagored hyd dedfryd diffiniedig, mae'r llys yn gorfodi cyfnod neu dariff gofynnol. Mae'r Senedd wedi cyflwyno nifer o ddedfrydau o garchar tymor penodol gofynnol ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol, er enghraifft roedd adran 110 Deddf Grym y Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 yn gorfodi dedfryd o 7 mlynedd o leiaf am drydedd drosedd masnachu cyffuriau dosbarth ac roedd adran 111 yr un Ddeddf yn gorfodi dedfryd o dair blynedd o leiaf am drydedd bwrghleriaeth ddomestig.¹⁵⁹ Ar gyfer troseddau y mae cyfnod gorfodol gofynnol yn gysylltiedig â nhw, nid y cyfnod gofynnol a ddeddfwyd yw'r man cychwyn ar gyfer dedfrydu. Yn hytrach, mae'n rhaid i'r llys gyflawni'r ymarfer dedfrydu yn ôl yr arfer ac yn unol â Chanllawiau'r Cyngor Dedfrydu ac, yna, croeswrio i sicrhau nad yw'r ddedfryd ddilynol yn llai na'r cyfnod gofynnol. Er bod y gostyngiad priodol yn dal i fod yn gymwys yn dilyn ple euog, ni all y gostyngiad sy'n cael ei gymhwyso leihau'r ddedfryd i lai nag 80 y cant o'r tymor gofynnol.

- 5.13 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr wedi rhagnodi tymor gofynnol ar gyfer nifer gynyddol o droseddau. Bu dadleuon ynghylch cyflwyniad cynyddol dedfrydau gofynnol gorfodol, gyda nifer o bryderon ynghylch y potensial cynyddol o anghyfiawnder ac anghysondeb. Fodd bynnag, gellir osgoi'r perygl o anghymesuredd trwy ddarllenriad eang o'r ddarpariaeth amgylchiad eithriadol sydd yn y ddeddfwriaeth, sy'n caniatáu i'r llys ddarllen deddfwriaeth yn gyfyng. O dan amgylchiadau eithriadol, caniateir i'r barnwr dedfrydu bennu dedfryd sy'n llai na'r hyd gofynnol gorfodol.¹⁶⁰

Dedfrydau estynedig

- 5.14 Cyflwynwyd dedfrydau estynedig i ddarparu amddiffyniad ychwanegol i'r cyhoedd yn dilyn trosedd dreisgar neu drosedd rywiol. Pan ganfyddir bod troseddwr yn berygl sylweddol i gymdeithas ond nad yw'r llysoedd yn credu bod dedfryd oes yn briodol, gall y llys ymestyn cyfnod y drwydded gyda chyfiawnhad i amddiffyn y cyhoedd rhag perygl neu niwed. Mae'r barnwr yn penderfynu pa mor hir ddylai'r troseddwr aros yn y carchar ac, hefyd, yn pennu cyfnod y drwydded estynedig hyd at uchafswm o wyth mlynedd o ran trosedd rywiol a phum mlynedd o ran trosedd

¹⁵⁸ Y Cyngor Dedfrydu. *Types of Sentence*. Ar gael yn:

<https://www.sentencingcouncil.org.uk/about-sentencing/types-of-sentence/life-sentences/>

¹⁵⁹ Gwasanaeth Erlyn y Goron. (2017). Dedfrydu: Dedfrydau Gorfodol a Gofynnol o Garchar – Canllawiau Cyfreithiol. Ar gael yn:

<https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/sentencing-mandatory-and-minimum-custodial-sentences>

¹⁶⁰ Freer, E. (2017). *Custodial Sentences: Minimum term*.

dreisgar.¹⁶¹ Felly, mae dedfrydau estynedig yn cynnwys, yn gyntaf, y cyfnod priodol o garchar sef y cyfnod o garchar a fyddai wedi cael ei orfodi fel arall ac, yn ail, cyfnod yr estyniad pellach pan fydd y troseddwr yn ddarostyngedig i drwydded. Caiff elfen trwydded y ddedfryd ei chyflawni yn y gymuned o dan ofal y Gwasanaeth Prawf. Bydd carcharor sy'n cyflawni dedfryd estynedig yn cyflawni o leiaf dwy ran o dair o elfen garchar y ddedfryd yn y carchar. Pan fydd elfen garchar dedfryd ddiffiniedig estynedig yn llai na deng mlynedd ac nad yw'r drosedd a gyflawnwyd yn drosedd Atodlen 15B, bydd y carcharor yn cael ei ryddhau yn awtomatig dwy ran o dair o'r ffordd drwy'r cyfnod o garchar. Mewn cyferbyniad, pan fo elfen garchar dedfryd ddiffiniedig estynedig yn ddeng mlynedd neu fwy neu fod y drosedd a gyflawnwyd yn drosedd Atodlen 15B, bydd y carcharor dan sylw yn gymwys ar gyfer rhyddhad yn ôl disgrisiwn gan y Bwrdd Parôl dwy ran o dair o'r ffordd i mewn i'r cyfnod o garchar. Bydd yr adolygiad gan y Bwrdd Parôl yn cychwyn wrth i'r pwynt sydd ddwy ran o dair i mewn i'r ddedfryd yn agosáu.¹⁶² Os caiff parôl ei wrthod ar yr adeg hon, yna bydd achos carcharor yn destun adolygiadau parôl blynyddol tan i'w gyfnod yn y carchar ddod i ben. Pan nad yw'r Bwrdd Parôl wedi rhyddhau carcharor sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig erbyn dyddiad diwedd ei gyfnod o garchar, bydd y carcharor yn cael ei ryddhau yn awtomatig ar yr adeg hon.¹⁶³ Ni all dedfryd estynedig fod yn fwy na'r gosb fwyaf sydd ar gael ar gyfer y drosedd dan sylw, ond cânt eu cymhwyso i droseddau sy'n denu dedfryd fwyaf o ddeng mlynedd yn gyffredinol, a lle mae'r ddedfryd o garchar yn flwyddyn o leiaf.

Dedfrydau arbennig o garchar

- 5.15 Yn ogystal â dedfryd estynedig, caiff darpariaethau eu gwneud o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ar gyfer dedfrydau arbennig o garchar ar gyfer troseddwr penodol sy'n peri pryder arbennig. Gall troseddwr beri pryder arbennig pan: (a) mae unigolyn yn derbyn euogfarn am drosedd a restrir yn Atodlen 18A Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003; (b) roedd y troseddwr yn 18 oed neu'n hŷn pan gyflawnwyd y drosedd; ac (c) nid yw'r llys wedi gorfodi dedfryd o garchar am oes neu ddedfryd estynedig. Pan fydd yr amodau hyn yn cael eu bodloni ac os bydd y

¹⁶¹ Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr. (2013). Canllawiau i Aelodau ar Ddeddf LASPO 2012 – Prawf ar gyfer Rhyddhau. Canllawiau Diwygiedig – Rhagfyr 2013. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/317735/guidance-on-laspo.pdf

¹⁶² Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr. (2015). Pennu Dedfryd – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn:

<https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

¹⁶³ insidetime: y Papur Newydd Cenedlaethol ar gyfer Carcharorion. (2016). *Extended Determinate Sentence and the Impact they have on Prisoners*. 01/07/2016. Ar gael yn: <https://insidetime.org/extended-determinate-sentences-and-the-impact-they-have-on-prisoners/>

llys yn gorfodi dedfryd o garchar, mae'n rhaid i delerau'r ddedfryd fod yr un fath a swm cyfanredol y cyfnod priodol o garchar, yn ogystal â chyfnod o flwyddyn pan fydd y troseddwr yn destun trwydded. Daw'r troseddwr yn gymwys i gael ei ryddhau gan y Bwrdd Parôl ar ôl cyflawni hanner y ddedfryd o garchar.¹⁶⁴

Dedfrydau oes

- 5.16 Dedfrydau oes yw'r math mwyaf difrifol o ddedfryd, sy'n gwneud y troseddwr yn ddarostyngedig i'r ddedfryd a orfodir am weddill ei oes. Ceir dau fath o ddedfryd oes, dedfryd oes orfodol yw'r gyntaf a dedfryd oes â disgresiwn yw'r llall, y gall y llysoedd eu gorfodi ar droseddau sydd ag oes fel uchafswm y cyfnod o garchar amdanynt. Llofruddiaeth yw'r unig drosedd yng Nghymru a Lloegr sydd â dedfryd oes orfodol wedi ei phennu gan y gyfraith. Wrth draddodi dedfryd oes orfodol, mae'n ofynnol i'r llysoedd bennu cyfnod tariff, sef y cyfnod gofynnol y mae'n rhaid i droseddwr ei dreulio yn y carchar cyn y gall gael ei ystyried ar gyfer rhyddhad ar drwydded. I'r troseddau llofruddiaeth mwyaf anfad, bydd cyfnod y tariff yn orchymyn oes gyfan, pan na fydd carcharor byth yn cael ei ystyried ar gyfer rhyddhad. Ar ddiwedd mis Medi 2017, roedd 59 o droseddwr yng Nghymru a Lloegr yn cyflawni dedfrydau oes gyfan.¹⁶⁵ Fodd bynnag, bu nifer o achosion yn erbyn y DU yr aethpwyd â nhw i Lys Hawliau Dynol Ewrop o ran carchariad oes gyfan ac, er bod dyfarniad y llys wedi cael ei herio'n llwyddiannus ym mhob achos hyd yn hyn, mae'n rhaid cyfeirio unrhyw achos sy'n ystyried dedfryd oes gyfan at yr Uned Apeliadau ac Adolygu cyn i unrhyw gyflwyniadau gael eu gwneud ac i'r ddedfryd gael ei thraddodi gan y llys.¹⁶⁶
- 5.17 Mae gorchmynion oes gyfan wedi eu cadw ar gyfer y troseddau llofruddiaeth mwyaf difrifol, ac, yn gyffredinol, mae'r llysoedd yn pennu cyfnod tariff gofynnol ar gyfer dedfrydau gorfodol sy'n aml ychydig yn brin o orchymyn oes gyfan. Mae'n rhaid cyflawni'r cyfnod tariff gofynnol ar gyfer gorchmyn oes gyfan yn llawn. Ni fydd carcharor sy'n cyflawni gorchmyn oes gorfodol yn dod yn gymwys i gael ei ryddhau'n gynnar o dan unrhyw amgylchiadau. Mewn cyferbyniad, bydd cynnydd troseddwr ifanc sy'n cyflawni gorchmyn oes gorfodol yn cael ei adolygu yn gyfnodol a cheir y posibilrwydd i'r cyfnod tariff gofynnol gael ei leihau. Dim ond pan mae'r tariff gofynnol wedi cael ei gyflawni ac os yw'r Bwrdd Parôl yn fodlon nad yw

¹⁶⁴ Hungerford-Welch, P. (2018). *Extended Sentences*.

¹⁶⁵ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2017). Ystadegau Rheoli Troseddau Tri Misol, Cymru a Lloegr. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655150/Offender_Management_Statistics_Bulletin_Q2_2017.pdf

¹⁶⁶ Gwasanaeth Erlyn y Goron. (2017). Dedfrydu: Dedfrydau Gorfodol a Gofynnol o Garchar – Canllawiau Cyfreithiol. Ar gael yn: <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/sentencing-mandatory-and-minimum-custodial-sentences>

carchariad y troseddwr yn rheidrwydd mwyach i sicrhau diogelwch y cyhoedd y gall yr Ysgrifennydd Gwladol orchymyn rhyddhad y carcharor.¹⁶⁷

- 5.18 Yn ogystal â dedfrydau oes gorfodol, ceir dedfrydau oes â disgresiwn ar gyfer troseddau penodedig penodol. Ac eto nid yw hyn yn golygu y bydd yr holl unigolion y'u ceir yn euog o'r troseddau hyn, na'r mwyafrif ohonynt hyd yn oed, yn derbyn dedfryd oes. Mae Adran 225 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi bod yn rhaid dedfrydu troseddwyr yr ystyrir eu bod yn beryglus ac sydd wedi cyflawni troseddol benodol y mae carchariad am oes yn gysylltiedig â hi fel y gost fwyaf, i garchar am oes os yw'n gyfiawn. Hefyd, gellir gorfodi dedfryd o oes am ail droseddau rhestredig. Gellir dedfrydu'r rhai y'u ceir yn euog o ail drosedd ddifrifol iawn i garchar am oes os: yw'r drosedd yn drosedd restredig; y byddai'r llys fel arall wedi gorfodi dedfryd o garchar am ddeng mlynedd neu fwy am y drosedd; a phan fo gan y troseddwyr euogfarn flaenorol am drosedd restredig y derbyniodd garchar am oes gyda chyfnod gofynnol o bum mlynedd o leiaf amdani.¹⁶⁸ Mae Atodlen 15B Rhan 1 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, yn dilyn diwygiadau a gyflwynwyd yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2011, yn nodi manylion y "drosedd restredig" y ceir 40 ohonynt, gan gynnwys llofruddiaeth, treisio, niwed corfforol difrifol a rhai troseddau terfysgol.¹⁶⁹
- 5.19 O ran dedfryd oes orfodol, mae'n ofynnol i'r barnwr bennu cyfnod gofynnol ar gyfer dedfryd oes â disgresiwn y mae'n rhaid i'r troseddwr ei dreulio yn y carchar cyn y gellir ei ystyried ar gyfer rhyddhad gan y Bwrdd Parôl. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio achos at y Bwrdd Parôl, a fydd yn gwneud y penderfyniad wedyn ynghylch a ddylai'r carcharor gael ei ryddhau. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio achos carcharor at y Bwrdd ar unrhyw adeg: ar ôl i'r carcharor gyflawni'r cyfnod gofynnol a bennwyd wrth ei ddedfrydu; pan fu cyfeiriad blaenorol o achos y carcharor at y Bwrdd ar ôl diwedd dwy flynedd yn cychwyn gyda gwarediad y cyfeiriad hwnnw; ac ar yr adeg hanner ffordd neu ar ddiwedd y cyfnod o garchar am ddedfryd o garchar neu warchodaeth am gyfnod penodedig. Bydd carcharor sy'n cyflawni dedfryd oes yn cael ei ryddhau dim ond os ystyrir nad yw carchariad yn angenrheidiol mwyach i ddiogelu'r cyhoedd. Ni fydd carcharor sy'n cyflawni dwy neu fwy o ddedfrydau oes yn cael ei ryddhau tan i gyfnod gofynnol

¹⁶⁷ Freer, E. (2017). *Custodial Sentences: Minimum term*.

¹⁶⁸ Y Cyngor Dedfrydu. (2018). *Life Sentences*. Ar gael yn:

<https://www.sentencingcouncil.org.uk/about-sentencing/types-of-sentence/life-sentences/>

¹⁶⁹ Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Adran 225. Dedfryd neu Garchariad Oes am Droseddau Difrifol ar gyfer Diogelwch y Cyhoedd. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/pdfs/ukpga_20030044_en.pdf

gael ei gyflawni yng nghyswllt pob dedfryd a than y bydd wedi cyflawni rhan berthnasol pob dedfryd.¹⁷⁰ Os caiff ei ryddhau, bydd troseddwr a ddedfrydwyd i garchar am oes yn aros ar drwydded am weddill ei oes. Os ystyrir, unwaith eto, ei fod yn berygl i'r cyhoedd gellir ei alw yn ôl i'r carchar ar unrhyw adeg, pa un a chyflawnwyd trosedd arall ai peidio.¹⁷¹

Traddodi Dedfryd yn y Llys

- 5.20 Ar ôl cyflwyno deddfwriaeth newydd ar 4 Ebrill 2005, mae'n ofynnol i'r llysoedd draddodi'r ddedfryd ofynnol o garchar sy'n gymesur yn eu barn nhw â difrifoldeb y drosedd/au. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar gyfer dedfrydau o garchar sy'n cael eu pennu gan gyfraith neu ddedfrydau oes am droseddau difrifol neu ail droseddau rhestredig. Gellir traddodi dedfryd dim ond pan fo'r unigolyn sy'n cael ei ddedfrydu yn cael ei gynrychioli yn gyfreithiol yn y llys, oni bai fod cynrychiolaeth gyfreithiol wedi cael ei gwrthod, ei thynnu yn ôl neu pan fo'r diffynnydd wedi methu â gwneud cais am gynrychiolaeth gyfreithiol. Mae'n rhaid i'r llys nodi cyfnod o garchariad wrth draddodi'r ddedfryd, a adnabyddir yn gyffredin fel y "cyfnod gwarchodol" sy'n weithredol i ddechrau'r diwrnod y'i gorfodwyd. Mae'n rhaid i'r troseddwr gael ei ryddhau ar drwydded pan fo'r cyfnod gwarchodol wedi cael ei gyflawni. Fodd bynnag, mae'r llys hefyd yn dangos y bydd y drwydded ddim ond yn cael ei rhoi yn destun amodau sy'n gwneud cydymffurfiaid y troseddwr yn ofynnol yn ystod gweddill y cyfnod. Hefyd, wrth draddodi dedfryd, gall y llysoedd argymhell i'r Ysgrifennydd Gwladol amodau penodol y maent o'r farn y dylai gael eu cynnwys mewn unrhyw drwydded a gyflawnir gan y troseddwr ar ôl ei ryddhau o'r carchar. Ar gyfer dedfrydau nad oes ganddynt ddyddiad terfyn, bydd rhyddhad y troseddwr yn ddibynnol ar benderfyniad y Bwrdd Parôl ar ôl i'r ddedfryd o garchar gael ei chyflawni yn rhannol neu'n llwyr.
- 5.21 Pan fydd llys yn traddodi dedfryd am fwy nag un drosedd, mae'n rhaid iddo benderfynu a ddylai pob dedfryd a draddodir redeg yn gydamserol neu'n olynol. Fel rheol, ystyrir bod dedfrydau cydamserol yn briodol pan fo troseddau yn deillio o'r un digwyddiad neu ffaith neu lle ceir cyfres o droseddau o'r un math neu fath tebyg. Mae dedfrydau olynol fel rheol yn briodol pan: fo troseddau yn deillio o ffeithiau neu ddigwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig; pan na fyddai dedfryd gydamserol yn adlewyrchu'n ddigonol y troseddoldeb cyffredinol, er bod y troseddau o'r un math

¹⁷⁰ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁷¹ Y Cyngor Dedfrydu. *Types of Sentence*. Ar gael yn:

<https://www.sentencingcouncil.org.uk/about-sentencing/types-of-sentence/life-sentences/>

neu fath tebyg; a phan fyddai rhedeg dedfrydau lluosog yn gydamserol yn tanseilio'r cyfnod gofynnol statudol a bennwyd ar gyfer un neu fwy o'r dedfrydau.¹⁷² Pan fo llys yn traddodi dedfrydau lluosog, mae'n ofynnol iddynt nodi a fydd y dedfrydau yn rhedeg yn gydamserol neu'n olynol.

- 5.22 Ar ôl penderfynu ar y ddedfryd, mae'n ofynnol i'r barnwr esbonio penderfyniad y ddedfryd mewn llys agored. Ystyrir bod esboniad o benderfyniad y ddedfryd yn angenrheidiol i sicrhau bod y diffynydd, y dioddefwr, y cyhoedd yn gyffredinol, pa un a ydynt yn bresennol yn y llys neu'n cael eu hysbysu'n ddiweddarach gan y cyfryngau, ac Is-adran Droseddol y Llys Apêl yn deall sut y penderfynwyd ar y ddedfryd a pham mae'n ymateb cyfiawn i'r drosedd a gyflawnwyd.¹⁷³ Hefyd, mae'n rhaid i'r esboniad hwn nodi: effaith y ddedfryd, effeithiau diffyg cydymffurfio, unrhyw rym sydd gan y llys i newid neu adolygu unrhyw orchymyn sy'n rhan o'r ddedfryd a, phan fo'r ddedfryd yn ddirwy neu'n cynnwys dirwy, effaith ganlyniadol y methiant i dalu'r ddirwy.
- 5.23 Mae'n ofynnol i'r Twrnai Cyffredinol ystyried dedfryd ar ôl iddi gael ei thraddodi gan Lys y Goron. Os yw'n ymddangos i'r Twrnai Cyffredinol bod y ddedfryd yn rhy drugarog a bod yr achos yn agored i adolygiad, gellir cyfeirio'r achos at y llys lle caiff dedfryd yr unigolyn dan sylw ei hadolygu.¹⁷⁴ Hefyd, gall troseddwr apelio yn erbyn yr euogfarn y mae wedi ei derfyn, y ddedfryd a draddodwyd neu yn erbyn yr euogfarn a'r ddedfryd. Os caiff y ddedfryd ei thraddodi mewn llys ynadon, mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y traddodwyd a phan draddodwyd y ddedfryd mewn Llys y Goron mae gan y troseddwr 28 diwrnod i gyflwyno apêl. Yn dilyn adolygiad, gall y Llys Apêl ddileu'r ddedfryd neu draddodi dedfryd newydd y mae'n ystyried sy'n ymateb priodol i'r drosedd, sy'n cymryd blaenoriaeth dros y ddedfryd wreiddiol wedyn. Gall y Llys Apêl ymyrryd dim ond pan: y gall ddangos bod y ddedfryd yn ddiffygiol o dan y gyfraith, bod deunydd wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn amhriodol wrth ddedfrydu'n wreiddiol, y traddodwyd y ddedfryd ar sail ffeithiol anghywir neu y byddai buddiant y cyhoedd fel rheol yn gofyn am gosb sylweddol na chafodd ei darparu yn y ddedfryd wreiddiol.¹⁷⁵ Felly, gellir newid dedfryd gyda chyfiawnhad dim ond pan fydd y llys apêl yn dod i'r casgliad y traddodwyd dedfryd anghywir yn wreiddiol.

¹⁷² Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁷³ *Crown Court Bench Book: Companion. Part II – Sentencing*. Ionawr 2013.

¹⁷⁴ Gwasanaeth Erlyn y Goron. (2017). Dedfrydu: Trosolwg – Canllawiau Cyfreithiol. Ar gael yn: <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/sentencing-overview>

¹⁷⁵ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

Gwarantau Dedfryd

5.24 Ar ôl traddodi dedfryd yn y llys, mae Llys y Goron yn cyflwyno gorchymyn/gwarant o garchariad (F5035) a'r llys ynadon yn cyflwyno gwarant garcharu (F43 neu F44). Mae telerau gwarant o garchariad neu warant garcharu yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolion y mae wedi ei chyfeirio atynt garcharu'r diffynnydd tan iddo gael ei ddanfon i'r llys neu'r lle priodol am gyfnod o amser nad yw'n fwy na'r uchafswm a ganiateir a nodir yn y warant.¹⁷⁶ Mae gwarantau dedfrydu yn nodi:

- dyddiad y gwrandawriad
- y diffynnydd y cyflwynir y warant yn ei erbyn
- yr unigolyn/carchar y mae'r warant wedi ei chyfeirio ato
- y rhesymau am gyflwyno'r warant
- enw'r llys sy'n cyflwyno'r warant
- swyddfa llys y llys sy'n cyflwyno'r warant.

5.25 Gall y warant gael eu hysgrifennu â llaw ond dylai gynnwys llofnod clerch y llys neu stamp y llys.¹⁷⁷ Os yw'r warant yn cael ei chyflwyno yn erbyn troseddwr ifanc, o dan adran 91 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (2012), mae'n rhaid iddi hefyd gynnwys y manylion canlynol:

- pa un a oes rhaid cadw'r diffynnydd mewn llety awdurdod lleol neu lety cadw ieuenctid
- yr awdurdod lleol a ddynodwyd gan y llys
- unrhyw ofyniad a orfodwyd gan y llys ar yr awdurdod hwnnw
- unrhyw amod a orfodwyd gan y llys ar y diffynnydd
- y rheswm am unrhyw ofyniad neu amod o'r fath.¹⁷⁸

5.26 Yn dilyn dyfarniad Hirst, mae Llywodraeth y DU wedi derbyn yr angen am fwy o eglurder yn y broses ddedfrydu sy'n nodi'n bendant bod carcharorion yn colli eu hawl i bleidleisio. Felly, mae Swyddfa Cabinet y DU mewn trafodaethau gyda'r farnwriaeth gan y bydd angen mewnosod datganiad yng ngwarant y ddedfryd yn datgan yn eglur y golled o hawliau pleidleisio i bob carcharor a ddedfrydwyd tra bydd yn y carchar.

¹⁷⁶ *Criminal Procedure Rules: The Criminal Practice Directions*. Hydref 2015. Part 13: Warrants for Arrest, Detention or Imprisonment.

¹⁷⁷ *ibid.*

¹⁷⁸ *ibid.*

5.27 Gall gwarant gael ei gweithredu gan unrhyw unigolyn y mae wedi ei chyfeirio atynt. Mae'n rhaid i'r unigolion sy'n gweithredu'r warant esbonio, mewn termau y gall y diffynnydd eu deall, yr hyn sy'n ofynnol o dan y warant a pham. Mae'n rhaid i'r unigolion y mae'r warant wedi ei chyfeirio atynt ei dangos i'r diffynnydd, os nad yw'r warant gan yr unigolion a bod y diffynnydd yn gofyn yna dylid gwneud trefniadau i'r diffynnydd weld y warant. Mae'n ofynnol i'r unigolion sy'n gweithredu'r warant o warchodaeth neu garchariad fynd â'r diffynnydd i'r man a nodir yn y warant neu, os nad yw hynny'n ymarferol ar unwaith, i unrhyw fan arall lle gellir cadw'r diffynnydd yn gyfreithlon. Yn yr achos olaf, mae'r warant yn cael yr effaith wedyn fel pe bai wedi nodi'r man cadw hwnnw. Mae'n rhaid cael derbynneb gan y ceidwad a dylid hysbysu swyddog y llys bod y diffynnydd wedi cyrraedd y man a nodir yn y warant.

Rhyddhau Carcharorion

5.28 Cyfrifo Dyddiadau Rhyddhau

Y Gwasanaeth Carchardai sy'n gyfrifol am gyfrifo dyddiadau rhyddhau carcharorion. Yn dibynnu ar y ddedfryd, mae'r cyfrifiad dedfryd a gynhyrchir gan y Gwasanaeth Carchardai yn pennu'r dyddiad parôl cymeradwy, dyddiad terfyn y carchariad, dyddiad rhyddhau amodol, dyddiad erfyn y drwydded, dyddiad nad yw'n barôl, dyddiad cymhwysedd parôl, dyddiad rhyddhau ar ôl galw'n ôl, dyddiad terfyn y ddedfryd, dyddiad terfyn y ddedfryd a'r drwydded, a dyddiad terfyn goruchwyliaeth atodol. Yn dibynnu ar hyd y ddedfryd a orfodir, mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwahanol gynlluniau rhyddhad gweithredol. Oherwydd diwygiadau a wnaed i ddeddfwriaeth, bydd cyfrifiad y ddedfryd yn amrywio yn dibynnu ar ba un a dedfrydwyd a/neu cyflawnwyd y drosedd ar ôl 1 Chwefror 2015. Bydd y testun canlynol yn dilyn y weithdrefn bresennol fel y'i diweddarwyd ddiwethaf yn 2015¹⁷⁹, ond gweler atodiad un ar gyfer yr holl ddyddiadau rhyddhau.

5.29 Er mwyn i'r Gwasanaeth Carchardai gwblhau'r cyfrifiad dedfryd ar gyfer pob carcharor, mae angen iddo gael y wybodaeth ganlynol:

- y gorchymyn carcharu neu'r warant garcharu
- y daflen cofnod olrhain sy'n darparu'r wybodaeth allweddol am sut y lluniwyd y ddedfryd gyffredinol

¹⁷⁹ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. (2015). Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

- ditiadau yn nodi manylion allweddol y troseddau a'r dyddiadau y'u cyflawnwyd
- manylion darparu ddiwrnodau ychwanegol a ddyfarnwyd
- gwarantau remánd er mwyn helpu i benderfynu pa amser remánd sy'n berthnasol i'r ddedfryd
- cofnodion dalfa'r heddlu (yn ofynnol ar gyfer dedfrydau a orfodwyd cyn 3 Rhagfyr yn unig yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd cyn 4 Ebrill 2005)
- mae angen ôl-gofnodion i wirio unrhyw gyfnodau remánd blaenorol sy'n cael effaith ar y ddedfryd bresennol.

5.30 Mae'n rhaid cwblhau'r broses o gyfrifo dedfrydau carcharorion o fewn pum diwrnod gwaith o'u derbyn. Os nad yw'r carchar yn meddu ar yr holl ddogfennau angenrheidiol i wneud cyfrifiad cywir yn unol â'r amserlen hon, mae'n rhaid gwneud cyfrifiad o hyd ond dylid nodi ei fod dros dro ac yna ei ail-gyfrifo pan fydd yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael. Ar ôl i'r cyfrifiadau gael eu gwneud, mae'n ofynnol i ail aelod o staff wirio'r holl gyfrifiadau. Mae'n rhaid hysbysu carcharor yn ffurfiol am ei ddyddiad rhyddhau yn ysgrifenedig o fewn un diwrnod ac o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfrifiad fan bellaf, gan gadw copi o daflen hysbysiad y dyddiad rhyddhau yn cael ei gadw ar ffeil. Yn ogystal â'r hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol, mae'n rhaid esbonio'r dyddiad rhyddhau i'r carcharor ar lafar hefyd. Os caiff carcharor ei drosglwyddo i sefydliad arall, mae'n rhaid i'r sefydliad newydd ail-gyfrifo'r ddedfryd a hysbysu'r carcharor am ei ddyddiadau rhyddhau o fewn pum diwrnod i'w dderbyn. Mae ail-gyfrifiad yn angenrheidiol ar ôl trosglwyddo carcharor gan mai Llywodraethwr y carchar sy'n gyfrifol am garcharu a rhyddhau cyfreithlon yr holl garcharorion yn ei sefydliad.

5.31 Pedwar diwrnod ar ddeg cyn y disgwylir i'r carcharor gael ei ryddhau, mae'n rhaid i aelod o staff gwahanol i'r sawl a wnaeth y cyfrifiad gwreiddiol wirio cyfrifiad y ddedfryd. Mae'n rhaid ail-archwilio'r cyfrifiad wedyn ddau ddiwrnod cyn dyddiad rhyddhau'r carcharor. Er bod gan y Gwasanaeth Carchardai y ddyletswydd o gyflawni cyfrifiad y ddedfryd, nid yw'n ofynnol iddo wirio na chwestiynu dilysrwydd dedfrydau. Mae gan y llys ynadon y grym i ail-agor achos ar unrhyw adeg i gywiro camgymeriadau, tra bod gan Lys y Goron y gallu i roi sylw i gamgymeriadau o fewn 56 diwrnod yn unig o draddodi dedfryd. Os bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Carchardai gyflawni cyfrifiad dedfryd

newydd, a bydd y ddedfryd newydd fel rheol yn dod yn weithredol o'r un dyddiad â'r ddedfryd wreiddiol.¹⁸⁰

5.32 Rhyddhad Dros Dro

Efallai y bydd gan garcharorion a throseddwy'r ifanc sydd wedi derbyn euogfarn ac wedi cael eu dedfrydu hawl i ryddhad dros dro. Gellir caniatáu rhyddhad dros dro:

- ar sail dosturiol neu at y diben o dderbyn triniaeth feddygol
- i ymgymryd â chyflogaeth neu waith gwirfoddol
- i dderbyn cyfarwyddiadau neu hyfforddiant na ellir ei ddarparu'n rhesymol yn y carchar neu'r sefydliad troseddwy'r ifanc (pa bynnag un sy'n briodol)
- i'w alluogi i gymryd rhan mewn unrhyw achos gerbron unrhyw lys, tribiwnlys neu ymchwiliad
- i'w alluogi i ymgynghori â'i gynghorwr cyfreithiol o dan amgylchiadau lle nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ymgynghoriad ddigwydd yn y carchar neu'r sefydliad troseddwy'r ifanc (pa bynnag un sy'n briodol)
- i gynorthwyo unrhyw swyddog yr heddlu gydag unrhyw ymchwiliadau
- i hwyluso trosglwyddiad y carcharor rhwng carchardai neu (fel y gallai fod yn briodol) trosglwyddiad y carcharor rhwng y sefydliad troseddwy'r ifanc a sefydliad cosbi arall
- i'w gynorthwyo i gynnal cysylltiadau teuluol neu gyda'i gyfnod pontio o fywyd yn y ddalfa i ryddid.

5.33 Mae rhyddhad dros dro yn ddarostyngedig i amodau a benderfynwyd ymlaen llaw. Bydd carcharor yn cael ei ryddhau dros dro dim ond pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon na fyddai risg annerbyniol o weithgarwch troseddol yn ystod ei ryddhad neu na fyddai methiant i gydymffurfio â'r amodau rhyddhau. Hefyd, ni fydd rhyddhad dros dro yn cael ei ganiatáu os oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol bryder y gallai rhyddhau'r carcharor danseilio hyder y cyhoedd yn y broses o weinyddu cyfiawnder. I garcharorion sy'n cyflawni dedfrydau diffiniedig, bydd y cyfnod sy'n weddill i'w dreulio yn y ddalfa yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid caniatáu rhyddhad dros dro. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n meddu ar bwerau gweinyddol rhyddhad, lle gall troseddwy'r penodol sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig dderbyn

¹⁸⁰ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r. (2015). Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

gorchymyn rhyddhad i wneud y defnydd gorau o'r lleoedd sydd ar gael ar gyfer carcharu.¹⁸¹ Grym arall y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn meddu arno yw ei allu i orchymyn rhyddhad dros dro ac amodol o garcharorion ar sail salwch. Ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Parôl, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ryddhau, o dan amgylchiadau eithriadol, garcharorion oes ar sail dosturiol.

Y Bwrdd Parôl

- 5.34 Bwrdd annibynnol yw Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr, a sefydlwyd yn wreiddiol o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1967, sy'n gyfrifol am ddiogelu'r cyhoedd. O dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991, wedi'i diwygio gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, mae'r Bwrdd Parôl yn cynnal asesiadau risg o garcharorion yng Nghymru a Lloegr i benderfynu a ellir eu rhyddhau'n ddiogel yn ôl i'r gymuned. Er mai swyddogaeth gynghori yn unig oedd gan y Bwrdd Parôl yn wreiddiol, gyda'r Ysgrifennydd Cartref ar y pryd yn meddu ar y penderfyniad terfynol ynghylch rhyddhau, mae'r Bwrdd Parôl heddiw yn llawer mwy tebyg i lys ac mae ganddo'r grym i ryddhau. Mae'r Athro Nick Hardwick, cadeirydd y Bwrdd Parôl, wedi nodi y dylid cynnal y cyfeiriad hwn ac y dylai'r Bwrdd ymdrechu i sicrhau annibyniaeth gynyddol oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei waith yn y dyfodol. Ar 31 Mawrth 2017, roedd 212 o aelodau'r Bwrdd Parôl a 123 o aelodau staff a wnaeth, yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, ymdrin â chyfanswm o 17,827 o achosion papur ynghyd â 7,377 o wrandawiadau llafar, sy'n dod i gyfartaledd o 500 o achosion yr wythnos gyda'i gilydd.¹⁸²
- 5.35 Hefyd, mae'r achosion sy'n dod gerbron y Bwrdd Parôl wedi newid dros amser. Sefydlwyd y Bwrdd yn sgil y gosb eithaf a'r angen am y cyngor ynghylch rhyddhau carcharorion sy'n cyflawni dedfrydau oes. Heddiw, fodd bynnag, mae gwaith y Bwrdd Parôl yn ymwneud yn bennaf â rhyddhau carcharorion sydd wedi derbyn dedfryd o garchar am drosedd dreisgar neu rywiol ac mae carcharorion wedi cael eu galw'n ôl i'r ddalfa ar ôl diffyg cydymffurfriad ag amod eu trwydded. Wrth ystyried achosion, fel y cyfarwyddir gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Parôl gymhwyso'r un asesiad o risg a'r

¹⁸¹ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁸² Y Bwrdd Parôl. (2017). 50 Mlynedd 1967-2017 – Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr: Adroddiad a Chyfrifon Blyneddol 2016/17. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/631425/Parole_Board_Annual_Review_Web_Accessible_Version.pdf

un meini prawf ar gyfer rhyddhau i achosion yn ymwneud â dedfryd ddiffiniedig a'r rhai sy'n ymwneud â dedfryd benagored.¹⁸³ Erbyn hyn, mae'r Bwrdd Parôl

- Yn ystyried, o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991, rhyddhad cynnar carcharorion sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig o bedair blynedd neu fwy. O dan Orchymyn Bwrdd Parôl (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1998 a Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, mae gan y Bwrdd awdurdod a ddirprwywyd i wneud penderfyniad ynghylch pob cais o'r fath.
- Yn meddu ar yr awdurdod, o dan Ddeddf Trosedd (Dedfrydau) 1997, i gyfarwyddo rhyddhad carcharorion sydd wedi eu dedfrydu am oes, y rhai sy'n cyflawni dedfryd benagored i sicrhau diogelwch y cyhoedd, ac unigolion sydd wedi eu carcharu hyd a mynno Ei Mawrhydi.
- Yn ystyried, o dan Ddeddf Trosedd (Dedfrydau) 1997 yn achos carcharorion â dedfrydau oes a phenagored, achosion carcharorion sydd wedi cael eu galw'n ôl i'r ddalfa, ac yn ystyried, o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, achosion carcharorion diffiniedig sydd wedi cael eu galw'n ôl i'r ddalfa ac yn penderfynu a yw ail-ryddhau yn briodol.
- Yn ystyried rhyddhad, ar ôl dwy ran o dair o'r ddedfryd, carcharorion â dedfrydau diffiniedig estynedig a orfodir o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
- Yn ystyried rhyddhad, ar ôl hanner y ddedfryd fel y pennir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015, y rhai sy'n cyflawni dedfryd i droseddwyr sy'n peri pryder arbennig.

5.36 Hefyd, ceir nifer o garcharorion sy'n aros yn y ddalfa o dan ddedfryd o garchar i ddiogelu'r cyhoedd. Yn dilyn pryder am gyfiawnder, tegwch a chost y ddedfryd o garchar i ddiogelu'r cyhoedd, fe'i diddymwyd yn 2012, er na chafodd hyn ei gymhwyso yn ôl-weithredol. Gellir rhyddhau carcharor sy'n destun dedfryd o garchar i ddiogelu'r cyhoedd dim ond pan: y bydd wedi cyflawni'r cyfnod tariff gofynnol a orfodwyd yn rhan o'i ddedfryd; a phan ddangoswyd na fyddai ei ryddhau yn peryglu diogelwch y cyhoedd. Felly, mae llawer o garcharorion sy'n destun dedfryd o garchar i ddiogelu'r cyhoedd yn parhau i fod yn y ddalfa am amser maith ar ôl i'w tariff ddod i ben. Ceir mwy na 6,000 o garcharorion sy'n cyflawni dedfryd o

¹⁸³ *ibid.*

garchar i ddiogelu'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl ystyried dadl dros ryddhad pob un ohonynt.

- 5.37 Pan fo mater wedi cael ei gyfeirio at y Bwrdd Parôl ar gyfer ei ystyriaeth, mae'n ofynnol i'r Bwrdd gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar ryddhad cynnar neu alw carcharorion yn ôl. Pan fo'n angenrheidiol, yn ogystal ag ystyried unrhyw ddogfennau a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth lafar arall, gall y Bwrdd gyfweled yr unigolyn y mae'r achos yn ymwneud ag ef cyn gwneud penderfyniad. Mae'n rhaid i benderfyniad y Bwrdd Parôl roi ystyriaeth i'r angen i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol a'r dymuniad i atal ail-droseddu a sicrhau adsefydliad carcharor. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn meddu ar y grym i greu rheolau yn ymwneud â thrafodion y Bwrdd Parôl; gan gynnwys awdurdodi'r nifer ragnodedig o'i aelodau i ymdrin â'r achos neu'n ei gwneud yn ofynnol i ymdrin â'r achos ar adegau penodedig.¹⁸⁴
- 5.38 O fewn pedair wythnos ar ddeg o gyfeirio'r achos gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Bwrdd Parôl yn ymwneud â rhyddhad cychwynnol carcharor, mae'n rhaid i un aelod o'r Bwrdd ystyried yr achos papur a phenderfynu a ddylid cyfeirio'r achos at banel llafar neu wneud penderfyniad dros dro bod y carcharor yn anaddas i gael ei ryddhau.¹⁸⁵ Mae'n ofynnol i'r un aelod gofnodi ei benderfyniad yn ysgrifenedig, sy'n cael ei drosglwyddo wedyn i'r partïon perthnasol o fewn wythnos o wneud y penderfyniad.¹⁸⁶ Os mai'r canlyniad yw penderfyniad dros dro bod y carcharor yn anaddas i gael ei ryddhau, mae gan y carcharor yr hawl i wneud cais bod panel llafar yn gwrando ar ei achos o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad gwreiddiol. Fodd bynnag, nid oes hawl awtomatig i wrandawriad llafar gael ei ganiatáu. Yn hytrach, bydd pob cais yn cael ei ystyried a'i ddyfarnu ar sail ei deilyngdod ei hun. Caniatawyd 56 y cant o geisiadau am wrandawriad llafar yn 2016/17, a gwrthodwyd 425 o 961 o geisiadau. 16,866 oedd cyfanswm y gwrandawiadau papur a gynhaliwyd gan y Bwrdd Parôl yn 2016-17, a chwblhawyd 13,739 o'r achosion hyn gan oedi neu ohirio 3,127 yn dilyn casgliad bod angen gwybodaeth ychwanegol i wneud dyfarniad cytbwys. O'r cyfanswm o 13,739 o wrandawiadau papur a gwblhawyd, ni aeth 8,169 o achosion yn eu blaenau ymhellach a pharhawyd i gadw'r carcharor yn y ddalfa, arweiniodd 391 o achosion at gyfarwyddyd i ryddhau neu argymhellodd y Bwrdd bod y carcharor yn addas i symud neu aros mewn

¹⁸⁴ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁸⁵ Rheolau'r Bwrdd Parôl. (2016). Rhif 1041. Deddfwriaeth Statudol: Carchardai, Cymru a Lloegr. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2016/1041/pdfs/ukxi_20161041_en.pdf

¹⁸⁶ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

amodau agored. Mewn 5,179 (38 y cant) o achosion, cyfarwyddodd y Bwrdd bod yr achos angen gwrandawriad llafar cyn y gellid gwneud penderfyniad i ryddhau.¹⁸⁷

- 5.39 Mae'n rhaid cynnal pob gwrandawriad llafar o fewn 26 wythnos o gyfeirio'r achos at y Bwrdd. Cyn penderfynu ar ddyddiad y gwrandawriad, mae'n ofynnol i'r Bwrdd gysylltu â'r holl bartïon perthnasol. Mae'n rhaid i'r Bwrdd hysbysu'r bartïon wedyn am y dyddiad a ddewiswyd ar gyfer y gwrandawriad o fewn pum diwrnod gwaith i achos gael ei restru ac mae'n rhaid i'r panel roi o leiaf tair wythnos o rybudd o'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad a drefnwyd ar gyfer y gwrandawriad i'r holl bartïon wedyn. Os yw'r gwrandawriad yn mynd i gael ei gynnal trwy gyswllt fideo, cynhadledd ffôn neu fodd electronig arall, mae'n rhaid i'r panel llafar hysbysu'r bartïon ymlaen llaw. Mae'n ofynnol i garcharor hysbysu'r Bwrdd a'r Ysgrifennydd Gwladol os nad yw'n dymuno i banel llafar ystyried ei achos neu os nad yw'n dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawriad a restrwyd. Fel arall, os bydd carcharor yn dymuno bod yn bresennol yn ei wrandawriad, mae ganddo 23 wythnos o'r adeg y cyfeirir yr achos at y Bwrdd i fynegi hyn. Gellir dal i gynnal gwrandawriad yn absenoldeb carcharor pan fydd y Bwrdd wedi cael ei hysbysu am ddymuniad y carcharor i beidio â bod yn bresennol. Mae'n rhaid darparu unrhyw dystiolaeth ar ffurf dogfennau y mae parti yn dymuno ei chyflwyno mewn gwrandawriad i'r bwrdd a'r parti arall o leiaf pedwar diwrnod ar ddeg cyn y gwrandawriad.¹⁸⁸ Hefyd, gall parti wneud i dyst ymddangos mewn gwrandawriad, ond mae gan y cadeirydd y grym i wrthod cais i alw tyst. Mae'n rhaid i benderfyniad y panel, ynghyd â'r rhesymau atodol sy'n esbonio'r penderfyniad, gael eu cofnodi yn ysgrifenedig, eu llofnodi gan y cadeirydd a'u rhoi i'r bartïon 14 diwrnod o ddyddiad terfyn y gwrandawriad fan bellaf.¹⁸⁹ O'r 7,377 o wrandawiadau llafar a gynhaliwyd gan y Bwrdd Parôl yn 2016-17, cwblhawyd 5,165 (70 y cant) a gohiriwyd 2,212 (30 y cant). O'r 5,165 o wrandawiadau llafar a gwblhawyd, arweiniodd 3,340 i'r Bwrdd gyfarwyddo i'r carcharor gael ei ryddhau (65 y cant) ac mewn 1,825 o achosion (35 y cant) gwnaeth y Bwrdd gyfarwyddyd o ddim cynnydd ac felly cadwyd y carcharor yn y ddalfa.¹⁹⁰

¹⁸⁷ Y Bwrdd Parôl. (2017). 50 Mlynedd 1967-2017 – Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr: Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol 2016/17. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/631425/Parole_Board_Annual_Review_Web_Accessible_Version.pdf

¹⁸⁸ Rheolau'r Bwrdd Parôl. (2016). Rhif 1041. Deddfwriaeth Statudol: Carchardai, Cymru a Lloegr. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2016/1041/pdfs/ukxi_20161041_en.pdf

¹⁸⁹ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁹⁰ Y Bwrdd Parôl. (2017). 50 Mlynedd 1967-2017 – Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr: Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol 2016/17. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/631425/Parole_Board_Annual_Review_Web_Accessible_Version.pdf

Rhyddhad

- 5.40 Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn nodi'r ddeddfwriaeth ar gyfer rhyddhad carcharor ac yn creu dyletswydd gyffredinol i'r Ysgrifennydd Gwladol ryddhau unigolyn o'r carchar.¹⁹¹ Yn ymarferol, hyd y ddedfryd a dderbynnir am drosedd fydd yn penderfynu pryd y gellir rhyddhau carcharor. Mae'n rhaid rhyddhau carcharor sy'n cyflawni dedfryd cyfnod penodol o lai na blwyddyn yn ddiamod cyn gynted ag y bydd wedi cyflawni'r cyfnod gofynnol o garchar. Os caiff ei ryddhau ar drwydded, bydd y drwydded yn parhau i fod yn weithredol tan y dyddiad y byddai'r carchar, oni bai am ei ryddhad, wedi cyflawni un hanner o'r ddedfryd. Mae'n rhaid rhyddhau unigolyn a garcharwyd am ddirmyg llys, am fethu â thalu dirwy neu unrhyw drosedd gysylltiedig yn awtomatig pan fydd un hanner o'r cyfnod o garchar wedi ei gyflawni. Dylid rhyddhau carcharor sy'n cyflawni dedfryd cyfnod penodol o flwyddyn ar drwydded pan fydd wedi cyflawni cyfnod carchar ei ddedfryd, oni bai ei fod yn garcharor sy'n peri pryder arbennig sy'n cyflawni dedfryd arbennig neu'n cyflawni dedfryd estynedig. Yn yr achos hwn, bydd y carcharor yn aros ar drwydded am weddill ei ddedfryd. Mae'n rhaid cyfeirio achos troseddwr sy'n peri pryder arbennig neu droseddwr sy'n cyflawni dedfryd estynedig at y Bwrdd Parôl ar gyfer ystyriaeth o'i ryddhad ar ôl iddo gyflawni'r cyfnod gofynnol o garchar. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ryddhau carcharor cyfnod penodol ar drwydded, gan gynnwys amod cyrffiw cyfyngu i'r cartref, ar unrhyw adeg yn ystod y 135 o ddiwrnodau sy'n dod i ben ar y diwrnod y bydd y carcharor wedi cyflawni'r cyfnod gofynnol o garchar. Fodd bynnag, ceir nifer o eithriadau. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, yn achos unrhyw garcharor dedfryd ddiffiniedig neu garcharor sy'n cael ei ryddhau ar sail cyrffiw cyfyngu i'r cartref, ddiddymu trwydded y carcharor a'i alw'n ôl i'r carchar ar unrhyw adeg.¹⁹²
- 5.41 Ar ôl galw'n ôl am ddedfryd cyfnod penodol, mae'n ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn i ystyried a yw'r unigolyn yn addas ar gyfer rhyddhad awtomatig ar ddiwedd y cyfnod rhyddhau awtomatig – 14 diwrnod yn cychwyn o'r adeg y caiff yr unigolyn ei ddychwelyd i'r ddalfa o ran dedfryd ddiffiniedig sy'n llai na blwyddyn neu 28 diwrnod o ddechrau'r dychweliad i'r ddalfa o ran dedfryd ddiffiniedig sy'n flwyddyn neu fwy o hyd. Os nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod yr unigolyn

¹⁹¹ Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Adran 244. Ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/pdfs/ukpga_20030044_en.pdf

¹⁹² Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

yn gymwys i gael ei ryddhau'n awtomatig, mae'n rhaid cyfeirio ei achos at y Bwrdd Parôl.¹⁹³

Troseddwr Ifanc a'r System Gyfiawnder

- 5.42 Prif nod y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu neu ail-droseddu gan blant a phobl ifanc. Mae'r nod hwn, ynghyd â lles y troseddwr, yn ganolog i'r system cyfiawnder ieuenctid a dylai gael ei gymryd i ystyriaeth gan y llys pan fydd yn dedfrydu plant a phobl ifanc. Dim ond ar ôl ystyried y ddau brif nod hyn y dylai'r llys roi ystyriaeth i ddibenion dedfrydu, sef, i blant a phobl ifanc: cosbi troseddwr, adfer ac adsefydlu troseddwr, diogelu'r cyhoedd a'r troseddwr yn gwneud iawn i unigolion a/neu gymunedau yr effeithiwyd arnynt gan eu troseddau.¹⁹⁴ Felly, mae adsefydlu ac integreiddio yn hanfodol wrth ddedfrydu plant a phobl ifanc. Er mai difrifoldeb y drosedd yw'r man cychwyn i'r llysoedd bob amser, ni ddylai'r ddedfryd a draddodir ganolbwyntio ar y drosedd wrth ddedfrydu plant a phobl ifanc, ond dylid ei seilio, yn hytrach, ar yr unigolyn. Wrth draddodi dedfryd, dylai'r llys ganolbwyntio ar y plentyn neu'r person ifanc a, phan fo'n bosibl, adsefydlu. Felly, bydd dedfryd o garchar bob amser yn ddewis olaf o fesur ar gyfer plentyn a pherson ifanc, egwyddor y mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hi.¹⁹⁵ Yn hytrach na cheisio gwneud plant a phobl ifanc yn droseddwr a'u cosbi, mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn hybu eu hailintegreiddiad i gymdeithas ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain.
- 5.43 O'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2006 tan y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016, bu gostyngiad o 75 y cant yn nifer y plant a phobl ifanc a arestiwyd yng Nghymru a Lloegr. Hefyd, bu gostyngiad o 83 y cant yn nifer y plant a'r bobl ifanc a dderbyniwyd i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, gostyngiad o 74 y cant yn nifer y troseddau a brofwyd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a gostyngiad o 66 y cant i'r boblogaeth pobl ifanc gyfartalog yn y ddalfa. Er bod cyfradd ail-droseddu plant a phobl ifanc wedi cynyddu o 33.6 y cant ym mis Rhagfyr 2005 i 38 y cant ym mis Mawrth 2015, mae nifer yr ail-droseddwr wedi gostwng 76 y cant a nifer yr ail-droseddau 72 y cant yn ystod yr un cyfnod.¹⁹⁶

¹⁹³ *ibid.*

¹⁹⁴ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

¹⁹⁵ Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2014). Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Strategaeth Llywodraeth Cymru/y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni. Ar gael yn:

<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/140710-youth-justice-strategyv2-cy.pdf>

¹⁹⁶ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2017). Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol 2016/17 Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. Ar gael yn:

Ar 29 Rhagfyr 2017, roedd 876 o droseddwyd ifanc yn y ddalfa, ac roedd 33 ohonynt yn blant a phobl ifanc o Gymru. Wrth i amser fynd heibio, cydnabuwyd yn eang mai'r plant a'r bobl ifanc sydd yn ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid yw'r rhai y mae troseddu yn digwydd o ganlyniad i bethau eraill yn mynd o'i le yn eu bywydau.¹⁹⁷

Y System Cyfiawnder Troseddol

5.44 Sefydlwyd y system cyfiawnder ieuenctid ym 1998 mewn ymateb i'r pryder cynyddol nad oedd unrhyw ffordd systematig ar gyfer ymdrin â throseddu gan blant ac oedolion ifanc, gyda neb yn cymryd cyfrifoldeb yn lleol am oedolion ifanc a oedd yn troseddu.¹⁹⁸ Prif nod y system cyfiawnder ieuenctid, fel y deddfwyd yn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc.¹⁹⁹ O dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, swyddogaeth y system cyfiawnder ieuenctid yw

- darparu unigolion i weithredu fel oedolyn priodol i ddiogelu buddiannau plant a phobl ifanc sy'n cael eu carcharu neu eu cwestiynu gan swyddogion yr heddlu.
- asesu plant a phobl ifanc, a darparu rhaglenni adsefydlu iddynt.
- darparu cymorth i blant a phobl ifanc sydd ar remánd neu wedi eu hymrwymo ar fechnïaeth wrth aros am dreial neu ddedfryd.
- lleoli mewn llety awdurdod lleol plant a phobl ifanc sydd ar remánd neu'n cael eu cadw mewn llety o'r fath o dan adran 23 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969.
- darparu adroddiadau neu wybodaeth arall sy'n ofynnol gan y llysoedd mewn achosion troseddol yn erbyn plant a phobl ifanc.
- darparu unigolion ifanc i weithredu fel swyddogion cyfrifol o ran gorchmynion rhianta, gorchmynion diogelwch plant, gorchmynion gwneud iawn a gorchmynion cynllun gweithredu.
- goruchwyllo plant a phobl ifanc sydd wedi eu dedfrydu i orchymyn prawf, gorchymyn gwasanaeth cymunedol neu orchymyn cyfuno.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/630201/YJB_Annual_Report_and_Accounts_2016-17_Web.pdf

¹⁹⁷ Taylor, C. (2016). *Review of the Youth Justice System in England and Wales*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/29212/1/youth-justice-review-final-report.pdf>

¹⁹⁸ *ibid.*

¹⁹⁹ Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Rhan III Y System Cyfiawnder Troseddol: Cyfiawnder Ieuenctid, paragraff 37. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/37/contents>

- goruchwyllo plant a phobl ifanc sydd wedi eu dedfrydu i orchymyn cadw a hyfforddi neu orchymyn goruchwyliaeth.
- goruchwyliaeth plant a phobl ifanc ar ôl eu rhyddhau.
- cyflawni swyddogaethau a allai gael eu hawdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran rhyddhau plant ac oedolion ifanc.²⁰⁰

5.45 Hefyd, sefydlodd y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn dimau troseddau ieuenctid a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid canolog.

5.46 Partneriaid amlasiantaeth yw timau troseddau ieuenctid sy'n cynnwys swyddog prawf, gweithiwr cymdeithasol, swyddog yr heddlu, aelod o'r awdurdod iechyd ac unigolyn a enwebir gan y prif swyddi addysg.²⁰¹ Sefydlwyd y timau i sicrhau dull mwy cyson o fynd i'r afael â throseddau ieuenctid ac i greu partneriaeth o'r cyfranwyr hanfodol at atal troseddau ieuenctid. Tasgau allweddol timau troseddau ieuenctid yw:

- asesu risgiau ac anghenion troseddswyr ifanc
- gwneud argymhellion ynghylch math a chynnwys dedfrydau;
- darparu dedfrydau cymunedol a sicrhau cydymffurfiaid
- gwneud gwaith ataliol i leihau nifer y rhai a dderbynnir am y tro cyntaf²⁰²
- cynorthwyo'r heddlu gyda gwarediadau y tu allan i'r llys a threfnu i oedolion priodol fod yn bresennol yn ystod cwestiynu gan yr heddlu
- darparu adroddiadau a gwybodaeth sy'n ofynnol gan y llysoedd mewn achosion troseddol yn erbyn plant a phobl ifanc
- goruchwyllo plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.²⁰³

5.47 Yn ogystal â thimau troseddau ieuenctid, crëwyd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'r Bwrdd yn un o gyrff cyhoeddus anadrannol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, wedi ei gyfansoddi o ddeg i ddeuddeng o aelodau penodedig â phrofiad helaeth a chyfredol o'r system cyfiawnder ieuenctid.²⁰⁴ Yn bennaf, mae'r Bwrdd yn goruchwyllo'r system

²⁰⁰ *ibid.*

²⁰¹ *ibid.*

²⁰² Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2010). *Ministry of Justice - The youth justice system in England and Wales: Reducing offending by young people*. Ar gael yn: <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2010/12/1011663.pdf>

²⁰³ Taylor, C. (2016). *Review of the Youth Justice System in England and Wales*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/29212/1/youth-justice-review-final-report.pdf>

²⁰⁴ Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Rhan III Y System Cyfiawnder Troseddol: Cyfiawnder Ieuenctid, paragraff 41. Ar gael yn:

cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ac yn Lloegr, gan weithio i atal troseddu ac ail-droseddu pobl ifanc. Hefyd, mae gan y Bwrdd ddyletswydd i sicrhau bod y ddalfa yn ddiogel i blant a phobl ifanc a cheisio'n weithredol i roi sylw i achosion eu hymddygiad troseddol.²⁰⁵ Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth i ddod i safbwynt arbenigol ar sut i gael y canlyniadau gorau i blant sy'n troseddu ac i ddioddefwyr trosedd
- hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid am ba mor dda y mae'r system yn gweithredu, a sut y gellir gwneud gwelliannau
- nodi a rhannu arfer gorau
- hybu llais y plentyn
- comisiynu gwaith ymchwil a chyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud ag arfer da
- monitro'r system cyfiawnder ieuenctid a'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid
- dyfarnu grantiau, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, at ddibenion gweithredu'r system cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid
- darparu cymorth cysylltiedig â thechnoleg ar gyfer gweithredu'r system cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.²⁰⁶

5.48 Mae'n ofynnol felly i'r Bwrdd arwain, monitro a goruchwyllo'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae'r bwrdd yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid, sy'n cynnwys timau troseddau ieuenctid, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid cymunedol a'u partneriaid a'r ystad sefydliadau diogel i bobl ifanc sy'n cynnwys sefydliadau troseddwr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant.

5.49 Mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, lluniodd Llywodraeth Cymru strategaeth ar y cyd ym mis Gorffennaf 2014 i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/37/contents>

²⁰⁵ Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2014). Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Strategaeth Llywodraeth Cymru/y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni. Ar gael yn:

<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/140710-youth-justice-strategyv2-cy.pdf>

²⁰⁶ gov.uk. Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol: Amdanom Ni. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/organisations/youth-justice-board-for-england-and-wales/about>

rhan ohoni.²⁰⁷ Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ganolog i'r strategaeth ar y cyd, gyda'r canlyniad nad yw'r pwyslais cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ar ymddygiad y plant a'r bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn unig, ond hefyd yn rhoi blaenoriaeth i'w hawliau a'u hanghenion. Caiff darpariaeth effeithiol y strategaeth ei llywio gan gyfres o egwyddorion

- Plant yw pobl ifanc yn gyntaf, a throseddwy'r yn ail.
- Mae gan bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yr un rhyddid i arfer eu hawliau ag unrhyw berson ifanc arall.
- Gofynnir am farn pobl ifanc a gwrandewir arni.
- Mae gwasanaethau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chymorth amlasiantaeth cyfannol.
- Hyrwyddir diwylliant lle mae nodi a hyrwyddo arfer effeithiol yn allweddol i wella canlyniadau i bobl ifanc.
- Caiff gwasanaethau eu dwyn i gyfrif am fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc.
- Cefnogir y sector cyfiawnder ieuenctid i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i ddeall a mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc.
- Caiff lleisiau dioddefwyr eu clywed, a rhoddir y cyfle iddynt rannu eu barn a chymryd camau adfer.

5.50 O'r egwyddorion hyn, mae'r ddwy gyntaf - a'r ail egwyddor yn benodol - o bwysigrwydd allweddol wrth ystyried hawliau pleidleisio oedolion ifanc. Os bydd yr oedran pleidleisio gofynnol yn cael ei ostwng i un ar bymtheg mlwydd oed, mae ail egwyddor ac egwyddor gyntaf y strategaeth gyda'i gilydd yn codi cwestiwn ynghylch y driniaeth wahanol o oedolion ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, sy'n blant cyn y maent yn droseddwy'r, o'i chymharu ag oedolion ifanc eraill sy'n dod yn gymwys i bleidleisio yn awtomatig cyn gynted ag y byddant yn un ar bymtheg oed. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr egwyddorion yn wahanol i ganllawiau statudol ac, felly, pan fo'r egwyddorion hyn yn cael eu tanseilio nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol ac, hyd yn hyn, nid oes unrhyw achosion hysbys pan fo'r ail

²⁰⁷ Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2014). Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Strategaeth Llywodraeth Cymru/y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/140710-youth-justice-strategyv2-cy.pdf>

egwyddor - mae gan bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yr un rhyddid i arfer eu hawliau ag unrhyw berson ifanc arall - wedi cael ei chadarnhau'n uniongyrchol.²⁰⁸

Dedfrydu Troseddwyr Ifanc

- 5.51 Ni ddisgwylir i ddedfrydau i blant a phobl ifanc fod mor ddifrifol ag y maent i oedolion. Er y gellir dal pobl ifanc deg oed a hŷn yn gyfrifol am eu gweithredoedd, a hynny'n briodol, gellir cyfiawnhau dedfrydau byrrach ar gyfer pobl ifanc iau, oherwydd i ystyrir bod ganddynt ddealltwriaeth lawn a chymwys o'u gweithredoedd yn wahanol i droseddwyr sy'n oedolion. Mae plant sy'n iau na deg oed o dan yr oedran o gyfrifoldeb troseddol ac, felly, ni ellir eu cyhuddo o drosedd, gan nad ydynt wedi cyrraedd y trothwy lle gellir eu dal yn gyfrifol am eu gweithredoedd yn gyfiawn.²⁰⁹ Hefyd, ceir disgwiliad y bydd dedfryd o garchar yn arbennig o brin ar gyfer plant a phobl ifanc iau na phedair ar ddeg oed.²¹⁰ Bydd adegau pan fydd plentyn neu oedolyn ifanc yn cynyddu o ran oedran rhwng y dyddiad y cyflawnwyd y drosedd a dyddiad y canfyddiad o euogrwydd. Mae'r cynnydd hwn i oedran - troi'n 12, yn 15 neu'n 18 yn bennaf - yn arwain i'r ddedfryd fwyaf bosibl ar ddyddiad y canfyddiad o euogrwydd fod yn fwy na'r ddedfryd fwyaf bosibl a oedd yn gymwys pan gyflawnwyd y drosedd. Yn gyffredinol, pan fydd unrhyw oedran arwyddocaol yn cael ei gyrraedd, anaml y bydd hi'n briodol gorfodi dedfryd fwy difrifol na chaniatawyd ar yr adeg y cyflawnwyd y drosedd. Fodd bynnag, efallai y bydd dedfryd ar y lefel uchaf bosibl neu'n agosach ati yn briodol, yn enwedig i bobl ifanc sydd wedi troi'n 18 mlwydd oed.

Llysoedd Ieuenctid

- 5.52 Dylai plant a phobl ifanc bob amser pan fo'n bosibl sefyll prawf mewn llys ieuenctid, sydd wedi ei ddylunio'n bwrpasol i ddiwallu eu hanghenion penodol. Math arbennig o lys ynadon yw llys ieuenctid, sydd wedi cael ei addasu fel ei fod yn addas ar gyfer pobl rhwng deg a dwy ar bymtheg oed. Ceir tri o ynadon neu farnwr rhanbarth mewn llys ieuenctid, ac nid oes rheithgor. Mae'n ofynnol i riant fynd gyda phlentyn neu unigolyn ifanc sy'n iau nag un ar bymtheg oed a phan fo unigolyn ifanc 16 neu 17 oed wedi derbyn gorchymyn llys.²¹¹ Mae llysoedd ieuenctid yn llai ffurfiol na

²⁰⁸ Cyfathrebiad personol â Thîm Trosedd a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru. 9 Mawrth 2018.

²⁰⁹ nidirect. *Youth Justice*. Ar gael yn:

<https://www.nidirect.gov.uk/articles/youth-justice>

²¹⁰ Y Cyngor Canllawiau Dedfrydu. (2009). *Overarching Principles – Sentencing Youth*. Ar gael yn:

<https://www.watersidepress.co.uk/acatalog/SGCOVerarchingPrinciples-definitive.pdf>

²¹¹ gov.uk. Llysoedd Troseddol: Llysoedd Ieuenctid. Ar gael yn:

llysoedd oedolion oherwydd, er enghraifft, ni all y cyhoedd fod yn bresennol yn y llys, gall y plentyn neu oedolyn ifanc gael rhiant yn eistedd wrth ei ochr, disgwylir i'r llys ddefnyddio iaith syml, gall yr holl bartïon eistedd ar yr un lefel a chaiff y plentyn neu oedolyn ifanc ei annerch gan ddefnyddio ei enw cyntaf. Mae llysoedd ieuenctid yn ymdrin â'r achosion ieuenctid llai difrifol fel dwyn a bwrghleriaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cyffuriau, ond mae ganddynt fwy o rym dedfrydu na'r llys ynadon oedolion i ganiatáu i fwy o achosion ieuenctid gael eu clywed yn yr amgylchedd a addaswyd hwn.²¹² Gall llysoedd ieuenctid ddyfarnu amrywiaeth o ddedfrydau gan gynnwys dirwyon hyd at £1,000.00 neu £250.00 pan fo'r troseddwr yn iau na 14 mlwydd oed, gorchmynion cymunedol ieuenctid, gorchmynion gwneud iawn, gorchmynion atgyfeirio, rhyddhad diamod neu amodol, gorchmynion ategol, rhwymedigaeth i rieni'r troseddwr a Gorchmynion Cadw a Hyfforddi.²¹³

5.53 Er nad yw'n digwydd yn rheolaidd, caiff achosion difrifol yn ymwneud â phlentyn neu oedolyn ifanc eu clywed yn Llys y Goron. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017, dedfrydwyd 4 y cant o'r 25,700 o blant a phobl ifanc a ddedfrydwyd yn Llys y Goron.²¹⁴ Pan fydd oedolyn ifanc yn destun treial yn Llys y Goron, caiff y broses dreial arferol ei haddasu i hwyluso cyfranogiad effeithiol tystion a diffynyddion. Mae addasiadau posibl yn cynnwys tynnu wigiau a gynau, trefnu ymweliad ymgyfarwyddo â'r llys a'r opsiwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno trwy gyswllt byw.²¹⁵ Dylai plentyn neu unigolyn ifanc ymddangos yn Llys y Goron ar gyfer treial os:

- yw wedi ei gyhuddo o ddynladdiad
- yw wedi ei gyhuddo o drosedd arf tanio sy'n destun dedfryd ofynnol orfodol o dair blynedd ac y mae'r troseddwr yn hŷn nag 16 mlwydd oed ar adeg y drosedd
- y rhoddwyd hysbysiad i'r llys ei fod yn achos twyll neu blentyn difrifol neu gymhleth

<https://www.gov.uk/courts/youth-courts>

²¹² Taylor, C. (2016). *Review of the Youth Justice System in England and Wales*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/29212/1/youth-justice-review-final-report.pdf>

²¹³ Cymdeithas yr Ynadon. *Youth Court*. Ar gael yn:

<https://www.magistrates-association.org.uk/about-magistrates/youth-court>

²¹⁴ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2018). Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2016/17 Cymru a Lloegr: Bwletin Ystadegau. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/676072/youth_justice_statistics_2016-17.pdf

²¹⁵ Youth Justice Legal Centre. (2014). *Modifications in Adult Courts*. Ar gael yn:

<http://yjlc.uk/modifications-in-adult-courts>

- yw'r cyhuddiad o'r drosedd yn drosedd benodedig ac os y'i ceir yn euog y byddai'r plentyn neu unigolyn ifanc yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dedfryd o dan y ddarpariaeth troseddwr peryglus
- yw trosedd ddifrifol wedi cael ei chyflawni a bod posibilrwydd gwirioneddol y bydd dedfryd sy'n fwy na dwy flynedd o garchar yn cael ei gorfodi.

5.54 Os ceir plentyn neu unigolyn ifanc yn euog gerbron Llys y Goron o drosedd ac eithrio dynladdiad, mae'n rhaid i'r llys drosglwyddo cyfrifoldeb am yr achos i'r llys ieuenctid oherwydd ei arbenigedd ym maes dedfrydu plant a phobl ifanc, oni bai y byddai'n annymunol gwneud hynny. Pa un a yw'n destun treial mewn llys ieuenctid neu yn Llys y Goron, mae'n rhaid i'r egwyddor les sydd wrth wraidd y system cyfiawnder ieuenctid lywio'r broses ddedfrydu bob amser.²¹⁶

Dedfrydau o Garchar i Bobl Ifanc

- 5.55 Dylid gorfodi dedfrydau o garchar ar blant a phobl ifanc fel mesur sy'n ddewis olaf yn unig. Mae'n ofynnol i lysoedd asesu difrifoldeb y drosedd a'r perygl o niwed difrifol yn y dyfodol i benderfynu a yw trosedd yn croesi'r trothwy carcharu. Dim ond os yw'r llys yn fodlon bod y trothwy hwn wedi ei groesi y gall, fel ystyriaeth ragarweiniol, gyfeirio at y canllawiau cyfatebol i oedolion i benderfynu ar hyd priodol y ddedfryd. Er mai'r disgwyliad yw y bydd dedfryd o garchar i blentyn neu unigolyn ifanc sy'n 14 oed ac iau yn arbennig o brin, pan fydd dedfryd o garchar yn cael ei gorfodi dylai fod am gyfnod byrrach o amser na'r hyn y byddai unigolyn ifanc 15-17 oed yn ei derbyn am yr un drosedd. Mae'r canllawiau bras yn awgrymu y dylai unigolyn ifanc 15-17 mlwydd oed dderbyn dedfryd sydd oddeutu dwy ran o dair o'r ddedfryd i oedolyn, a gostyngiad mwy i'r rhai sy'n iau na 15 mlwydd oed.²¹⁷
- 5.56 Ar 29 Rhagfyr 2017, tri deg tri oedd cyfanswm y troseddwr ifanc o Gymru yn y ddalfa, pob un ohonynt yn fechgyn. O'u dadansoddi yn ôl oedran, roedd un unigolyn ifanc 13 oed yn y ddalfa, pedwar o droseddwr ifanc o Gymru a oedd yn 15 oed, saith a oedd yn 16 oed ac un ar hugain a oedd yn 17 oed. Roedd ugain o'r plant ac oedolion ifanc o Gymru yn y ddalfa wedi eu carcharu ar sail Gorchymyn Cadw a Hyfforddi, roedd pump yn cael eu cadw ar remánd, roedd saith wedi cael eu

²¹⁶ Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

²¹⁷ Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

dedfrydu am drosedd ddifrifol o dan Adran 91 ac roedd un yn cael ei gadw am ddedfryd arall. Roedd pump o'r plant ac oedolion ifanc yn y ddalfa o ardal Gwent, roedd 13 o Ogledd Cymru ac roedd 15 o Dde Cymru. O'r tri deg un o droseddwyd ifanc o Gymru, roedd 16 wedi eu carcharu yn CEM a Sefydliad Troseddwyd Ifanc y Parc, ac roedd y lleill wedi eu carcharu mewn sefydliadau ledled Lloegr.

Gorchymyn cadw a hyfforddi

- 5.57 Ceir dwy brif sefyllfa lle bydd llys yn dedfrydu plentyn neu oedolyn ifanc i Orchymyn Cadw a Hyfforddi. Yn gyntaf, pan mai'r farn yw bod y drosedd/troseddau mor ddifrifol na all dirwy ar ei phen ei hun na dedfryd gymunedol yn ymateb cyfiawn neu, yn ail, pan fu methiant gan y troseddwr i fynegi ei barodrwydd i gydymffurfio â gofyniad a bennwyd gan y llys yn rhan o orchymyn cymunedol neu i gydymffurfio â gorchymyn prawf cyffuriau cyn dedfrydu. Gelir gorfodi Gorchymyn Cadw a Hyfforddi am gyfnodau o 4, 6, 8, 10, 12, 18 neu 24 mis yn unig. Fodd bynnag, ni all y cyfnod a orfodir fod yn hwy na'r cyfnod mwyaf o garchar a ganiateir yn Llys y Goron.²¹⁸ Os yw'n angenrheidiol lleihau dedfryd yn dilyn ple euog a bod y lleihad hwn yn arwain at ddedfryd sydd rhwng dau o'r cyfnodau rhagnodedig posibl, mae'n ofynnol i'r llys orfodi'r byrraf o'r ddau gyfnod. Hefyd, wrth gynhyrchu cyfrifiad y ddedfryd, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Carchardai gymryd i ystyriaeth unrhyw amser a dreuliwyd ar remánd neu ar fechniaeth yn ddarostyngedig i amod cyrffw cymwys.²¹⁹
- 5.58 Mae'n ofynnol i blentyn neu oedolyn ifanc sy'n cael ei ddedfrydu i Orchymyn Cadw a Hyfforddi gyflawni'r cyfnod o garchar (hanner y Gorchymyn Cadw a Hyfforddi) mewn llety cadw ieuenctid, tra bod ail ran y gorchymyn yn cael ei gyflawni yn y gymuned o dan oruchwyliaeth y Tîm Troseddau Ieuenctid neu'r bwrdd prawf lleol, fel y pennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.²²⁰ Er y gellir dedfrydu pob oedolyn ifanc 15-17 oed i Orchymyn Cadw a Hyfforddi, mae'n ddedfryd a gedwir ar gyfer troseddwyd mynych yn unig sy'n 12-14 oed. Pan fo plentyn neu oedolyn ifanc yn cael ei ddedfrydu i chwe mis neu lai, mae'r ddedfryd yn ysgogi cyfnod adsefydlu o ddeunaw mis gan gynnwys goruchwyliaeth, tra bod dedfryd o fwy na chwe mis yn

²¹⁸ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

²¹⁹ Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

²²⁰ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

arwain at gyfnod adsefydlu o 24 mis gan gynnwys goruchwyliaeth. Gellir dyfarnu dedfryd Gorchymyn Cadw a Hyfforddi yn y llys ieuenctid ac yn Llys y Goron.²²¹

Cadw byrdymor

- 5.59 Ceir dwy brif sefyllfa pan fydd y llys yn traddodi cyfnod byrdymor o garchar. Yn gyntaf, pan fydd oedolyn ifanc sydd o leiaf 18 mlwydd oed ond yn iau nag 21 mlwydd oed yn derbyn euogfarn am drosedd a gosbir trwy garchariad yn achos troseddwr sy'n oedolyn neu, pan fo'n ofynnol, y bydd troseddwr ifanc yn methu â mynegi ei barodrwydd i gydymffurfio â gofyniad y cynigir ei gynnwys yn y gorchymyn goruchwyllo, mae'n ofynnol i'r llys draddodi dedfryd o garchar mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc. Mae'n rhaid i'r cyfnod cadw hiraf mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc y gellir ei orfodi ar oedolyn ifanc adlewyrchu'r cyfnod hiraf o garchariad a ddeddfwyd ar gyfer y drosedd honno. Fodd bynnag, ni ellir traddodi dedfryd o garchar mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc am lai nag 21 diwrnod. Mae gan y llys y grym i draddodi dedfrydau cadw olynol mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc pan: y ceir oedolyn ifanc yn euog o fwy nag un ddedfryd y mae wedi eu rhwymo ar eu sail i dreulio cyfnod mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc; neu pan geir troseddwr yn euog, wrth gyflawni dedfryd mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc, o un neu fwy o droseddau ychwanegol y mae wedi ei rwymo i gyfnod o garchar ar eu sail.²²²

Cadw hirdymor

- 5.60 O dan amgylchiadau penodedig penodol, ni ystyrir bod gorchymyn cymunedol neu Orchymyn Cadw a Hyfforddi yn ymateb cyfiawn i ddifrifoldeb y drosedd. Mae adran 91 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 yn pennu'r troseddau a ddosberthir fel troseddau difrifol i droseddwr iau na deunaw mlwydd oed. Mae'n rhaid bod plentyn neu oedolyn ifanc wedi ei gael yn euog o drosedd ddifrifol yn Llys y Goron i gael ei ddedfrydu o dan adran 91; gall y Llys ddefnyddio adran 91 i draddodi dedfryd hwy na'r uchafswm o ddwy flynedd a ganiateir o dan Orchymyn Cadw a Hyfforddi. Fodd bynnag, yn dilyn ple euog a'r lleihad cysylltiedig a sicrhair

²²¹ Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

²²² Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

gyda'r ple hwn, efallai y bydd gorchymyn cadw dwy flynedd yn cael ei ystyried yn briodol yn hytrach na dedfryd o garchar o dan adran 91.²²³

Cadw estynedig neu gadw am oes

- 5.61 Os ceir plentyn neu unigolyn ifanc yn euog o drosedd benodedig a bod Llys y Goron yn dod i'r casgliad bod perygl sylweddol o niwed difrifol i'r cyhoedd o'r unigolyn ifanc yn cyflawni troseddau penodedig pellach, yna gall y llys draddodi dedfryd cadw estynedig neu ddedfryd cadw am oes. Gellir gorfodi dedfryd o gadw estynedig dim ond pan fo'r cyfnod priodol yn y ddalfa yn bedair blynedd neu fwy. Mae'r cyfnod cadw estynedig y gellir ei orfodi ar blentyn neu oedolyn ifanc wedi ei gyfyngu i bum mlynedd yn achos trosedd dreisgar benodedig ac wyth mlynedd am drosedd rywiol benodedig, yr un faint â throseddwr sy'n oedolion. Yn yr un modd, ni ddylai telerau'r ddedfryd estynedig fod yn fwy na'r cyfnod hiraf o garchar i droseddwr sy'n oedolyn sy'n derbyn euogfarn am yr un drosedd. Opsiwn olaf yw dedfryd cadw am oes, i'w defnyddio dim ond pan na fydd dedfryd estynedig yn gallu darparu'r lefel o ddiogelwch i'r cyhoedd yr ystyrir sy'n angenrheidiol. Wrth draddodi dedfryd cadw am oes, mae'n rhaid i'r llys bennu cyfnod gofynnol i'w gyflawni yn y ddalfa cyn y gellir ystyried y plentyn neu oedolyn ifanc ar gyfer parôl.²²⁴ Fodd bynnag, pan nad yw'r gyfraith yn pennu dedfryd oes, mae'n rhaid i'r llys orchymyn i ddarpariaethau rhyddhad cynnar fod yn gymwys i'r troseddwr cyn gynted ag y bydd wedi cyflawni rhan carchariad eu dedfryd, fel y nodir yn y gorchymyn.²²⁵

Cadw Hyd a Mynno Ei Mawrhydi (am droseddau o lofruddiaeth)

- 5.62 Yn yr un modd ag ar gyfer troseddwr sy'n oedolion, oes yw'r ddedfryd orfodol i blant ac oedolion ifanc sy'n derbyn euogfarn am lofruddiaeth. Pan fydd wedi ei garcharu Hyd a Mynno Ei Mawrhydi am drosedd lofruddiaeth, bydd y plentyn neu unigolyn ifanc yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r ddedfryd am weddill ei oes. Fel trosedd â darpariaeth statudol unigryw, pan fydd plentyn neu unigolyn ifanc yn derbyn euogfarn am lofruddiaeth mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i faint unrhyw leihad yn dilyn ple euog ac i'r cyfnod gofynnol a nodir gan fod yn rhaid iddo

²²³ Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

²²⁴ Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

²²⁵ Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

adlewyrchu difrifoldeb y drosedd yn ddigonol.²²⁶ Mae Atodlen 21 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn nodi mai'r man cychwyn ar gyfer pennu'r ddedfryd ofynnol pan fo'r troseddwr yn unigolyn ifanc yw 12 mlynedd, yn hytrach na 15 mlynedd i'r rhai sy'n hŷn na 18 oed.²²⁷

Troseddwyr Mynych

5.63 Pan ystyrir bod troseddwr sy'n blentyn neu'n unigolyn ifanc yn droseddwr mynych, daw gorfodi dedfrydau penodol yn unig yn briodol:

- Gorchymyn adsefydlu ieuencid â goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ddwys pan fydd y plentyn neu oedolyn ifanc yn iau na 15 mlwydd oed;
- Gorchymyn adsefydlu ieuencid â maethu pan fydd y plentyn neu oedolyn ifanc yn iau na 15 mlwydd oed; a
- Gorchymyn Cadw a Hyfforddi pan fydd y plentyn neu oedolyn ifanc yn 12-15 oed.

5.64 Nid yw'r term troseddwr mynych wedi ei ddiffinio mewn statud, ond disgwylir yn gyffredinol y bydd y plentyn neu unigolyn ifanc wedi bod mewn cysylltiad blaenorol â'r awdurdodau o ganlyniad i ymddygiad troseddol ar nifer o achlysuron neu pan fydd plentyn neu unigolyn ifanc yn cael ei ddedfrydu mewn un ymddangosiad am gyfres o droseddau ar wahân, ond tebyg, a gyflawnwyd mewn cyfnod byr o amser.²²⁸

Mathau o Sefydliad i Droseddwyr Ifanc

5.65 Dewis olaf yw dedfrydau o garchar i blant a phobl ifanc. Ym mis Rhagfyr 2017, 876 oedd y boblogaeth pobl ifanc iau na deunaw oed yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynyddu i 959 pan fydd pobl ifanc deunaw oed yn cael eu cynnwys. O'r 876 o blant ac oedolion ifanc a oedd wedi eu carcharu:

- roedd 31 yn fenywod ac 845 yn ddynion

²²⁶ Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

²²⁷ Y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol. (2003). Atodlen 21: Pennu Cyfnod Gofynnol o ran Dedfryd Oes Orfodol. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/pdfs/ukpga_20030044_en.pdf

²²⁸ Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

- roedd 100 wedi eu lleoli mewn cartrefi diogel i blant, 171 mewn canolfannau hyfforddi diogel a 605 mewn sefydliadau troseddwy'r ifanc
- roedd 866 wedi cael eu carcharu trwy Orchymyn Cadw a Hyfforddi, roedd 222 ar remánd, roedd 241 wedi eu carcharu o dan Adran 91 ac roedd 48 wedi eu carcharu o dan ddarpariaethau cyfreithiol amhenodedig eraill
- roedd 43 yn 10-14 oed, roedd 113 yn bymtheg mlwydd oed, roedd 239 yn un ar bymtheg mlwydd oed ac roedd 481 yn ddwy ar bymtheg mlwydd oed.²²⁹

- 5.66 Y gosb i blant ac oedolion ifanc sy'n gofyn am gyfnod o amser mewn amgylchedd diogel yw colli rhyddid. Felly, ni ddylai amser yn y carchar ddarparu cyfle i gosb/au pellach gael eu gorfodi ar blentyn neu oedolyn ifanc. Yn hytrach, mae amgylchedd diogel yn cynnig y cyfle i ddiwallu anghenion sylfaenol pob plentyn neu oedolyn ifanc mewn amgylchedd therapiwtig â chymarebau staff uchel. Mae'r ystad sefydliadau diogel i bobl ifanc yn teilwra'r ddarpariaeth i ddatblygiad meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac addysgol unigolyn ifanc.²³⁰
- 5.67 Diffiniodd Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991 llety diogel i blant fel llety a ddarperir at y diben o gyfyngu rhyddid plant.²³¹ O dan y trefniant presennol, comisiynwyd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ddarparu llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc. Ceir tri math o lety ar gyfer troseddwy'r ifanc: cartrefi diogel i blant, canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwy'r ifanc. Yn gyffredinol, mae troseddwy'r 15 oed a hŷn sy'n fechgyn a throseddwy'r sy'n 17 oed ac sy'n ferched yn cyflawni'r rhan o'u dedfryd yn y ddalfa mewn sefydliadau troseddwy'r ifanc, tra bod troseddwy'r 12-14 oed sy'n fechgyn a throseddwy'r sy'n iau na 17 oed ac sy'n ferched yn cyflawni'r cyfnod o'u dedfryd yn y ddalfa mewn cartref diogel i blant neu ganolfan hyfforddi ddiogel.²³²

Cartrefi Diogel i Blant

- 5.68 Diffiniodd Deddf Safonau Gofal 2000 bod sefydliad yn gartref plant pan fo'r ddarpariaeth o ofal a llety ar gyfer plant yn gyfan gwbl neu'n bennaf.²³³ Mae Cartrefi Diogel i Blant wedi eu cofrestru fel cartrefi plant ond hefyd wedi eu

²²⁹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. (2018). Data Carchariad Ieuenctid: Rhagfyr 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data>

²³⁰ Cynghrair Howard. (2012). *Future Insecure: Secure children's homes in England and Wales*. Ar gael yn: <https://howardleague.org/wp-content/uploads/2016/05/Future-Insecure.pdf>

²³¹ Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1991/1505/regulation/2/made>

²³² Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r. (2012). Gofal a Rheolaeth Pobl Ifanc. PSI 08/2012.

²³³ Deddf Safonau Gofal 2000. Pennod 14: Rhan Un: Cyflwyniad. Adran Un. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben o gyfyngu rhyddid plant a phobl ifanc; nid ydynt wedi eu diffinio mewn deddfwriaeth fel sefydliad cosbi i droseddwyr ifanc.²³⁴ Ceir pymtheg o Gartrefi Diogel i Blant a reolir yn unigol ledled Cymru a Lloegr, pob un yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau mewn amgylchedd diogel i ddiwallu anghenion unigol y plant yn eu gofal. Mae Cartrefi Diogel i Blant yn cadw troseddwyr ifanc mewn amgylchedd wedi ei gloi ac, felly, yn cyfyngu rhyddid unigolyn ifanc. Maent yn darparu gofal a llety i fechgyn a merched rhwng deg a deunaw oed sydd wedi cael eu cadw neu eu dedfrydu gan y llysoedd troseddol a'r rhai sydd wedi cael eu hanfon i lety awdurdod lleol diogel. Hefyd, maent yn darparu llety a gofal i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu lleoli mewn Cartref Diogel i Blant ar sail lles gan awdurdodau lleol neu'r llysoedd. Maent yn cynnig gofal preswyl llawn, cyfleusterau addysgol a/neu hyfforddiant a darpariaeth gofal iechyd. Mae Cartrefi Diogel i Blant yn gweithio gyda phartneriaid amlasiantaeth i ddarparu pecynnau penodol i'r unigolyn o ofal cyfannol ac mae pobl ifanc sy'n byw ynddynt yn derbyn 25-30 awr o ysgol yr wythnos yn nodweddiadol. Cynigir lefel uchel iawn o gymorth dwys, wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol, i bob unigolyn ifanc, gyda chymarebau plant i staff isel. Ym mhob cartref, cedwir plant a phobl ifanc mewn unedau bach lle gellir creu cysylltiadau agos â'r staff ac mae lefel uchel o ymyrraeth yn weithredol i gynorthwyo plant a phobl ifanc i wneud newidiadau cadarnhaol a all, yn eu tro, gyfrannu at leihad i'r tebygolrwydd o aildroseddu.²³⁵ Er bod gan Gartrefi Diogel i Blant y gost uchaf fesul lle y flwyddyn o'r sefydliadau troseddwyr ifanc, mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Gynghrair Howard yn nodi mai o'r tri math o lety ar gyfer troseddwyr ifanc, cartrefi diogel i blant sy'n sicrhau diogelwch y troseddwyr ifanc yn fwyaf effeithiol.²³⁶

- 5.69 Ar 31 Mawrth 2017, roedd pymtheg o Gartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr, ac roedd 203 o blant a phobl ifanc yn cael eu cadw ynddynt, 59 y cant ohonynt yn fechgyn a 41 y cant yn ferched. Mae Cartrefi Diogel i Blant yn Lloegr yn darparu llety a gofal i 184 o blant ac oedolion ifanc. Cafodd 43 y cant o'r plant a oedd yn y cartrefi hyn ar 31 Mawrth eu lleoli ynddynt gan yr awdurdodau lleol ar sail lles. Oherwydd i ddau o Gartrefi Diogel i Blant gael eu cau, bu gostyngiad o 18 y cant i nifer y lleoedd cymeradwy ers 2010 ac 80 y cant oedd canran y lleoedd cymeradwy

²³⁴ Ofsted. (2011). *Introduction to Children's Homes: A Children's Social Care Guide to Registration*. Ar gael yn: http://dera.ioe.ac.uk/12282/2/Introduction_to_children's_homespercent5B1percent5D.pdf

²³⁵ Cartrefi Diogel i Blant. (2018). *Secure Children's Homes*. Ar gael yn: <http://www.securechildrenshomes.org.uk/>

²³⁶ Cynghrair Howard. (2012). *Future Insecure: Secure children's homes in England and Wales*. Ar gael yn: <https://howardleague.org/wp-content/uploads/2016/05/Future-Insecure.pdf>

a lenwyd yn 2017. Hefyd, bu gostyngiad o 39 y cant ers 2010 i nifer y lleoedd a gcontractiwyd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ar 1 Mehefin 2017, roedd 117 o leoedd cymeradwy wedi'u contractio i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid mewn Cartrefi Diogel i Blant ledled Cymru a Lloegr, a llenwyd 93 y cant o'r lleoedd hyn. O'r plant a gadwyd mewn Cartrefi Diogel i Blant yn 2017, roedd 61 y cant yn 15 neu 16 oed ac roedd 28 y cant yn bedair ar ddeg oed neu iau. Ni chadwyd unrhyw blant dan ddeuddeng oed mewn Cartrefi Diogel i Blant yn 2017. O'r plant a oedd yn cael eu cadw yng Nghymru a Lloegr ar 31 Mawrth 2017, roedd 55 y cant wedi cael eu cadw ers llai na thri mis ac roedd gan 7 y cant leoliadau a oedd yn para blwyddyn neu fwy.²³⁷

Cartref Diogel i Blant Hillside

5.70 O'r 33 o blant a phobl ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa, cedwir pedwar mewn Cartrefi Diogel i Blant: un yn Uned Ddiogel Vinney Green yn Swydd Gaerloyw, i'r gogledd-ddwyrain o ddinas Bryste, a thri yng Nghanolfan Ddiogel Hillside yng Nghastell-nedd, de Cymru. Cartref diogel i blant cenedlaethol a adeiladwyd yn bwrpasol yw Hillside, a agorodd ym 1996. Gall gynnig lleoedd i hyd at ddau ar hugain o blant a phobl ifanc o'r ddau ryw yn amrywio o 12 i 17 mlwydd oed. O'r ddau ar hugain o leoedd yn Hillside, mae chwech wedi eu cadw ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn llety gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae Hillside yn darparu lleoedd i bobl ifanc y mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod cyfnod o gyfyngiad ar eu rhyddid yn angenrheidiol, ar sail un o'r penderfyniadau canlynol:

- anfon i lety cadw ieuenctid fel y nodir yn y pwerau a gyflwynwyd yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
- Gorchymyn Cadw a Hyfforddi fel y nodir o dan Adran 100 Deddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000
- galw'n ôl am ddiffyg cydymffurfiaid ag amodau Trwydded wrth gyflawni rhan gymunedol Gorchymyn Cadw a Hyfforddi o dan Adranau 104 neu 105 Deddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000
- Dedfryd, trwy Lys y Goron, am droseddau difrifol o dan Adran 90 neu 91 Deddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000

²³⁷ Yr Adran Addysg. (2017). Cyhoeddiad Cyntaf Ystadegau – Plant a oedd mewn cartrefi diogel i blant ar 31 Mawrth 2017: Cymru a Lloegr. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/616481/SFR23-2017_Text.pdf

- trefniadau trosglwyddo dros nos o dan adrannau perthnasol Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.²³⁸

- 5.71 Yn ogystal â lleoedd wedi'u contractio ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, ceir lleoedd sydd wedi eu cadw ar sail lles ar gyfer Gwasanaeth Plant Awdurdodau Lleol hefyd, yn ogystal â nifer o leoedd ar gyfer plant neu bobl ifanc sy'n agored i niwed o dan Adran 25 Deddf Plant 1989 ac Adran 119 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016. O dan amgylchiadau penodol, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn caniatáu i Wasanaethau Plant Awdurdodau Lleol brynu gwely gwag yn Hillside yn y fan a'r lle, i alluogi'r Awdurdod Lleol i ddarparu llety i unigolyn ifanc ar sail lles o dan Adran 25 y Ddeddf Plant (1989). Gall Hillside hefyd fodloni ceisiadau brys am leoliadau (h.y. hyd at gyfnod o 72 awr) yn dilyn awdurdodiad gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Mae'n ofynnol i awdurdod lleol sy'n dymuno lleoli unigolyn ifanc sy'n iau na 13 oed ofyn caniatâd gan Weinidog Llywodraeth Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Addysg cyn trefnu'r lleoliad. Mae pob atgyfeiriad yn cael ei ystyried yn ofalus i sicrhau bod gan y gwasanaethau yn Hillside y gallu i ddiwallu anghenion y plentyn neu unigolyn ifanc o dan sylw. Caiff pob derbyniad ei gynllunio yn drylwyr, gan gynnig y cyfle i reolwr Hillside dderbyn y wybodaeth berthnasol cyn derbyn unigolyn ifanc. Pan fo'n bosibl, gofynnir am ffynonellau gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, safbwyntiau ychwanegol ar anghenion ac ymddygiad y plentyn neu unigolyn ifanc gan leoliadau blaenorol.²³⁹
- 5.72 Mae'r plant a'r bobl ifanc a dderbynnir i Hillside yn bobl ifanc agored i niwed, y mae ganddynt anghenion cymhleth yn aml, sy'n sail i'r ymddygiadau a gyflwynir ganddynt. Mae gan bob unigolyn o leiaf un gweithiwr preswyl enwebedig sy'n gweithredu fel gweithiwr allweddol ac sy'n gyfrifol am reoli gofal penodol i'r unigolyn. Caiff gweithrediad cynllun gofal unigryw pob plentyn neu unigolyn ifanc ei oruchwylio gan arweinydd uned ac, yn ei drefn, ei fonitro gan dîm rheoli'r achos. Yr arweinydd uned sy'n gyfrifol am ddarparu a chyflawni canlyniadau gorau pob cynllun gofal. Mae gan bob plentyn neu unigolyn ifanc reolwr achos wedi ei benodi, sy'n gyfrifol am gynllun gofal yr unigolyn ifanc yn ystod ei arhosiad cyfan. Bwriedir i'r cynllun gofal sicrhau bod camau yn cael eu cymryd yn barhaus i fynd i'r afael â'r anawsterau a arweiniodd at benderfyniad y llysoedd i leoli plentyn neu unigolyn

²³⁸ Cartref Diogel i Blant Hillside. (2017). *Statement of Purpose 2017*. Ar gael yn: <http://www.hillsidesecurechildrenehshome.co.uk/media/7734/statement-of-purpose.pdf>

²³⁹ *ibid.*

ifanc mewn amodau diogel ac, felly, yn ceisio hybu'r canlyniadau gorau i bob un plentyn neu unigolyn ifanc. Caiff darpariaeth gwasanaeth Hillside, y mae'r cynllun gofal yn rhan allweddol ohoni, ei chyflawni gan aelodau staff profiadol sydd wedi eu hyfforddi'n dda, sydd i gyd yn gymwysedig yn eu meysydd arbenigedd priodol. Mae'r tîm amlddisgyblaeth mewnol yn adolygu cynllun gofal pob unigolyn bob wythnos. Hefyd, caiff asesiadau cynhwysfawr a rhaglenni ymyrraeth unigol eu monitro a'u gwerthuso yn rheolaidd ar gyfer pob plentyn neu unigolyn ifanc a chaiff y canlyniadau eu hysbysu drwy'r broses adolygu achos fisol.²⁴⁰

5.73 Mae Hillside wedi ei rhannu'n dair uned fyw, a cheir setiau teledu, setiau radio, chwaraewyr fideo, PlayStation, chwaraewyr CD, crefftau, gemau bwrdd, llyfrau, cylchgronau, offer celf a gardd hamdden awyr agored ym mhob un ohonynt. Mae gan bob unigolyn ifanc ei ystafell ei hun â chyfleusterau en suite. Mae cyfleusterau ychwanegol Hillside yn cynnwys:

- campfa, ystafell ffitrwydd, cae chwarae awyr agored pob tywydd
- ystafell crefftau, dylunio a thechnoleg, ystafell gelf ac ystafell gyfrifiaduron
- gardd arddwriaethol
- sinema ac ystafell karaoke/cerddoriaeth
- cyfleusterau gweithdy galwedigaethol gan gynnwys adeiladu, plymio, trydanol, economeg y cartref, iechyd a harddwch a pheintio ac addurno.²⁴¹

5.74 Mae Hillside yn hybu llesiant, iechyd da ac addysg o ansawdd uchel yn weithredol. Mae addysg plant a phobl ifanc sydd wedi eu carcharu yn Hillside yn cwmpasu'r ganolfan gyfan ac yn cael ei darparu trwy ddysgu cymdeithasol ar yr unedau byw, gweithgareddau hamdden, addysg allgyrsiol, trwy waith cartref a thrwy'r rhaglen addysg 28 awr wythnosol wedi'i strwythuro.²⁴² Nod Hillside yw cynorthwyo plant a phobl ifanc wrth iddynt geisio byw bywyd llawn boddhad a mwynhad mewn ffordd ddiogel a chadarnhaol. Mae Hillside yn buddsoddi mewn plant a phobl ifanc fel bod ganddynt lais, yn eu grymuso i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn ystod eu hamser yn y cartref ac yn eu galluogi i ddefnyddio'r sgiliau a enillwyd i wella eu cyfleoedd pan fyddant yn dychwelyd i'r gymuned.²⁴³

²⁴⁰ *ibid.*

²⁴¹ Cartrefi Diogel i Blant. (2018). *Leisure*. Ar gael yn: <http://www.hillsidesecurechildrenshome.co.uk/2273>

²⁴² Cartrefi Diogel i Blant. (2018). *Education*. Ar gael yn: <http://www.hillsidesecurechildrenshome.co.uk/2267>

²⁴³ Cartref Diogel i Blant Hillside. (2017). *Statement of Purpose 2017*. Ar gael yn:

Canolfannau Hyfforddi Diogel

- 5.75 Mae canolfannau hyfforddi diogel yn cadw plant a phobl ifanc rhwng 12 a 18 oed ac roedd cyfanswm o 171 o blant a throseddwyd ifanc mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel ym mis Rhagfyr 2017.²⁴⁴ Ceir tair Canolfan Hyfforddi Ddiogel yng Nghymru a Lloegr: Canolfan Hyfforddi Ddiogel Rainsbrook yn Willoughby ger Rugby, Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill ger Milton Keynes a Chanolfan Hyfforddi Ddiogel Medway yn Rochester. Mae gan Ganolfannau Hyfforddi Diogel y gallu i ddarparu llety ar gyfer pobl ifanc sy'n ferched ac sy'n fechgyn. Hefyd, ceir uned mam a baban bwrpasol yn Rainsbrook sy'n darparu llety ar gyfer mamau sydd wedi eu carcharu a'u babanod, ac i fenywod sydd yng nghanau olaf beichiogrwydd hefyd. Caewyd Canolfan Hyfforddi Ddiogel Hassockfield yn Consett ger Newcastle ym mis Ebrill 2015, lle'r oedd capasiti llety o 58, gan fod nifer lai a llai o bobl ifanc yn cyflawni dedfrydau o garchar. Gyda'i gilydd, mae'r tair Canolfan Hyfforddi Ddiogel yn dal tua 15 y cant o'r boblogaeth bobl ifanc sydd yn y ddalfa.²⁴⁵ Mae pob Canolfan Hyfforddi Ddiogel wedi ei dylunio i ddal rhwng 50 ac 80 o blant a phobl ifanc, a cheir cymhareb staff i blant o 3:8.²⁴⁶ Rhennir Canolfannau Hyfforddi Diogel yn unedau, gyda phob uned yn darparu lle ar gyfer rhwng pump ac wyth o oedolion ifanc. Bydd pobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel wedi cael eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa am amrywiaeth o wahanol droseddau, yn amrywio o fân droseddau i'r troseddau mwyaf difrifol.
- 5.76 Cynigiwyd y cysyniad o Ganolfannau Hyfforddi Diogel yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 ac roedd y Datganiad o Ddiben gwreiddiol yn rhagnodi:
- 1) Mai nodau canolfan yw:
 - a) rhoi llety i hyfforddeion mewn amgylchedd saff o fewn amodau diogel;
 - b) helpu hyfforddeion i baratoi at ddychwelyd i'r gymuned y tu allan.
 - 2) Caiff y nod a nodir ym mharagraff (1) (b) uchod ei gyflawni'n benodol drwy:

<http://www.hillsidesecurechildrenshome.co.uk/media/7734/statement-of-purpose.pdf>

²⁴⁴ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. (2018). Data Carchariad Ieuenctid: Rhagfyr 2017. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data>

²⁴⁵ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2018). Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2016/17 Cymru a Lloegr: Bwletin Ystadegau. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/676072/youth_justice_statistics_2016-17.pdf

²⁴⁶ Y Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg. (2016). Ôl-nodyn: Addysg Ieuenctid yn y Ddalfa. Rhif 524. Ar gael yn:

<http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/POST-PN-0524#fullreport>

- a) darparu cyfundrefn gadarnhol sy'n cynnig addysg a hyfforddiant o safon uchel;
- b) sefydlu rhaglen sydd wedi'i chyllunio i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol pob hyfforddai a chynorthwyo â'i ddatblygiad;
- c) meithrin cysylltiadau rhwng yr hyfforddai a'r gymuned y tu allan; a
- d) cydweithredu â'r gwasanaethau sy'n gyfrifol am oruchwylio'r hyfforddai ar ôl iddo gael ei ryddhau.²⁴⁷

- 5.77 Mae addysg wrth wraidd Canolfannau Hyfforddi Diogel, ac mae'r plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y canolfannau yn derbyn 25 awr orfodol o addysg a/neu hyfforddiant yr wythnos. Ochr yn ochr â'r prif ddiben addysgol, mae Canolfannau Hyfforddi Diogel yn canolbwyntio'n drwm ar adsefydliad a gofal.
- 5.78 Mae Canolfannau Hyfforddi Diogel wedi bod yn destun cyhoeddusrwydd negyddol yn y blynyddoedd diwethaf, ar ôl darllediad rhaglen BBC Panorama yn 2016 a ddatgelodd y gamdriniaeth o bobl ifanc yng Nghanolfan Hyfforddi Ddiogel Medway. Gweithredwyr preifat sydd wedi rhedeg Canolfannau Hyfforddi Diogel yn draddodiadol, a G4S fu'r prif weithredwr. Yn dilyn y pryderon ynghylch y ddarpariaeth o ofal i'r plant a'r bobl ifanc a gedwir mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel, mae rheolaeth y canolfannau yn dychwelyd i'r sector cyhoeddus. Ers mis Gorffennaf 2016, rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr am reoli Canolfan Hyfforddi Ddiogel Medway. OFSTED sy'n gyfrifol am arolygu Canolfannau Hyfforddi Diogel a nodwyd yn y rowndiau arolygu diweddaraf yn 2017, mai "angen gwella" oedd statws effeithiolrwydd cyffredinol Rainsbrook,²⁴⁸ ac ystyriwyd bod Oakhill a Medway yn "anaddas" o ran eu heffeithiolrwydd cyffredinol.^{249,250} Fodd bynnag, mae'r adroddiadau OFSTED ar gyfer pob Canolfan Hyfforddi Ddiogel yn awgrymu bod gwelliannau yn cael eu gwneud yn araf, wedi eu hysgogi gan benodiad cyfarwyddwyr newydd a thimau rheoli newydd. Mae pob un o'r tair canolfan yn gwella'r gwasanaeth eiriolaeth annibynnol a ddarperir gan Barnardo's i'r bobl ifanc y maent yn eu cadw, gan uwchraddio systemau monitro,

²⁴⁷ Canolfannau Hyfforddi Diogel, Cymru a Lloegr: Y Rheolau Hyfforddi Diogel 1998. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1998/472/introduction/made>

²⁴⁸ OFSTED. (2017). *Inspection of Secure Training Centres: Inspection of Rainsbrook*. Ar gael yn: <https://reports.ofsted.gov.uk/sites/default/files/documents/secure-training-centre-reports/rainsbrook/Rainsbrookper cent20STCper cent20Ofstedper cent20reportper cent20Juneper cent202017per cent20per cent28PDFper cent29.pdf>

²⁴⁹ OFSTED. (2017). *Inspection of Secure Training Centres: Inspection of Oakhill*. Ar gael yn: <https://reports.ofsted.gov.uk/sites/default/files/documents/secure-training-centre-reports/oakhill/Oakhillper cent20STCper cent20Octoberper cent202017per cent20report.pdf>

²⁵⁰ OFSTED. (2017). *Inspection of Secure Training Centres: Inspection of Medway*. Ar gael yn: <https://reports.ofsted.gov.uk/sites/default/files/documents/secure-training-centre-reports/medway/Medwayper cent20STCper cent20Ofstedper cent20reportper cent20Marchper cent202017.pdf>

adolygu trefniadau diogelu a cheisio cyllid i ymestyn darpariaeth teledu cylch cyfyng.

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc

- 5.79 Mae sefydliadau troseddwy'r ifanc yn rhan o'r brif system garchardai, gan weithredu gyda llawer o'r un rheolau a pholisïau â charchardai ar gyfer troseddwy'r sy'n ddynion a throseddwy'r sy'n fenywod. Cyflwynwyd Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i garcharu oedolion ifanc 15-21 oed. Mae Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc yn tueddu i fod yn fwy na'r ddau fath arall o lety diogel ar gyfer troseddwy'r ifanc. Ceir wyth o Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc sy'n dal bechgyn ifanc yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd (gweler tabl 4) a thair uned benodol ar gyfer merched ifanc yn Lloegr (gweler tabl 5).

Tabl 4:

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc	Lleoliad	Rhanbarth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r
Ashfield (sefydliad wedi'i gontractio)	Swydd Gaerloyw	Amherthnasol
Cookham Wood	Caint	Caint a Sussex
Feltham	Llundain Fwyaf	Llundain Fwyaf
Hindely	Manceinion Fwyaf	Gogledd-orllewin Lloegr
Parc (sefydliad wedi'i gontractio)	Cymru	Amherthnasol
Warren Hill	Suffolk	Dwyrain Lloegr
Werrington	Swydd Stafford	Gorllewin Canolbarth Lloegr
Wetherby	Gorllewin Swydd Efrog	Swydd Efrog a Glannau Humber

Sefydliadau troseddwy'r ifanc sy'n cadw bechgyn ifanc yng Nghymru a Lloegr.²⁵¹

²⁵¹ Justice. (2017). Pobl Ifanc (Troseddwy'r Ifanc). Ar gael yn:

Sefydliad	Lleoliad	Rhanbarth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy
Downview (Uned Josephine Butler)	Surrey	Llundain Fwyaf
Eastwood Park (Uned Mary Carpenter)	Swydd Gaerloyw	De-orllewin Lloegr
New Hall (Uned Rivendell)	Gorllewin Swydd Efrog	Swydd Efrog a Glannau Humber

Tabl 5: Sefydliadau troseddwy ifanc sy'n cadw merched ifanc yn Lloegr.²⁵²

- 5.80 Gostyngodd nifer y plant ac oedolion a oedd wedi eu carcharu mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc yn sylweddol iawn rhwng 2005 a 2015. Roedd 605 o droseddwy ifanc mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc ar draws Cymru a Lloegr ym mis Rhagfyr 2017.²⁵³ Bu gostyngiad o 74 y cant i boblogaeth Sefydliadau Troseddwy Ifanc dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, sef y gostyngiad mwyaf o bell ffordd i'r boblogaeth ar draws y tri sector sy'n darparu llety gwarchodol ar gyfer plant a phobl ifanc. O'r 33 o droseddwy ifanc o Gymru a oedd yn y ddalfa ar 29 Rhagfyr 2017, roedd 24 o'r rhain mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc.
- 5.81 Mae'r PSI Gofal a Rheolaeth Pobl Ifanc, sef 28/2009 ar hyn o bryd, yn cyflwyno'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau gorfodol i Lywodraethwyr Sefydliadau Troseddwy Ifanc. Mae'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn y sefydliadau yn gweithredu yn unol â gofynion statudol. Mae Sefydliadau Troseddwy Ifanc wedi eu dylunio i ddarparu amgylchedd diogel i bobl ifanc, gyda chymhareb plant i staff o 1:10.²⁵⁴ Neilltuir swyddog personol i bobl ifanc sydd wedi'u carcharu mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc a hwn fydd eu pwynt cyswllt cyntaf ar

<https://www.justice.gov.uk/offenders/types-of-offender/juveniles>

²⁵² *ibid.*

²⁵³ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. (2018). Data Carchariad Ieuenctid: Rhagfyr 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data>

²⁵⁴ Y Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg. (2016). Ôl-nodyn: Addysg Ieuenctid yn y Ddalfa. Rhif 524. Ar gael yn: <http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/POST-PN-0524#fullreport>

gyfer unrhyw bryderon. Awdurdodau lleol gan contractwyr allanol sy'n comisiynu addysg mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc a cheir yr opsiwn hefyd i bobl ifanc ymgymryd â hyfforddiant galwedigaethol. Ers mis Awst 2015, 30 awr yr wythnos yw'r oriau addysgol gorfodol ar gyfer pobl ifanc mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc. Pan fo lefel ddigonol o ymddiriedaeth a datblygiad wedi'u dangos, mae gan bobl ifanc y cyfle i wneud cais am ryddhad dros dro y gellir ei ganiatáu i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned sy'n gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Wrth i blentyn neu unigolyn ifanc agosáu at ddiwedd ei ddedfryd o garchar, gellir caniatáu rhyddhad dros dro iddo i gynorthwyo gydag ailsefydlu.

- 5.82 Mae'r Rhaglen Ymwybyddiaeth Staff leuenctid yn cynnig hyfforddiant i'r holl staff yn y Gwasanaeth Carchardai sy'n gweithio mewn cyswllt uniongyrchol a rheolaidd â phobl ifanc. Rhaglen saith diwrnod yw hon sydd â'r nod o ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr i'r staff o'r materion penodol a wynebwr gan bobl ifanc sydd yn y ddalfa. Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwlau ar ddiogelu, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a rheoli ymddygiad.²⁵⁵ Gan adlewyrchu profiad canolfannau hyfforddi diogel, mae Sefydliadau Troseddwy Ifanc wedi derbyn llawer iawn o feirniadaeth yn hanesyddol, ac mae hynny'n arbennig o wir heddiw. Ceir pryderon difrifol ynghylch lefel y trais mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc ac, felly, ynghylch diogelwch pobl ifanc sydd wedi eu carcharu yn y sefydliadau hyn. Ym mis Gorffennaf 2017, yn dilyn cynnydd i lefel y trais, dywedodd y corff gwarchod ar gyfer carchardai nad oedd yr un carchar pobl ifanc yng Nghymru na Lloegr yn ddiogel. Dywedodd Peter Clarke, Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi, bod y sefyllfa bresennol yn beryglus, yn wrthgynhyrchol ac y bydd yn arwain yn anochel at drychineb oni bai fod camau unioni brys yn cael eu cymryd.²⁵⁶

Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy Ifanc y Parc

- 5.83 Carchar categori B wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw CEM a Sefydliad Troseddwy Ifanc y Parc. Agorwyd y Parc ym 1997, a hwn oedd un o'r carchardai cyntaf i gael eu hadeiladu o dan Fenter Cyllid Preifat y Llywodraeth. Chwaraeodd Gwasanaeth Gofal a Chyfiawnder G4S ran flaenllaw yn natblygiad carchar y Parc ac mae ganddo contract gweithredu 25 mlynedd i reoli'r carchar ar ran Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Ceir lle i 1,803 o garcharorion sy'n ddynion ac wedi derbyn

²⁵⁵ Justice. (2017). Pobl Ifanc (Troseddwy Ifanc). Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/offenders/types-of-offender/juveniles>

²⁵⁶ Travis, A. (2017). *Prisons Inspector Warn of 'Staggering' Decline in Safety of Youth Jails*. The Guardian. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/society/2017/jul/18/youth-jails-staggering-decline-standards-england-wales-peter-clarke-prisons-inspector-report>

euogfarn a throseddwy'r ifanc sydd ar remánd/wedi derbyn euogfarn yn y carchar,²⁵⁷ a lle ar gyfer 62 o fechgyn ifanc 15-17 oed yn yr Uned Pobl Ifanc. Mae'r Uned Pobl Ifanc yn darparu lleoedd ar gyfer bechgyn ifanc (iau na 18 oed) ar remánd yn ogystal â'r rhai sydd wedi derbyn euogfarn, tra bod gweddill y carchar wedi ei gadw ar gyfer oedolion ac oedolion ifanc sy'n ddynion sydd wedi derbyn euogfarn (18-20 mlwydd oed).

- 5.84 Agorwyd yr Uned Pobl Ifanc mewn ymateb i ddymuniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i gael sefydliad yng Nghymru â'r gallu i ddarparu lleoedd ar gyfer troseddwy'r ifanc o Gymru yn agosach at eu cartrefi a'u teuluoedd. Agorodd yr uned yn 2002 fel cyfleuster 28 ystafell ar gyfer pobl ifanc a oedd yn cael eu cadw ar remánd rhwng 15 a 18 oed. Ehangwyd yr uned yn 2004 i ddarparu llety ar gyfer 36 o bobl ifanc, gan gynnwys oedolion ifanc ar remánd ac sydd wedi derbyn euogfarn. Ehangwyd yr uned ymhellach yn 2007 i ddarparu llety ar gyfer 64 o fechgyn ifanc. Roedd y cyfleuster ar gyfer llysoedd yn ne a chanolbarth Cymru yn wreiddiol, ond cafodd y dalgylch ei ymestyn o Gymru i gwmpasu de-orllewin Lloegr, gan gynnwys Gwlad yr Haf, Dyfnaint a Chernyw, yn 2013. Ym mis Ebrill 2014, cynyddodd ardal dalgylch y llys unwaith eto i gynnwys Bryste, Swindon a Wiltshire. Erbyn hyn, ceir dwy uned breswyl yn yr Uned Pobl Ifanc, sy'n cael ei hadnabod fel uned John Charles – GI ar gyfer hyd at 36 o fechgyn ifanc ac uned EI ar gyfer hyd at 28 o fechgyn ifanc.²⁵⁸ Roedd 43 o fechgyn ifanc wedi eu carcharu yng Ngharchar y Parc ym mis Hydref 2017 ac, ar 29 Rhagfyr 2017, roedd 13 o droseddwy'r ifanc o Gymru wedi'u carcharu yn yr Uned Pobl Ifanc.
- 5.85 Mae Uned Pobl Ifanc y Parc yn mabwysiadu dull cyfannol ar gyfer adsefydlu ac ailsefydlu pobl ifanc yn effeithiol. Nod gwaith Uned John Charles yw cefnogi amcanion craidd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid o atal aildroseddu a hybu cyfleoedd ailsefydlu i'r bechgyn ifanc y mae'n gofalu amdanynt. Adlewyrchir agenda hawliau estynedig Llywodraeth Cymru – sydd â dysgu, cynhwysiant, dinasyddiaeth a diogelwch fel ei elfennau craidd²⁵⁹ – yn holl bolisïau a gweithdrefnau'r Parc sy'n

²⁵⁷ [Y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#), [y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r](#), [Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi](#), a [Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi](#). (2017). Bwletin Poblogaeth: Misol Rhagfyr 2017. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2017>

²⁵⁸ Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi. (2017). Adroddiad ar Arolygiad Dirybudd o Uned Pobl Ifanc Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Ei Mawrhydi y Parc: 5-16 Rhagfyr. Ar gael yn:

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/wp-content/uploads/sites/4/2017/04/Parc-Web-2017-1.pdf>

²⁵⁹ Yr Adran Hyfforddiant ac Addysg. (2012). Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru. Cyfarwyddyd a Chanllawiau. Ar gael yn:

cefnogi hawliau'r plant a'r bobl ifanc sy'n preswyllo yno. Anogir y bechgyn ifanc a gedwir yn yr uned i gynnal cysylltiadau teuluol a chymunedol. Caiff addysg i bob gŵr ifanc 15-17 oed ei hybu yn gryf a chynigir cwricwlwm amrywiol yn y Ganolfan Dysgu a Sgiliau Pobl Ifanc. Bydd bechgyn ifanc yn cael y cyfle yn fisol i drafod cynlluniau dysgu unigol gydag athrawon uwch, i sicrhau bod cynnydd digonol yn cael ei wneud. Mae'r holl bobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y Parc yn derbyn gofal, amddiffyniad a'r cymorth unigol angenrheidiol – cymdeithasol, seicolegol, meddygol, addysgol a chorfforol – i ddatblygu a hybu eu datblygiad personol a chymdeithasol.²⁶⁰

- 5.86 Yn hanesyddol, ac mewn cyferbyniad â'r amodau mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc ledled Cymru a Lloegr, mae Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi wedi llunio cyfres o adroddiadau cadarnhaol iawn yn dilyn arolygiadau o Uned Pobl Ifanc y Parc. Mae arolygiadau a gynhelir gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yn dyfarnu perfformiad sefydliad yn erbyn model o garchar iach, sy'n cymryd i ystyriaeth diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol ac ailsefydlu - y pedair elfen sydd, pan gânt eu cyflawni'n llwyddiannus i safon uchel, yn sicrhau system garchardai iach. Er bod gan y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn y Parc hanes cadarnhaol, nododd yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2016 ddirywiad, gan nodi bod yr uned wedi dod yn llai diogel â lefel gynyddol o ddiffyg parch. Yn dilyn arolygiad dirybudd arall ym mis Hydref 2017, daeth Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi i'r casgliad bod y dirywiad wedi cael ei atal a bod tystiolaeth bod gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud. Er bod lefelau trais yn dal i fod yn gymharol uchel, roedd gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran diogelwch trwy weithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant cynyddol drwyadl. Dangosodd y troseddwy'r ifanc yn y Parc gynnydd o ran addysg a rhoddwyd cyfle i lawer ddatblygu sgiliau defnyddiol a throsglwyddadwy. Roedd y ddarpariaeth ailsefydlu yn parhau i fod yn ddigonol a daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y staff wedi eu hyfforddi'n dda, yn ymrwymedig ac yn hyderus.²⁶¹ Mae ansawdd y gofal yn yr Uned Pobl Ifanc yn y Parc yn awgrymu y byddai'r bobl ifanc sydd wedi eu carcharu yno yn cael eu hysbysu'n dda am eu hawliau, ac mae'r gwasanaeth addysg medrus a gynigir i

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cyfarwyddyd-a-chanllawiau-ymestyn-hawliau-cynorthwyo-pobl-ifanc-o-11-i-25-oed-yng-nghymru.pdf>

²⁶⁰ CEM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc. (2014). Uned Pobl Ifanc. Ar gael yn:

https://www.hmp-parc.co.uk/about_rar_yfu.htm

²⁶¹ Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi. (2017). Adroddiad ar Arolygiad Dirybudd o Uned Pobl Ifanc Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Ei Mawrhydi y Parc: 5-16 Rhagfyr. Ar gael yn:

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2017/04/Parc-Web-2017-1.pdf>

fechgyn ifanc yn y ddalfa yn awgrymu bod y gallu'n bodoli i sicrhau y gallent fod yn bleidleiswyr gwybodus pe baent yn cael eu hetholfreinio.

6. Adran Pedwar: Treiddio Ymhellach i'r Heriau

- 6.1 Mae etholfreinio carcharorion yn dasg fawr o safbwynt gwleidyddol ac ymarferol. O safbwynt gwleidyddol, mae dadetholfreinio carcharorion wedi bod yn amhoblogaidd i raddau helaeth ymhlith y cyhoedd ac ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Gall cyflawni mandad fod yn fwy anodd pan wynebwr gwrthwynebiad cyhoeddus a gwleidyddol. Hefyd, mae llwyddiant cynnig sy'n ddadleuol o safbwynt cyhoeddus a gwleidyddol yn gofyn am bolisi eglur, tynn a chydlynol, y gellir ei gyfiawnhau ac sy'n ymatebol i unrhyw bryderon neu ofidion ymhlith pleidiau gwleidyddol, sefydliadau ac elusennau â buddiant, ymarferwyr a'r cyhoedd.
- 6.2 O safbwynt ymarferol, ceir nifer o heriau a wynebwr wrth ddatblygu polisi sy'n darparu dulliau a phrosesau i garcharorion Cymru, y mae eu dyddiad rhyddhau disgwyledig yn ystod y tymor swydd sy'n cael ei ethol, ar gyfer cofrestru i bleidleisio ac yna bwrw'r bleidlais honno. Hefyd, mae'r dulliau a'r prosesau hyn yn mynd i ofyn am waith cydgysylltiedig ar draws gwahanol sefydliadau a gwasanaethau – gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r Comisiwn Etholiadol, y Gwasanaeth Carchardai, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid – ac ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r adran hon, yn ei thro, yn archwilio tair o'r prif heriau: pennu dyddiad rhyddhau disgwyledig, rhoi sylw i'r achos dros wahanol egwyddorion i droseddwr ifanc a'r materion o garcharorion yn cael eu hystyried yn "breswylwyr fel arfer" at ddibenion darparu gwasanaeth. Nid yw'r adran hon yn ceisio rhoi atebion i'r cwestiynau hyn, ond ei nod yn hytrach yw cyflwyno'r heriau yn drylwyr a'r materion ymarferol a'r dadleuon gwleidyddol posibl a allai godi wrth fynd i'r afael â nhw.

Yr Her Gyntaf: Pennu Dyddiad Rhyddhau

- 6.3 Er mwyn ethol carcharorion Cymru y mae eu dyddiad rhyddhau disgwyledig yn ystod tymhorau'r cyngor sy'n cael ei ethol, bydd yn angenrheidiol cael gwybod dyddiad rhyddhau carcharor. Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol angen gwybod pryd y disgwylir i garcharor gael ei ryddhau, i dderbyn ei gais i gofrestru a'i gais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy. Hefyd, mae'n hanfodol bod y wybodaeth hon yn gyfredol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adran flaenorol am ddedfrydau o garchar a chyfrifiadau dedfrydau a wneir gan y Gwasanaeth Carchardai, mae'r bennod hon yn treiddio ymhellach trwy fapio'r broses o gyfrifo

dyddiad rhyddhau a'r ffactorau sy'n effeithio ar ddyddiad rhyddhau carcharor. Yn y drafodaeth ganlynol, bydd yr heriau a fydd yn cael eu hwynebu wrth ddatblygu polisi yn cael eu nodi a bydd dull polisi posibl, gan ddilyn model Awstralia, yn cael ei fapio.

Y dyddiad rhyddhau

- 6.4 I raddau helaeth iawn, y ddedfryd sydd wedi cael ei thraddodi gan y llys a fydd yn pennu dyddiad rhyddhau carcharor. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, oherwydd cyflwyniad deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, gwahanol gynlluniau rhyddhau gweithredol sydd ar waith ar hyn o bryd ac, felly, bydd y rhyngweithio rhwng y dyddiad y cyflawnwyd y drosedd neu'r dyddiad y gorfodwyd y ddedfryd a'r mathau o ddedfrydau a draddodwyd yn pennu'r dyddiad rhyddhau cychwynnol. Dilynir y ddeddfwriaeth a'r diwygiadau diweddaraf yma, sy'n dangos gwahaniaeth rhwng troseddau a gyflawnwyd a/neu a ddedfrydwyd cyn mis Chwefror 2015.
- 6.5 Ni all dedfryd byth gychwyn cyn dyddiad ei gorfodi ac, oni bai fod y llysoedd yn nodi'n wahanol, bydd dedfryd fel rheol yn cychwyn o'r diwrnod y'i gorfodir. Caiff carcharorion sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig safonol o lai na blwyddyn eu rhyddhau yn awtomatig hanner ffordd trwy eu dedfryd (cyfeirir ato fel y dyddiad rhyddhau amodol yng nghyfrifiad y ddedfryd). Ar ôl eu rhyddhau, mae'r carcharorion hyn ar drwydded tan i'w dedfryd ddod i ben, a hefyd yn destun goruchwyliaeth ôl-ddedfryd am flwyddyn ar ôl y pwynt hanner ffordd trwy eu dedfryd. Mae'r dyddiadau rhyddhau, trwydded a goruchwyliaeth yr un fath ar gyfer dedfrydau sy'n fwy na blwyddyn ond yn llai na dwy flynedd. Caiff y rhai sy'n cyflawni dedfryd o ddwy flynedd neu fwy eu rhyddhau yn awtomatig hanner ffordd drwy eu dedfryd hefyd ac maent yn aros ar drwydded tan ddiwedd eu dedfryd, ond nid yw'n ofynnol iddynt gael cyfnod o oruchwyliaeth ôl-ddedfryd. Bydd yr holl garcharorion sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig estynedig yn gymwys ar gyfer rhyddhad yn ôl disgresiwn gan y Bwrdd Parôl ar yr adeg pan fydd dwy ran o dair o'r ddedfryd o garchar wedi eu cyflawni (cyfeirir ato fel y dyddiad cymhwyso ar gyfer parôl yng nghyfrifiad y ddedfryd). Mae carcharor sy'n derbyn parôl yn aros ar drwydded tan ddiwedd ei ddedfryd. Pan fydd parôl wedi cael ei wrthod i garcharor, bydd yn cael ei ryddhau yn awtomatig ar ddiwedd ei ddedfryd o garchar (cyfeirir ato fel dyddiad terfyn carchariad yng nghyfrifiad y ddedfryd).²⁶²

²⁶² Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. (2015). Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

- 6.6 Er na ellir cyfrifo dyddiad rhyddhau ar gyfer dedfrydau penagored, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud cais awtomatig am barôl ar ran carcharorion sy'n cyflawni dedfryd benagored neu ddedfryd oes. Os bydd carcharor yn cyflawni cyfnod gofynnol o bedair blynedd neu fwy, cysylltir ag ef yn awtomatig dair blynedd cyn i'w dariff ddod i ben. Cysylltir yn awtomatig â charcharor sy'n cyflawni dedfryd benagored o lai na phedair blynedd a chwe mis cyn i'w dariff ddod i ben.²⁶³ Ar ôl i achos gael ei atgyfeirio, bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried achos carcharor o fewn chwe mis wedyn ac, os bydd yn dod i'r casgliad y dylid rhyddhau'r carcharor dan sylw, yna bydd y carcharor yn cael ei ryddhau ar ei ddyddiad cymhwyso ar gyfer parôl neu, pa fo'r dyddiad hwnnw wedi mynd heibio eisoes, y dyddiad cynharaf posibl.²⁶⁴

Amser a Dreulir ar Remánd

- 6.7 Mae'n rhaid i gyfrifiad dedfryd gymryd i ystyriaeth yr amser a dreuliwyd ar remánd i garchar, remánd ar fechnïaeth â thag ac amser yn nalfa'r heddlu (mae'r olaf yn berthnasol i ddedfrydau a orfodwyd cyn 3 Rhagfyr 2012 yn unig, am droseddau a gyflawnwyd cyn 4 Ebrill 2005). Mae "cyfnod perthnasol" o amser a dreuliwyd ar remánd, yn y ddalfa neu ar fechnïaeth yn cyfrannu'n awtomatig at gyfnod y ddedfryd o garchar ac, felly, gall symud y dyddiad rhyddhau amodol yn ei flaen. Gellir priodoli cyfnod perthnasol o gyfanswm hyd dedfryd unwaith yn unig. Mae remánd ar fechnïaeth â thag yn cyfrif fel amser a gyflawnwyd tuag at y ddedfryd ar gyfradd o hanner nifer y diwrnodau a dreuliwyd ar fechnïaeth â thag mewn gwirionedd pan yn ddarostyngedig i'r gofynion perthnasol. Bydd nifer y diwrnodau a dreuliwyd ar fechnïaeth â thag i'w cyfrif fel cyfnod perthnasol yn cael ei chyfarwyddo gan y llys a'i nodi ar warant y ddedfryd. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Carchardai, wedyn, briodoli'r amser hwn wrth gyfrifo dyddiadau'r ddedfryd. Pan fydd nifer y diwrnodau remánd/mechnïaeth â thag yn fwy na rhan garchariad y ddedfryd, dim ond y diwrnodau remánd/mechnïaeth â thag a fydd yn clirio rhag garchariad y ddedfryd y gellir eu cymhwyso. Bydd hyn yn arwain at ryddhau'r carcharor ar unwaith, ond nid yw'r balans sy'n weddill o ddiwrnodau remánd/mechnïaeth â thag yn lleihau cyfnod trwydded y ddedfryd. Fodd bynnag, os bydd carcharor yn cael ei alw'n ôl ar drwydded, gellir cydbwysu'r amser remánd/mechnïaeth â thag yn erbyn y

²⁶³ gov.uk. Derbyn Parôl. Rhan Tri: Dedfrydau oes a phenagored. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/getting-parole/life-and-indeterminate-sentences>

²⁶⁴ Llinell Gymorth Teuluoedd Troseddwyd. (2015). *Parole*. Ar gael yn: <http://www.offendersfamilieshelpline.org/index.php/parole/>

cyfnod dychwelyd neu alw'n ôl, yn dibynnu ar y math o alw'n ôl a phryd y cyflawnwyd y drosedd.²⁶⁵

6.8 Nid oes gan garcharor hawl i gael ei ryddhau tan ddiwrnod olaf rhan garchariad y ddedfryd. Ac eto, am resymau ymarferol, gellir rhyddhau'r carcharor ar unrhyw adeg o'r dydd, yn y bore fel rheol, i ganiatáu amser i deithio. Os disgwylir i ddyddiad rhyddhau carcharor fod ar benwythnos neu Wyl y Banc, mae'n rhaid symud y dyddiad rhyddhau i'r diwrnod gwaith cynt. Yr eithriad yw carcharorion sy'n cyflawni dedfryd o bum diwrnod neu lai, y gellir eu rhyddhau ar y dydd Sadwrn. Ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar ac yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014, bydd yr holl garcharorion sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig safonol pan gyflawnwyd y drosedd ar neu ar ôl 1 Chwefror 2015 yn destun goruchwyliaeth am o leiaf blwyddyn ar ôl eu rhyddhad. Mae'r cyfnod goruchwyllo hwn yn cynnwys cyfnod trwydded, sy'n weithredol rhwng y dyddiad rhyddhau amodol a dyddiad terfyn trwydded y ddedfryd, a chyfnod o oruchwyliaeth ôl-ddedfryd sy'n weithredol rhwng dyddiad terfyn trwydded y ddedfryd a dyddiad terfyn yr oruchwyliaeth atodol. Dyma'r carcharorion sydd wedi eu heithrio o oruchwyliaeth ôl-ddedfryd:

- y rhai a ddedfrydwyd i un diwrnod
- y rhai sy'n cyflawni dedfryd estynedig
- y rhai a ddedfrydwyd am un drosedd a gyflawnwyd cyn 1 Chwefror 2015
- y rhai sy'n iau na 18 oed hanner ffordd drwy'r ddedfryd fel yr addaswyd gan remánd/mechnïaeth â thag ac amser a dreuliwyd yn rhydd yn anghyfreithlon
- y rhai sy'n cyflawni cyfnodau am ddiffyg cydymffurfriad (gan gynnwys cyfnodau am ddiffyg cydymffurfriad â gorchymyn galw'n ôl)
- y rhai sy'n cyflawni cyfnodau sifil o garchar.

6.9 I ddedfrydau sy'n cynnwys cyfnod o oruchwyliaeth ôl-ddedfryd a phan nad yw'r troseddwr yn cydymffurfio â'r cyfnod hwn, gall y llys ymdrin â'r diffyg cydymffurfriad trwy orchymyn yr unigolyn i gael ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na phedwar diwrnod ar ddeg.²⁶⁶

Dedfrydau lluosog

²⁶⁵ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. (2015). Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

²⁶⁶ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. (2015). Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

- 6.10 Pan fydd carcharor wedi ei gael yn euog o nifer o droseddau a draddodir ar yr un pryd, bydd y llys wedi datgan a fydd y dedfrydau yn rhedeg yn gydamserol neu'n olynol. Os yw'r dedfrydau lluosog i fod i redeg yn gydamserol, yr hiraif o'r dedfrydau a orfodir sy'n pennu'r dyddiad rhyddhau amodol. Pan fydd dedfrydau cydamserol yn cael eu traddodi ar wahanol adegau, yna mae'r dedfrydau lluosog yn rhedeg yn gyfochrog. Caiff pob dedfryd ei chyfrifo ar wahân felly, ac mae gan bob un ei dyddiad rhyddhau ei hun. Ni fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau tan y dyddiad rhyddhau amodol olaf ac yna bydd yn aros ar drwydded tan ddyddiad terfyn trwydded y ddedfryd hwyraf, gyda goruchwyliaeth ôl-ddedfryd yn dod i ben ar ddyddiad terfyn y gwaharddiad atodol hwyraf. Cyn belled nad yw carcharor wedi cael ei ryddhau cyn i ddedfryd arall gael ei gorfodi, bydd unrhyw remánd/mechnïaeth â thag sy'n berthnasol i unrhyw un o'r dedfrydau yn lleihau'r dyddiad rhyddhau gweithredol (hwyraf).
- 6.11 Fel arall, wrth draddodi dedfrydau lluosog, gall y llys orchymyn i'r dedfrydau gael eu cyflawni yn olynol. Yn yr achos hwn, o ran cyfrifo'r ddedfryd, caiff y dedfrydau unigol eu cyfuno. Mae rhyddhad, wedyn, yn amodol hanner ffordd drwy'r cyfnod cyfanredol, gyda'r drwydded yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod cyfanredol. Mae goruchwyliaeth ôl-ddedfryd yn gymwys i: ddedfrydau cyfanredol sy'n gyfanswm o 12 mis neu fwy ond yn llai na dwy flynedd pan fo o leiaf un o'r troseddau wedi cael eu cyflawni ar neu ar ôl 1 Chwefror 2015; ac i gyfnodau cyfanredol o lai na 12 mis pan gyflawnwyd yr holl droseddau ar neu ar ôl 1 Chwefror 2015. Felly, bydd dedfrydau a throeddau sy'n cyd-fynd â'r telerau hyn yn gofyn i ddyddiad terfyn goruchwyliaeth atodol gael ei gyfrifo, yn ogystal â dyddiad rhyddhau amodol a dyddiad terfyn trwydded dedfryd. Ers 2008, ni fu gan y llysoedd y grym i orfodi dedfryd olynol pan fo carcharor wedi cael ei ryddhau o ran carchariad cychwynnol dedfryd gynharach, hyd yn oed os yw wedi cael ei alw'n ôl wedi hynny am fethu â chydymffurfio â thrwydded ac yn ôl yn y ddalfa o ran y ddedfryd gyntaf pan fo'r ail ddedfryd yn cael ei gorfodi. Yn yr achos hwn, mae'r ddwy ddedfryd - diddymiad y drwydded a'r ddedfryd newydd - yn rhedeg yn gyfochrog, ac ni fydd y carcharor yn cael ei ryddhau tan fo'n ofynnol yng nghyswllt y ddwy ddedfryd.²⁶⁷

Achosion apêl

- 6.12 Bydd achosion sy'n cael eu hapelio o lysoedd ynadon neu lysoedd ieuenctid yn cael eu clywed o'r newydd yn Llys y Goron ac yn arwain at wrandawriad newydd sbon.

²⁶⁷ *ibid.*

Pan fydd Llys y Goron yn gwrthod yr apêl neu'n ail-orfodi'r un ddedfryd, nid oes unrhyw effaith ar gyfrifiad y ddedfryd ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau, oni bai i'r carcharor gael ei ryddhau ar fechnïaeth wrth aros am yr apêl, pan fo'n rhaid priodoli'r cyfnod a dreuliwyd ar fechnïaeth i'r dyddiad rhyddhau gwreiddiol. Pan fydd Llys y Goron yn gorfodi dedfryd o wahanol hyd i'r ddedfryd wreiddiol, bydd angen cyfrifo dyddiad rhyddhau newydd sy'n didynnu'r cyfnod a gyflawnwyd eisoes o ddyddiad y ddedfryd wreiddiol oni bai fod y llys wedi gorchymyn yn wahanol. Pan fydd Llys Apêl yn newid dedfryd, bydd cyfrifiad dedfryd newydd yn cael ei wneud yn cychwyn o ddyddiad y ddedfryd wreiddiol, oni bai fod y llysoedd wedi nodi'n wahanol. Ni ellir cyfrif unrhyw amser a dreulir ar fechnïaeth wrth aros am apêl tuag at y ddedfryd.

Diwrnodau ychwanegol

- 6.13 Er bod dyddiadau rhyddhau yn tueddu i fod cyn dyddiad terfyn y carchariad, yna ceir potensial i ddiwrnodau ychwanegol gael eu hychwanegu at y cyfnod o garchar. Os ceir carcharor yn euog o dorri Rheol 51 Carchardai neu Reol 55 Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc, gellir gorchymyn y carcharor neu'r troseddwr ifanc sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig (ond troseddwr ifanc sy'n cyflawni Gorchymyn Cadw a Hyfforddi) i dreulio diwrnodau ychwanegol yn y carchar. Mae'r diwrnodau amrywiol a gyfrifir yng nghyfrifiad y ddedfryd a effeithir gan ddiwrnodau ychwanegol a roddir yn ddibynnol ar hyd y ddedfryd a phryd y gorfodwyd y ddedfryd/cyflawnwyd y drosedd, ond yn gyffredinol bydd y dyddiad rhyddhau amodol neu'r dyddiad rhyddhau awtomatig bob amser yn cael ei wthio yn ôl o ganlyniad i ddiwrnodau ychwanegol. Ni all gorfodi diwrnodau ychwanegol ymestyn y dyddiad rhyddhau y tu hwnt i ddyddiad terfyn y carchariad. Ni ellir gorfodi diwrnodau ychwanegol ar garcharorion sy'n cyflawni dedfryd diffyg cydymffurfio neu ddedfryd sifil ar neu ar ôl 4 Ebrill 2005. Ceir potensial i ddiwrnodau ychwanegol a ddyfarnir gael eu dileu neu eu diddymu. Mewn achosion o'r fath, bydd dyddiadau'r ddedfryd a effeithir gan ddiwrnodau ychwanegol a ddyfarnwyd yn cael eu symud ymlaen yn unol â nifer y diwrnodau a ddilëwyd. Bydd dyddiad rhyddhau carcharor ar remánd sy'n derbyn diwrnod/au ychwanegol dros dro ac sy'n derbyn dedfryd o garchar wedi hynny, yn cael ei ohirio yn unol â nifer y diwrnodau ychwanegol a ddyfarnwyd cyn belled ag y bo'r amser remánd yn gymwys i'r ddedfryd.²⁶⁸

²⁶⁸ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r. (2015). Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

- 6.14 Ar y llaw arall, gall Llywodraethwr y carchar argymell, yn dilyn ymddygiad teilwng, bod carcharor yn cael ei wobrwyo trwy ddilead arbennig. Mae'n rhaid cyflwyno'r achos dros ryddhad cynnar gerbron y Rheolwr Carchariad Rhanbarthol, a all gymeradwyo'r argymhelliad a'r nifer o ddiwrnodau rhyddhad cynnar i'w dyfarnu. Mae'n rhaid ail-gyfrifo cyfrifiad y ddedfryd wedyn, i bennu'r dyddiad rhyddhau newydd.²⁶⁹ Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol ar gyfer "didynnu amser am ymddygiad da."

Ail-gyfrifo yn dilyn trosglwyddiad

- 6.15 Mae Deddf Trosedd (Dedfrydau) 1997 yn cyflwyno darpariaeth i garcharorion gael eu trosglwyddo, ar sail gyfyngedig neu anghyfyngedig, rhwng awdurdodaethau'r Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd (Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw) am y prif ddiben o hwyluso cysylltiad teuluol. O dan y ddeddf, gellir trosglwyddo carcharorion i awdurdodaeth arall naill ai i gyflawni eu dedfryd neu i dderbyn ymweliadau crynodedig am gyfnod cyfyngedig. Gellir trosglwyddo carcharorion at ddibenion barnwrol hefyd. Os bydd trosglwyddiad ar sail anghyfyngedig, mae'r awdurdodaeth sy'n derbyn yn caffael awdurdod dros weinyddiaeth barhaus y ddedfryd. Felly, mae'n rhaid i ddyddiadau rhyddhau carcharorion a drosglwyddir i Gymru a Lloegr ar sail anghyfyngedig fel pe baent wedi cael eu dedfrydu gan lys yng Nghymru a Lloegr, gan ddyfarnu credyd am amser yn y ddalfa dim ond os y'i caniateir yn yr awdurdodaeth lle dedfrydwyd y carcharor. Pan fydd carcharor yn cael ei drosglwyddo i Gymru a Lloegr ar sail gyfyngedig – pa un a yw hynny am gyfnod cyfyngedig neu anghyfyngedig – mae'r dyddiadau rhyddhau a bennwyd gan yr awdurdodaeth sy'n ei anfon yn parhau i fod yn gymwys. Os bydd diwrnodau ychwanegol wedi cael eu dyfarnu neu eu dileu yn yr awdurdodaeth newydd, mae'n rhaid cyfeirio at Adran Trosglwyddo Trawsffiniol y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr cyn addasu dyddiadau rhyddhau trosglwyddeion cyfyngedig.²⁷⁰

Cywiro camgymeriadau mewn cyfrifiadau

- 6.16 Os bydd camgymeriad wedi cael ei ganfod yng nghyfrifiad y ddedfryd sy'n newid dyddiadau rhyddhau'r carcharor, mae'n rhaid cymryd camau ar unwaith i gywiro'r camgymeriad. Mae'n ofynnol i'r carcharor gael ei hysbysu am y dyddiad diwygiedig ac iddo dderbyn rheswm pam mae ei ddyddiad rhyddhau wedi cael ei newid. Hefyd,

²⁶⁹ *ibid.*

²⁷⁰ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr. (2015). Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

mae angen diwygio'r cofnod TG ac anodi'r daflen gyfrifo i nodi'r rheswm am y dyddiadau diwygiedig. Os bydd yr ail-gyfrifiad yn golygu y dylai'r carcharor fod wedi cael ei ryddhau eisoes, mae'n rhaid i'r rhyddhad ddigwydd cyn gynted ag y gellir ei drefnu gyda'r trefniadau rhyddhau a goruchwyllo priodol ar waith. Pan ddarparwyd dealltwriaeth i garcharor ers sawl mis y byddai'n cael ei ryddhau, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i ba un a ddylid cyflawni'r ddedfryd a orfodwyd hyd at y dyddiad rhyddhau cywir neu ba un a ddylai'r Uchelfraint Frenhinol o Drugaredd ddiddymu'r cyfnod dan sylw.²⁷¹

Trafodaeth

- 6.17 Ar ôl mapio sut y caiff dyddiad rhyddhau cychwynnol carcharor ei gyfrifo ac yna'r ffactorau a all addasu'r cyfrifiad gwreiddiol, mae'n amlwg bod nifer o heriau yn cael eu peri gan fod yn ymwybodol o ddyddiad rhyddhau carcharor ac, felly, penderfynu ar ei gymhwysedd. Fodd bynnag, gan gymryd cam yn ôl a chyn meddwl am ddyddiad rhyddhau disgwyliedig carcharor hyd yn oed, bydd angen i bolisi roi sylw yn gyntaf i'r cynnig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i ychwanegu eglurder at y broses ddedfrydu. Nododd dyfarniad Hirst nad yw'r llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr yn gwneud unrhyw gyfeiriad at ddadetholfreinio wrth ddedfrydu, gyda'r canlyniad nad oedd y rhan fwyaf o lysoedd a dinasyddion yn ymwybodol o gwbl bod colli hawliau pleidleisio yn cyd-fynd â gorfodiad dedfryd o garchar.²⁷² Er mwyn rhoi sylw i'r diffyg eglurder ynghylch y golled o hawliau pleidleisio ar ôl i ddiffynnydd gael ei rwymo i gyfnod o garchar, mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd proses y llys yn ei gwneud yn eglur i droseddwyr pan fyddant yn cael eu dedfrydu y byddant yn colli'r hawl i bleidleisio tra byddant yn y carchar.²⁷³ Fodd bynnag, yng ngoleuni ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i etholfreinio carcharorion ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, efallai na fydd hyn o reidrwydd yn wir i ddiffynnyddion yng Nghymru sy'n cael eu dedfrydu i gyfnod o garchar. Hefyd, ar yr adeg ddedfrydu, mae'r llys yn annhebygol o wybod pa un a yw'r carcharor dan sylw yn gymwys i bleidleisio ai peidio. Bydd angen i'r polisi ystyried hyn felly, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i lysoedd ledled Cymru a Lloegr, wrth ddedfrydu carcharor o Gymru, ei gwneud yn eglur yn rhan o'r broses ddedfrydu y telerau – os bydd ei ddyddiad rhyddhau yn

²⁷¹ *ibid.*

²⁷² Achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig (Rhif 2). (2005). Dyfarniad. Asesiad y Llys, paragraff 44. Ar gael yn: <http://www.bailii.org/eu/cases/ECHR/2005/681.html>

²⁷³ Lidington. D. (2017). Dedfrydu. Datganiad i Dŷ'r Cyffredin, Tachwedd 2017, cyfrol 630. Ar gael yn: <https://hansard.parliament.uk/commons/2017-11-02/debates/9E75E904-9B25-475F-87C4-DD8F3C4836C4/Sentencing>

ystod tymor y swydd sy'n cael ei hethol – y bydd carcharor yn gymwys i bleidleisio yn unol â nhw.

- 6.18 Mae'r llysoedd yn cynhyrchu gwarant dedfryd yn rhan o'r broses ddedfrydu. Y warant dedfryd yw'r gorchymyn sy'n rhwymo'r diffynydd dan sylw i gyfnod diffiniedig o garchar (a nodir mewn diwrnodau, misoedd neu flynyddoedd), fel y penderfynir gan y barnwr. Er bod y warant ddedfrydu yn hanfodol i gynhyrchu cyfrifiad y ddedfryd, nid yw'n nodi dyddiadau rhyddhau ac felly nid yw'n cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i benderfynu pa un a yw carcharor yn gymwys i bleidleisio ai peidio. Yn hytrach, mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar gael yng nghyfrifiad y ddedfryd a gynhyrchir gan y Gwasanaeth Carchardai ac, felly, y wybodaeth hon y bydd angen iddi fod ar gael i'r unigolion/sefydliadau perthnasol o dan y polisi a gyflwynir.
- 6.19 Dyddiad cyfrifiad y ddedfryd a fydd o bryder penodol fydd y dyddiad rhyddhau amodol. Fodd bynnag, mae'r dyddiad hwn yn amodol gan ei bod yn bosibl y gallai gael ei effeithio gan nifer o ffactorau. Er y bydd yr amser a dreuliwyd ar barôl ac effaith derbyn dedfrydau lluosog yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn y dyddiad cychwynnol a gyflwynir (o fewn pum diwrnod gwaith i dderbyn y carcharor), gall y dyddiad newid yn dilyn: apêl lwyddiannus achos; gorfodi diwrnod ychwanegol a all, yn ei dro, gael ei ddiddymu neu ei ddileu; pan ddyfarnwyd diwrnodau rhyddhad cynnar; ail-gyfrifiad yn dilyn trosglwyddiad; ac i gywir camgymeriadau wrth gyfrifo. Felly, nid bod yn ymwybodol o ddyddiad rhyddhau arfaethedig carcharor yw'r unig her wrth ddatblygu polisi, ond sicrhau hefyd mai'r dyddiad yw'r dyddiad diweddaraf a gyfrifwyd ac nad yw'n destun newidiadau pellach o, er enghraifft, ddiwrnodau ychwanegol a dderbynnir yn dilyn diffyg cydymffurfiad â rheolau'r carchar.
- 6.20 Gan ddilyn model Awstralia, mae'n bosibl y gallai polisi ddarparu ar gyfer gohebiaeth rhwng y Gwasanaeth Carchardai a Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Gallai gohebiaeth gael ei hanfon yn fisol a nodi dyddiad rhyddhau amodol unrhyw garcharorion a dderbyniwyd yn ystod y mis blaenorol ac unrhyw newidiadau i ddyddiadau rhyddhau i garcharorion eraill, ac yna byddai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, gan ddefnyddio'r data hyn, yn gallu cofrestru carcharorion a oedd yn gymwys a gwrthod ceisiadau'r rhai nad oeddent yn gymwys neu, pan fo angen, eu tynnu oddi ar y gofrestr etholiadol. Fel arall, pan anfonir copi o'i daflen hysbysu am ddyddiad rhyddhau i garcharor, gellid anfon hon i Gomisiwn Etholiadol Cymru hefyd a'i chadw ar ffeil i'r rheini sy'n asesu cais cofrestru etholiadol edrych arni, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, yn wahanol i Awstralia, caiff y broses ei chymhlethu nid yn unig gan y potensial i'r dyddiad rhyddhau amodol newid ond hefyd yr effaith y

gallai'r newid hwn ei chael o ran y gofyniad o ryddhad yn ystod tymor y swydd sy'n cael ei hethol. Yn etholiad ffederal Awstralia, hyd y ddedfryd sy'n pennu cymhwysedd ac anaml y mae hwn yn newid oni bai y bu newid i'r ddedfryd yn dilyn apêl. Felly, er mai dim ond y carcharorion sydd, yn ystod y mis blaenorol, wedi cael eu dedfrydu i gyfnod o garchariad o dair blynedd neu fwy y mae'n rhaid i'r data yn yr ohebiaeth fisol eu nodi yn Awstralia, byddai'n rhaid i'r polisi a ddatblygir yng nghydestun Cymru sicrhau bod yr holl ddyddiadau rhyddhau ar gael ar gyfer carcharorion sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig, oherwydd bydd y carcharorion hyn y gymwys ar ryw adeg ac, yn ogystal, bod y wybodaeth hon yn gyfredol. Hefyd, er y byddai angen gohebiaeth reolaidd rhwng yr unigolion/sefydliadau priodol, byddai hefyd yn angenrheidiol wrth ddatblygu polisi yr angen am ohebiaeth ychwanegol ar adeg yr etholiad i sicrhau bod y data a gedwir gan y rhai sy'n penderfynu a yw carcharor yn gymwys i bleidleisio yn gyfredol.

- 6.21 Fodd bynnag, nid oes dyddiad rhyddhau amodol yn gysylltiedig â rhai dedfrydau ond, yn hytrach, dyddiad cymhwyso ar gyfer parôl. Nid oes gan ddedfrydau diffiniedig estynedig a dedfrydau arbennig o garchar ddyddiad rhyddhau amodol gan y bydd unigolion sy'n cyflawni'r dedfrydau hyn yn cael eu rhyddhau cyn dyddiad terfyn eu carchariad ar orchmyniad y bwrdd parôl yn unig. Bydd yn angenrheidiol felly i ohebiaeth rhwng y Gwasanaeth Carchardai a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu'r data ynghylch dyddiad terfyn carchariad unigolion sy'n cyflawni dedfrydau diffiniedig estynedig a dedfrydau arbennig o garchar. Fodd bynnag, gan fod tebygolrwydd y gallai'r unigolion hyn gael eu rhyddhau gan y Bwrdd Parôl ymhell cyn dyddiad terfyn eu carchariad - daw'r rhai sy'n cyflawni dedfrydau diffiniedig estynedig yn gymwys ar gyfer parôl dwy ran o dair o'r ffordd drwy eu dedfryd a'r rhai sy'n cyflawni dedfryd arbennig o garchar hanner ffordd drwy'r ddedfryd - mae'n bosibl y gellid gwneud dadl dros fonitro'r dyddiad cymhwyso ar gyfer parôl a phenderfyniad y bwrdd parôl hefyd yn yr achosion hyn. Mae'n bosibl y gellid dadlau, pan fo'r Bwrdd Parôl wedi gorchymyn rhyddhad carcharor sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig estynedig neu ddedfryd arbennig o garchar, bod y dyddiad rhyddhau hwn (hefyd y dyddiad cymhwyso ar gyfer parôl) yn drech na dyddiad terfyn y carchariad wrth benderfynu a yw'r carcharor dan sylw yn gymwys i gael ei ryddhau. Fodd bynnag, byddai hyn yn codi cwestiwn wedyn ynghylch monitro dyddiad rhyddhad ar barôl carcharorion sy'n cyflawni dedfrydau penagored, yn enwedig pan fo'r Bwrdd Parôl wedi penderfynu bod carcharor sy'n cyflawni

dedfryd benagored yn addas i symud i garchar agored ble bydd yn ennill mwy o ryddid yn awtomatig a, thrwy hynny, hawliau.

- 6.22 Fel arall, efallai y bydd potensial i bolisi gael ei ddatblygu, ar gyfer yr holl garcharorion sy'n cyflawni dedfryd â dyddiad terfyn, ar sail dyddiad terfyn carchariad carcharor yn hytrach na'i ddyddiad rhyddhau (amodol) er mwyn cael hwylustod gweinyddol a pholisi. Fodd bynnag, ni fyddai darpariaeth polisi o'r fath yn cyfateb i'r cynnig a gyflwynwyd a hefyd, efallai na fyddai'n realistig o ystyried y nifer fawr o garcharorion sy'n cael eu rhyddhau cyn dyddiad terfyn eu carchariad. Hefyd, o ystyried mai dedfrydau diffiniedig yw'r mathau mwyaf cyffredin o ddedfryd o garchar o bell ffordd a bod dyddiad rhyddhau amodol yn gysylltiedig â'r dedfrydau hyn, yna mae'n bosibl y byddai datblygu polisi ar sail dyddiadau terfyn carchariad ar gyfer pob carcharor yn peryglu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i etholfreinio carcharorion o Gymru y mae eu dyddiad rhyddhau disgwyliedig yn ystod tymhorau'r swydd sy'n cael ei hethol.
- 6.23 Ar ôl deall y ffordd y mae'r system cyfiawnder gwarchodol yn gweithio a'r broses o gyfrifo dedfrydau, bydd angen datblygu system o ohebiaeth rhwng y Gwasanaeth Carchardai a'r gwasanaethau etholiadol i ddatblygu polisi ar ddyddiad rhyddhau disgwyliedig. Wrth ddatblygu polisi ynghylch dyddiadau rhyddhau sy'n cyfateb i'r cynnig presennol, mae'n bosibl y bydd angen i'r polisi gynnwys tair ffrwd: y ffrwd gyntaf yn ymwneud â charcharorion sy'n cyflawni dedfrydau diffiniedig a gohebiaeth ynghylch eu dyddiad rhyddhau amodol. O ystyried y potensial i'r dyddiad hwn newid mae'r angen i'r wybodaeth hon fod yn gyfredol yn arbennig o bwysig yn y man hwn; yr ail ffrwd yn ymwneud ag unigolion sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig estynedig a dedfryd arbennig o garchar a gohebiaeth ynghylch dyddiad terfyn eu carchariad ac, os ystyrir ei fod yn angenrheidiol, eu dyddiad cymhwyso ar gyfer parôl a fyddai'n gofyn am ohebiaeth gyda'r Bwrdd Parôl, gan mai eu penderfyniad nhw a fyddai'n penderfynu pa un a fyddai'r carcharor dan sylw yn cael ei ryddhau ar y dyddiad hwn; ac yn drydydd, ffrwd yn ymwneud â charcharorion sy'n cyflawni dedfrydau penagored, sy'n penderfynu yn gyfreithiol ac yn wleidyddol dadetholfreiniad carcharorion sy'n cyflawni dedfrydau penagored (pa un a oes gan y dedfrydau hyn ddyddiad cymhwyso ar gyfer parôl hefyd ai peidio). Byddai angen i'r polisi hwn a'i ddatblygiad drefnu gohebiaeth sy'n cwmpasu'n ddaearyddol carchardai yng Nghymru a Lloegr a, hefyd, byddai'n angenrheidiol cynnwys cafeat lle na ellir ôl-weithredu'r hawl oherwydd y posibilrwydd i ddyddiad rhyddhau amodol carcharor newid. Hefyd, bydd angen i bolisi gymryd gohebiaeth arbennig i ystyriaeth yn ystod

y cyfnod yn arwain at etholiad i sicrhau bod y data yn gyfredol a hefyd ar gyfer cofrestru carcharorion sy'n gyrhaeddwy. Felly, nid yn unig y bydd angen i bolisi fod ar waith ar gyfer carcharorion sydd eisoes yn gymwys i bleidleisio, ond hefyd ar gyfer y carcharorion hynny a fydd yn gymwys i bleidleisio yn fuan.

Yr Ail Her: Gwahanol Egwyddorion Cyfiawnder Ieuenctid – “plant yn gyntaf, troseddwy yn ail”

- 6.24 Ochr yn ochr â'r cynnig i etholfreinio carcharorion o Gymru sy'n bodloni maen prawf diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig, yn rhan o'i diwygio etholiadol, etholfreinio pobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg mlwydd oed. Mae'r rhyngweithio rhwng y ddau gwestiwn hyn yn codi'r cwestiwn a ddylai'r un egwyddorion, a pholisi felly, ynghylch etholfreinio troseddwy sy'n oedolion gael eu cymhwyso i droseddwy ifanc neu a ddylid datblygu gwahanol egwyddorion yn benodol ar gyfer troseddwy ifanc? Mae'r cwestiwn hwn yn arbennig o berthnasol o gofio bod system cyfiawnder ieuenctid unigryw, ar wahân a gynlluniwyd yn arbennig i ddiwallu anghenion troseddwy ifanc ac, yn fwy penodol, y strategaeth ar y cyd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid, er ei bod wedi modelu ar y system gyfiawnder i oedolion, yn wahanol i'r system i oedolion mewn sawl ffordd gan ei bod yn cydnabod, ac yn gwneud darpariaeth wedi'i theilwra, ar gyfer amgylchiadau arbennig troseddwy ifanc - gan gynnwys, er enghraifft, mabwysiadu llysoedd ieuenctid o'r drefn llysoedd troseddol traddodiadol, dedfrydau llai difrifol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na'r drosedd a sefydliadau cosbi ar wahân sydd wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer plant ac oedolion ifanc.
- 6.25 Yn ogystal â gorfod ystyried nodweddion gwahanol y system cyfiawnder ieuenctid, mae hefyd yn angenrheidiol treiddio'n ddyfnach i egwyddor strategaeth ar y cyd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Cyflwynwyd y strategaeth hon yn 2012 i fynd i'r afael â chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ac mae wedi ei llywio gan gyfres o egwyddorion, y mae'r ddwy gyntaf ohonynt yn allweddol i weithio drwy her hawliau pleidleisio troseddwy ifanc: mae'r egwyddor gyntaf wedi ei chynnwys yn y datganiad 'pobl ifanc yn gyntaf, troseddwy yn ail'; a'r ail egwyddor yn y datganiad 'mae gan bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yr un mynediad at eu hawliau ag unrhyw unigolyn ifanc arall.' O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r ddwy egwyddor hyn yn codi cwestiwn ynghylch y driniaeth wahanol o oedolion ifanc yn y

system cyfiawnder ieuenctid, sy'n blant cyn y maent yn droseddwyr, i oedolion ifanc eraill sy'n dod yn gymwys i bleidleisio yn awtomatig cyn gynted ag y byddant yn troi'n un ar bymtheg oed.

- 6.26 Nod yr adran hon yw treiddio'n ddyfnach i'r cwestiwn a godir gan y rhyngweithio rhwng y cynnig i etholfreinio carcharorion Cymru a'r cynnig i ostwng yr oedran pleidleisio gofynnol i un ar bymtheg. Yn gyntaf, cynigir hanes cryno o'r system cyfiawnder ieuenctid cyn symud ymlaen i drafod system cyfiawnder ieuenctid heddiw. Yn bennaf, mae'r manylion hyn yn dangos sut y mae egwyddorion cyfiawnder ieuenctid wedi newid dros amser. Heddiw, nid yw cyfiawnder ieuenctid yn cael ei lywio gan reolaeth a chosbi mwyach ond, yn hytrach, gan adsefydlu a gofal. Mae gweddill y bennod yn canolbwyntio ar yr egwyddor sy'n sail i strategaeth Cymru ar gyfer ymdrin â chyfiawnder ieuenctid ac, yn benodol, rhyngweithio'r egwyddorion hyn gyda'r safbwynt a hyrwyddir gan y Cenhedloedd Unedig bod plant yn ddinasyddion gweithredol llawn.

Hanes y System Cyfiawnder Ieuenctid

- 6.27 Bu gwahanol gynrychioliadau o blant ac oedolion ifanc sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder dros amser. Mae'r ffordd y caiff troseddwr ifanc eu darlunio yn hanfodol i sut yr ymgysylltir â nhw yn wleidyddol ac yn gymdeithasol ac yn dylanwadu ar egwyddorion craidd cyfiawnder ieuenctid yr oes. Yn hanesyddol, nodwyd bod pobl ifanc sy'n droseddwyr yn wahanol iawn i blant diniwed eraill. Creodd y gwahaniaeth hwn a grëwyd amgylchedd lle'r oedd cyfiawnhad i'r ymateb llym a chosbol hwn i droseddwr ifanc ac, yn ogystal â hynny, ystyriwyd ei fod yn angenrheidiol.²⁷⁴ Hefyd, roedd yn sail i system cyfiawnder ieuenctid a briodolwyd gan reolaeth a mesuriad. Fodd bynnag, gydag ymwybyddiaeth gynyddol o hawliau plant a phob llywodraeth ddilys yn dymuno cael effaith, mae'r darlun o blant ac oedolion ifanc sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder wedi newid dros amser. Erbyn heddiw, egwyddorion lles, adsefydlu a gofal yw'r sylfaen i'r system cyfiawnder ieuenctid ac rydym ni wedi gweld datblygiad modelau sy'n hyrwyddo cysyniadau newydd o gyfiawnder ieuenctid yn ystod y blynyddoedd diwethaf.²⁷⁵

System Cyfiawnder Ieuenctid Cymru Heddiw

²⁷⁴ Case, S. (2016). *Negative Youth Justice: Creating the youth crime 'problem'*. Centre for Youth and Criminal Justice. Ar gael yn: <http://www.cycj.org.uk/negative-youth-justice-creating-the-youth-crime-problem/>

²⁷⁵ Drakeford, M. (2009). *"Children first, offenders second": Youth Justice in Devolved Wales*. Centre for Crime and Justice Studies. Ar gael yn: <https://www.crimeandjustice.org.uk/sites/crimeandjustice.org.uk/files/09627250903385156.pdf>

- 6.28 Er nad oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyfansoddiadol am drosedd a chyfiawnder mewn egwyddor, mae cyflawniad ymarferol cyfrifoldebau allweddol yn y system cyfiawnder ieuenctid sydd ohoni yn dibynnu i raddau sylweddol iawn ar wasanaethau datganoledig - ac ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn fwyaf amlwg. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, wedi llunio strategaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae'r strategaeth hon wedi ei seilio ar yr egwyddor "plant yn gyntaf, troseddwyr yn ail", sy'n unigryw i Gymru. Trwy ystyried plant ac oedolion ifanc sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid fel plant yn gyntaf, caiff troseddu ei leihau i un elfen mewn hunaniaeth lawer ehangach a llawer mwy cymhleth. Hefyd, mae'n pwysleisio aeddfedrwydd, galluedd a grym cyfyngedig plant ac oedolion ifanc sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid. Felly, ni ystyrir troseddwyr ifanc yn wahanol o ran eu priodweddau i blant eraill mwyach a dylid cymryd i ystyriaeth eu natur agored i niwed, eu diniweidrwydd (ond heb ddiystyru maint yr euogrwydd sy'n ddadleuol ac yn amrywiol ar draws yr ystod oedran deg i ddwy ar bymtheg) a'r angen am gymorth ac amddiffyniad oddi wrth a chan oedolion yn y system gyfiawnder.²⁷⁶ I raddau, mae cyfrifoldeb wedi cael ei arallgyfeirio o'r plant ac yn cael ei neilltuo i'r gwallau yn y systemau y mae'r plant hyn yn dibynnu arnynt. Felly, yn seiliedig ar yr egwyddor plentyn yn gyntaf troseddwr yn ail, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yn bendant ac wedi hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol fel rhag-amod o gyfiawnder ieuenctid.
- 6.29 Os yw plant yn y system cyfiawnder ieuenctid yn blant cyn eu bod yn droseddwyr, mae hyn yn codi'r cwestiwn pa un a oes gan yr oedolion ifanc hyn yr hawl i dderbyn yr un hawliau a phob plentyn arall. Yn 2002, lluniwyd dogfen gan Lywodraeth Cymru o'r enw Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru, a oedd yn cynnig cyfarwyddyd a chanllawiau ar hawliau oedolion ifanc yng Nghymru.²⁷⁷ Mae'r ddogfen hon yn pennu bod gan bob unigolyn ifanc hawl sylfaenol i...

- addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith – wedi'u teilwra i'w hanghenion.

²⁷⁶ Case, S. (2016). *Positive Youth Justice: Solving the youth crime 'problem' with children first solutions*. Centre for Youth and Criminal Justice. Ar gael yn:

<http://www.cycj.org.uk/positive-youth-justice-solving-the-youth-crime-problem-with-children-first-solutions/>

²⁷⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2002). *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru - Cyfarwyddyd a Chanllawiau Gorffennaf 2002*. Ar gael yn:

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cyfarwyddyd-a-chanllawiau-ymestyn-hawliau-cynorthwyo-pobl-ifanc-o-11-i-25-oed-yng-nghymru.pdf>

- sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn ac sy'n hybu cynhwysiant cymdeithasol.
- amrywiaeth eang o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol ac i ymarfer dinasyddiaeth ymarferol.
- gwasanaethau a chyfleusterau o safon uchel, ymatebol a hygyrch.
- cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol ac arbenigol a gwasanaethau cymorth a chynghori i fyfyrwyr.
- cymorth a chyngor personol lle bynnag a phryd bynnag y bo'i angen - ar ffurf briodol – gyda rheolau clir ar gyfrinachedd.
- cyngor ar iechyd, budd-daliadau tai a materion eraill mewn amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar.
- cyfleoedd i hamddena a chymdeithasu mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar.
- profiadau o ran chwaraeon, y celfyddydau, cerddoriaeth a gweithgareddau awyr agored i feithrin doniau, lledu gorwelion a hybu safbwyntiau crwn mewn cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol.
- yr hawl i ymgynghori â hwy, i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau ac i gael eu clywed ar bopeth sy'n ymwneud â hwy neu sy'n effeithio ar eu bywydau.

...mewn amgylchedd lle mae:

- sylw cadarnhaol yn cael ei roi i lwyddiant yn gyffredinol a'r hyn y mae'n rhaid i bobl ifanc ei gyfrannu
- sylw yn cael ei roi i feithrin gallu pobl ifanc i fod yn annibynnol, gwneud dewisiadau a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd
- lle mae llwyddiannau pobl ifanc yn cael eu dathlu.

6.30 Mae'r hawliau hyn yn sicrhau y rhoddir y cyfle i bob unigolyn ifanc gymryd rhan fel dinesydd gweithredol a'r hawl i ymgynghori â nhw, i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ac i gael eu clywed ar bopeth sy'n ymwneud â nhw neu sy'n effeithio ar eu bywydau – hawl sy'n cydseinio â'r hawl i bleidleisio.

Plant ac Oedolion Ifanc fel Dinasyddion Gweithredol

6.31 Llofnodwyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym 1989,²⁷⁸ ac fe'i cadarnhawyd wedyn ym 1991 gan Lywodraeth y DU. Mae'r Confensiwn yn cyflwyno 54 o erthyglau ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys

- Ym mhob gweithred yn ymwneud â phlant, pa un a'r ymgwymerir â hi gan sefydliadau lles cymdeithasol cyhoeddus neu breifat, llysoedd y gyfraith, awdurdodau gweinyddol neu gyrff deddfwriaethol, bydd buddiannau pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth (Erthygl 3).
- Yn nodi y bydd pob parti yn sicrhau i'r plentyn sy'n gallu ffurfio ei safbwyntiau ei hun yr hawl i fynegi'r safbwyntiau hynny yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn, gan neilltuo pwys priodol i safbwyntiau'r plentyn yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn (Erthygl 12).
- Bydd gan blentyn sydd wedi ei amddifadu dros dro neu'n barhaol o'i amgylchedd teuluol, neu na ellir caniatáu iddo aros yn yr amgylchedd er ei fudd pennaf ei hun, yr hawl i ddiogelwch a chymorth arbennig wedi eu darparu gan y Wladwriaeth (Erthygl 20).
- Bydd pob plentyn sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid yn cael ei drin gyda dynoliaeth a pharch ar gyfer urddas cynhenid yr unigolyn dynol, ac mewn modd sy'n cymryd anghenion pobl o'i oedran i ystyriaeth (Erthygl 37).
- Yn nodi bod partïon yn cydnabod hawl pob plentyn yr honnir ei fod wedi torri'r gyfraith gosbol, neu y'i cyhuddir o hynny, neu y cydnabyddir ei fod wedi gwneud hynny, i gael ei drin mewn ffordd sy'n gyson â hybu synnwyr o urddas a gwerth y plentyn, sy'n atgyfnerthu parch y plentyn at hawliau dynol a rhyddid pobl eraill ac sy'n cymryd i ystyriaeth oedran y plentyn a'r dymuniad i hybu ailintegreiddiad y plentyn a'r plentyn yn chwarae rhan adeiladol mewn cymdeithas (Erthygl 40).²⁷⁹

6.32 Mae'r erthyglau a nodir yma yn dangos hawliau'r plant sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol a'r angen i ofal a pharch at hawliau dynol a'r hawl i blant ddatblygu a mynegi eu safbwyntiau eu hunain fod yn nodweddiadol o'r system hon. Fodd bynnag, wrth wraidd y confensiwn ceir y gydnabyddiaeth bod plant sy'n iau na deunaw oed yn blant ac, fel plant, mae eu hawliau unigryw yn haeddu amddiffyniad

²⁷⁸ Y Cenhedloedd Unedig. (1989). Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Ar gael yn: <http://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/crc.pdf>

²⁷⁹ Y Cenhedloedd Unedig. (1989). Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Ar gael yn: <http://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/crc.pdf>

arbennig.²⁸⁰ Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn hybu plant fel dinasyddion llawn ynddynt eu hunain - ond dinasyddiaeth a gydnabyddir ar yr un pryd sy'n wahanol o safbwynt ansoddol i'r ddinasyddiaeth y mae oedolion yn meddu arni. Ystyrir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant bod plant a phobl ifanc yn ddalwyr hawliau annibynnol, sy'n meddu ar alluoedd gweithredu a gwneud penderfyniadau.²⁸¹ Mae'n hybu'r safbwynt nad yw plant neu bobl ifanc yn ddarpar ddinasyddion neu'n ddarpar oedolion neu'n dod yn oedolion, ac felly na ddylid eu hystyried fel hyn mwyach, ond yn hytrach fel dinasyddion cymdeithasol pwysig â hawliau sylfaenol – os unigryw.

- 6.33 Mae'r system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr wedi gweithredu ar sail safbwynt darniog o ddinasyddiaeth ieuencid yn draddodiadol, gyda gwahanol fathau o ddinasyddiaeth ieuencid yn weithredol mewn cyfraith, polisi ac arfer cyfiawnder ieuencid. Mae statws plant fel dinasyddion yn hanfodol i'r system cyfiawnder ieuencid, gan ei fod yn adlewyrchu'r adeiladwaith penodol o blentyndod y gweithredir deddfau a pholisïau ar gyfer plant a phobl ifanc drwyddi. O ganlyniad o bortreadu pobl ifanc fel troseddwr, mae'r system cyfiawnder ieuencid wedi creu'r bobl ifanc hyn fel dinasyddion cwbl weithredol sydd â'r gallu i weithredu. Mae'r cread hwn wedi goramcangyfrif galluoedd plant a phobl ifanc ac yn dangos diystyriaeth i hawl y plentyn i barch at ei alluoedd a'i gymwyseddau esblygol. Mewn cyferbyniad, os ystyrir plant a phobl ifanc fel darpar ddinasyddion mae ganddynt, wedyn, safbwynt sy'n cydnabod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau a roddir ar y ddinasyddiaeth esblygol honno gan ddeddfau troseddol sydd, yn ei dro, yn codi cwestiynau ynghylch cyfreithlondeb cosbi plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol ar sail droseddol. Awgrymwyd gan yr Athro Arthur, pennaeth Ysgol y Gyfraith Prifysgol Northumbria, y dylid hyrwyddo dinasyddiaeth ieuencid â gwahanol bwyslais, sy'n cydnabod pobl ifanc fel dinasyddion, gan gydnabod eu hawliau a'u rhwymedigaethau, gan barchu eu gwahaniaethau sydd, yn ei dro, yn darparu ar gyfer eu natur agored i niwed a'u dibyniaeth. O ran plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder, mae dinasyddiaeth ieuencid â gwahanol bwyslais yn cydnabod nad yw'r bobl ifanc hyn yn fygythiad ar y tu allan

²⁸⁰ Lister, R. (2007). *Why Citizenship: Where, how and why children*. Theoretical Inquiries in Law, 8(2), 693-718.

²⁸¹ Stasiulis, D. (2002). *The Active Child Citizen: Lessons from Canadian Policy and the Children's Movement*. Citizenship Studies, 6(4), 507-538.

ond yn hytrach yn blant i'w cynorthwyo gyda'u cymdeithasoliad, eu hadsefydliad a'u cynhwysiant mewn cymdeithas.²⁸²

Trafodaeth

- 6.34 Yn amlwg ceir dadl gref i'w gwneud y dylai oedolion ifanc sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder gadw'r un hawliau â'u cyfoedion sy'n weithredol mewn cymdeithas. Hefyd, daw'r achos hwn yn arbennig o berthnasol o gofio mai adsefydlu yw prif nod y system cyfiawnder ieuenctid a bod gan bleidleisio'r potensial o gyfrannu at adsefydlu, ynghyd â'r cysail sydd wedi ei hen sefydlu ar gyfer trin pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder yn wahanol a gwneud darpariaethau arbennig ar eu cyfer. Y broblem sydd efallai'n codi yw bod y ddadl lle dylid ystyried troseddwy'r ifanc yn blant yn gyntaf ac yn droseddwy'r yn ail a'r cysyniad o gyfiawnder ieuenctid â gwahanol bwyslais wedi ei gwreiddio yn y ffaith fod plant yn wahanol i oedolion o safbwynt ansoddol. Ystyrir nad yw plant wedi datblygu neu eu grymuso gyda'r un adnoddau gwybyddol, cymdeithasol ac economaidd na'r un faint o aeddfedrwydd ag oedolion, felly ni ddylent gael eu trin fel oedolion. Felly, pe bai dadl yn cael ei gwneud y gallai'r cyfyngiadau ynghylch pa ddosbarth o garcharorion ddylai ac na ddylai gael eu hetholfreinio fod yn fwy llac ar gyfer pobl ifanc, gan eu bod yn blant cyn eu bod yn droseddwy'r ac felly dylent fod â'r un hawliau â phlant eraill o'u hoedran, a yw hyn yn ei dro yn gweithredu fel dal yn erbyn etholfreinio'r **holl** bobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed? Neu, fel arall, os ystyrir bod unigolyn ifanc un ar bymtheg neu ddwy ar bymtheg oed yn ddigon cyfrifol i bleidleisio (ac i briodi'n gyfreithlon, i ymgymryd â chyflogaeth lawn amser ac i dalu trethi ac yswiriant gwladol), onid ydynt hefyd yn ddigon cyfrifol i wynebu sgil-ffeithiau eu gweithredoedd eu hunain gyda'r un difrifoldeb ag oedolion? Hefyd, gan nad yw'r dedfrydu ar gyfer troseddwy'r ifanc mor ddifrifol ag y mae ar gyfer oedolion, pe bai'r un telerau cymhwysedd yn cael eu defnyddio ar draws y system gyfiawnder, dim ond llond llaw o bobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed, a oedd wedi cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol, a fyddai'n dal i fod wedi eu dadetholfreinio. Felly, gellir gwneud y ddadl yn wleidyddol bod yr amddiffyniad arbennig a ddarperir i blant ac oedolion ifanc ac i'w hawliau eisoes wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y system cyfiawnder ieuenctid ac, felly, gellir cymhwyso'r telerau cymhwysedd gyda chyfiawnhad ar draws y system gyfiawnder

²⁸² R, Arthur. (2015). *Recognising Children's Citizenship in the Youth Justice System*. Journal of Social Welfare and Family Law, 37(1), 21-37. Ar gael yn: http://nrl.northumbria.ac.uk/21644/1/Arthur_R_childrenper cent27s_citizenship_Final_amended.pdf

gan fod pobl ifanc, o anghenraid, yn cyflawni dedfrydau llai difrifol na throeddwy'r sy'n oedolion.

- 6.35 Fel arall, o gofio ei bod yn ymddangos bod Cymru yn hyrwyddo model newydd o gyfiawnder ieuenctid, ceir y posibilrwydd y gallai pleidleisio fod yn rhan o gyfres o ddarpariaethau sy'n helpu'n weithredol i hyrwyddo ymddygiad, canlyniadau, gwasanaethau a chanlyniadau cadarnhaol i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid – cyfres o ddarpariaethau a fyddai'n ystyried plant a phobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder fel plant yn gyntaf trwy gymryd y cyfrifoldeb oddi wrth y plant hyn a gwneud cryn dipyn i gywiro'r systemau sydd wedi eu methu. Mae gan etholfreinio troseddwy'r ifanc 16 a 17 oed a thrin y rhai sy'n 14 a 15 oed fel cyrhaeddwy'r y potensial i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgol a chymunedol cymdeithasol cadarnhaol, yn ogystal â chyfranogiad ac ymgysylltiad cynyddol o ran addysg a all, yn ei dro, gyfrannu'n gadarnhaol at adsefydliad a chynhwysiant troseddwy'r ifanc.
- 6.36 Wrth i bolisi gael ei ddatblygu, bydd yn angenrheidiol ystyried y ddau achos hyn: yr achos dros wahanol egwyddorion yn cyfarwyddo'r hawl i droseddwy'r ifanc bleidleisio a'r achos dros delerau cymhwysedd cyson ar draws y system gyfiawnder. Ceir rhinweddau i'r ddau achos a bydd yn angenrheidiol ymgynghori â'r gwahanol sefydliadau sydd â swyddogaeth yn y system cyfiawnder ieuenctid wrth ddatblygu polisi. O bosibl, yn hytrach na chreu telerau cymhwysedd "arbennig" ar gyfer troseddwy'r ifanc, bydd yn fwy perthnasol i ddarpariaethau arbennig mewn polisi gael eu hyrwyddo sy'n sicrhau bod pobl ifanc sydd yn y ddalfa yn elwa o'r darpariaethau a fydd yn cael eu cyflwyno o ran rhaglenni addysg ac ymgysylltu gwleidyddol. Felly, byddai pobl ifanc yn y ddalfa yn cael yr un cyfleoedd i ddod yn bleidleiswyr gwybodus a chyfrifol â'u cyfoedion.

Y Drydedd Her: Carcharorion fel "preswylwyr fel arfer"

- 6.37 Fel y gellir ei ddysgu o'r profiad yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae creu dulliau a phroses o fewn polisi sy'n caniatáu i garcharorion cymwys gofrestru i bleidleisio yn allweddol i etholfreinio carcharorion. Mae'r weledigaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig y dylai carcharorion cymwys gofrestru ar sail cyfeiriad cysylltiedig yng Nghymru. Cyfeiriad cartref y carcharor, ei gyfeiriad hysbys diwethaf neu ryw gyfeiriad arall yng Nghymru yr oedd ganddo gysylltiad ag ef cyn ei garchariad fyddai'r cyfeiriad cysylltiedig cymwys fel rheol. Mae etholfreinio carcharorion ar sail cysylltiad lleol yn cynnig dull lle gall carcharorion o Gymru sydd

wedi eu carcharu y tu allan i Gymru gofrestru i bleidleisio o hyd, sy'n hanfodol o gofio nad oes unrhyw sefydliadau cosbi yng Nghymru sydd â lleoedd ar gyfer carcharorion sy'n fenywod neu droseddwyr uchel eu risg ac oherwydd y polisi lleoli sydd ar waith. Mae'n bwysig nodi bod y cynnig yn nodi na ellir defnyddio cyfeiriad y carchar fel cyfeiriad o gysylltiad lleol ac, felly, ni fydd carcharorion mewn carchardai yng Nghymru yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn ardal yr awdurdod lleol lle mae'r carchar wedi ei leoli ar sail cyfeiriad y carchar ei hun. Felly, ni fyddai carcharor sydd o'r tu allan i Gymru, efallai, â chyfeiriad cartref yn Lloegr yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol Cymru, oni bai ei fod yn gallu cynnig tystiolaeth o gyfeiriad cysylltiad lleol yng Nghymru (sy'n wahanol i gyfeiriad y carchar). Fodd bynnag, ceir her i'r cyfyngiad hwn o ran yr hawl sydd gan garcharorion ynghylch manteisio ar wasanaeth lleol yr ardal y mae'r carchar wedi ei leoli ynddi. O dan amgylchiadau penodol, ystyrir bod carcharorion naill ai'n gyfreithiol neu'n ymarferol fel "preswylwyr fel arfer" yn yr ardal lle mae'r carchar wedi ei lleoli at ddiben y ddarpariaeth o wasanaethau. Felly, os ystyrir bod carcharorion yn breswylwyr fel arfer o dan amgylchiad penodol, oni ddylid hefyd eu hystyried yn breswylwyr fel arfer at ddibenion etholiadol, yn enwedig o ystyried mai pleidleisio yw'r prif fodd ar gyfer cofrestru barn ynghylch y gwasanaethau a'r darpariaethau yn eu hardal leol?

- 6.38 Mae'r bennod hon, yn ei thro, yn mapio'r gwahanol feysydd gwasanaeth – iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg – sydd â dyletswydd i wneud darpariaeth ar gyfer carcharorion. Gan adlewyrchu'r penodau eraill yn yr adran hon, nodir yr heriau a allai godi wrth i bolisi gael ei ddatblygu. Yn allweddol yn y drafodaeth hon yw'r diffyg cysondeb ar draws deddfwriaeth o ran a yw carcharorion yn cael eu hystyried fel preswylwyr yn yr ardal y mae'r carchar wedi ei leoli ynddi ac effaith bosibl y newidiadau gweinyddol newydd a gynigiwyd gan San Steffan mewn ymateb i ddyfarniad Hirst.

Gofal Iechyd

- 6.39 Cydnabyddir a derbynnir yn eang bod gan garcharorion hawl i'r un amrywiaeth ac ansawdd o wasanaethau iechyd a'r cyhoedd yn gyffredinol. Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygiad gofal iechyd carchardai mewn carchardai sector *cyhoeddus*. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hwn o'r Swyddfa Gartref i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2003, a datganolwyd y cyfrifoldeb hwn wedi hynny i'r Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) perthnasol, y mae pob un ohonynt yn derbyn

dyraniad blynyddol bach i ddarparu cymorth llywodraethu clinigol i garchardai.

Dyma'r Byrddau perthnasol ar hyn o bryd

- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan – Carchardai Ei Mawrhydi Brynbuga a Phrescoed, Sir Fynwy.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – Carchar Ei Mawrhydi Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Carchar Ei Mawrhydi Berwyn.

6.40 Daeth y BILlau yn gomisiynwyr cyfrifol ar gyfer y carchardai yn eu hardaloedd i bob pwrpas, ac eithrio carcharorion sy'n cael eu trosglwyddo o garchardai i ysbytai o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yn yr achos olaf hwn, mae'r cyfrifoldeb comisiynu yn aros gydag ardal breswyl y carcharor cyn ei garchariad. Mewn cyferbyniad, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd sydd â chyfrifoldeb comisiynu ar gyfer Carchar a Sefydliad Troseddwyd Ifanc Ei Mawrhydi y Parc – yr unig garchar preifat yng Nghymru – ac fe'i darperir trwy ei gcontract gyda G4S, sef prif weithredwr y carchar. Y GIG syn gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal iechyd eilaidd a thrydyddol carcharorion, pa un a yw'r sefydliad carchar yn y sector cyhoeddus neu breifat.²⁸³

6.41 Fel sy'n wir ar gyfer holl ddinasyddion Cymru, GIG Cymru sydd â chyfrifoldeb terfynol am gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer carcharorion. Fodd bynnag, gellir arfer y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am ofal iechyd carcharorion yng Nghymru a Lloegr mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd a'r Gwasanaeth Carchardai yn unig. Sefydlwyd y bartneriaeth rhwng GIG Cymru, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd a'r Gwasanaeth Carchardai, y darperir ar ei chyfer o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006, gyda'r prif nod o ddarparu mynediad i garcharorion ar yr un ansawdd ac amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd a dderbynnir gan y cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol.²⁸⁴ Ar y lefel leol, Byrddau Partneriaeth Iechyd mewn Carchardai, a gadeirir ar y cyd gan Brif Weithredwyr y BILlau a Llywodraethwyr y carchar neu eu dirprwyon enwebedig, sy'n gyfrifol am lywodraethiad beunyddiol gwasanaeth iechyd y carchar. Mae gan y Byrddau Partneriaeth Iechyd mewn Carchardai y cyfrifoldeb

²⁸³ GIG Cymru. Cyfrifoldebau Gofal Iechyd Carcharorion. Ar gael yn:

<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/cyfrifoldebau>

²⁸⁴ Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Rhan 13 Amrywiol: Cydweithio â'r gwasanaethau carchardai, paragraff 188. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42/pdfs/ukpga_20060042_en.pdf

am gynnal cofrestr risg ar y cyd, a rennir ac i'w sefydliadau priodol, y maent yn ei datblygu gyda'i gilydd ac yna'n ei rheoli ar y cyd. Hefyd, Mae'n ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Iechyd mewn Carchardai sicrhau bod yr Asesiadau Anghenion Iechyd yn y Carchar yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd, gan gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Cyflawni Iechyd mewn Carchardai. Er mwyn sicrhau datblygiad a gweithrediad llwyddiannus y gwasanaeth Iechyd mewn carchardai, mae'n hanfodol cynnwys y Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn weithredol yn y Byrddau Partneriaeth Iechyd mewn Carchardai. CEM y Parc yw'r unig garchar preifat yng Nghymru ac er bod hyn yn newid natur y bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r Parc, gan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am gomisiynu gofal Iechyd sylfaenol yn y carchar, ceir disgwyliad o waith partneriaeth cadarn ym mhob agwedd a dyletswydd arall.²⁸⁵

Gwasanaethau Cymdeithasol

- 6.42 Yn hanesyddol, prin fu'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol mewn carchardai ledled Cymru a Lloegr. Gydag angen amlwg a chynyddol, rhoddwyd sylw i'r diffyg darpariaeth gofal cymdeithasol yn ddiweddar yn Neddff Gofal 2014 yn Lloegr ac yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn briodol. Yng nghymhwysiad Deddf Cymru, ystyrir bod oedolyn neu blentyn sy'n cael ei gadw yn y carchar neu mewn llety cadw ieuencid yn *breswylwyr fel arfer* yn yr ardal lle mae'r carchar wedi ei leoli (er bod eithriadau cyfyngedig), ni waeth ble maent wedi byw cyn eu carchariad.²⁸⁶ Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb, felly, am asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth carcharorion sy'n oedolion a throseddwy'r ifanc sydd wedi eu carcharu yn nalgylch yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth o ofal i bobl sydd wedi symud o'u man preswyllo arferol i fyw mewn awdurdod lleol arall, fel sy'n ofynnol o dan eu hamodau mechnïaeth. Gan efelychu amgylchiadau cyffredinol, efallai y bydd yn ofynnol i unigolion sy'n cael eu cadw mewn mannau cymeradwy neu sy'n byw mewn llety mechnïaeth, yn amodol ar asesiad ariannol, gyfrannu at gost eu gofal. Mae gan awdurdodau lleol y disgresiwn, felly, i godi ffi ar garcharorion am y gofal a'r cymorth y maent yn eu trefnu neu'n eu darparu. O dan amgylchiadau penodol, a phan fydd

²⁸⁵ GIG Cymru. Gweithio mewn Partneriaeth â'r Gwasanaeth Carchardai. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/gweithio-mewn-partneriaeth>

²⁸⁶ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhan 11: Amrywiol a Chyffredinol. Adran 185: Oedolion mewn carchar, llety cadw ieuencid neu llety mechnïaeth etc. ac Adran 186: Plant mewn llety cadw ieuencid, carchar neu llety mechnïaeth etc. Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

cais yn cael ei wneud, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i dderbyn a darparu llety i blant ac unigolion ifanc sydd yn y ddalfa neu ar remánd ac, yn ogystal, yn rhan o warant y ddeddfryd, gall barnwr orchymyn yr awdurdod lleol lle mae troseddwr ifanc wedi ei garcharu i fodloni gofynion diffiniedig ychwanegol. Fodd bynnag, pan nad yw awdurdod lleol wedi cael ei wneud yn gyfrifol am ddarparu llety i blentyn neu unigolyn sydd wedi derbyn euogfarn neu pan fo plentyn neu unigolyn ifanc wedi cael ei gadw o dan adran 38 Deddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, gellir adennill unrhyw dreuliau rhesymol o ddarparu llety i'r plentyn dan sylw gan yr awdurdod lleol lle'r oedd wedi bod yn preswyllo yn flaenorol cyn ei garchariad.²⁸⁷

- 6.43 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal ac anghenion cymdeithasol carcharorion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio ar y cyd. Cyflwynir llwybrau cenedlaethol i sicrhau dull gofal a chymorth cyson ar draws awdurdodau lleol i'r rhai sy'n preswyllo yn yr ystad ddiogel. Trwy'r llwybrau hyn y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'u partneriaid i weithredu eu trefniadau gofal a chymorth lleol unigol. Er ei bod yn ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol fodloni disgwyliad gofynnol diffiniedig o ddarpariaeth gwasanaeth, nid yw sut y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu wedi ei ragnodi. Felly, mae'r trefniadau comisiynu a phartneriaeth a sefydlwyd o dan y cyfrifoldebau i awdurdodau lleol ddarparu'r gofal cymdeithasol gofynnol yn amrywio o ran ystod a natur ar gyfer pob sefydliad. Bydd arweinydd lleol enwebedig ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion ym mhob carchar, sy'n gyfrifol am drafod ag awdurdodau lleol, eu darparwyr a staff darparwyr. Dyletswydd y Gwasanaeth Carchardai yw sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol am ofal a chymorth ar gael yn barod i garcharorion. Mae'n ofynnol felly i garchardai weithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr gofal iechyd i sicrhau bod y wybodaeth hon yn gyfredol ac ar gael.²⁸⁸

Addysg

- 6.44 Bu nifer o bryderon yn y blynyddoedd diwethaf ynghylch lefel yr addysg a hyfforddiant mewn carchardai. Nododd adroddiad gan y Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd yn 2013 bod pymtheg o wledydd, gan gynnwys rhai'r Deyrnas Unedig,

²⁸⁷ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhan 6: Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya. Adran 77: Llety i blant sy'n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, neu sydd o dan gadwad neu ar remánd etc. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

²⁸⁸ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. (2016). Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ar gael yn:

[https://www.insidetime.org/download/rules_&_policies/psi_\(prison_service_instructions\)/2016/PSI-2016-003_adult-social-care.pdf](https://www.insidetime.org/download/rules_&_policies/psi_(prison_service_instructions)/2016/PSI-2016-003_adult-social-care.pdf)

yn dweud bod llai na chwarter yr holl garcharorion yn cymryd rhan mewn rhyw faith o addysg neu hyfforddiant.²⁸⁹ Nododd adroddiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, er i 101,600 o garcharorion sy'n oedolion gymryd rhan mewn dysgu yn y carchar ym mlwyddyn academiaidd 2014/15, mae tri o bob pum carcharor yn gadael y carchar heb ganlyniad cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant wedi ei nodi. Yng Nghymru a Lloegr, caiff gwasanaethau addysg yn y system gyfiawnder eu hwyluso'n ffurfiol trwy awdurdodau addysg lleol sy'n weithredol yn eu hawdurdod lleol a chan hyfforddwyr carchar a gyflogir yn uniongyrchol gan Wasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi neu'r contractwyr preifat sy'n rhedeg y carchar. Ers 1993, contractiwyd addysg mewn carchardai allan i wahanol ddarparwyr allanol gan gynnwys colegau Addysg Bellach, Awdurdodau Lleol a chwmnïau preifat.²⁹⁰

- 6.45 Er bod llywodraethwyr Sefydliadau Cadw leuenctid yn gyfrifol ac yn atebol am y plant a'r oedolion ifanc sy'n derbyn gofal ganddynt, ni ellir eu gwneud yn atebol am wasanaethau sy'n cael eu contractio allan a'u rheoli o bell. Yn hytrach, rhennir cyfrifoldeb ar draws rhanddeiliaid gyda'r canlyniad nad oes unrhyw sefydliad unigol â chyfrifoldeb terfynol. Darparwyr a gontractiwyd sy'n cyflogi'r athrawon sy'n gweithio mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel, a'r awdurdod lleol sy'n cyflogi'r athrawon sy'n gweithio mewn Cartrefi Diogel i Blant.²⁹¹ Yng Nghartref Diogel i Blant Hillside yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r Rheolwr Addysg Cynorthwyol yn goruchwyllo addysg yr holl blant a phobl ifanc sy'n preswyllo yno ac yn cynnal cysylltiadau gweithio effeithiol gyda'r Awdurdod Addysg a Gyrfa Cymru.²⁹² Mae CEM a Sefydliad Troseddwy Ifanc y Parc yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn breifat ac mae G4S yn cyflogi athrawon cymwysedig i weithio yn yr adran addysg ac i ddarparu'r rhaglenni dysgu craidd a gynigir. Hefyd, mae'r adran addysg yn darparu ac yn cynorthwyo pecynnau dysgu o bell. Mae gan Garchar y Parc bartneriaeth gref gyda Gyrfa Cymru, sy'n darparu Cynghorydd Gyrfaoedd llawn amser ar gyfer yr ystad 18 oed a hŷn a chynghorydd ychwanegol ar gyfer yr Uned Pobl Ifanc.²⁹³

²⁸⁹ Hawley, J., Murphy, I. a Souto-Otero, M. (2013). *Prison Education and Training in Europe: Current State-of-Play and Challenges – A Summary Report Authored for the European Commission*. Brwsel: GHK.

²⁹⁰ Czerniawski, C. (2016). *A Race to the Bottom – Prison Education and the English and Welsh Policy Context*. *Journal of Education Policy*, 31(2), 198-212.

²⁹¹ Y Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg. (2016). Ôl-nodyn: Addysg leuenctid yn y Ddalfa. Rhif 524. Ar gael yn: <http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0524/POST-PN-0524.pdf>

²⁹² Cartref Diogel i Blant Hillside. *Education*. Ar gael yn: https://www.hmpparc.co.uk/about_rar_e.htm

²⁹³ CEM a Sefydliad Troseddwy Ifanc y Parc. (2014). Addysg. Ar gael yn: https://www.hmpparc.co.uk/about_rar_e.htm

- 6.46 Mae'n amlwg o'r manylion a roddir uchod mai Llywodraeth Cymru neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg (er bod hyn yn llai diriaethol) i garcharorion yn y mwyafrif o feysydd gwasanaeth. Yr hyn sydd hefyd yn eglur, pa un a yw wedi ei ddiffinio'n gyfreithiol ai peidio, yw bod carcharorion yn cael eu hystyried yn ymarferol fel preswylwyr fel arfer yn yr ardal lle mae man eu carchariad wedi ei leoli o ran y ddarpariaeth o wasanaethau. Os yw carcharorion yn breswylwyr fel arfer at y diben o ddarparu gwasanaethau, yna mae cwestiwn i'w ofyn pa un a ddylid ystyried y carcharorion yn breswylwyr fel arfer at ddibenion etholiadol hefyd. Hefyd, daw'r cwestiwn hwn yn arbennig o berthnasol o gofio bod Llywodraeth Cymru yn meddu ar bwerau dros iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae'n bosibl felly mai pleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol a Chynulliad Cymru fyddai'r prif ddull i garcharorion godi eu pryderon a mynegi eu safbwyntiau ar ddarpariaeth ac ansawdd y gwasanaethau hyn. Hefyd, byddai cofrestru ar sail cyfeiriad y carchar ei hun yn sicrhau y byddai'r holl garcharorion cymwys yn cadw'r gallu i gofrestru i bleidleisio. Ac eto, er mwyn creu darpariaeth lle byddai'r holl garcharorion sydd wedi eu carcharu mewn carchardai yng Nghymru yn cadw eu hawliau pleidleisio, byddai angen tystiolaeth sylweddol y byddai carcharorion nad ydynt o Gymru eisiau pleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol Cymru. Byddai'r dystiolaeth hon yn angenrheidiol i wrthwynebu'r ddadl sydd â sail gadarn iddi y byddai'n fwy tebygol y byddai gan garcharorion sy'n cyflawni dedfrydau byrdymor a'r rhai sydd ar fin cael eu rhyddhau ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yn eu hardaloedd cartref yn hytrach na'r ardal lle mae man eu carchariad wedi ei leoli.
- 6.47 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig gosod cyfyngiadau ar y gallu i gofrestru yng nghyfeiriad y carchar, i atal carcharorion rhag cael dylanwad gormodol mewn etholiadau lleol. Mewn ardaloedd penodol yng Nghymru – Ward Coety ar Gyngor Pen-y-bont yn fwyaf amlwg, lle mae CEM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc wedi ei leoli, sydd â 1,625²⁹⁴ o etholwyr tra bod lle i 1,803²⁹⁵ o droseddwy'r ar unrhyw un adeg yng Ngharchar y Parc; a CEM Berwyn yn ward Holt ar Gyngor Wrecsam, er

²⁹⁴ Y Comisiwn Etholiadol. (2017). Cymru – Etholiadau Lleol 2017 – Data etholiadol. Ar gael yn: <https://www.electoralcommission.org.uk/our-work/our-research/electoral-data/electoral-data-files-and-reports>

²⁹⁵ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi, a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. (2017). Bwletin Poblogaeth: Misol Rhagfyr 2017. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2017>

bod carchar Berwyn yn dal cadw 890²⁹⁶ o droseddwyd ym mis Rhagfyr 2017, bydd ganddo le i 2,100 pan fydd yn gwbl weithredol a fydd bron yr un faint â'r 2,533²⁹⁷ o etholwyr sy'n byw yn ward Holt – byddai poblogaeth y carchar yn llawer mwy na'r boblogaeth leol ac, felly, mae ganddynt y potensial i benderfynu canlyniad yr etholiad er nad ydynt efallai erioed wedi bod yn breswylwyr yn yr ardal cyn cael eu carcharu neu nad oes ganddynt unrhyw fwriad o fyw yn yr ardal ar ôl cael eu rhyddhau. Fodd bynnag, o ystyried y nifer isel sydd wedi manteisio ar bleidleisiau i garcharorion yn Iwerddon ac Awstralia, gellir cwestiynu a oes unrhyw sail sylweddol i'r gofid hwn.

- 6.48 Er bod dadl i'w gwneud i garcharorion gael y gallu i gofrestru i bleidleisio ar sail cyfeiriad y carchar ei hun, mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil i ddarganfod nifer y carcharorion yng ngharchardai Cymru nad ydynt yn preswyllo yng Nghymru. Pe bai'n cael ei benderfynu, ar y sail yr ystyrir carcharorion nad ydynt o Gymru yn breswylwyr fel arfer yn yr ardal y mae'r carchar wedi ei leoli ynddi, y dylent eu hetholfreinio hefyd, er mwyn lliniaru'r potensial i boblogaeth y carchar gael dylanwad gormodol ar ganlyniad etholiad, byddai angen i bolisi greu system gofrestru lle'r oedd cofrestru yng nghyfeiriad y carchar yn ddewis olaf, ar gael i garcharorion nad ydynt yn gallu cofrestru trwy ddatganiad o gysylltiad lleol yn unig. Hefyd, mae'r polisi presennol sydd ar waith yn gwneud y darpariaeth lle gall y llond llaw o garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio gofrestru yn awgrymu hierarchaeth, gyda'r opsiwn i gofrestru ar sail cysylltiad lleol neu yng nghyfeiriad y carchar yn ddewisiadau amgen sydd ar gael i'r carcharorion hynny na allant gyflwyno cyfeiriad cartref priodol.
- 6.49 Hefyd, wrth ddatblygu polisi, bydd yn angenrheidiol bod yn ymwybodol o'r anghysondebau sy'n bodoli mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd. Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn pennu na all unigolion sydd wedi eu carcharu gael eu trin at unrhyw ddibenion cofrestru etholiadol fel preswylwyr yn y sefydliad cosbi y maent wedi eu carcharu ynddo - bydd cynnig Cymru fel y mae ar hyn o bryd yn cynnal y cyfyngiad hwn. Fodd bynnag, mae Adran 7A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn caniatáu i garcharorion gofrestru yng nghyfeiriad y sefydliad lle maent wedi eu carcharu, pan fo'r cyfnod o garchar yn ddigonol iddynt gael eu hystyried yn breswylwyr fel arfer at ddiben cofrestru etholiadol (mwy na chwe mis):

²⁹⁶ *ibid.*

²⁹⁷ Y Comisiwn Etholiadol. (2017). Cymru – Etholiadau lleol 2017 – Data etholiadol. Ar gael yn: <https://www.electoralcommission.org.uk/our-work/our-research/electoral-data/electoral-data-files-and-reports>

- 2) A person to whom this section applies shall (subject to subsection (5) below) be regarded for the purposes of section 4 above as resident at the place at which he is detained if the length of the period which he is likely to spend at that place is sufficient for him to be regarded as being resident there for the purposes of electoral registration.²⁹⁸

6.50 O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, gall carcharorion cymwys gofrestru yng nghyfeiriad cysylltiad lleol neu yn y cyfeiriad lle maent wedi eu carcharu, sy'n awgrymu nad yw'r carchar ei hun yn gymwys fel cyfeiriad cysylltiad lleol. Felly, o ran deddfwriaeth flaenorol, nid oes gan gyfeiriad "cysylltiad lleol" gysail o gynnwys y cyfeiriad lle mae carcharor wedi ei garcharu. Hefyd, ni fwriedir i'r newidiadau gweinyddol a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU i ganiatáu i garcharorion ar ryddhad dros dro bleidleisio ganiatáu cofrestriad ar sail cyfeiriad y carchar ac, felly, gellir tybio y byddai'r cyfyngiad hwn yn gyson â'r cynigion polisi diweddaraf gan Lywodraeth y DU.

²⁹⁸ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Adran 7A: Preswyliaid: unigolion a gedwir yn y ddalfa etc. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/2/section/5>

7. Casgliadau

- 7.1 Nid llunio cynigion neu argymhellion diffiniedig oedd nod yr adroddiad hwn ond, yn hytrach, gwneud gwaith ymchwil pen desg helaeth i ddarparu'r wybodaeth gefndir a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ddatblygu polisi, sy'n cyd-fynd â'r cynnig o etholfreinio carcharorion ar gyfer etholiadau cyffredin y mae eu dyddiad rhyddhau disgwylidig yn ystod tymor y swydd sy'n cael ei hethol. Yn benodol, roedd hyn yn gofyn am: archwiliad eang o hanes pleidleisiau i garcharorion yn y DU gan gynnwys y prif ddadleuon a wnaed yn erbyn ac o blaid pleidleisiau i garcharorion, y gallu presennol i garcharorion yn y DU bleidleisio a'r newidiadau gweinyddol a gyflwynwyd gan San Steffan i fynd i'r afael â dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop, sydd wedi ei gynnwys yn nyfarniad Hirst. Hefyd, roedd yn angenrheidiol edrych ar Ewrop a'r tu hwnt i ddatblygu dealltwriaeth o'r prosesau a'r dulliau ymarferol a gyflwynwyd yn dilyn y penderfyniad gwleidyddol i etholfreinio carcharorion. Gan y bydd datblygu polisi sy'n gweithredu'r cynnig i etholfreinio carcharorion yn gofyn am ddealltwriaeth o'r system cyfiawnder troseddol a'r system cyfiawnder ieuenctid, cyflwynodd y papur archwiliad manwl o'r ddwy, gan fanteisio'n benodol ar y mathau o ddedfrydau o garchar wrth law'r llysoedd, cyfrifiad dyddiadau rhyddhau a'r broses a ddilynir i ryddhau carcharorion a gwahanol sefydliadau'r system cyfiawnder ieuenctid.
- 7.2 Yn gyffredinol, bodlonwyd briff y prosiect trwy gyflwyno manylion trylwyr a thrwyadl. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd bod materion etholiadol a throedd a chyfiawnder yn feysydd polisi newydd i Lywodraeth Cymru ac, felly, yn feysydd anghyfarwydd lle na ellir tybio bod y wybodaeth sylfaenol yn bodoli. Felly, er bod egwyddorion gwleidyddol y cynnig wedi eu datblygu ac yn eglur, ni cheir y ddealltwriaeth ymarferol sydd ei hangen i roi bywyd i'r cynnig sy'n arwain at yr angen am ddarlleniad manwl ac eang. Cymerwyd y manylion sy'n hysbysu'r adroddiad yn bennaf o adroddiadau a dogfennau llywodraeth, gwahanol ddeddfwriaeth, Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai a Gorchmynion y Gwasanaeth Carchardai, adroddiadau a luniwyd gan wahanol gomisiynau etholiadol, biliau a strategaethau llywodraeth, a dyfarniadau llys perthnasol. Defnyddiwyd amrywiaeth o wefannau uchel eu parch hefyd, a gwefannau llywodraeth yn ymwneud â throedd a chyfiawnder a gwefannau elusennau a sefydliadau sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder a lles carcharorion yn arbennig. Defnyddiwyd gwybodaeth o'r olaf yn bennaf i ymgysylltu â'r gwahanol ddadleuon a wnaed yn y trafodaethau ar bleidleisiau i garcharorion.

7.3 Yn olaf, rhoddodd yr adroddiad sylw i'r prif faterion - o'r safbwyntiau gwleidyddol ac ymarferol - o fodloni telerau'r cynnig. Wrth archwilio'r heriau hyn, darperir manylion penodol sy'n rhoi sylw i'r mater ac yn darparu'r cyd-destun i ystyried, wedyn, telerau'r ddadl yn wleidyddol ac yn ymarferol. Yn y drafodaeth hon, rwyf wedi ceisio defnyddio manylion yr adroddiad i gyflwyno'r gwahanol ddadleuon gwleidyddol y gellir eu datblygu ar sail y mater penodol ac wedi dechrau darlunio (yn fras) sut y gallai polisi ddechrau mynd i'r afael â'r materion hyn, gan fanteisio'n bennaf ar fodel Awstralia. Nid cynnig argymhellion neu gynghori ar y llwybr polisi yw'r nod yma, ond yn hytrach mapio'r gwahanol ddadleuon a chafeatau y bydd angen rhoi sylw iddynt wrth ddatblygu'r polisi cysylltiedig. Er na ellir, ar y cam hwn, llunio cynigion ac argymhellion diffiniedig, mae'n bosibl, o ddefnyddio'r gwaith ymchwil, datblygu cyfres o gasgliadau i hysbysu'r polisi cysylltiedig yn ei ddatblygiad parhaus:

Casgliadau

- Mae dadleuon ac ansicrwydd wedi bod yn nodweddiadol o hanes cyfoes pleidleisiau i garcharorion yn y DU. Er i Lys Hawliau Dynol Ewrop ddyfarnu yn 2005 bod gwaharddiad awtomatig y DU ar bob carcharor sydd wedi derbyn euogfarn ac wedi ei garcharu yn mynd yn groes i hawliau dynol, dros ddegawd yn ddiweddarach mae'r holl garcharorion sydd wedi eu dedfrydu ac yn treulio cyfnod yn y carchar yn dal i fod wedi eu dadetholfreinio. Gall y llond llaw o garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd gofrestru yn eu cyfeiriad cartref lle byddent yn preswyl fel rheol pe na baent yn y carchar neu, pan nad yw hwn yn opsiwn sydd ar gael, trwy ddatganiad o gysylltiad lleol neu ddefnyddio cyfeiriad y carchar lle maent yn garcharor. Gall carcharorion cymwys arfer eu hawliau pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Fodd bynnag, yn dilyn pwysau cynyddol i roi sylw i ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop, mae San Steffan wedi cynnig newidiadau gweinyddol y disgwylir iddynt ddod i rym ar gyfer etholiadau 2019, a fydd yn arwain at etholfreinio carcharorion y caniatwyd rhyddhad dros dro iddynt (gan etholfreinio oddeutu ychydig ddwsinau o garcharorion ar unrhyw un adeg). Felly, bydd angen i'r polisi a fydd yn cael ei ddatblygu roi ystyriaeth i'r gweithdrefnau sydd eisoes ar waith ac, yn benodol, y cyfeiriadau cymeradwy y mae carcharor yn gymwys i gofrestru yn eu herbyn ar hyn o bryd.

- Mae dadleuon o blaid ac yn erbyn pleidleisiau i garcharorion yn tueddu i fod yn seiliedig ar yr hyn y mae rhywun yn ei gredu yw sefydliad cosbi: lle i gosbi troseddwr sydd wedi tynnu eu hunain o gymdeithas trwy eu gweithredoedd eu hunain neu, ar y llaw arall, lle ar gyfer adsefydlu a ddylai hybu cynhwysiant, cyfrifoldeb cymdeithasol ac urddas dynol yr unigolion sy'n preswyllo ynddo. Mae'r dadleuon o blaid pleidleisiau i garcharorion yn tueddu i fod yn fwy datblygedig na'r dadleuon sy'n cefnogi parhau i ddadetholfreinio carcharorion. Hefyd, caiff hawliau pleidleisio carcharorion eu hybu gan nifer o elusennau a sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol. Er bod y dystiolaeth wedi awgrymu yn draddodiadol bod y cyhoedd yn gwrthwynebu'n chwyrn rhoi pleidleisiau i garcharorion, mae'r ymatebion diweddar i adroddiad ymgynghori Llywodraeth Cymru yn awgrymu efallai fod y safbwynt hwn yn newid, neu'n lleihau o ran ei ffyrnigrwydd o leiaf.
- Yn y mwyafrif o wladwriaethau Ewropeaidd heddiw, mae carcharorion yn cadw eu hawliau pleidleisio â chyfyngiadau cyfyngedig yn unig. Er bod eithriadau amlwg, prin yw'r gwladwriaethau lle mae'r holl garcharorion yn cadw eu hawliau pleidleisio. Mae'r dulliau ar gyfer cynyddu cyfyngiadau ar etholfreinio carcharorion yn seiliedig ar hyd dedfryd neu ar sail y drosedd a gyflawnwyd neu ar gymysgedd o'r ddau ddull. Er ei fod yn seiliedig ar hyd dedfryd, mae cynnig Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r safbwynt ei fod yn ceisio etholfreinio carcharorion yng nghyswllt dyddiad rhyddhau carcharor, yn hytrach na'r ddedfryd a gyflwynwyd gan y llysoedd. Er gwaethaf cyfreithlondeb a phriodoldeb dull seiliedig ar y drosedd, dangosodd ymgynghoriad diwygio etholiadau Llywodraeth Cymru i raddau llethol gefnogaeth i ddull seiliedig ar hyd dedfryd.
- Mae'r profiad o etholfreinio carcharorion yng Ngweriniaeth Iwerddon yn dynodi'r angen i fod â dulliau llym a chydlynol ar waith i sicrhau bod gan garcharorion cymwys y gallu i gofrestru i bleidleisio ac, yna, i fwrw eu pleidlais. Hefyd, mae achos Iwerddon yn dangos y lefel uchel o gydweithrediad sydd ei hangen gan y Gwasanaeth Carchardai. Mae gwasanaeth carchardai Iwerddon yn gyfrifol am hysbysu carcharorion am eu

hawliau pleidleisio, eu cynorthwyo i gwblhau eu ffurflenni cais (y ffurflen i gofrestru a'r ffurflen cofrestru drwy'r post), goruchwyllo'r broses bleidleisio a dychwelyd yr holl ffurflenni a phapurau pleidleisio wedi'u selio i'r unigolion perthnasol. Er gwaethaf ymdrechion gwasanaeth carchardai lwerddon a hyd yn oed gyda charcharorion yn canmol pa mor rhwydd yw pleidleisio o'r carchar, prin iawn yw'r carcharorion yn lwerddon sy'n arfer eu hawliau pleidleisio (pleidleisiodd 6.2 y cant o garcharorion yn yr etholiad cyffredinol diwethaf o'i gymharu â'r canran a bleidleisiodd yn genedlaethol o 65.2 y cant).

- Yn Awstralia, mae'n ofynnol i'r holl garcharorion sy'n cyflawni dedfryd o lai na thair blynedd bleidleisio mewn etholiadau ffederal. Mae carcharorion yn gymwys i gofrestru mewn nifer o gyfeiriadau ond mae system hierarchaidd o gymhwysedd ar waith ac, felly, gall carcharor bleidleisio yn y cyfeiriad lle mae wedi ei garcharu dim ond pan nad oes un o'r opsiynau blaenorol yn gymwys. Mae deddfwriaeth yn darparu ar gyfer gohebiaeth fisol rhwng Cyfarwyddwr Cyffredinol y Carchardai a Chomisiwn Etholiadol Awstralia, sy'n sicrhau bod yr unigolion perthnasol yn meddu ar y wybodaeth sydd ei hangen i brosesu cais i gofrestr etholiadol Awstralia a phenderfynu a yw'r ymgeisydd dan sylw yn gymwys i bleidleisio. Mae statws pleidleisiau i garcharorion yn amrywio rhwng taleithiau/tiriogaethau ledled Awstralia, gyda'r canlyniad efallai nad yw carcharor yn gymwys i bleidleisio mewn etholiad talaith neu leol er ei fod yn gymwys i bleidleisio mewn etholiad ffederal. Mae Comisiwn Etholiadol Awstralia a Chomisiwn Etholiadol Victoria wedi gwneud sylwadau ar y dryswch sy'n codi oherwydd bod gan garcharorion wahanol hawliau pleidleisio ar gyfer gwahanol etholiadau ac, felly, mae'r ddau wedi pwysleisio pwysigrwydd rhaglenni addysg ac ymwybyddiaeth. O ystyried y gyfradd lythrennedd wael ymhlith carcharorion, mae Comisiwn Etholiadol Victoria wedi nodi y byddai'n well ganddynt i raglenni addysgol ac ymwybyddiaeth gael eu darparu wyneb yn wyneb ac angen i fuddsoddi mewn pleidleisio symudol. Gan adlewyrchu'r profiad yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae nifer y carcharorion yn Awstralia sy'n arfer eu hawliau pleidleisio yn gymharol isel, gyda chwarter y carcharorion cymwys wedi eu cofrestru ar gyfartaledd.

- Ceir pum math cyffredin o ddedfryd o garchar yn y DU. Mae cyfnod penodedig o garchar yn gysylltiedig â dedfryd ddiffiniedig, dedfryd ddiffiniedig estynedig a dedfryd arbennig o garchar, a benderfynir gan y llysoedd. Ar y llaw arall, nid oes cyfnod penodedig o garchar yn gysylltiedig â dedfrydau penagored a dedfryd o garchar am oes, ond mae'n ofynnol i'r barnwr bennu cyfnod tariff gofynnol y mae'n rhaid ei gyflawni cyn y gellir ystyried rhyddhau'r carcharor dan sylw. Pan fydd dedfryd o garchar yn cael ei thraddodi yn y llys, mae'r llys yn llunio gwarant dedfryd yn nodi'r telerau carcharu, gan gynnwys hyd y ddedfryd neu'r cyfnod tariff gofynnol. Ynghyd â chyfres o wybodaeth arall, mae'r Gwasanaeth Carchardai yn defnyddio gwarantau dedfryd i gynhyrchu cyfrifiad dedfryd o fewn pum diwrnod i dderbyn carcharor. Ynghyd â nifer o ddyddiadau eraill, mae cyfrifiad y ddedfryd yn pennu, pan fo'n berthnasol, dyddiad rhyddhau carcharor. Penderfynir i raddau helaeth ar yr adeg y bydd carcharor yn cael ei ryddhau gan y math o ddedfryd y mae'n ei chyflawni ac yna, pan fo'n ofynnol, gan benderfyniad y Bwrdd Parôl. Pan nad yw dedfryd yn cynnwys dyddiad rhyddhau amodol neu nad oes ganddi ddyddiad terfyn carchariad, mae'n rhaid i'r achos gael ei ystyried gan y Bwrdd Parôl – yn dilyn cyfnodau penodedig ar gyfer gwahanol ddedfrydau – a phenderfyniad y Bwrdd Parôl fydd yn pennu eu rhyddhad.
- Mae'r system cyfiawnder ieuencid a sefydlwyd ym 1998 yn darparu ac yn rheoli system gyfiawnder neilltuol i ddedfrydu troseddwy'r ifanc, i ddarparu llety iddynt ac i ddiwallu eu hanghenion a bodloni eu gofynion penodol. Opsiwn olaf yw dedfryd o garchar i bobl ifanc, ac mae adsefydlu a lles yn ganolog i'r system. Mae'r system cyfiawnder ieuencid yn wahanol i'r system cyfiawnder oedolion mewn nifer o ffyrdd: mae'r pwyslais wrth draddodi dedfryd ar yr unigolyn yn hytrach nag ar y drosedd fel y mae yn y system cyfiawnder oedolion; mae'r mathau o ddedfrydau sy'n gymwys i droseddwy'r ifanc yn llai difrifol am mae hyd y ddedfryd yn tueddu i fod yn fyrrach; mae troseddwy'r ifanc yn destun treial mewn llys ieuencid yn bennaf, sydd wedi ei addasu i ddiwallu anghenion penodol troseddwy'r ifanc; ac mae troseddwy'r ifanc sydd wedi eu carcharu yn cael eu cadw mewn llety a ddyluniwyd yn bwrpasol (Cartref Diogel i Blant, Canolfan Hyfforddi Ddiogel neu Sefydliad Troseddwy'r Ifanc) sy'n canolbwyntio i raddau helaeth iawn ar addysg a/neu hyfforddiant ac adsefydlu.

Heriau

Yr Her Gyntaf: Pennu dyddiad rhyddhau

- Er bod gwarant y ddedfryd yn nodi hyd y ddedfryd yn ffurfiol, cyfrifiad y ddedfryd a gwblheir gan y Gwasanaeth Carchardai sy'n pennu dyddiad rhyddhau carcharor. Mae dyddiad rhyddhau amodol (y dyddiad awtomatig pan ddylid rhyddhau'r carcharor) a dyddiad terfyn carchariad yn gysylltiedig â dedfryd ddiffiniedig. Mae'r dyddiad rhyddhau yn amodol gan y gall gael ei effeithio gan nifer o ffactorau, a gorchymyn diwrnodau ychwanegol yn bennaf.
- Nid oes gan garcharorion sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig estynedig neu ddedfryd arbennig o garchar ddyddiad rhyddhau amodol, ond mae ganddynt ddyddiad cymhwyso ar gyfer parôl (naill ai hanner ffordd drwy eu dedfryd neu ddwy ran o dair drwyddi) a dyddiad terfyn carchariad. Bydd yn rhaid i garcharorion sy'n cyflawni'r dedfrydau hyn wneud cais i'r Bwrdd Parôl, yn y cyfnod yn arwain at eu dyddiad cymhwyso ar gyfer parôl, a fydd yn penderfynu a yw'r carcharor dan sylw yn gymwys i gael ei ryddhau. Pan fydd yr achos yn aflwyddiannus, ni fydd y carcharor yn cael ei ryddhau tan ei ddyddiad terfyn carchariad.
- Nid oes dyddiad terfyn carchariad yn gysylltiedig â dedfryd benagored a dedfryd o garchar am oes ac, felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y dylai'r carcharorion hyn barhau i fod wedi eu dadetholfreinio.
- Wrth ddatblygu polisi yn ymwneud â dyddiadau rhyddhau sy'n cyfateb i'r cynnig presennol, mae'n bosibl y bydd angen tair ffrwd gynradd: ffrwd sy'n deddfu ar gyfer gohebiaeth rhwng yr awdurdodau perthnasol ar ddyddiad rhyddhau amodol carcharorion sy'n cyflawni dedfryd ddiffiniedig, a fydd angen dull sy'n sicrhau bod y wybodaeth hon yn gyfredol; ffrwd yn ymwneud â dedfrydau nad oes ganddynt ddyddiad rhyddhau amodol ond y mae dyddiad terfyn carchariad ac felly'n darparu ar gyfer gohebu'r dyddiad hwn rhwng awdurdodau perthnasol; ac yn drydydd, ffrwd sy'n dadetholfreinio'r carcharorion hynny sy'n cyflawni dedfryd nad oes dyddiad terfyn carchariad yn gysylltiedig â hi.
- Bydd angen ystyried hefyd a oes angen sefydlu gohebiaeth gyda'r Bwrdd Parôl i etholfreinio carcharorion sy'n cyflawni dedfrydau diffiniedig estynedig neu ddedfryd arbennig o garchar y mae eu hachosion wedi bod yn

llwyddiannus ac felly y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau ar y dyddiad cymhwyso ar gyfer parôl yn hytrach na'r dyddiad terfyn carchariad.

- Hefyd, bydd angen i bolisi gymryd i ystyriaeth gohebiaeth arbennig yn y cyfnod cyn etholiad i sicrhau bod y data yn gyfredol ac, hefyd, ar gyfer cofrestru carcharorion sy'n gyrhaeddwy.

Yr Ail Her: Gwahanol egwyddorion cyfiawnder ieuenctid

- Wrth ystyried gwahanol egwyddorion a gweithrediadau'r system cyfiawnder ieuenctid a'r cynnig i etholfreinio pobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed, ceir cwestiwn ynghylch a ellir cyfiawnhau cymhwyso'r un egwyddorion, a pholisi felly, yn ymwneud ag etholfreinio troseddwy sy'n oedolion i droseddwy ifanc, neu, yn hytrach, a ddylid datblygu gwahanol egwyddorion sy'n diwallu anghenion penodol ac yn bodloni gofynion penodol troseddwy ifanc? Hefyd, daw'r cwestiwn hwn yn arbennig o berthnasol o ystyried yr egwyddorion - 'mae pobl ifanc yn blant yn gyntaf, ac yn droseddwy yn ail' ac 'mae gan bobl ifanc yn y system gyfiawnder yr un mynediad at eu hawliau ag unrhyw unigolyn ifanc arall' - sy'n sail i strategaeth ar y cyd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfiawnder ieuenctid.
- Lluniodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn 2002 yn nodi'r hawliau i'r holl bobl ifanc 11 i 25 mlwydd oed, sy'n sicrhau y rhoddir y cyfle i bob unigolyn ifanc gymryd rhan fel dinesydd gweithredol a'r hawl i ymgynghori â nhw, i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ac i gael eu clywed ar bopeth sy'n ymwneud â nhw neu sy'n effeithio ar eu bywydau - hawl sy'n cydseinio â'r hawl i bleidleisio. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn hybu plant fel dinasyddion llawn ynddynt eu hunain, gan gydnabod bod hawliau plant angen amddiffyniad arbennig. Awgrymwyd felly bod angen hyrwyddo dinasyddiaeth ieuenctid â gwahanol bwyslais, er mwyn cydnabod amgylchiad arbennig plant ac oedolion ifanc heb wanhau eu dinasyddiaeth.
- Fodd bynnag, trwy ddadlau y dylai gwahanol delerau cymhwysedd gael eu defnyddio ar gyfer troseddwy ifanc ar y sail eu bod yn ansoddol wahanol i oedolion – nid yw plant wedi datblygu neu eu grymuso gyda'r un adnoddau gwybyddol, cymdeithasol ac economaidd na'r un faint o aeddfedrwydd ag

oedolion, felly ni ddylent gael eu trin fel oedolion – ceir perygl o ddadlau yn erbyn etholfreinio'r *holl* bobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed.

- Y cwestiwn gwleidyddol i'w ofyn felly yw pa un a yw'r perygl yn cael ei orbwyso gan yr angen i amddiffyn hawliau'r plentyn a'r prif bwyslais ar adsefydlu a chynnwys troseddwy'r ifanc, sy'n blant cyn eu bod yn droseddwy'r, neu a yw'r amddiffyniad arbennig a ganiateir i blant ac oedolion ifanc a'u hawliau eisoes wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y ffordd y mae'r system cyfiawnder ieuencid wedi ei theilwra'n benodol, ac, yn benodol, drwy'r ddarpariaeth sy'n gwneud dedfrydau llai difrifol i bobl ifanc yn angenrheidiol.
- Mae'n hanfodol bod polisi yn cynnwys darpariaethau sy'n sicrhau bod unrhyw raglenni addysg ac ymgysylltiad sydd wedi eu dylunio i sicrhau bod pobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed y presennol a'r dyfodol yn bleidleiswyr gwybodus, hefyd ar gael mewn sefydliadau cosbi troseddwy'r ifanc, pa un a yw gwahanol egwyddorion yn cael eu cymhwyso i droseddwy'r ifanc ai peidio.

Y Drydedd Her: Carcharorion fel "preswylwyr fel arfer"

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y bydd carcharorion cymwys yn gallu cofrestru i bleidleisio ar sail cyfeiriad cysylltiedig yng Nghymru, sef eu cyfeiriad cartref fel rheol, eu cyfeiriad hysbys diwethaf neu ryw gyfeiriad arall yr oedd ganddynt gysylltiad ag ef cyn iddynt gael eu carcharu. Ystyriwyd bod y ddarpariaeth o gyfeiriad cyswllt yn hanfodol o gofio bod yr holl garcharorion sy'n fenywod o Gymru mewn carchardai yn Lloegr.
- Fodd bynnag, mae'r cynnig wedi nodi na fydd carcharorion cymwys yn gallu cofrestru ar sail cyfeiriad y carchar y maent wedi eu carcharu ynddo. Pe bai carcharorion yn gallu cofrestru yn y man lle maent wedi eu carcharu, ceir pryder y gallai poblogaeth y carchar mewn rhai mannau gael dylanwad gormodol ar yr etholiad.
- Ac eto, at ddibenion darparu gwasanaethau, ystyrir bod carcharorion yn breswylwyr fel arfer yn y man lle maent wedi eu carcharu yn ymarferol o leiaf, ac yn gyfreithiol mewn rhai achosion. Ceir y potensial i ddadlau felly y dylid ystyried carcharorion yn breswylwyr fel arfer at ddibenion cofrestriad

etholiadol hefyd. Mae'r achos yn dod yn fwyfwy cryf o ystyried bod y ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i'r llond llaw o garcharorion cymwys gofrestru ar sail cyfeiriad y carchar.

- Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r heriau sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad y dylai carcharorion fod yn gymwys i'w ddefnyddio, o safbwynt gwleidyddol ac o safbwynt polisi. Yn benodol, mae angen rhoi ystyriaeth i opsiynau cyfeiriad hierarchaidd ar gyfer cofrestru, lle mae carcharor yn gymwys i gofrestru gan ddefnyddio cyfeiriad y man lle mae wedi ei garcharu dim ond pan nad oes unrhyw un o'r opsiynau eraill yn gymwys.

Atodiad Un

Dedfrydau Diffiniedig Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 a'r Dyddiadau Rhyddhau y maent yn Ddarostyngedig iddynt²⁹⁹

Math o Ddedfryd	Dyddiad y Gorfodwyd y Ddedfryd	Dyddiad y Cyflawnwyd y Drosedd	Dyddiadau Rhyddhau	Sylwadau
Dedfryd Ddiffiniedig Safonol Llai na 12 mis	Unrhyw ddyddiad dedfryd	Ar neu ar ôl 01/02/2015	DRhAm SDTT DTGA	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd. Goruchwyliaeth ôl-ddedfryd yn dod i ben 12 mis ar ôl ½ ffordd drwy'r ddedfryd.
Dedfryd Ddiffiniedig Safonol Llai na 12 mis	Unrhyw ddyddiad dedfryd	Cyn 01/02/2015	DRhAw DTDd	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Rhyddhad yn ddiamod
Dedfryd Ddiffiniedig Safonol 12 mis ond llai na 2 flynedd	Unrhyw ddyddiad dedfryd	Ar neu ar ôl 01/02/2015	DRhAm SDTT DTGA	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd. Goruchwyliaeth ôl-ddedfryd yn dod i ben 12 mis ar ôl ½ ffordd drwy'r ddedfryd.

²⁹⁹ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd. (2015). Cyfrifo Dedfryd – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig

Math o Ddedfryd	Dyddiad y Gorfodwyd y Ddedfryd	Dyddiad y Cyflawnwyd y Drosedd	Dyddiadau Rhyddhau	Sylwadau
Dedfryd Ddiffiniedig Safonol 12 mis ond llai na 2 flynedd	Unrhyw ddyddiad dedfryd	Cyn 01/02/2015 ac ar neu ar ôl 04/04/05	DRhAm SDTT	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd.
Dedfryd Ddiffiniedig Safonol 2 flynedd neu fwy	Unrhyw ddyddiad dedfryd	Ar neu ar ôl 04/04/05	DRhAm SDTT	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd drwy'r ddedfryd Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd.
Dedfryd Ddiffiniedig Safonol 12 mis ond llai na 4 blynedd	Dedfrydwyd cyn 03/12/2012	Cyn 04/04/05	DRhAm DTT DTDd	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Ar drwydded tan ¾ o'r ffordd drwy'r ddedfryd. Diwedd y ddedfryd
Dedfryd Ddiffiniedig Safonol 4 blynedd neu fwy Trosedd DDIM yn Atodlen 15	Dedfrydwyd cyn 03/12/2012	Cyn 04/04/05	DRhAm SDTT	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd.
Dedfryd Ddiffiniedig Safonol 4 blynedd neu fwy Trosedd yn Atodlen 15	Dedfrydwyd cyn 03/12/2012	Cyn 04/04/05	DCP DNYB DTT	Cymwys ar gyfer rhyddhad disgresiwn gan y Bwrdd Parôl ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Rhyddhad Awtomatig ⅔ o'r ffordd drwy'r ddedfryd.

Math o Ddedfryd	Dyddiad y Gorfodwyd y Ddedfryd	Dyddiad y Cyflawnwyd y Drosedd	Dyddiadau Rhyddhau	Sylwadau
			DTDd	Ar drwydded tan $\frac{3}{4}$ o'r ffordd drwy'r ddedfryd Diwedd y ddedfryd
DATPA Adran 236A	Dedfrydwyd ar neu ar ôl 13/04/2015	Unrhyw ddyddiad trosedd	DCP DRhAm SDTT	Cymwys ar gyfer rhyddhad disgresiwn gan y Bwrdd Parôl $\frac{1}{2}$ ffordd drwy'r cyfnod o garchar. Rhyddhad Awtomatig ar ddiwedd y cyfnod o garchar. Ar drwydded tan ddiwedd adeg gyfanredol y cyfnod o garchar + un flwyddyn.
Dedfryd Ddiffiniedig Estynedig Adran 226A neu 226B Pan fo'r cyfnod o garchar yn llai na 10 mlynedd AC NAD yw am drosedd Atodlen 15B	Derbyniwyd euogfarn ar neu ar ôl 03/12/2012 ond dedfrydwyd cyn 13/04/2015	Unrhyw ddyddiad trosedd	DRhAm SDTT	Rhyddhad Awtomatig $\frac{2}{3}$ o'r ffordd drwy'r cyfnod o garchar. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd.
Pob Dedfryd Ddiffiniedig Estynedig Adran 226A neu 226B a orfodwyd ar neu ar ôl 13/04/2015	Derbyniwyd euogfarn a dedfrydwyr ar neu ar	Unrhyw ddyddiad trosedd	DCP	Cymwys ar gyfer rhyddhad disgresiwn gan y Bwrdd Parôl $\frac{2}{3}$ o'r ffordd drwy'r cyfnod o garchar.

Math o Ddedfryd	Dyddiad y Gorfodwyd y Ddedfryd	Dyddiad y Cyflawnwyd y Drosedd	Dyddiadau Rhyddhau	Sylwadau
a phan y'u gorfodwyd cyn 13/04/2015 y Ddedfrydau Diffiniedig Estynedig hynny lle mae'r cyfnod o garchar yn 10 mlynedd neu fwy NEU am drosedd Atodlen 15B	ôl 03/12/2012 ar BOB Ddedfryd Ddiffiniedig Estynedig a orfodwyd ar neu ar ôl 13/04/2015		DRhAm SDTT	Rhyddhad awtomatig ar ddiwedd y cyfnod o garchar. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd.
Dedfryd Estynedig Adran 227 neu 228	Dedfrydwyd ar neu ar ôl 14/07/08 Derbyniwyd euogfarn cyn 03/12/12	Ar neu ar ôl 04/04/05	DRhAm SDTT	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd trwy gyfnod carchar y ddedfryd. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd.
Dedfryd Estynedig Adran 227 neu 228	Dedfrydwyd cyn 14/07/08	Ar neu ar ôl 04/04/05	DCP DRhAm SDTT	Cymwys ar gyfer rhyddhad disgresiwn gan y Bwrdd Parôl ½ ffordd drwy'r cyfnod o garchar. Rhyddhad awtomatig ar ddiwedd y cyfnod o garchar. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd.
Dedfryd Estynedig Adran 85 Pan fo'r cyfnod o	Derbyniwyd euogfarn cyn	Cyn 04/04/05	DRhAm	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd trwy gyfnod o garchar y ddedfryd.

Math o Ddedfryd	Dyddiad y Gorfodwyd y Ddedfryd	Dyddiad y Cyflawnwyd y Drosedd	Dyddiadau Rhyddhau	Sylwadau
garchar yn llai na 12 mis	03/12/12		DTT DTDd	Ar drwydded tan ddiwedd y cyfnod o garchar + cyfnod estyniad. Diwedd y ddedfryd
Dedfryd Estynedig Adran 85 Pan fo'r cyfnod o garchar yn 12 mis ond yn llai na 4 blynedd	Derbyniwyd euogfarn cyn 03/12/12	Cyn 04/04/05	DRhAm DTT DTDd	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd trwy gyfnod o garchar y ddedfryd. Ar drwydded tan ¾ o'r ffordd trwy gyfnod o garchar y ddedfryd + cyfnod estyniad. Diwedd y ddedfryd
Dedfryd Estynedig Adran 85 Pan fo'r cyfnod o garchar yn 4 blynedd neu fwy.	Derbyniwyd euogfarn cyn 03/12/12	Cyn 04/04/05	DCP DNYB DTT DTDd	Cymwys ar gyfer rhyddhad disgresiwn gan y Bwrdd Parôl ½ ffordd drwy'r cyfnod o garchar. Rhyddhad awtomatig ⅔ o'r ffordd drwy'r cyfnod o garchar. Ar drwydded tan ¾ o'r ffordd trwy gyfnod o garchar y ddedfryd + cyfnod estyniad. Diwedd y ddedfryd

Math o Ddedfryd	Dyddiad y Gorfodwyd y Ddedfryd	Dyddiad y Cyflawnwyd y Drosedd	Dyddiadau Rhyddhau	Sylwadau
Trwydded Estynedig Adran 86 neu 44 12 mis ond llai na 4 blynedd	Derbyniwyd euogfarn cyn 03/12/12	Cyn 30/09/98	DRhAm DTT/DTDd	Rhyddhad awtomatig ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Ar drwydded tan ddiwedd y ddedfryd.
Trwydded Estynedig Adran 86 neu 44 4 blynedd neu fwy	Derbyniwyd euogfarn cyn 03/12/12	Cyn 30/09/98	DCP DNYB DTT/DTDd	Cymwys ar gyfer rhyddhad disgresiwn gan y Bwrdd Parôl ½ ffordd drwy'r ddedfryd. Rhyddhad awtomatig ⅔ o'r ffordd drwy'r ddedfryd. Ar drwydded

Adran cyfeirnod

Achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig (Rhif 2). (2005). Dyfarniad. Asesiad y Llys. Ar gael yn: <http://www.bailii.org/eu/cases/ECHR/2005/681.html>

Achos Greens ac MT yn erbyn y Deyrnas Unedig. (2010). Dyfarniad. Ar gael yn: <http://www.bailii.org/eu/cases/ECHR/2010/1826.html>

Addaswyd o: Horne a White. (2015). *Prisoner's Voting Rights (2005 to May 2015)*. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin SN01764. Ar gael yn: <http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN01764>

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0017). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

Banks, R. ac Elliot, J. (2015). *Halsbury's Laws of England: Sentencing* (Cyfrol 92(2015)).

Behan, C. (2015). *Punishment, Prisoners and the Franchise*. Papurau Gwaith What is Justice? Cynghrair Howard 20/2015.

Behan, C. (2014). *Citizen convicts: Prisoners, politics and the vote*. Manceinion: Gwasg Prifysgol Manceinion.

Behan, C. ac O'Donnell. (2008). *Prisoners, Politics and the Polls: Enfranchisement and the Burden of Responsibility*. British Journal of Criminology. 48, 319-336.

Bil Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Cofrestru a Phleidleisiau i Garcharorion) 2010. Crynhoad Biliau rhif 71 2010–11. Ar gael yn: https://www.aph.gov.au/Parliamentary_Business/Bills_Legislation/bd/bd1011a/11bd071

Brady, T. (2011). *Only 191 Prisoners Out of 4,500 Register to Vote in Jail*. The Irish Independent.

Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr. (2013). Canllawiau i Aelodau ar Ddeddf LASPO 2012 – Prawf ar gyfer Rhyddhau. Canllawiau Diwygiedig – Rhagfyr 2013. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/317735/guidance-on-laspo.pdf

Cais i gael eu cynnwys ar Atodiad 2015/2016 i'r Gofrestr Etholwyr gan etholwyr sydd wedi eu carcharu mewn carchar yn unol â gorchymyn llys. (RFA 4). Fersiwn Ffurflen: 18/08/2015. Ar gael yn: <https://www.limerick.ie/sites/default/files/media/documents/2017-05/RFAper cent204per cent20Application.pdf>

Cais i gael eu cynnwys yn yr Atodiad i'r Rhestr Pleidleiswyr drwy'r Post gan etholwyr sydd wedi eu carcharu mewn carchar yn unol â gorchymyn llys. (RFG 1). Fersiwn Ffurflen: 19/08/2015. Ar gael yn: <http://www.sdcc.ie/sites/default/files/form/rfg1-postal-supplement-prisoners-english.pdf>

Case, S. (2016). *Negative Youth Justice: Creating the youth crime 'problem'*. Centre for Youth and Criminal Justice. Ar gael yn: <http://www.cycj.org.uk/negative-youth-justice-creating-the-youth-crime-problem/>

Case, S. (2016). *Positive Youth Justice: Solving the youth crime 'problem' with children first solutions*. Centre for Youth and Criminal Justice. Ar gael yn: <http://www.cycj.org.uk/positive-youth-justice-solving-the-youth-crime-problem-with-children-first-solutions/>

Canolfan Aire – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0042). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013)

Cartref Diogel i Blant Hillside. *Education*. Ar gael yn:
https://www.hmpparc.co.uk/about_rar_e.htm

Cartrefi Diogel i Blant. (2018). *Secure Children's Homes*. Ar gael yn:
<http://www.securechildrenshomes.org.uk/>

Cartrefi Diogel i Blant. (2018). *Leisure*. Ar gael yn:
<http://www.hillsidesecurechildrenshome.co.uk/2273>

Cartrefi Diogel i Blant. (2018). *Education*. Ar gael yn:
<http://www.hillsidesecurechildrenshome.co.uk/2267>

Cartref Diogel i Blant Hillside. (2017). *Statement of Purpose 2017*. Ar gael yn:
<http://www.hillsidesecurechildrenshome.co.uk/media/7734/statement-of-purpose.pdf>

Canolfannau Hyfforddi Diogel, Cymru a Lloegr: Y Rheolau Hyfforddi Diogel 1998. Ar gael yn:
<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1998/472/introduction/made>

CEM a Sefydliad Troseddwyd Ifanc y Parc. (2014). Uned Pobl Ifanc. Ar gael yn:
https://www.hmpparc.co.uk/about_rar_ypu.htm

CEM a Sefydliad Troseddwyd Ifanc y Parc. (2014). Addysg. Ar gael yn:
https://www.hmpparc.co.uk/about_rar_e.htm

Cheney, D. (2008) '*Prisoners as Citizens in a Democracy*', Howard Journal, 47, 2, tudalennau 134–45.

Comisiwn Etholiadol Awstralia. (2007). *Fact Sheet: Prisoner Voting*.

Comisiwn Etholiadol Victoria. Carcharorion a Phleidleisio. Ar gael yn:
<https://www.vec.vic.gov.au/files/RP-PrisonersVoting.pdf>

Comisiwn Etholiadol Victoria. Adroddiad Blynnyddol 2009-10: *Every Vote Will Shape Victoria*. Ar gael yn:
<https://www.vec.vic.gov.au/files/AR-2010-Full.pdf>

Criminal Procedure Rules: The Criminal Practice Directions. Hydref 2015. *Part 13: Warrants for Arrest, Detention or Imprisonment*.

Crown Court Bench Book: Companion. Part II – Sentencing. Ionawr 2013.

Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Victoria. 09/04/2018.

Cyfathrebiad personol â Chomisiwn Etholiadol Awstralia. 13/04/2018.

Cyfathrebiad personol â Thîm Troseddu a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru, a oedd wedi derbyn y ffigurau gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Cyfathrebiad personol â Thîm Trosedd a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru. 9 Mawrth 2018.

Cymdeithas yr Ynadon. *Youth Court*. Ar gael yn:
<https://www.magistrates-association.org.uk/about-magistrates/youth-court>

Cynghrair Howard. (2012). *Future Insecure: Secure children's homes in England and Wales*. Ar gael yn:
<https://howardleague.org/wp-content/uploads/2016/05/Future-Insecure.pdf>

Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

Cyd-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) Drafft. (2013) Adroddiad. Ar gael yn:

<https://publications.parliament.uk/pa/jt201314/jtselect/jtdraftvoting/103/103.pdf>

Cymdeithas Hansard. (2017). *Audit of Political Engagement 14: The 2017 Report*. Ar gael yn:

https://assets.contentful.com/xkbase0jm9pp/1vNBTsOEiYciKEAqWAmEKi/c9cc36b98f60328c0327e313ab37ae0c/Audit_of_political_Engagement_14__2017_.pdf

Cyngor Ewrop a Llys Hawliau Dynol Ewrop. (1950). Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Erthygl 3 Protocol 1. Ar gael yn: https://www.echr.coe.int/Documents/Convention_ENG.pdf

Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Rheolau Gofynnol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion (Rheolau Nelson Mandela): penderfyniad / mabwysiadwyd gan y Cynulliad Cyffredinol, 8 Ionawr 2016, A/RES/70/175.

Czerniawski, C. (2016). *A Race to the Bottom – Prison Education and the English and Welsh Policy Context*. Journal of Education Policy, 31(2), 198-212.

Dadl y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. 2 Tachwedd, 2006. Ar gael yn:

https://beta.oireachtas.ie/en/debates/debate/select_committee_on_environment_and_local_government/2006-11-02/

Davidson, J. (2004). *Prisoners and the Right to Vote in Australia*. Briff Cyhoeddi Cyfredol rhif 12 2003-04. Ar gael yn:

https://www.aph.gov.au/About_Parliament/Parliamentary_Departments/Parliamentary_Library/Publications_Archive/CIB/cib0304/04cib12

Datganiad i'r wasg yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai ac Unlock. (2004). *Barred From Voting: Coalition calls for prisoners to be given the vote*.

Drakeford, M. (2009). *"Children first, offenders second": Youth Justice in Devolved Wales*. Centre for Crime and Justice Studies. Ar gael yn:

<https://www.crimeandjustice.org.uk/sites/crimeandjustice.org.uk/files/09627250903385156.pdf>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhan 11: Amrywiol a Chyffredinol. Adran 185: Oedolion mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth etc. ac Adran 186: Plant mewn llety cadw ieuenctid, carchar neu lety mechnïaeth etc. Ar gael yn:

www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhan 6: Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya. Adran 77: Llety i blant sy'n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, neu sydd o dan gadwad neu ar remánd etc. Ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Deddf Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Cofrestru a Phleidleisiau i Garcharorion) 2011. Rhif. 29, 2011. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.au/Details/C2011A00029>

Deddf Etholiadol (Diwygio) 2006. (2006). Rhif 33.

Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Rhan 13 Amrywiol: Cydweithio â'r gwasanaethau carchardai, paragraff 188. Ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42/pdfs/ukpga_20060042_en.pdf

Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Adran 225. Dedfryd neu Garchariad Oes am Droseddau Difrifol ar gyfer Diogelwch y Cyhoedd. Ar gael yn:

https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/pdfs/ukpga_20030044_en.pdf

Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Adran 152(2).

Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Adran 244. Ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/pdfs/ukpga_20030044_en.pdf

Deddf Etholiadol 2002. Deddf Rhif 23/2002. Victoria. Ar gael yn:

[http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/\\$FILE/02-023a.pdf](http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/$FILE/02-023a.pdf)

Deddf Etholiadol 2002. Deddf Rhif 23/2002. Victoria. Ar gael yn:

[http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/\\$FILE/02-023a.pdf](http://www.legislation.vic.gov.au/Domino/Web_Notes/LDMS/PubStatbook.nsf/f932b66241ecf1b7ca256e92000e23be/3264BF1DE203C08ACA256E5B00213FFB/$FILE/02-023a.pdf)

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Adran 7A: Preswyliaid: unigolion a gedwir yn y ddalfa etc. Ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/2/section/5>

Deddf Safonau Gofal 2000. Pennod 14: Rhan Un: Cyflwyniad. Adran Un. Ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Pennod Dau: Rhan Un: *Electoral Registration and Franchise*.

Adran pedwar: *Residence: Persons remanded in custody etc.* Ar gael ar-lein:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/2/pdfs/ukpga_20000002_en.pdf

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000. Pennod Dau: Rhan Un: *Electoral Registration and Franchise*.

Adran 6(3): *New system of registration*. Ar gael ar-lein:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/2/pdfs/ukpga_20000002_en.pdf

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Pennod Dau: Rhan Un: *Parliamentary and Local Government Franchise and its Exercise*. Adran tri. Ar gael ar-lein:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/2/pdfs/ukpga_19830002_en.pdf

Deddf Etholfraint y Gymanwlad. Rhif 8 o 1902.

Deddf Etholiadol y Gymanwlad 1918. Rhif 27, 1918. Dyddiad crynhoi: 14 Mawrth 2018. Adran 96A.

Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.au/Details/C2018C00062>

Deddf Cywiriadau 1986. Rhif 117 o 1986, fersiwn rhif 083. Victoria. Ar gael yn:

[http://www.legislation.vic.gov.au/domino/Web_Notes/LDMS/LTObject_Store/LTObjSt1.nsf/DDE300B846EED9C7CA257616000A3571/A9534E73927140B7CA257761001C7975/\\$FILE/86-117a083.pdf](http://www.legislation.vic.gov.au/domino/Web_Notes/LDMS/LTObject_Store/LTObjSt1.nsf/DDE300B846EED9C7CA257616000A3571/A9534E73927140B7CA257761001C7975/$FILE/86-117a083.pdf)

Deddf Etholiadol y Gymanwlad 1918. Dyddiad cwblhau: 14 Mawrth 2018. Adran 245. Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.au/Details/C2018C00062>

Deddf Carchardai 1952. Adran Un. Ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Geo6and1Eliz2/15-16/52/contents>

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Rhan III Y System Cyfiawnder Troseddol: Cyfiawnder Ieuenctid, paragraff 37. Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/37/contents>

Demleitner, N. V. (2009). *U.S. Felon Disenfranchisement: Parting Ways with Western Europe*. Yn: A. C. Ewald a B. Rottinghaus, golygyddion. *Criminal Disenfranchisement in an International Perspective*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt. 79-108.

Enrol to Vote of Update or Update your Details as a Prisoner in Victoria. (2016). Comisiwn Etholiadol Victoria. Ar gael yn: http://www.aec.gov.au/Enrolling_to_vote/pdf/forms/prisoners/er016pw-vic-0416.pdf

Enrol to Vote of Update or Update your Details as a Prisoner in South Australia. (2016). Comisiwn Etholiadol De Awstralia. Ar gael yn: http://www.aec.gov.au/Enrolling_to_vote/pdf/forms/prisoners/er016pw-sa-0416.pdf

Faulkner Rogers, J. a Warr, W. (2015). *Prisoner Voting: Via the 'civic death' penalty?* Llundain: YouGov UK.

Foster, A. (2017). *Prisoner Voting: The Right to Vote: But is it Enough?* Criminal Law and Justice Weekly. Ar gael yn: <https://www.criminallawandjustice.co.uk/features/Prisoner-Voting-Right-Vote-it-Enough>

Freer, E. (2017). *Custodial Sentences: Minimum term.*

Gallagher, C. (2016). *Prisoners Show Little Interest in Using the Vote.* The Irish Times. Ar gael yn: <https://www.thetimes.co.uk/article/prisoners-show-little-interest-in-using-votes-cqckl3djr>

GIG Cymru. Cyfrifoldebau Gofal Iechyd Carcharorion. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/cyfrifoldebau>

GIG Cymru. Gweithio mewn Partneriaeth â'r Gwasanaeth Carchardai. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/gweithio-mewn-partneriaeth>

Goruchaf Lys Canada. (31 Hyd 2002). Richard Sauvé yn erbyn Twrnai Cyffredinol Canada ac Eraill 2002 SCC 68.

Gove, M. (2015). *The Treasure in the Heart of Man - Making prisons work.* Araith a wnaed yn y Gynghrair Dysgu Carcharorion, 17 Gorffennaf.

gov.uk. Dedfrydau Cymunedol. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/community-sentences>

gov.uk. Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol: Amdanom Ni. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/organisations/youth-justice-board-for-england-and-wales/about>

gov.uk. Llysoedd Troseddol: Llysoedd Ieuencid. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/courts/youth-courts>

gov.uk. Derbyn Parôl. Rhan Tri: Dedfrydau oes a phenagored. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/getting-parole/life-and-indeterminate-sentences>

Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi. (2001). Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai: *Prisoners' Voting Right.* Gorchymyn Rhif: 4650. Ar gael yn: https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=http%3Aper cent2Fper cent2Fwww.justice.gov.ukper cent2Fdownloadsper cent2Foffendersper cent2Fpsipsoper cent2Fpsoper cent2FPSO_4650_prisoners_voting_rights.doc

Gwasanaeth Erlyn y Goron. (2017). Dedfrydu: Dedfrydau Gorfodol a Gofynnol o Garchar – Canllawiau Cyfreithiol. Ar gael yn: <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/sentencing-mandatory-and-minimum-custodial-sentences>

Gwasanaeth Erlyn y Goron. (2017). Dedfrydu: Trosolwg – Canllawiau Cyfreithiol. Ar gael yn: <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/sentencing-overview>

Gwasanaeth Erlyn y Goron. (2007). Adroddiadau Cyn-dedfrydu – Canllawiau Cyfreithiol. Ar gael yn:

Hansard, Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 10 Chwefror 2011, cyfrol 523, colofn 494. (2011)

Hawley, J., Murphy, I. a Souto-Otero, M. (2013). *Prison Education and Training in Europe: Current State-of-Play and Challenges – A Summary Report Authored for the European Commission*. Brwsel: GHK.

Hennessey, M. (2016). *Prisoners Can Vote – So Why Don't They?* thejournal.ie. Ar gael yn: <http://www.thejournal.ie/prisoners-voting-2622117-Feb2016/>

Hill, L. (2009). *Prisoner Voting Rights. Symposium: Protecting Human Rights in Australia: Challenges and Strategies*.

Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig (RHIF 2): Dyfarniad. (2005). Paragraff 50

Horne, A. a White, I. (2015). *Prisoner's Voting Rights (2005 to May 2015)*. Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin SN01764. Ar gael yn: <http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN01764>

Hungerford-Welch, P. (2018). *Extended Sentences*.

insidetime: y Papur Newydd Cenedlaethol ar gyfer Carcharorion. (2016). *Extended Determinate Sentence and the Impact they have on Prisoners*. 01/07/2016. Ar gael yn: <https://insidetime.org/extended-determinate-sentences-and-the-impact-they-have-on-prisoners/>

Justice. (2017). Pobl Ifanc (Troseddwy'r Ifanc). Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/offenders/types-of-offender/juveniles>

JUSTICE – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0027). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

Kituo Cha Sheria yn erbyn y Comisiwn Etholiadol a Ffiniau Annibynnol, Deiseb Gyfansoddiadol 574 o 2012. (2013).

Leech, M a Shepherd, J, golygyddion (2003). *Prisons Handbook 2003/4*. Manceinion: Gwasg MLA.

Liberty. (2016). *Liberty's Briefing on Prisoners' Voting Rights*. Llundain: Liberty.

Lidington. D. (2017). Dedfrydu. Datganiad i Dŷ'r Cyffredin, Tachwedd 2017, cyfrol 630. Ar gael yn: <https://hansard.parliament.uk/commons/2017-11-02/debates/9E75E904-9B25-475F-87C4-DD8F3C4836C4/Sentencing>

Lister, R. (2007). *Why Citizenship: Where, how and why children*. Theoretical Inquiries in Law, 8(2), 693-718

Llinell Gymorth Teuluoedd Troseddwy'r. (2015). *Parole*. Ar gael yn: <http://www.offendersfamilieshelpline.org/index.php/parole/>

Llys Cyfansoddiadol De Affrica (1 Ebrill 1999). August ac un arall yn erbyn y Comisiwn Etholiadol ac Eraill CCT8/99.

Llywodraeth Cymru. (2018). Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Crynodeb o Ymatebion. Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2014). Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Strategaeth Llywodraeth Cymru/y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuencid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni. Ar gael yn:

<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/140710-youth-justice-strategyv2-cy.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2002). Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru - Cyfarwyddyd a Chanllawiau Gorffennaf 2002. Ar gael yn: <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cyfarwyddyd-a-chanllawiau-ymestyn-hawliau-cynorthwyo-pobl-ifanc-o-11-i-25-oed-yng-nghymru.pdf>

Mae Rheol Carchardai 7(3) yn pennu y bydd carcharorion sy'n cael eu traddodi neu eu galw'n ôl am ddirmyg llys neu am fethu â gwneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y'i gadawyd heb ei wneud: (a) yn cael ei drin fel gwahanol ddosbarth at ddibenion y rheol hon; (b) er gwaethaf unrhyw beth yn y rheol hon, yn cael eu caniatáu i ymgysylltu ag unrhyw ddosbarth arall o garcharorion os ydynt yn fodlon gwneud hynny; a (c) yn cael yr un breintiau â charcharor nad yw wedi derbyn euogfarn o dan reolau 20(5), 23(1) a 35(1). Gweler: *The Prison Rules 1999*. Rhan Dau, Adran 7(3): Dosbarthu Carcharorion. Ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1999/728/contents/made>

Manfredi, C. (2009). *In Defence of Prisoner Enfranchisement*. Yn: A, Ewald a B, Rottinghaus, golygyddion, *Criminal Disenfranchisement in an International Perspective*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Nacro, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd a'r Gymdeithas Llywodraethwyr Carchardai – Tystiolaeth Lafar (QC 126-136). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

nidirect. *Youth Justice*. Ar gael yn: <https://www.nidirect.gov.uk/articles/youth-justice>

OFSTED. (2017). *Inspection of Secure Training Centres: Inspection of Medway*. Ar gael yn: <https://reports.ofsted.gov.uk/sites/default/files/documents/secure-training-centre-reports/medway/Medwayper cent20STCper cent20Ofstedper cent20reportper cent20Marchper cent202017.pdf>

OFSTED. (2017). *Inspection of Secure Training Centres: Inspection of Oakhill*. Ar gael yn: <https://reports.ofsted.gov.uk/sites/default/files/documents/secure-training-centre-reports/oakhill/Oakhillper cent20STCper cent20Octoberper cent202017per cent20report.pdf>

OFSTED. (2017). *Inspection of Secure Training Centres: Inspection of Rainsbrook*. Ar gael yn: <https://reports.ofsted.gov.uk/sites/default/files/documents/secure-training-centre-reports/rainsbrook/Rainsbrookper cent20STCper cent20Ofstedper cent20reportper cent20Juneper cent202017per cent20per cent28PDFper cent29.pdf>

Ofsted. (2011). *Introduction to Children's Homes: A Children's Social Care Guide to Registration*. Ar gael yn: http://dera.ioe.ac.uk/12282/2/Introduction_to_children's_homesper cent5B1per cent5D.pdf

Pleidleisio gan Garcharorion sydd wedi Derbyn Euogfarn: Crynodeb o Dystiolaeth. Pumed Adroddiad Sesiwn 2010-11. Tŷ'r Cyffredin: Y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. (2011).

Policy Exchange. (2017). *Human Rights and Political Wrongs: A new approach to human rights law*. Llundain: Policy Exchange.

Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi. (2017). Adroddiad ar Arolygiad Dirybudd o Uned Pobl Ifanc Sefydliad Troseddwyd Ifanc Ei Mawrhydi y Parc: 5-16 Rhagfyr. Ar gael yn:

<https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprisoners/wp-content/uploads/sites/4/2017/04/Parc-Web-2017-1.pdf>

Pwyllgor Cydraddoldebau a Hawliau Dynol yr Alban. Adroddiad Swyddogol: Sesiwn 5. (2017).

Raab, D. (2011). *Strasbourg in the Docks: Prisoner Voting, Human Rights and the Case for Democracy*. Civitas: Llundain. Ar gael yn:
<http://civitas.org.uk/pdf/StrasbourgInTheDock.pdf>

R, Arthur. (2015). *Recognising Children's Citizenship in the Youth Justice System*. Journal of Social Welfare and Family Law, 37(1), 21-37. Ar gael yn:
http://nrl.northumbria.ac.uk/21644/1/Arthur_R_childrenper cent27s_citizenship_Final_amended.pdf

Ramsay, P. (2013). *Faking Democracy with Prisoners' Voting Rights*. Papur Gwaith Cyfreithiol Ysgol Economeg Llundain 7/2013.

Rheolau'r Bwrdd Parôl. (2016). Rhif 1041. Deddfwriaeth Statudol: Carchardai, Cymru a Lloegr. Ar gael yn:
http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2016/1041/pdfs/ukxi_20161041_en.pdf

Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991. Ar gael yn:
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukxi/1991/1505/regulation/2/made>

Rhwydwaith Gweithredu Cymdeithasol Caritas (CSAN), asiantaeth gweithredu cartref Adran Cyfrifoldeb a Dinasyddiaeth Gristnogol Cynhadledd Esgobion a Chynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0003). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

Roach yn erbyn y Comisiwn Etholiadol. (2007) HCA 43. Uchel Lys Awstralia. Ar gael yn:
<http://eresources.hcourt.gov.au/downloadPdf/2007/HCA/43>

Scordia, V. (2018). *Prisoner Voting Rights on a European Perspective: The cases of McHugh and Other v. The United Kingdom and the Thierry Delvinge v. Commune de Lesparre Médoc*. Yn: D. Archibugi ac A. E. Benli. *Claiming Citizenship Rights in Europe: Emerging Challenges and Political Agents*. Abingdon: Routledge.

Siddique, H. (2017). *Government reportedly planning to allow some UK prisoners to vote*. The Guardian. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/society/2017/oct/29/government-planning-to-allow-some-prisoners-to-vote-european-court-human-rights>

Stasiulis, D. (2002). *The Active Child Citizen: Lessons from Canadian Policy and the Children's Movement*. Citizenship Studies, 6(4), 507-538.

Taylor, C. (2016). *Review of the Youth Justice System in England and Wales*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: <http://dera.ioe.ac.uk/29212/1/youth-justice-review-final-report.pdf>

Thorne, K. ac Arshad, F. (2015). *Imprisonment for Public Protection*.

Travis, A. (2017). *Prisons Inspector Warn of 'Staggering' Decline in Safety of Youth Jails*. The Guardian. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/society/2017/jul/18/youth-jails-staggering-decline-standards-england-wales-peter-clark-prisons-inspector-report>

Tŷ'r Cynrychiolwyr. (2010). Bil Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Cofrestru a Phleidleisiau i Garcharorion) 2010: Memorandwm Esboniadol.

Tŷ'r Cynrychiolwyr. (2006). Bil Diwygio Etholiadol a Refferendwm (Uniondeb Etholiadol a Mesurau Eraill) 2006: Memorandwm Esboniadol.

Wilks-Heeg. (2008). *Purity of Elections in the UK: Causes for Concern*. Adroddiad a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree Cyf. Efrog: Ymddiriedolaeth Ddiwygio Joseph Rowntree Cyf. Ar gael yn: <http://www.jrrt.org.uk/sites/jrrt.org.uk/files/documents/Purityper cent20ofper cent20Electionsper cent20inper cent20theper cent20UK.pdf>

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2017). Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol 2016/17 Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/630201/YJB_Annual_Report_and_Accounts_2016-17_Web.pdf

Y Bwrdd Parôl. (2017). 50 Mlynedd 1967-2017 – Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr: Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol 2016/17. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/631425/Parole_Board_Annual_Review_Web_Accessible_Version.pdf

Y Cyngor Dedfrydu. (2018). *Life Sentences*. Ar gael yn: <https://www.sentencingcouncil.org.uk/about-sentencing/types-of-sentence/life-sentences/>

Y Comisiwn Etholiadol. (2018). *Guidance for Electoral Registration Officers*. Rhan Dau – Y Fframwaith Cofrestru. Ar gael yn: http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0006/162573/Part-2-Registration-framework.pdf

Y Comisiwn Etholiadol. (2018). *Guidance for Electoral Registration Officers: Rhan Pedwar – Maintaining the register throughout the year*. Ar gael yn: http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/162578/Part-4-Maintaining-the-register-throughout-the-year.pdf

Y Comisiwn Etholiadol. (2007). *Allegations of Electoral Malpractice in England and Wales, 2000-2006*. Llundain: Y Comisiwn Etholiadol. Ar gael yn: http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0009/60498/Allegations-of-electoral-malpractice-in-England-and-Wales-2000-06.pdf

Y Comisiwn Etholiadol. (2007). *Further Analysis of CPS Files on Allegations of Electoral Malpractice in England and Wales, 2000-2006*. Llundain: Y Comisiwn Etholiadol.

Y Comisiwn Etholiadol. (2009). Rhan F – *Special Category of Electors*. Ar gael yn: http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/electoral_commission_pdf_file/0011/43958/Part-F-Special-category-electors-March-2010.pdf

Y Comisiwn Etholiadol. (2017). Cymru – Etholiadau lleol 2017 – Data etholiadol. Ar gael yn: <https://www.electoralcommission.org.uk/our-work/our-research/electoral-data/electoral-data-files-and-reports>

Y Cyngor Dedfrydu. *Types of Sentence*. Ar gael yn: <https://www.sentencingcouncil.org.uk/about-sentencing/types-of-sentence/life-sentences/>

Y Cyngor Dedfrydu. (2016). *Sentencing Children and Young People: Overarching Principles and Offence Specific Guidelines for Sexual Offences and Robbery. Definitive Guidelines*. Ar gael yn: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-young-people-Definitive-Guide_FINAL_WEB.pdf

Y Cyngor Canllawiau Dedfrydu. (2009). *Overarching Principles – Sentencing Youth*. Ar gael yn: <https://www.watersidepress.co.uk/acatalog/SGCOverarchingPrinciples-definitive.pdf>

Y Cenhedloedd Unedig. (1989). Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Ar gael yn: <http://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/crc.pdf>

Y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol. (2003). Atodlen 21: Pennu Cyfnod Gofynnol o ran Dedfryd Oes Orfodol. Ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/pdfs/ukpga_20030044_en.pdf

Y Gwir Anrhydeddus David Lidington AS, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Datganiad llafar i'r Senedd: *Secretary of State's oral statement on sentencing*. (2017).

Y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol – Tystiolaeth Ysgrifenedig (VEP 0002). Cyd-bwyllgor ar y Bil Cymhwysedd Pleidleisio (Carcharorion) drafft: Tystiolaeth Lafar ac Ysgrifenedig. (2013).

Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy. (2016). Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ar gael yn: [https://www.insidetime.org/download/rules_&_policies/psi_\(prison_service_instructions\)/2016/PSI-2016-003_adult-social-care.pdf](https://www.insidetime.org/download/rules_&_policies/psi_(prison_service_instructions)/2016/PSI-2016-003_adult-social-care.pdf)

Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy. (2015). Pennu Dedfryd – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy. (2015). Cyfrifo Dedfrydau – Carcharorion â Dedfryd Ddiffiniedig. Ar gael yn: <https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-03-2015-sentence-calculation-determinante-sentenced-prisoners.pdf>

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Atal Troseddu ac Ail-integreiddio Troseddwy (NICRO), Erasmus a Schwagerl yn erbyn y Gweinidog dros Faterion Cartref (CCT 03/04 2004).

Y Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg. (2016). Ôl-nodyn: Addysg Ieuenctid yn y Ddalfa. Rhif 524. Ar gael yn:

<http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0524/POST-PN-0524.pdf>

Y Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg. (2016). Ôl-nodyn: Addysg Ieuenctid yn y Ddalfa. Rhif 524. Ar gael yn:

<http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/POST-PN-0524#fullreport>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2010). *Ministry of Justice - The youth justice system in England and Wales: Reducing offending by young people*. Ar gael yn: <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2010/12/1011663.pdf>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2018). Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2016/17 Cymru a Lloegr: Bwletin Ystadegau. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/676072/youth_justice_statistics_2016-17.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. (2018). Data Carchariad Ieuenctid: Rhagfyr 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2017). Ystadegau Rheoli Troseddau Tri Misol, Cymru a Lloegr. Ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655150/Offender_Management_Statistics_Bulletin_Q2_2017.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy. (2012). Gofal a Rheolaeth Pobl Ifanc. PSI 08/2012.

[Y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#), [y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy](#), [Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi](#), a [Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi](#). (2017). Bwletin

Poblogaeth: Misol Rhagfyr 2017. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2017>

Yr Adran Addysg. (2017). Cyhoeddiad Cyntaf Ystadegau – Plant a oedd mewn cartrefi diogel i blant ar 31 Mawrth 2017: Cymru a Lloegr. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/616481/SFR23-2017_Text.pdf

Yr Adran Cyfiawnder a Rheoleiddio – *Correction Victoria*. (2017). Gofynion y Comisiwnydd – Rhan 4 Gwasanaethau Carchar. Adran 4.3.2. Ar gael yn: <http://www.corrections.vic.gov.au/utility/publications+manuals+and+statistics/commissioners+requirements+part+4>

Yr Adran Gyfiawnder a Rheoleiddio – *Correction Victoria*. (2018). Mynd i'r Carchar: Cyrraedd. Ar gael yn: <http://www.corrections.vic.gov.au/home/prison/going+to+prison/arrival/>

Yr Adran Hyfforddiant ac Addysg. (2012). Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru. Cyfarwyddyd a Chanllawiau. Ar gael yn: <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cyfarwyddyd-a-chanllawiau-ymestyn-hawliau-cynorthwyo-pobl-ifanc-o-11-i-25-oed-yng-nghymru.pdf>

Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. (2010). *Barred from Voting: The right to vote for sentenced prisoners*. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

Youth Justice Legal Centre. (2014). *Modifications in Adult Courts*. Ar gael yn: <http://yjlc.uk/modifications-in-adult-courts>